# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 10/06/2015

Cynnwys Contents

[1. Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau]
[1. Questions to the Minister for Education and Skills]

[2. Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth]
[2. Questions to the Minister for Economy, Science and Transport]

[3. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Y Dreth Gyngor a Gwariant Llywodraeth Leol]
[3. Welsh Conservatives Debate: Council Tax and Local Government Spend]

[4. Dadl Plaid Cymru: Cyfranogiad Economaidd Menywod]
[4. Plaid Cymru Debate: Women's Economic Participation]

[5. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Arolygu Gwasanaethau Gofal Iechyd]
[5. Welsh Liberal Democrats Debate: Inspection of Healthcare Services]

[6. Cyfnod Pleidleisio]
[6. Voting Time]

[7. Dadl Fer: Gastroenteroleg—Gwella Ymwybyddiaeth a Thriniaeth yng Nghymru]
[7. Short Debate: Gastroenterology—Improving Awareness and Treatment in Wales]

*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:29 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:29 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:29

### Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn awr yn eistedd.

13:29

## 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau

## 1. Questions to the Minister for Education and Skills

### Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

The first item this afternoon is questions to the Minister for Education and Skills, and question 1 is from Suzy Davies.

Yr eitem gyntaf y prynhawn yma yw cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau, a daw cwestiwn 1 gan Suzy Davies.

### Dysgu Cymraeg fel Ail Iaith

### The Uptake of Welsh as a Second Language

13:29

### Suzy Davies [Bywgraffiad] [Biography]

*1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y myfyrwyr sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith mewn addysg ôl-16? OAQ(4)0588(ESK)*

*1. Will the Minister make a statement on the uptake of Welsh as a second language by students in post-16 education? OAQ(4)0588(ESK)*

13:29

### Huw Lewis [Bywgraffiad] [Biography]

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

My thanks to the Member for South Wales West. The number of pupils aged 17 entered for Welsh second language A-level in schools in 2014 was 305. A further 368 pupils aged 16 were entered for AS-level. Within further education colleges, 89 learners completed the Welsh second language A-level course, with 110 completing at AS-level.

Diolch i'r Aelod dros Orllewin De Cymru. Nifer y disgyblion 17 oed a gofrestrwyd ar gyfer Safon Uwch Cymraeg ail iaith mewn ysgolion yn 2014 oedd 305. Cofrestrwyd 368 o ddisgyblion arall sy'n 16 oed ar gyfer lefel Uwch Gyfrannol. Yn y colegau addysg bellach, cwblhaodd 89 o ddysgwyr y cwrs Safon Uwch Cymraeg ail iaith, gyda 110 yn cwblhau lefel UG.

13:30 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Wel, diolch am yr ymateb yna. Nid yw'r nifer yn uchel, rwy'n credu. Rwy'n siomedig iawn, mae'n rhaid i fi ddweud, o glywed nad yw Ysgol Maesteg, sef ysgol gyfun cyfrwng Saesneg yn fy rhanbarth i, yn bwriadu cynnig lefel A yn y Gymraeg o'r flwyddyn nesaf ymlaen. Nawr, mae'n siŵr ein bod ni'n cytuno, mewn ffordd, nad yw gweithrediad y polisi iaith Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg wedi bod yn hollol lwyddiannus wrth greu diwylliant lle mae sgiliau yn yr iaith yn cael eu hystyried yn werthfawr. Pa un fydd yn fwy llwyddiannus wrth berswadio pobl ifanc bod y sgiliau hyn yn fuddiol—ymgyrch calonnau a meddyliau, wedi ei hanelu at arweinwyr yn yr ysgolion, neu efallai brif ffrydio cyson ar lefelau meithrin a chynradd?

Thank you for that response. The numbers aren't particularly high and I'm disappointed, I have to say, in hearing that Maesteg School, which is an English-medium comprehensive school in my area, doesn't intend to offer an A-level course in Welsh from next year onwards. Now, I'm sure you would agree that the implementation of the Welsh language policy in English-medium schools hasn't been entirely successful in creating a culture where language skills are seen as valuable. So, which would be most successful in persuading young people that these skills are beneficial: a hearts and minds campaign targeted at school leaders, or an approach to consistent mainstreaming at the nursery and primary levels?

13:31 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Suzy Davies is quite right—this is disappointing and this is not good enough. A hearts and minds campaign—well, perhaps, yes, we should always have an eye to encouraging the take-up of Welsh language options in schools and colleges. But, I think the point in time in which we find ourselves—as I am about to respond to Graham Donaldson's review of the curriculum; that fundamental review—provides us with a window of opportunity to think in very fundamental terms, in terms of a root-and-branch overhaul of the way that Welsh might be acquired, that language acquisition might be delivered for our young people. Graham Donaldson is very keen, of course, to point out that we should take the child's-eye view, from the ages of three to 16, in all areas of the curriculum, and I think that offers up all sorts of possibilities about the way we can drastically improve the situation around Welsh language acquisition.

Mae Suzy Davies yn llygad ei lle—mae hyn yn siomedig ac nid yw'n ddigon da. Ymgyrch galonnau a meddyliau—wel ie, efallai y dylem bob amser ystyried annog defnydd o opsiynau iaith Gymraeg mewn ysgolion a cholegau. Ond rwy'n meddwl ein bod wedi cyrraedd y pwynt—gan fy mod ar fin ymateb i adolygiad Graham Donaldson o'r cwricwlwm—mae'r adolygiad hanfodol hwnnw yn rhoi cyfle i ni feddwl mewn termau sylfaenol iawn, o ran ailwampio'n gyfan gwbl y modd o gaffael y Gymraeg, y modd y gellid cyflwyno caffael iaith i'n pobl ifanc. Mae Graham Donaldson yn awyddus iawn, wrth gwrs, i nodi y dylem edrych ar bethau o safbwynt y plentyn, o dair i 16 oed, ym mhob maes o'r cwricwlwm a chredaf fod hynny'n cynnig pob math o bosibiliadau ar gyfer y ffordd y gallwn wella'r sefyllfa o ran caffael y Gymraeg yn sylweddol.

13:32 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Mae'r Athro Sioned Davies wedi dod fel siaradwr gwadd i'r grŵp trawsbleidiol ar yr iaith Gymraeg. Trawodd ar sawl thema rwystrol yn system gyfredol Cymraeg ail iaith: statws—nid yw yn bwnc cwricwlwm; gweithlu; dysgu ac addysgu; a dilyniant. Nawr, rydych chi wedi sôn yn barod am adroddiad Donaldson, felly beth yw'r camau nesaf mewn golwg ar gyfer gweithredu a chymryd ymlaen adroddiad yr Athro Sioned Davies?

Professor Sioned Davies came as a guest speaker to the cross-party group on the Welsh language. She mentioned a number of barriers in the current second-language system: status—this it isn't a curriculum subject; workforce; teaching and education; and continuity. Now, you've already mentioned the Donaldson report, so what are the next steps that you have in mind for implementing and taking forward Professor Sioned Davies's report?

13:32 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, of course, Professor Sioned Davies's report was considered very deeply by Professor Graham Donaldson in terms of his all-subject review, and those two things taken together do give us an insight, I think, into the reforms that need to follow. Now, I don't intend to dictate these reforms or deliver them fully formed into the debate. I think the philosophy behind working through Graham Donaldson's recommendations—the philosophy I'd like to see implemented—is a co-production, really, between Government, public, and professionals. But there is no doubt there is something dysfunctional in the delivery of Welsh second language. Even the terminology, I believe, now, is dubious and outdated. I think we need to begin with that basic recommendation from Graham Donaldson that we must take a child's-eye view of progression from early years—from the age of three—right through to the age of 16 and, indeed, beyond. This philosophy also, I think, will underpin the best possible response on issues concerning modern foreign languages as well, which I know are of concern to many people.

Wel, wrth gwrs, cafodd adroddiad yr Athro Sioned Davies ei ystyried yn fanwl iawn gan yr Athro Graham Donaldson o ran ei adolygiad o'r holl bynciau, ac mae'r ddau beth hwnnw gyda'i gilydd yn rhoi cipolwg i ni, rwy'n credu, o'r diwygiadau a ddylai ddilyn. Nawr, nid wyf yn bwriadu pennu'r diwygiadau hyn, na'u cyflwyno i'r ddadl wedi'u ffurfio'n llawn. Rwy'n meddwl mai'r athroniaeth sy'n sail i weithio drwy argymhellion Graham Donaldson—yr athroniaeth yr hoffwn ei gweld yn cael ei gweithredu—yw cydgynhyrchu, mewn gwirionedd, rhwng y Llywodraeth, y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol. Ond nid oes amheuaeth fod rhywbeth yn gamweithredol yn y modd y cyflwynir Cymraeg fel ail iaith. Rwy'n credu bod y derminoleg hyd yn oed yn amheus ac yn hen ffasiwn erbyn hyn. Rwy'n credu bod angen i ni ddechrau gydag argymhelliad sylfaenol Graham Donaldson fod yn rhaid i ni edrych drwy lygad y plentyn wrth gamu ymlaen o'r blynyddoedd cynnar—o dair oed i 16 oed, a thu hwnt yn wir. Bydd yr athroniaeth hon hefyd, rwy'n meddwl, yn sail i'r ymateb gorau posibl ar faterion yn ymwneud ag ieithoedd tramor modern hefyd, ac rwy'n gwybod bod hynny'n peri pryder i lawer o bobl.

13:34 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wel, dyna'r union bwynt yr oeddwn am fynd ar ei ôl e. Yn amlwg, rwy'n tybio eich bod chi'n cyd-fynd â Donaldson fod gwella safonau mewn dysgu'r Gymraeg a gwella ieithoedd modern yn mynd law yn llaw. Ac, o gofio eich bod chi, wrth gwrs, dim ond yr wythnos diwethaf, wedi cyhoeddi cynlluniau ar gyfer gwella ieithoedd modern, a allwch chi ddweud wrthym ni pryd fyddwch chi'n dod â chynlluniau gerbron o safbwynt gwella'r Gymraeg fel ail iaith?

Well, that's exactly the point that I was going to pursue. Obviously, I expect that you agree with Donaldson that improving standards in the teaching of Welsh and an improvement in foreign languages go hand in hand. Bearing in mind that it was only last week that you announced your plans for improving modern language, can you tell us when you will bring forward plans for the improvement of Welsh as a second language?

13:34 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

When I respond to Graham Donaldson's review, later in the summer. But, Llyr Gruffydd is quite right to point out that language acquisition, really, is language acquisition. We all have a mother tongue, and then, hopefully, are exposed to other languages that we can acquire through, in this instance, a school career. I think there are lessons for everyone, in terms of my thinking in this regard, and, as you quite rightly say, in my publication 'Global Futures'. I think there is a workforce issue that we will have to address over time in terms of the capacity of the workforce to deliver, particularly at those early years, but we are now going to engage partners that have never been drawn into this before, ranging from the BBC to universities, to those foreign language cultural institutes that, heretofore, have only ever operated really in London. So, a great number of experts are being brought around the table in order to make real the ambitions both of Professor Davies and Professor Donaldson.

Pan fyddaf yn ymateb i adolygiad Graham Donaldson, yn nes ymlaen yn yr haf. Ond mae Llyr Gruffydd yn hollol iawn i nodi mai caffael iaith, mewn gwirionedd, yw caffael iaith. Mae gan bawb ohonom famiaith, ac yna, gobeithio, down yn agored i ieithoedd eraill y gallwn eu caffael, drwy yrfa ysgol yn yr achos hwn. Rwy'n meddwl bod yna wersi i bawb, o ran fy meddwl yn hyn o beth, ac fel y dywedwch yn ddigon teg, yn fy nghyhoeddiad, Dyfodol Byd-eang. Credaf fod yna fater yn ymwneud â'r gweithlu y bydd yn rhaid mynd i'r afael ag ef dros amser o ran capasiti'r gweithlu i ddarparu, yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar, ond rydym yn awr yn mynd i ymgysylltu â phartneriaid nad ydynt erioed wedi cael eu cynnwys yn hyn o'r blaen, yn amrywio o'r BBC i brifysgolion, i'r sefydliadau diwylliannol hynny o'r blaen ar gyfer ieithoedd tramor a oedd ond yn gweithredu yn Llundain mewn gwirionedd. Felly, mae nifer fawr o arbenigwyr yn cael eu dwyn o gwmpas y bwrdd er mwyn gwireddu uchelgeisiau'r Athro Davies a'r Athro Donaldson.

**Dysgu Gydol Oes**

**Lifelong Learning**

13:35 **Gwyn R. Price** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfranogiad mewn dysgu gydol oes? OAQ(4)0591(ESK)*

*2. Will the Minister make a statement on participation in lifelong learning? OAQ(4)0591(ESK)*

13:35 **Julie James** Bywgraffiad Biography

*Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology*

Lifelong learning encompasses a wide range of learning delivered to a diverse range of learners. The opportunities lifelong learning offers to individuals, communities and employers are significant. It is now very important for us, as a Government, to focus on what we achieve within our funding priorities.

Mae dysgu gydol oes yn cwmpasu ystod eang o ddysgu a ddarperir i ystod amrywiol o ddysgwyr. Mae'r cyfleoedd y mae dysgu gydol oes yn eu cynnig i unigolion, cymunedau a chyflogwyr yn sylweddol. Mae'n bwysig iawn yn awr i ni fel Llywodraeth ganolbwyntio ar yr hyn y gallwn ei gyflawni o fewn ein blaenoriaethau cyllido.

Senedd.tv Fideo Video

13:36 **Gwyn R. Price** Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer. Deputy Minister, we know that lifelong learning is central to the economic wellbeing of Wales and key to developing the skilled, adaptable workforce for Wales's needs in the global economy of the twenty-first century. What action is the Welsh Government taking to promote lifelong learning?

Diolch i chi am eich ateb. Ddirprwy Weinidog, gwyddom fod dysgu gydol oes yn ganolog i les economaidd Cymru ac yn allweddol i ddatblygu gweithlu medrus a hyblyg ar gyfer anghenion Cymru yn economi fyd-eang yr unfed ganrif ar hugain. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hyrwyddo dysgu gydol oes?

Senedd.tv Fideo Video

13:36 **Julie James** Bywgraffiad Biography

We're establishing a new skills priorities programme to deliver part-time, high-level skills training to employed adults. Local authorities and further education institutions will prioritise the delivery not only to the 16-18 cohort and those learners considered most vulnerable, but also to deliver high-level skills provision and assist lifelong learning for those people who undertake it.

Rydym yn sefydlu rhaglen blaenoriaethau sgiliau newydd i gyflwyno sgiliau hyfforddiant rhan-amser lefel uchel i oedolion cyflogedig. Bydd awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach yn blaenoriaethu'r gwaith o'u cyflwyno nid yn unig i'r cohort 16-18 oed a'r dysgwyr yr ystyrir eu bod fwyaf agored i niwed, ond hefyd er mwyn darparu sgiliau lefel uchel a chynorthwyo pobl sy'n ymgymryd â dysgu gydol oes.

Senedd.tv Fideo Video

13:36 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

This week of course is Adult Learners' Week and Members in this Chamber will have been invited to experience a lifelong learning session within the communities of their constituencies or regions. I did consider inviting you to join me on the Welsh for adults taster session in Swansea this week to find out why young adults—and I mean young adults—don't use the skills that they should have picked up with the language as part of their formal education. What consideration should providers of any lifelong learning opportunity give to developing Welsh language skills, at whatever level, as an intrinsic part of those opportunities regardless of their primary purpose?

Yr wythnos hon, wrth gwrs, yw Wythnos Addysg Oedolion a bydd yr Aelodau yn y Siambr hon wedi cael gwahoddiad i sesiwn dysgu gydol oes yng nghymunedau eu hetholaethau neu eu rhanbarthau. Ystyriais eich gwahodd i ymuno â mi yn y sesiwn blas ar Gymraeg i Oedolion yn Abertawe yr wythnos hon i gael gwybod pam nad yw oedolion ifanc—ac rwy'n golygu oedolion ifanc—yn defnyddio'r sgiliau y dylent fod wedi eu hennill gyda'r iaith fel rhan o'u haddysg ffurfiol. Pa ystyriaeth y dylai darparwyr unrhyw gyfle dysgu gydol oes ei roi i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg, ar ba lefel bynnag, fel rhan annatod o'r cyfleoedd hynny waeth beth yw eu prif ddiben?

Senedd.tv Fideo Video

13:37 **Julie James** Bywgraffiad Biography

I completely agree with Suzy Davies that this is a very important part of it and I would have actually very much liked to have taken part in that. What we're doing is making sure that, as far as possible, we have high-level skills training in both languages. That hasn't always been possible for some of the more technical courses, but we are working with providers to ensure that, where it is possible, we do it. We're also continuing to support our institutions to provide beginner, intermediate and advanced Welsh classes, but, also, to just integrate Welsh into everyday language as much as possible. So, if you're in a class of people who are all hoping to improve their Welsh, why not just put some Welsh into the learning? We've been encouraging that, if at all possible.

Rwy'n cytuno'n llwyr â Suzy Davies fod hon yn rhan bwysig iawn ohono a buaswn wedi hoffi bod yn rhan o hynny yn fawr iawn. Yr hyn rydym yn ei wneud yw sicrhau bod gennym, cyn belled ag y bo modd, hyfforddiant sgiliau lefel uchel yn y ddwy iaith. Nid yw hynny bob amser wedi bod yn bosibl i rai o'r cyrsiau mwy technegol, ond rydym yn gweithio gyda darparwyr i sicrhau ein bod yn gwneud hynny, lle bo hynny'n bosibl. Rydym hefyd yn parhau i gynorthwyo ein sefydliadau i ddarparu dosbarthiadau Cymraeg i ddechreuwyr, dosbarthiadau canolradd a dosbarthiadau uwch, ond hefyd i integreiddio'r Gymraeg fel iaith bob dydd gymaint â phosibl. Felly, os ydych mewn dosbarth o bobl sy'n gobeithio gwella eu Cymraeg, pam na wnewch chi gynnwys ychydig o Gymraeg yn y dysgu? Rydym wedi bod yn annog hynny, os yw'n bosibl.

Senedd.tv Fideo Video

13:38

## Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rydym yn cyfeirio'n aml at bobl ifanc sydd yn NEETs, ond mae canran uwch o bobl dros 50 sydd â phroblemau darllen a rhifo na'r rhai yn yr oedran iau felly, ac mae hynny'n arwain, wrth gwrs, at fethu ceisio am, a chael, swyddi. Gan sylweddoli bod toriadau o hyd at 90 y cant mewn cyrsiau cymunedol, sut ydych chi, fel Llywodraeth, yn bwriadu helpu'r garfan hyn yma sydd â'r anghenion arbennig yma?

We often refer to young people who are not in education, employment or training, but the percentage of people over the age of 50 who have numeracy and literacy problems is higher than the percentage of the younger population. This then leads to an inability to apply for jobs and actually gain employment. I notice that there are cuts of up to 90% in community courses, so how do you, as a Government, intend to assist this older age group that has these special needs?

13:38

## Julie James Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We've protected, as much as possible, essential skills training for people at all ages and, as I've said very often in this Chamber to Members, other than those areas of work which are specifically directed to under-24s, such as Jobs Growth Wales for example, all other courses are all-age. We haven't got anything specifically targeted at over-50s, but we have protected a lot of the essential skills in the workplace courses; we've protected, for example, the trade union learning arrangements and the Workers' Educational Association arrangements. We've protected English for Speakers of Other Languages and courses for vulnerable adults. So, in as much as we can within the funding envelope that we've got—and you heard me saying only yesterday that this is not a good place to be; it's not a place I'd want to be and there have been no good choices here—and within the funding arrangements we have had, we have continued to protect some of the essential skills courses, which do have the very beneficial effect that you've described.

Rydym wedi diogelu hyfforddiant sgiliau hanfodol cymaint â phosibl i bobl o bob oed ac fel rwyf wedi ei ddweud yn aml iawn wrth yr Aelodau yn y Siambr hon, ac eithrio'r meysydd gwaith hynny sy'n cael eu hanelu'n benodol at rai o dan 24 oed, megis Twf Swyddi Cymru er enghraifft, mae'r holl gyrsiau eraill i bobl o bob oedran. Nid oes gennym unrhyw beth a dargedwyd yn benodol at bobl dros 50 oed, ond rydym wedi diogelu llawer o'r sgiliau hanfodol yn y cyrsiau ar gyfer y gweithle; er enghraifft, rydym wedi diogelu trefniadau dysgu'r undebau llafur a threfniadau Cymdeithas Addysg y Gweithwyr. Rydym wedi diogelu Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill a chyrsiau ar gyfer oedolion sy'n agored i niwed. Felly, cymaint ag y gallwn o fewn y terfynau ariannu sy'n gennym—a chlywsoch fi'n dweud ddoe ddiwethaf nad yw hwn yn sefyllfa dda i fod ynddi; nid yw'n sefyllfa y byddwn i eisiau bod ynddi ac nid oes unrhyw ddewisiadau da yma—ac o fewn y trefniadau ariannu a gawsom, rydym wedi parhau i ddiogelu rhai o'r cyrsiau sgiliau hanfodol, sydd â'r effaith hynod o fuddiol a ddisgrifiwch.

13:39

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n derbyn bod dewisiadau anodd i'w gwneud, wrth ystyried bod yr arian yn cael ei gwtogi, ond, wrth gwrs, rydych chi wedi penderfynu, fel Llywodraeth, eich bod yn rhoi'r flaenoriaeth y tu mewn i addysg bellach i'r rhai hynny sydd rhwng 16 a 18 oed. Roedd yna ostyngiad o ryw 47 y cant rhwng 2003 a 2013 beth bynnag yn y cyrsiau rhan amser. Felly, pa asesiad yr ydych chi wedi'i wneud, cyn i chi ddod i'r penderfyniad yma, o effaith eich penderfyniadau chi ar y ganran yma y mae Alun Ffred eisoes wedi cyfeirio ati?

I accept that there are difficult decisions that have to be made, given that the funding is being cut, but, of course, you as a Government have decided that you are to prioritise those between the ages of 16 and 18 within further education. There was a reduction of some 47 per cent between 2003 and 2013 in part-time courses in any case. So, what assessment have you made, before coming to this decision, of the impact of your decision on that percentage that Alun Ffred has already referred to?

13:40

## Julie James Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Member is quite right—there has been a big reduction in work-based learning provision, because we have chosen to protect the group that I was just mentioning as part of the previous answer. We are deliberately prioritising higher skills level funding because we know that that's the biggest skills shortage in our economy. It's also the best chance for people to get good jobs that provide them with career opportunities and also provide the economy with a proper career curve all the way through so that we don't have a situation where we have a lot of people in low-paid jobs and people in high-paid professional jobs and nobody in the middle. So, we are deliberately focusing the money that we've got on that higher level skills agenda from level 3—A-level equivalent, broadly—upwards. We are focusing it on vocational qualifications.

Mae'r Aelod yn gywir—bu gostyngiad mawr yn y ddarpariaeth dysgu yn y gwaith, gan ein bod wedi dewis amddiffyn y grŵp y soniais amdanynt yn rhan o'r ateb blaenorol. Rydym yn blaenoriaethu cyllid ar gyfer sgiliau lefel uwch yn fwriadol oherwydd ein bod yn gwybod mai dyna'r prinder sgiliau mwyaf yn ein heconomi. Dyna hefyd yw'r cyfle gorau i bobl gael swyddi da sy'n rhoi cyfleoedd gyrfa iddynt a hefyd yn darparu cromlin yrfa briodol yr holl ffordd ar draws yr economi fel nad ydym yn wynebu sefyllfa lle y mae gennym lawer o bobl mewn swyddi ar gyflogau isel a phobl mewn swyddi proffesiynol ar gyflogau uchel a neb yn y canol. Felly, rydym yn canolbwyntio'r arian sydd gennym yn fwriadol ar yr agenda sgiliau lefel uwch o lefel 3—cyfwerth â Safon Uwch yn fras—ac uwch. Rydym yn ei ganolbwyntio ar gymwysterau galwedigaethol.

As Suzy Davis said earlier, this is Adult Learners' Week and I was, this morning, at Sony, looking at some of their vocational qualifications. I met two young ladies there—one was going up through a work-based learning route and had joined as a young women and another was a graduate trainee entrant. But, they were following a route, which could, if they wanted to, make them arrive at the top echelons of management in that company. Obviously, if it suits them to stop along the way, they can. But it shows a good career progression and what's possible when those higher level skills are available for people who are already in the job and need to progress, and what can be done with progressive employers who co-invest with us to ensure that that strategy works. So, we have some excellent examples out there in our communities.

Fel y dywedodd Suzy Davis yn gynharach, mae'n Wythnos Addysg Oedolion a'r bore yma, roeddwn yn Sony yn edrych ar rai o'u cymwysterau galwedigaethol. Cyfarfûm â dwy ddynes ifanc yno—roedd un yn dilyn llwybr dysgu yn y gwaith ac roedd hi wedi ymuno fel dynes ifanc ac roedd y llall wedi dod yno fel hyfforddai graddedig. Ond roeddent yn dilyn llwybr, a allai sicrhau, os oeddent eisiau, eu bod yn cyrraedd yr haenau uchaf o blith y rheolwyr yn y cwmni hwnnw. Yn amlwg, os yw'n well ganddynt roi'r gorau iddi ar hyd y ffordd, gallant wneud hynny. Ond mae'n dangos dilyniant gyrfa da a'r hyn sy'n bosibl pan fo sgiliau lefel uwch ar gael i bobl sydd eisoes yn y swydd ac sydd angen datblygu, a'r hyn y gellir ei wneud gyda chyflogwyr blaengar sy'n cyd-fuddsoddi gyda ni i sicrhau fod y strategaeth honno'n gweithio. Felly, mae gennym rai enghreifftiau gwych yn ein cymunedau.

Also, I would like to say that I very rarely meet an employer who doesn't want to contribute to training. But, often, they don't have either the skill in-house themselves or the ability to do it. So, we are, as a Government, looking to see what help we can give to our smaller businesses—we say 'small and medium-sized enterprises', but some of them are very small businesses indeed—to put their training programmes in place to ensure that they do have, for example, succession planning and career progression within their companies and the ability to retire and make sure that the company goes on. So, I agree with you that there have been no good choices here, but we have made firm decisions about what is the most important thing in order to grow our economy in that rounded and fair way, and I'm very proud that we have made those decisions.

Hefyd, hoffwn ddweud mai anaml iawn rwyf yn cwrdd â chyflogwr nad yw'n dymuno cyfrannu at hyfforddiant. Ond yn aml, nid oes ganddynt y sgil mewnol yn eu hunain na'r gallu i wneud hynny. Felly, fel Llywodraeth, rydym yn edrych i weld pa gymorth y gallwn ei roi i'n busnesau llai—rydym yn dweud 'busnesau bach a chanolig eu maint', ond mae rhai ohonynt yn fusnesau bach iawn yn wir—i roi eu rhaglenni hyfforddiant ar waith er mwyn sicrhau bod ganddynt gynllun olyniaeth, er enghraifft, a datblygiad gyrfa yn eu cwmnïau a'r gallu i ymddeol a gwneud yn siŵr fod y cwmni yn parhau. Felly, rwy'n cytuno â chi nad oes unrhyw ddewisiadau da yma, ond rydym wedi gwneud penderfyniadau cadarn ynghylch beth yw'r peth pwysicaf i sicrhau twf ein heconomi mewn ffordd gyflawn a theg, ac rwy'n falch iawn ein bod wedi gwneud y penderfyniadau hynny.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from Party Spokespeople

13:42

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to questions from the party spokespeople and, first this afternoon, we have Plaid Cymru spokesperson, Simon Thomas.

Symudwn yn awr at gwestiynau gan lefarwyr y pleidiau, ac yn gyntaf y prynhawn yma, mae llefarydd Plaid Cymru, Simon Thomas.

13:43

### Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. Minister, what was the cost of the Hill review of educational services, which reported in 2013?

Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, beth oedd cost adolygiad Hill o'r gwasanaethau addysgol, a gyflwynodd ei adroddiad yn 2013?

13:43

### Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Member does put me on the spot there in terms of my recall and memory. I'm afraid I'll have to write to him in terms of getting to the bottom of the figures there.

Mae'r Aelod yn fy rhoi mewn lle cas yma o ran yr hyn y gallaf ei gofio. Rwy'n ofni y bydd yn rhaid i mi ysgrifennu ato ar ôl mynd i wraidd y ffigyrau hynny.

13:43 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank you, Minister, for the offer of a letter. I have already asked a written question on this and he told me he couldn't tell me. He said that maybe mates rates had been involved. I'll be interested to see if he's now in a position to tell me what the cost of the review was, because the Hill review made eight urgent recommendations for the education consortia in Wales, but only two have ever been implemented; six remain outstanding. These include cutting the number of local educational authorities by a third by April 2015—well, that certainly hasn't happened—and having twice-yearly stock takes of the education consortia themselves. Now, don't the recent reports on the consortia by Estyn and the Wales Audit Office, Minister, demonstrate that the Government has wasted at least two years on a Hill report that wasn't implemented, consortia that didn't work properly for months, and delay and dither now on the future of local education authorities?

Diolch i chi, Weinidog, am gynnig ysgrifennu llythyr. Rwyf eisoes wedi gofyn cwestiwn ysgrifenedig ar hyn a dywedodd wrthyf nad oedd yn gallu dweud wrthyf. Dywedodd efallai fod cyfraddau arbennig i ffrindiau wedi chwarae rhan yn hyn. Bydd diddordeb gennyf i weld a yw bellach mewn sefyllfa i ddweud wrthyf beth oedd cost yr adolygiad, gan fod adolygiad Hill wedi gwneud wyth argymhelliad brys ar gyfer y consortia addysg yng Nghymru, ond dau yn unig a roddwyd ar waith; mae chwech yn dal heb eu cyflawni. Mae'r rhain yn cynnwys cwtogi nifer yr awdurdodau addysg lleol o draean erbyn Ebrill 2015—wel, yn sicr nid yw hynny wedi digwydd—a phwyso a mesur y consortia addysg eu hunain ddwywaith y flwyddyn. Nawr Weinidog, onid yw'r adroddiadau diweddar ar y consortia gan Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru, yn dangos bod y Llywodraeth wedi gwastraffu o leiaf ddwy flynedd ar adroddiad Hill na chafodd ei roi ar waith, consortia nad oedd yn gweithio'n iawn am fisoedd, ac oedi nawr ar ddyfodol awdurdodau addysg lleol?

13:44 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, the Member, I think, plays a little fast and loose with the facts of the matter here. There are stock takes of the consortia; my terminology has been 'challenge and review sessions', which I personally chair. We've already gone through one round of those and another round will be in the autumn. So, that aspect of the Hill review has been fulfilled.

Wrth gwrs, rwy'n credu bod yr Aelod yn chwarae â ffeithiau'r mater yma. Mae gwaith y consortia yn cael ei bwyso a'i fesur; 'sesiynau herio ac adolygu' yw fy nherminoleg, a chânt eu cadeirio gennyf i'n bersonol. Rydym eisoes wedi cwblhau un cylch ohonynt a chynhelir cylch arall yn yr hydref. Felly, mae'r agwedd honno o adolygiad Hill wedi cael ei chyflawni.

In terms of the Wales Audit Office and Estyn's look at consortia, of course, the point I made on the day and the point I make again today is that it was far from recent. In fact, that snapshot that the Wales Audit Office and Estyn were taking of the state of affairs within the educational consortia was happening just a few months after the consortia had established themselves and had barely got their feet under the desk. A very great deal has happened since then, and I am content that each one of the four consortia is now moving forward and has a great deal of traction in terms of school improvement within their areas.

O ran Swyddfa Archwilio Cymru ac Estyn yn edrych ar gonsortia, wrth gwrs, y pwynt a wnes ar y diwrnod a'r pwynt rwy'n ei wneud eto heddiw yw bod hynny'n bell o fod yn ddiweddar. A dweud y gwir, roedd y ciplun a gymerai Swyddfa Archwilio Cymru ac Estyn o gyflwr pethau yn y consortia addysg yn digwydd ychydig fisoedd yn unig ar ôl i'r consortia ymsefydlu a phrin eu bod wedi cael cyfle i gael eu traed oddi tanynt. Mae llawer iawn wedi digwydd ers hynny, ac rwy'n fodlon fod pob un o'r pedwar consortiwm yn symud ymlaen bellach ac yn ysgogiad mawr i wella ysgolion yn eu hardaloedd.

Of course, when it comes to the numbers of local education authorities, I cannot declare UDI and contract the number of LEAs without a look at the wider issues surrounding Williams and the reform of local government. Of course, the Member will be very well aware of the realities of that situation.

Wrth gwrs, o ran nifer yr awdurdodau addysg lleol, ni allaf fynd ati o 'mhen a 'mhastwn fy hun a lleihau nifer yr Awdurdodau Addysg Lleol heb edrych ar y materion ehangach sy'n ymwneud â Williams a diwygio llywodraeth leol. Wrth gwrs, bydd yr Aelod yn ymwybodol iawn o realiti'r sefyllfa honno.

13:45 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It does seem a very common theme of the Government in reply to any criticism that that was the condition two years ago and things are all hunky-dory now. I can tell the Minister that Plaid Cymru will abolish education consortia, because our plans for local government and public service reform will have in place the right balance between national leadership and local accountability, and they will no longer be needed. You seem to be suggesting that we continue to muddle along with mixed and messy accountability and mediocre educational improvements. What is your vision for local education authorities?

Mae'n ymddangos mai thema gyffredin iawn i'r Llywodraeth yw ymateb i unrhyw feirniadaeth drwy ddweud mai dyna oedd y sefyllfa ddwy flynedd yn ôl a bod pethau'n wych erbyn hyn. Gallaf ddweud wrth y Gweinidog y bydd Plaid Cymru yn dileu'r consortia addysg, oherwydd bydd ein cynlluniau ar gyfer llywodraeth leol a diwygio gwasanaethau cyhoeddus wedi sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng arweiniad cenedlaethol ac atebolrwydd lleol, ac ni fydd eu hangen mwyach. Ymddengys eich bod yn awgrymu ein bod yn parhau i straffaglu yn ein blaenau gydag atebolrwydd cymysg ac anniben a gwelliannau addysgol cymedrol. Beth yw eich gweledigaeth ar gyfer awdurdodau addysg lleol?

13:46

## Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Look, there is nothing mediocre about the series of reforms and patently obvious improvements that we're beginning to see across our schools and colleges as a result of consortia getting to grips with their work. I notice that the Member is very short on specifics when it comes to complaints about the work of the consortia. [Interruption.] Well, I'm very interested in Plaid Cymru's plans about the future of consortia. They must, of course, put those to the electorate in time for the elections next May, and we will see what the public resolves to do about it.

Edrychwch, nid oes unrhyw beth yn gymedrol ynglŷn â'r gyfres o ddiwygiadau a gwelliannau hollol amlwg rydym yn dechrau eu gweld ar draws ein hysgolion a'n colegau o ganlyniad i'r consortia yn mynd i'r afael â'u gwaith. Rwy'n sylwi bod yr Aelod yn brin iawn o fanylion penodol ynglŷn â chwynion am waith y consortia. [Torri ar draws.] Wel, mae gen i ddiddordeb mawr yng nghynlluniau Plaid Cymru am ddyfodol y consortia. Mae'n rhaid iddynt, wrth gwrs, eu cyflwyno i'r etholwyr mewn pryd ar gyfer yr etholiadau fis Mai nesaf, a chawn weld beth fydd y cyhoedd yn penderfynu ei wneud am y peth.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:47

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to the Welsh Liberal Democrats' spokesperson, Aled Roberts.

Symudwn yn awr at lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Aled Roberts.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:47

## Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Lywydd. Bore ddoe, Weinidog, mi oedd pum teulu yn ardal Wrecsam yn mynychu cyfarfod o'r bwrdd gweithredol yn y sir, yn dilyn pum plentyn yn cael eu gwrthod o Ysgol Bro Alun yng Ngwersyllt a 19 o blant yn cael eu gwrthod o ddosbarth meithrin yn yr ysgol, sydd ond wedi agor ers rhyw dair blynedd. Pa bwerau sydd gennych chi i ymyrryd lle ei bod hi'n amlwg bod cynllun strategol addysg Gymraeg yr awdurdod addysg yn y sir yn fethiant llwyr?

Thank you, Presiding Officer. Yesterday morning, Minister, five families in the Wrexham area attended a meeting of the executive board in the county, following five pupils being refused entry to Ysgol Bro Alun in Gwersyllt and 19 pupils being refused entry to the nursery class in the school, which has only been open for some three years. What powers do you have to intervene where it is obvious that the Welsh in education strategic plan of the education authority in a county is a complete failure?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:47

## Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I wasn't aware until now of the specifics around the capacity issues in Wrexham. The Member will be aware that the Welsh in education strategic plans are held up to a great deal of scrutiny. Scrutiny is public and it is ministerial, too. I believe I have been both rigorous and open in terms of whether or not a WESP comes up to the standards we expect of it. Indeed, pretty much all the WESPs were sent back to local authorities in order for them to be made more rigorous. I will look into the issues specifically surrounding the instance in Wrexham that Aled Roberts refers to, and I will write with a formal response as soon as I possibly can.

Nid oeddwn yn ymwybodol tan yn awr o'r manylion penodol ynglŷn â'r problemau gyda chapasiti yn Wrecsam. Bydd yr Aelod yn ymwybodol fod y cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg yn destun llawer iawn o graffu. Mae'n graffu cyhoeddus ac mae'n graffu gan weinidogion hefyd. Rwy'n credu fy mod wedi bod yn drylwyr ac yn agored o ran a yw'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cyrraedd y safonau sy'n ddisgwyliedig ohonynt. Yn wir, anfonwyd bron iawn bob un o'r Cynlluniau Strategol yn ôl at yr awdurdodau lleol er mwyn iddynt gael eu gwneud yn fwy trylwyr. Byddaf yn edrych ar y materion sy'n ymwneud yn benodol â'r enghraifft yn Wrecsam y cyfeiria Aled Roberts ati, a byddaf yn ysgrifennu gydag ymateb ffurfiol cyn gynted ag y gallaf.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:48

## Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae hyn yn dilyn patrwm o ryw 10 mlynedd, lle mae Wrecsam wedi methu ag ymateb i'r galw cynyddol am addysg Gymraeg. Pa fesurau mae'ch adran chi yn eu cymryd o ran y camau y mae'r awdurdod yna ac awdurdodau tebyg wedi'u cymryd i fesur y galw am addysg Gymraeg? Roedd y mesur olaf gan y cyngor sir yna ryw dair blynedd yn ôl.

This follows a pattern of Wrexham failing for some 10 years to respond to the growing demand for Welsh-medium education. What measures is your department taking as regards the action that that authority and others similar to it have taken to measure the demand for Welsh-medium education? The last measure by that county council was three years ago.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:49 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, Aled Roberts must be aware that there is an annual iteration around the formulation of the WESPs. These are not secret documents; they're public documents. If there is a concern, either within the community in Wrexham or amongst those Assembly Members, or others, who represent that community, then they must make those concerns known. I do now have a handle on a particular issue surrounding nursery provision within Wrexham, and I've undertaken to look into it, but I would encourage all those concerned with the future of Welsh-language provision in Wrexham and elsewhere to study the development of the WESPs within their particular local authority area and to take issue with the local authority, and, indeed, to inform my department if they believe that there is some kind of deficiency in the planning.

Wrth gwrs, rhaid bod Aled Roberts yn ymwybodol fod yna iteriad blynyddol ynghylch ffurfio'r Cynlluniau Strategol. Nid yw'r rhain yn ddogfennau cyfrinachol; maent yn ddogfennau cyhoeddus. Os oes pryder, naill ai yn y gymuned yn Wrecsam neu ymhlith yr Aelodau Cynulliad neu eraill sy'n cynrychioli'r gymuned honno, yna rhaid iddynt wneud y pryderon hynny yn hysbys. Rwy'n deall y mater penodol yn ymwneud â'r ddarpariaeth feithrin yn Wrecsam bellach, ac rwyf wedi ymrwymo i edrych arno, ond byddwn yn annog pawb sy'n ymwneud â dyfodol y ddarpariaeth iaith Gymraeg yn Wrecsam ac mewn mannau eraill i astudio datblygiad y Cynlluniau Strategol yn ardaloedd eu hawdurdodau lleol ac i ddwyn y mater i sylw'r awdurdod lleol, a rhoi gwybod i fy adran, yn wir, os ydynt yn credu bod rhyw fath o ddiffyg yn y cynllunio.

13:50 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwyf eisoes wedi gyrru llythyr ac wedi cael galwadau ffôn gyda'r cyngor sir, ond yn anffodus, ymateb y cyngor sir yw dweud nad oes apêl yn erbyn ceisiadau meithrin sy'n cael eu gwrthod. A gaf i symud, felly, at awdurdodau eraill yn y gogledd, lle mae ysgolion penodedig Cymraeg ac ysgolion dwyieithog? A ydych chi'n credu ei bod hi'n dderbyniol bod yna rai awdurdodau yn newid categori—heb sôn am unrhyw achos unigol—o ysgol benodedig Gymraeg i ysgol ddwyieithog lle maen nhw'n ad-drefnu ysgolion o fewn y sir?

I have already sent a letter and have had phone calls with the county council, but unfortunately, the county council's response is that there is no appeals process for refused nursery applications. May I therefore move on to other authorities in north Wales, where there are designated Welsh-medium schools and bilingual schools? Do you think it's acceptable that there are some authorities that change categories—without mentioning any specific cases—from a designated Welsh-medium school to a bilingual school where they are reorganising schools within county?

13:50 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, on the face of it, the Member asks me a hypothetical question about a hypothetical situation. If he were to inform me precisely what his concerns were and which local authorities we were talking about here, then I'd be very pleased, of course, to make sure that those local authorities were sticking to the word and the spirit of their strategic plan.

Wel, ar yr olwg gyntaf, mae'r Aelod yn gofyn cwestiwn damcaniaethol am sefyllfa ddamcaniaethol. Pe bai'n rhoi gwybod i mi yn union beth yw ei bryderon a pha awdurdodau lleol rydym yn sôn amdanynt yma, yna byddwn yn falch iawn, wrth gwrs, i wneud yn siŵr bod yr awdurdodau lleol hynny yn cadw at air ac ysbryd eu cynllun strategol.

13:51 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will write to the Minister about Denbighshire.

Byddaf yn ysgrifennu at y Gweinidog ynglŷn â Sir Ddinbych.

13:51 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That's not a surprise somehow.

Nid yw hynny'n syndod rhywsut.

13:51 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the Welsh Conservatives' spokesperson, Paul Davies.

Symudwn yn awr at lefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Paul Davies.

13:51 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, research conducted by the National Union of Teachers Cymru found that 13 of Wales's 22 local authorities reported a rise in stress-induced teacher leave in 2014. Minister, what is the Welsh Government doing to address this issue and support teachers across Wales?

Weinidog, canfu ymchwil a wnaed gan Undeb Cenedlaethol yr Athrawon Cymru fod 13 o 22 awdurdod lleol Cymru wedi nodi cynnydd yn lefelau absenoldeb wedi'i achosi gan straen ymhlith athrawon yn 2014. Weinidog, beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â'r mater a chefnogi athrawon ar draws Cymru?

13:51 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I'm aware of NUT Cymru's survey work, and in order to better understand it and in the spirit of partnership to move forward on issues surrounding teacher stress, which, of course, we've all been concerned about, I've undertaken to meet with the leadership of NUT Cymru as soon as is mutually convenient to talk through exactly what the implications of this work are.

Wel, rwy'n ymwybodol o waith arolwg Undeb Cenedlaethol yr Athrawon Cymru, ac er mwyn ei ddeall yn well a symud ymlaen mewn partneriaeth ar faterion sy'n ymwneud â straen ymhlith athrawon, mater rydym i gyd wedi bod yn pryderu yn ei gylch, wrth gwrs, rwyf wedi ymrwymo i gyfarfod ag arweinwyr Undeb Cenedlaethol yr Athrawon Cymru cyn gynted ag sy'n gyfleus i bawb i drafod beth yn union yw goblygiadau'r gwaith hwn.

13:52 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I'm pleased that the Minister will be meeting the NUT in due course. Of course, this NUT research follows the report published last year by the Wales Audit Office, which revealed schools spent around £54 million on classroom supply cover for teachers who were absent in 2011-12, and that absence management in schools was weak. Since the publication of that report, can you tell us what new steps the Welsh Government have taken to improve absence management in schools and to ensure that local authorities and regional consortia are better supporting schools in their areas?

Wel, rwy'n falch y bydd y Gweinidog yn cyfarfod ag Undeb Cenedlaethol yr Athrawon maes o law. Wrth gwrs, mae'r ymchwil hwn gan yr Undeb yn dilyn yr adroddiad a gyhoeddwyd y llynedd gan Swyddfa Archwilio Cymru, a ddatgelodd fod ysgolion wedi gwario oddeutu £54 miliwn ar athrawon cyflenwi yn yr ystafell ddosbarth yn lle athrawon absennol yn 2011-12, a bod trefniadau rheoli absenoldeb mewn ysgolion yn wan. Ers cyhoeddi'r adroddiad hwnnw, a allwch ddweud wrthym pa gamau newydd y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i wella trefniadau rheoli absenoldeb mewn ysgolion ac i sicrhau bod awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn cefnogi ysgolion yn well yn eu hardaloedd?

13:52 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, my officials are currently working alongside partners, including the trade unions and others, and the local authorities, obviously, to take a look at how we can improve the situation around the structure of supply teachers and the management of absence within local authorities. There is clearly a situation pertaining at the moment that is unsatisfactory from almost everybody's point of view, except perhaps that of the agencies that turn a profit out of teacher absence. I'm convinced there must be a better way of doing things than this, and announcements will follow later in the year.

Wel, mae fy swyddogion wrthi'n gweithio ochr yn ochr â phartneriaid, gan gynnwys yr undebau llafur ac eraill, a'r awdurdodau lleol, yn amlwg, i edrych ar sut y gallwn wella'r sefyllfa o ran strwythur athrawon cyflenwi a rheoli absenoldeb mewn awdurdodau lleol. Mae'n amlwg fod y sefyllfa ar hyn o bryd yn anfoddhaol i bawb, ac eithrio'r asiantaethau sy'n elwa o absenoldeb athrawon o bosibl. Rwy'n argyhoeddedig fod ffordd well na hyn o wneud pethau, a bydd cyhoeddiadau'n dilyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

13:53 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, the Minister will be aware that the use of supply teachers can have an impact on pupil outcomes, because learners can make less progress in developing their skills, knowledge and understanding when the usual class teacher is absent. In light of this, what is the Welsh Government doing to ensure that local authorities monitor how schools are using supply teachers? How can they better support supply teachers in improving their classroom behaviour management techniques and establishing more effective working relationships with learners?

Wrth gwrs, bydd y Gweinidog yn ymwybodol y gall y defnydd o athrawon cyflenwi gael effaith ar ganlyniadau disgyblion, gan y gall dysgwyr wneud llai o gynnydd o ran datblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth pan fo'r athro dosbarth arferol yn absennol. Yng ngoleuni hyn, beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod awdurdodau lleol yn monitro'r modd y mae ysgolion yn defnyddio athrawon cyflenwi? Sut y gallant gynorthwyo athrawon cyflenwi yn well i wella eu technegau rheoli ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth a sefydlu perthynas waith fwy effeithiol gyda dysgwyr?

13:53 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, of course, a full answer to that question would involve more time than we have available to us here this afternoon, but there is a problem with the system, which essentially was the creature of former Conservative Governments, really—this fragmentation and privatisation, essentially, of supply teaching into agency working, and so on. I accept there were Labour Governments that perhaps should've put this right over the period of time that followed. It's something I do intend to tackle and, as I say, discussions between relevant partners are going on at the moment. I am convinced that there are better ways of delivering better outcomes for our young people. That has to be the first priority.

Wel, wrth gwrs, byddai ateb llawn i'r cwestiwn hwnnw yn galw am fwy o amser nag sydd ar gael i ni yma y prynhawn yma, ond mae problem gyda'r system, a grëwyd yn ei hanfod gan Lywodraethau Ceidwadol blaenorol mewn gwirionedd—sef darnio a phreifateiddio'r ddarpariaeth gyflenwi i bob pwrpas yn waith asiantaeth, ac yn y blaen. Rwy'n derbyn efallai y dylai Llywodraethau Llafur fod wedi unioni hyn dros y cyfnod o amser a ddilynodd. Mae'n fater rwy'n bwriadu mynd i'r afael ag ef ac fel y dywedaf, mae trafodaethau ar y gweill ar hyn o bryd rhwng partneriaid perthnasol. Rwy'n argyhoeddedig fod yna ffyrdd gwell o ddarparu canlyniadau gwell ar gyfer ein pobl ifanc. Rhaid i hynny fod yn flaenoriaeth gyntaf.

13:54 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move back to questions on the paper, and question 3 is from Suzy Davies.

Symudwn yn ôl yn awr at y cwestiynau ar y papur, a daw cwestiwn 3 gan Suzy Davies.

## Ieithoedd Tramor Modern

## Modern Foreign languages

13:54 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i wella'r niferoedd sy'n dysgu ieithoedd tramor modern? OAQ(4)0589(ESK)*

*3. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's plans to improve the uptake of modern foreign languages? OAQ(4)0589(ESK)*

13:54 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will. On the first of this month, I announced that 'Global Futures—a plan to improve and promote modern foreign languages' will come into effect from September. The new approach to supporting MFL will be supported by £480,000 from the Welsh Government and will be driven through the establishment of schools' centres of excellence.

Gwnaf. Ar y cyntaf o'r mis hwn, cyhoeddais y bydd 'Dyfodol Byd-eang—Cynllun i wella a hyrwyddo ieithoedd tramor modern' yn dod i rym o fis Medi. Bydd y dull newydd o gefnogi ieithoedd tramor modern yn cael ei gefnogi gan £480,000 oddi wrth Lywodraeth Cymru a bydd yn cael ei gyflwyno drwy sefydlu canolfannau rhagoriaeth ysgolion.

13:55 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that reply, Minister, and thank you for your statement and the news of the additional money, but if our economy, not least our visitor economy, values linguistic agility as a skill in its own right, as opposed to an academic qualification, shouldn't we really be thinking about introducing languages much earlier in the school system, and perhaps avoiding the lip service, if you'll excuse the pun, that was paid to Welsh-language acquisition in some of our English-medium primary schools over the last 15 years?

Diolch am eich ateb, Weinidog, a diolch i chi am eich datganiad a'r newyddion am yr arian ychwanegol, ond os yw ein heconomi, yn enwedig ein heconomi ymwelwyr, yn rhoi gwerth ar allu ieithyddol fel sgil yn ei rhinwedd ei hun, yn hytrach na chymhwyster academaidd, oni ddylem fod yn meddwl mewn gwirionedd am gyflwyno ieithoedd yn llawer cynharach yn y system ysgolion, ac osgoi'r gwasanaeth gwefus yn unig, os maddeuwch y gair mwys, a dalwyd i ddysgu Cymraeg yn rhai o'n hysgolion cynradd cyfrwng Saesneg dros y 15 mlynedd diwethaf?

13:55 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, we should be, and I am, paying attention to that very important issue about when exactly we make that offer of a modern foreign language to our young people. It's clearly extremely important that they benefit from such an offer. The establishment of 'Global Futures', which will be overseen by a steering group, will involve critical partners that hitherto have been working independently, really, and not pulling together as a team. That's no criticism of them at all—it's the job of Government to bring them together—by which I mean schools, consortia, universities, Estyn, the language institutes I mentioned earlier, the British Council, the BBC and the Open University. Combined with the opportunities now opening up to us to rewrite the curriculum, essentially, according to the framework offered to us by Graham Donaldson, I believe this signals a new era in terms of how we can deliver good learning experiences in modern foreign languages right through the age continuum from early years right through to 16 and beyond, and throw up the challenges, of course, that we will face around capacity within the workforce and oversight of the whole process. But the window of opportunity now is open, and all sincere partners are welcome in terms of how now we structure a proper delivery mechanism around those philosophies.

Wel dylem, ac rwy'n gwneud hynny, gan dalu sylw at y mater pwysig o ba bryd yn union y dylem gynnig iaith dramor fodern i'n pobl ifanc. Mae'n amlwg yn hynod bwysig eu bod yn cael budd o gynnig o'r fath. Bydd sefydlu 'Dyfodol Byd-eang', a fydd yn cael ei oruchwylio gan grŵp llywio, yn cynnwys partneriaid beirniadol a fu'n gweithio'n annibynnol hyd yma mewn gwirionedd, heb gyd-dynnu fel tîm. Nid beirniadaeth yw hynny o gwbl—gwaith y Llywodraeth yw eu dwyn ynghyd—a'r hyn rwy'n ei olygu yw ysgolion, consortia, prifysgolion, Estyn, y sefydliadau iaith y soniais amdanynt yn gynharach, y Cyngor Prydeinig, y BBC a'r Brifysgol Agored. Ynghyd â'r cyfleoedd sy'n dod yn amlwg yn awr i ailysgrifennu'r cwricwlwm, yn y bôn, ac yn unol â'r fframwaith a gynigir i ni gan Graham Donaldson, rwy'n credu bod hyn yn arwydd o gyfnod newydd o ran sut y gallwn ddarparu profiadau dysgu da mewn ieithoedd tramor modern ar hyd y continwwm oedran o'r blynyddoedd cynnar hyd at 16 oed a thu hwnt, ac amlygu'r heriau, wrth gwrs, y byddwn yn eu hwynebu ynghylch capasiti o fewn y gweithlu a goruchwylio'r holl broses. Ond mae'r cyfle yno yn awr, ac mae croeso i bob partner diffuant o ran sut yr awn ati yn awr i strwythuro system gyflwyno briodol o amgylch yr athroniaethau hynny.

13:57 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, when I was at school, I studied French as a modern foreign language. When my son was at school, he studied French as a modern foreign language. When my granddaughter was at school, she studied French. I've nothing against studying French, and I quite enjoyed learning it, but, Minister, 'Hamēṁ jamānē kē sāth chalō'. That, if I've pronounced the Hindi correctly, is to say 'We must move with the times'. Now, I'm not suggesting we should drop French, German and Spanish from the curriculum, but successive studies have said that it is languages such as Hindi, Mandarin and Arabic that we also need in order to succeed in our globalised world. The CfBT Education Trust report suggests that only a handful of Welsh schools offer extra-curricular classes in these languages, and only four schools can provide GCSE in Spanish. Minister, what do you feel should be done to promote the teaching of non-European languages in schools in Wales?

Weinidog, pan oeddwn yn yr ysgol, astudiais Ffrangeg fel iaith dramor fodern. Pan oedd fy mab yn yr ysgol, astudiodd Ffrangeg fel iaith dramor fodern. Pan oedd fy wyres yn yr ysgol, astudiodd Ffrangeg. Nid oes gennyf ddim yn erbyn astudio Ffrangeg, ac roeddwn yn mwynhau ei dysgu, ond Weinidog, 'Hamēṁ jamānē ke sāth chalō'. Os wyf wedi ynganu'r Hindi yn gywir, mae hynny'n dweud 'Mae'n rhaid i ni symud gyda'r oes'. Nawr, nid wyf yn awgrymu y dylem gael gwared ar Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg o'r cwricwlwm, ond mae astudiaethau olynol wedi dweud fod arnom angen ieithoedd megis Hindi, Mandarin ac Arabeg hefyd er mwyn llwyddo yn fyd-eang. Mae adroddiad Ymddiriedolaeth Addysg CfBT yn awgrymu mai llond dwrn o ysgolion Cymru sy'n cynnig dosbarthiadau allgyrsiol yn yr ieithoedd hyn, a phedair ysgol yn unig a all gynnig TGAU mewn Sbaeneg. Weinidog, beth ydych chi'n teimlo y dylid ei wneud i hyrwyddo dysgu ieithoedd o'r tu allan i Ewrop mewn ysgolion yng Nghymru?

13:58 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, there is a great deal of work going on in this regard. Of course, European languages remain important—central, really—in terms of my concerns at the moment. If you talk to business, you will still get the feedback that the foreign language in most demand, actually, as regards business and therefore the careers that might be on offer is actually German. But, of course, the world moves on, the world changes, and Gwenda Thomas is quite right to point out that there are potentially very big economic players now on the horizon that have language barriers potentially in terms of trade and careers.

Wel, mae llawer iawn o waith ar y gweill ar hyn. Wrth gwrs, mae ieithoedd Ewropeaidd yn parhau i fod yn bwysig—yn ganolog, mewn gwirionedd—o ran fy ngwaith ar hyn o bryd. Os siaradwch â busnesau, byddwch yn dal i gael yr adborth mai'r iaith dramor y mae fwyaf o alw amdani, mewn gwirionedd, o ran busnes ac felly o ran y gyrfaoedd a allai fod ar gael yw Almaeneg. Ond wrth gwrs, mae'r byd yn symud yn ei flaen, mae'r byd yn newid, ac mae Gwenda Thomas yn hollol iawn i nodi bod potensial economaidd mawr ar y gorwel bellach a allai greu rhwystrau iaith o ran masnach a gyrfaoedd.

The big breakthrough, of course, has come through the Confucius Institute based at Cardiff University. The Welsh Government directly funds, through the institute, language assistants. I believe there are nine of them at present, and they've been working in upwards of 80 schools across Wales providing those extra-curricular opportunities, and inspiring young people to take a look at the option of Chinese language and culture as an item for further study for them. But, of course, there is a great deal more work that we can do, and I hope that, working particularly with partners who are expert in online language learning delivery, there is a future that we must grasp here about widening the portfolio and the offer that is made to our young people.

Daeth y cam mawr ymlaen, wrth gwrs, drwy Sefydliad Confucius ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu cynorthwywyr iaith yn uniongyrchol drwy'r sefydliad. Rwy'n credu bod yna naw ohonynt ar hyn o bryd, ac maent wedi bod yn gweithio mewn mwy na 80 o ysgolion ledled Cymru yn darparu cyfleoedd allgyrsiol ac yn ysbrydoli pobl ifanc i ystyried dewis iaith a diwylliant Tsieina fel pynciau i'w hastudio ymhellach. Ond wrth gwrs, mae llawer iawn mwy o waith y gallwn ei wneud, a chan weithio'n benodol gyda phartneriaid sy'n arbenigo ar gyflwyno dysgu iaith ar-lein, rwy'n gobeithio bod yna ddyfodol sy'n rhaid i ni ei ddirnad yn y fan hon er mwyn ehangu'r portffolio a'r hyn a gynigir i'n pobl ifanc.

13:59

## Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Weinidog, a gaf i groesawu rhai o'r pethau rŷch chi wedi eu dweud a'u hawgrymu y prynhawn yma, wrth dynnu sylw at y ffaith ein bod ni wedi colli cyfle am ddegawdau i sicrhau bod plant sy'n ddwyieithog yng Nghymru yn manteisio ar y sgìl ieithyddol hynny, fel roeddech chi'n ei ddweud, i ddod yn amlieithog, boed o ran ieithoedd Ewropeaidd neu rai o'r ieithoedd eraill y mae Gwenda Thomas wedi sôn amdanyn nhw. Rŷch chi'n sôn am gyfnod newydd; beth ydych chi'n mynd i'w wneud i sicrhau bod y cyfnod newydd hwnnw yn cychwyn mor fuan ag sy'n bosibl ac nad ydym ni'n colli mwy o gyfleoedd, fel rŷm ni wedi'i wneud dros y degawdau diwethaf, i sicrhau ein bod ni'n datblygu plant amlieithog yng Nghymru?

Minister, may I welcome some of the things you have said and suggested this afternoon, this afternoon, whilst drawing attention to the fact that we've lost an opportunity for many decades to ensure that bilingual children in Wales can take advantage of that linguistic skill, as you said, to become multilingual, whether that's in terms of European languages or some of the other languages that Gwenda Thomas alluded to. You're talking about a new era; what are you going to do to ensure that that new era starts as soon as possible and that we don't lose any more opportunities, as we have done over the past decades, to ensure that we develop multilingual children in Wales?

14:00

## Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Well, I'm not allowing the grass to grow under our feet here. I've already announced that the Global Futures plan will come into operation in the new term in September. So, there will be no delay, essentially, around introducing that new structure. And just to reiterate my point to Gwenda Thomas there, I think we've barely scratched the surface also in terms of what might be deliverable, both to teaching professionals and, of course, to young people, in terms of an online environment. There are, as we already know, fantastic language-learning opportunities already offered through institutions like the Open University and, indeed, the BBC. I think, working with partners like that to make sure that we adapt things appropriately for the age groups concerned, there are all sorts of possibilities about how we can both broaden the offer of languages on offer, but also very much deepen those priority areas, the first of which, of course, has to be Welsh.

Wel, nid wyf am adael i ni gicio'n sodlau yn hyn o beth. Rwyf eisoes wedi cyhoeddi y bydd y cynllun Dyfodol Byd-eang yn dod i rym yn y tymor newydd ym mis Medi. Felly, ni fydd unrhyw oedi, yn ei hanfod, o ran cyflwyno'r strwythur newydd. Ac i ailadrodd y pwynt a grybwyllais wrth Gwenda Thomas, rwy'n meddwl mai prin grafu'r wyneb a wnaethom o ran yr hyn y gellid ei gyflawni, i addysgwyr proffesiynol ac wrth gwrs, i bobl ifanc, o ran amgylchedd ar-lein. Fel y gwyddom eisoes, mae cyfleoedd dysgu iaith gwych yn cael eu cynnig eisoes drwy sefydliadau fel y Brifysgol Agored ac yn wir, y BBC. Gan weithio gyda phartneriaid fel hyn i wneud yn siŵr ein bod yn addasu pethau'n briodol ar gyfer y grwpiau oedran perthnasol, rwy'n credu bod pob math o bosibiliadau o ran y modd y gallwn ehangu'r cynnig o ieithoedd sydd ar gael, a dyfnhau'n fawr y meysydd blaenoriaeth hynny, a rhaid i'r Gymraeg fod yn gyntaf o'r rhain, wrth gwrs.

14:01

## William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Minister, I very much welcome your reassertion of the importance of modern European languages and, in that, you're backed by the Confederation of British Industry, which says that over 65 per cent of businesses accord real value and importance to language skills. In the context of a greater emphasis, in current examinations, on oral proficiency within those languages, will you ensure that, as part of the strategy that's coming forward, we do explore the potential benefits of language assistants in schools, who can bring not only assistance with that oral proficiency but also the wider cultural dimension, I think, that is of real importance?

Weinidog, rwy'n croesawu'n fawr iawn eich cadarnhad o bwysigrwydd ieithoedd Ewropeaidd modern ac yn hynny, rydych yn cael eich cefnogi gan Gydffederasiwn Diwydiant Prydain sy'n dweud bod dros 65 y cant o fusnesau yn rhoi gwerth a phwys mawr ar sgiliau iaith. Yng nghyd-destun mwy o bwyslais, mewn arholiadau cyfredol, ar hyfedredd llafar yn yr ieithoedd hynny, a wnewch chi sicrhau, fel rhan o'r strategaeth sy'n cael ei chyflwyno, ein bod yn edrych ar fanteision posibl cynorthwywyr iaith mewn ysgolion, a all gynnig cymorth gyda hyfedredd llafar o'r fath a hefyd y dimensiwn diwylliannol ehangach, rwy'n meddwl, sydd o bwys go iawn?

14:02 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, absolutely. I agree wholeheartedly. I think this is an area of work that we can step up in relatively short order. One of the reasons for our own universities being a part of the Global Futures partnership here, as close reading of my announcement last week will tell you, is that we are considering the idea of bursaries and credits for MFL undergraduates or, indeed, native-speaking students who may be studying quite another subject altogether, to somehow encourage and reward those young people to step into our classrooms, under supervision of course, to work alongside young people who are not much younger than themselves in order to inspire young people to think about taking up modern foreign languages, and to showcase, really, the opportunities that may be available to them. There is a very great deal, I think, that co-working between our existing university language departments and our schools could give us.

Gwnaf, yn bendant. Cytunaf yn llwyr. Rwy'n credu bod hwn yn faes gwaith y gallwn ei ddatblygu mewn amser cymharol fyr. Un o'r rhesymau pam y mae ein prifysgolion yn rhan o bartneriaeth Dyfodol Byd-eang, fel y gwelwch o edrych yn ofalus ar fy nghyhoeddiad yr wythnos diwethaf, yw ein bod yn ystyried y syniad o fwrsariaethau a chredydau ar gyfer israddedigion ieithoedd tramor modern neu'n wir, myfyrwyr sy'n siarad ieithoedd brodorol a allai fod yn astudio pwnc arall yn gyfan gwbl, er mwyn annog a gwobrwyo'r bobl ifanc mewn rhyw fodd i ddod i mewn i'n hystafelloedd dosbarth, dan oruchwyliaeth wrth gwrs, i weithio ochr yn ochr â phobl ifanc nad ydynt lawer yn iau na hwythau er mwyn ysbrydoli pobl ifanc i feddwl am astudio ieithoedd tramor modern, ac i arddangos, mewn gwirionedd, y cyfleoedd a allai fod ar gael iddynt. Rwy'n credu bod llawer iawn y gallem ei ennill o gydweithio rhwng ein hadrannau iaith sy'n bodoli eisoes yn y prifysgolion a'n hysgolion.

## Pobl Ifanc Mwyaf Difreintiedig Cymru

## Wales's Most Deprived Young People

14:03 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am berfformiad addysgol pobl ifanc mwyaf difreintiedig Cymru? OAQ(4)0584(ESK)*

*4. Will the Minister make a statement on the educational performance of Wales's most deprived young people? OAQ(4)0584(ESK)*

14:03 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for North Wales. The latest statistics show that the attainment of learners from deprived backgrounds in Wales is at an all-time high. Nevertheless, I'm not complacent or content. I want to see further, and faster, improvement and we have programmes in place to achieve this.

Diolch i'r Aelod dros Ogledd Cymru. Mae'r ystadegau diweddaraf yn dangos bod cyrhaeddiad dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yng Nghymru ar ei lefel uchaf erioed. Serch hynny, nid wyf yn ymfodloni yn hynny o beth. Rwyf am weld gwelliant pellach a chyflymach ac mae gennym raglenni ar waith i gyflawni hyn.

14:04 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. What dialogue have you had, or will you seek to have, with the Institute of Welsh Affairs economy group following their report on an economic strategy for Wales, which describes as 'worrying' the

'continuing decline in the performance of our most deprived and vulnerable young people compared to the rest of the UK',

and stated that a

'more sustained focus is required and a balance needs to be found which affords the professionals the requisite autonomy and respect while ensuring they are fully accountable for results, properly measured'?

Diolch yn fawr. Pa ddeialog rydych wedi'i chael, neu y ceisiwch ei chael, gyda grŵp economi y Sefydliad Materion Cymreig yn dilyn eu hadroddiad ar strategaeth economaidd i Gymru, sy'n dweud mai testun pryder yw'r

'continuing decline in the performance of our most deprived and vulnerable young people compared to the rest of the UK',

a dywedodd

'more sustained focus is required and a balance needs to be found which affords the professionals the requisite autonomy and respect while ensuring they are fully accountable for results, properly measured'?

14:04

## Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Well, I've not read the IWA report, I must say, but it does sound like a particularly gloomy document and one that doesn't recognise some of the key facts about the situation that we do find ourselves in in Wales. The fact of the matter is that in terms of the achievement—taking broadly those eligible for free school meals as the group that we could use as an indicator of how things are going—at foundation phase, at key stage 2 and at key stage 3, we are seeing the gap between those young people and their peers closing year on year. We are also seeing, at every key stage, including key stage 4, a raising of attainment amongst those young people. If you take a look at the level 2 inclusive, that's five good GCSEs level for young people, back in 2007, it was about 18 per cent—a shockingly low figure. About 18 per cent of our young people eligible for free school meals met the level 2 inclusive score. That is now at nearly 28 per cent. So, it's a 10 per cent increase and a turnaround in the life chances for that group of young people. It is not sufficient and it is not good enough, but if the IWA are suggesting that we are stagnating or going backwards in this regard, then they are plainly wrong.

Wel, nid wyf wedi darllen adroddiad y Sefydliad Materion Cymreig, rhaid i mi ddweud, ond mae'n swnio fel dogfen arbennig o dywyll ac un nad yw'n cydnabod rhai o'r ffeithiau allweddol am ein sefyllfa yng Nghymru. Gan gymryd yn fras y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim fel y grŵp y gallem ei ddefnyddio fel dangosydd o sut y mae pethau'n mynd, y ffaith amdani yw, o ran cyflawniad, yn y cyfnod sylfaen, yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3, rydym yn gweld y bwlch rhwng y bobl ifanc hyn a'u cyfoedion yn cau o flwyddyn i flwyddyn. Rydym hefyd yn gweld, ym mhob cyfnod allweddol, yn cynnwys cyfnod allweddol 4, fod cyrhaeddiad yn codi ymhlith y bobl ifanc hyn. Os edrychwch ar drothwy cynwysedig lefel 2, sef pump lefel TGAU da i bobl ifanc, yn ôl yn 2007, roedd hwn oddeutu 18 y cant—ffigur arswydus o isel. Cyrhaeddodd tua 18 y cant o'n pobl ifanc sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim sgôr cynwysedig lefel 2. Mae bellach bron yn 28 y cant. Felly, mae'n gynnydd o 10 y cant ac yn newid cyfleoedd bywyd y grŵp hwn o bobl ifanc. Nid yw'n ddigonol ac nid yw'n ddigon da, ond os yw'r Sefydliad Materion Cymreig yn awgrymu ein bod yn aros yn ein hunfan neu'n llithro ar ôl yn y cyswllt hwn, yna maent yn amlwg yn anghywir.

14:05

## Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Minister, I was delighted to be at the opening of the new healthy eating cafe at Ysgol Emmanuel, along with the Deputy Minister for Health, Vaughan Gething, on Monday. This cafe has been funded through the pupil deprivation grant. It allows pupils and their families to make progress with numeracy skills and gives them other valuable life skills such as those for customer services, planning and teamwork. I hope you will agree with me that this is a first-class example of how to use the PDG in an innovative way to raise attainment and, crucially, to give them the life skills and the confidence that these pupils may want. Will you also agree to come and visit the cafe? They do a wonderful cup of tea and they do a wonderful healthy breakfast as well, which I am sure you could sample. I think you should come and see this, as then, perhaps, we could roll it out as best practice.

Weinidog, roeddwn yn falch iawn o fod yn agoriad y caffi bwyta'n iach newydd yn Ysgol Emmanuel, gyda'r Dirprwy Weinidog Iechyd, Vaughan Gething, ddydd Llun. Mae'r caffi wedi cael ei ariannu drwy'r grant amddifadedd disgyblion. Mae'n caniatáu i ddisgyblion a'u teuluoedd wneud cynnydd ar sgiliau rhifedd ac yn rhoi sgiliau bywyd gwerthfawr eraill iddynt, megis sgiliau gwasanaethau cwsmeriaid, cynllunio a gwaith tîm. Rwy'n gobeithio y byddwch yn cytuno â mi fod hon yn enghraifft o'r radd flaenaf o sut i ddefnyddio'r grant amddifadedd disgyblion mewn ffordd arloesol i godi cyrhaeddiad ac yn hollbwysig, i roi'r sgiliau bywyd a'r hyder y gallai fod eu heisiau ar y disgyblion hyn. A wnewch chi hefyd gytuno i ddod i ymweld â'r caffi? Maent yn gwneud paned o de bendigedig ac maent yn gwneud brecwast iach gwych hefyd, ac rwy'n siŵr y gallech ei flasu. Rwy'n meddwl y dylech chi ddod i weld hyn, er mwyn i ni allu ei gyflwyno wedyn efallai fel arfer gorau.

14:06

## Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

My thanks to Ann Jones. It has long been a matter of note to me that my colleague the Deputy Minister for Health never misses the opportunity for a tea break. But, to be serious about this, I know Ysgol Emmanuel does indeed have very high levels of deprivation, with almost half of its pupils eligible for free school meals. So, it is certainly good to see the school trying out new things and being innovative in terms of their approach. I do welcome innovative approaches to spending the pupil deprivation grant where the purpose is clearly linked to raising the attainment of pupils from disadvantaged backgrounds. So, I'll certainly take a closer look at the scheme and I will talk with my colleague Vaughan Gething. I'd be very interested in hearing his observations on his visit as well.

Diolch i Ann Jones. Rwyf wedi sylwi ers amser nad yw fy nghyd-Aelod, y Dirprwy Weinidog Iechyd byth yn colli cyfle i gael paned. Ond i fod o ddifrif ynglŷn â hyn, rwy'n gwybod bod gan Ysgol Emmanuel lefelau uchel iawn o amddifadedd yn wir, gyda bron i hanner ei disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Felly, mae'n bendant yn dda gweld yr ysgol yn rhoi cynnig ar bethau newydd ac yn bod yn arloesol o ran eu dull o weithredu. Rwy'n croesawu dulliau arloesol o wario'r grant amddifadedd disgyblion lle y mae'r pwrpas wedi'i gysylltu'n glir â chodi cyrhaeddiad disgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Felly, byddaf yn sicr yn edrych yn agosach ar y cynllun, a byddaf yn siarad gyda fy nghyd-Aelod Vaughan Gething. Byddai gennyf ddiddordeb mawr mewn clywed ei sylwadau ar ei ymweliad hefyd.

14:07 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Senedd.tv Fideo Video

Minister, whilst every child who is entitled to free school meals is eligible for support by the pupil deprivation grant, not every child is able to find themselves in an establishment that is supported by the Schools Challenge Cymru programme, despite the fact that there are some schools that are not in that programme that have been placed in special measures by Estyn. I think, in my own constituency, of Llandrindod High School, and also Brecon High School. Brecon High School, by its own admittance, has not done well by its poorest students. It has consistently failed over a number of years to ensure that the children who attend that school who are on free school meals are getting the educational outcomes that they need to make their way in the world. What will you do for those pupils who find themselves in schools that are in special measures but are not part of your Schools Challenge Cymru scheme, to ensure that those children have all the benefits that they need, to ensure their education is a success and that they can go on into the world of work to provide for themselves and their families?

Weinidog, er bod pob plentyn sydd â hawl i brydau ysgol am ddim yn gymwys i gael cymorth gan y grant amddifadedd disgyblion, nid yw pob plentyn yn mynychu sefydliad sy'n cael ei gefnogi gan y rhaglen Her Ysgolion Cymru, er bod rhai ysgolion nad ydynt yn rhan o'r rhaglen honno wedi cael eu gosod dan weithdrefn mesurau arbennig gan Estyn. Yn fy etholaeth i, rwy'n meddwl am Ysgol Uwchradd Llandrindod, ac Ysgol Uwchradd Aberhonddu hefyd. Nid yw Ysgol Uwchradd Aberhonddu, yn ôl ei chyfaddefiad ei hun, wedi gwneud tegwch â'i myfyrwyr tlotaf. Dros y blynyddoedd, mae wedi methu'n gyson â sicrhau bod y plant sy'n mynychu'r ysgol honno ac sy'n cael prydau ysgol am ddim yn cael y canlyniadau addysgol sydd eu hangen arnynt i gamu ymlaen yn y byd. Beth fyddwch yn ei wneud dros ddisgyblion mewn ysgolion sydd o dan weithdrefn mesurau arbennig ond heb fod yn rhan o'ch cynllun Her Ysgolion Cymru er mwyn sicrhau bod y plant hyn yn cael yr holl fuddiannau sydd eu hangen arnynt, gwneud yn siŵr fod eu haddysg yn llwyddiant ac y gallant gamu ymlaen i fyd gwaith i allu darparu ar eu cyfer eu hunain a'u teuluoedd?

14:08 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, of course, the Member for Brecon and Radnorshire is quite right in many respects, right down to the observation that she makes regarding Brecon High School. I have been following the story of Brecon High School very closely and it is one that causes great concern, really. I am glad to hear that there seems to be a degree of honest self-evaluation in terms of where Brecon sees itself—not Brecon the town, but the high school—in terms of how it has served its most deprived young people.

Wel, wrth gwrs, mae'r Aelod dros Frycheiniog a Sir Faesyfed yn llygad ei lle ar lawer ystyr, gan gynnwys y sylw a wnaeth am Ysgol Uwchradd Aberhonddu. Rwyf wedi bod yn dilyn stori Ysgol Uwchradd Aberhonddu yn agos iawn ac mae'n un sy'n achosi pryder mawr, mewn gwirionedd. Rwy'n falch o glywed ei bod yn ymddangos bod rhywfaint o hunanarfarniad gonest ynglŷn â lle y mae Aberhonddu yn gweld ei hun—nid Aberhonddu y dref, ond yr ysgol uwchradd—o ran y modd y mae wedi darparu ar gyfer ei phobl ifanc mwyaf difreintiedig.

The schools challenge, of course, does concern directly only those 40 secondary schools. I would have liked to have seen 50 or 60 schools contained within the challenge, but I also felt that we had to draw a line around meaningful levels of resource being delivered to the schools in the challenge, to be able to show the results that we wanted to see. There is, of course, though, a commitment within the challenge that the learning process that those schools are going through should be cascaded and spread throughout the consortium area concerned—in this case by ERW—to ensure that the school-to-school working that is evident within the schools challenge becomes a regular feature of the way schools like Brecon High School should be operating.

Nid yw'r her ysgolion, wrth gwrs, ond yn ymwneud yn uniongyrchol â'r 40 o ysgolion uwchradd. Byddwn wedi hoffi gweld 50 neu 60 o ysgolion yn cael eu cynnwys yn yr her, ond teimlwn hefyd fod yn rhaid i ni dynnu llinell o gwmpas lefelau ystyrlon o adnoddau sydd i'w dosbarthu i'r ysgolion yn yr her, i allu dangos y canlyniadau rydym eisiau eu gweld. Fodd bynnag, wrth gwrs, ceir ymrwymiad o fewn yr her y dylai'r broses ddysgu y mae'r ysgolion hynny yn mynd drwyddi gael ei rhaeadru a'i lledaenu ar draws ardal y consortiwm dan sylw—yn yr achos hwn gan Ein Rhanbarth ar Waith—i sicrhau bod gwaith ysgol i ysgol sy'n amlwg o fewn yr her ysgolion yn dod yn nodwedd reolaidd o'r ffordd y mae ysgolion fel Ysgol Uwchradd Aberhonddu yn gweithredu.

### Addysg Gerdd

### Music Education

14:10 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth o addysg gerdd yng Nghymru? OAQ(4)0580(ESK)*

*5. Will the Minister make a statement on the provision of music education in Wales? OAQ(4)0580(ESK)*

14:10 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Yes. I fully recognise the importance of music in the curriculum, the opportunities for music making in schools and those offered through local authority music services. I expect the report from the music services task and finish group to be published before the end of this month.

Gwnaf. Rwy'n llwyr gydnabod pwysigrwydd cerddoriaeth yn y cwricwlwm, y cyfleoedd ar gyfer creu cerddoriaeth yn yr ysgolion a'r rhai a gynigir drwy wasanaethau cerdd awdurdodau lleol. Rwy'n disgwyl yr adroddiad gan y grŵp gorchwyl a gorffen ar wasanaethau cerdd i gael ei gyhoeddi cyn diwedd y mis hwn.

Senedd.tv Fideo Video

14:10 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister, that's very helpful. I'd welcome your comments on the membership of that group, as I understand that the person who originally was chairing it sadly is no longer working in a music service further to the collapse of the music service in Rhondda Cynon Taf. I wonder if you could confirm whether the output of that group's work will lead to a strategy for music education in Wales to make sure that those underpinning resources that we all had when we were children aren't lost to the next generation.

Diolch i chi, Weinidog, mae hynny'n ddefnyddiol iawn. Byddwn yn croesawu eich sylwadau ar aelodaeth y grŵp, gan fy mod yn deall, yn anffodus, nad yw'r person a oedd yn ei gadeirio'n wreiddiol bellach yn gweithio mewn gwasanaeth cerdd yn sgil methiant y gwasanaeth cerdd yn Rhondda Cynon Taf. Tybed a allech gadarnhau a fydd cynnyrch gwaith y grŵp yn arwain at strategaeth ar gyfer addysg gerdd yng Nghymru i sicrhau nad yw'r adnoddau sylfaenol hynny a gawsom i gyd yn blant yn cael eu colli i'r genhedlaeth nesaf.

Senedd.tv Fideo Video

14:10 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Yes, it will. In many ways, I wish the Member had asked this question a month hence because I think when people see the report that's come through from the task and finish group they will be struck both by its level-headed recommendations but also by the innovative way in which they've risen to the central challenge of funding. We all recognise that local authorities are under enormous pressure as a result of the policies of the Conservative Government in Westminster and that the axe is being wielded and the axe will fall somewhere, and music services are under particular pressure. But I do encourage Members to pay close attention to the task and finish group's work. It will be published on the Welsh Government website before the end of this month, and I think it opens up real opportunities as long as Wales, as a community of interest, takes music services to heart as a priority, by which I mean the general public but also key players in the performing arts, our venues and our partners in the private sector that are dealing with the creative industries. As long as key players take very seriously their potential role, then I think we, potentially, within that task and finish group report, have a solution to most of the problems surrounding music services within schools, but it needs our partners to come on board.

Bydd, fe fydd yn gwneud hynny. Mewn sawl ffordd, hoffwn pe bai'r Aelod wedi gofyn y cwestiwn ymhen mis oherwydd pan fydd pobl yn gweld yr adroddiad a gyflwynwyd gan y grŵp gorchwyl a gorffen, credaf y byddant yn cael eu taro gan ei argymhellion synhwyrol, a hefyd gan y ffordd arloesol y maent wedi ymateb i her ganolog cyllido. Rydym i gyd yn cydnabod bod awdurdodau lleol dan bwysau aruthrol o ganlyniad i bolisïau'r Llywodraeth Geidwadol yn San Steffan, a bod y fwyell yn cael ei chwifio ac y bydd yn syrthio yn rhywle, ac mae gwasanaethau cerdd o dan bwysau arbennig. Ond rwy'n annog yr Aelodau i roi sylw manwl i waith y grŵp gorchwyl a gorffen. Bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru cyn diwedd y mis hwn, ac rwy'n credu ei fod yn creu cyfleoedd go iawn cyhyd â bod Cymru, fel cymuned fuddiant, yn rhoi blaenoriaeth yn ei chalon i wasanaethau cerdd, ac wrth hynny, golygaf y cyhoedd yn gyffredinol ond hefyd, pobl allweddol yn y celfyddydau perfformio, ein canolfannau celfyddydol a'n partneriaid yn y sector preifat sy'n ymdrin â'r diwydiannau creadigol. Cyhyd â bod pobl allweddol o ddifrif am eu rôl bosibl, yna rwy'n meddwl bod gennym ateb o bosibl yn adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen i'r rhan fwyaf o'r problemau sy'n ymwneud â gwasanaethau cerdd mewn ysgolion, ond mae angen i'n partneriaid roi eu cefnogaeth iddo.

Senedd.tv Fideo Video

14:12 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Minister, I think it's simply not true to say that it's because of the Conservative Government that this is happening because I remember when I was first elected in 2007 many councils were going about cutting music services. This is about what you as a Welsh Government and what local authorities across Wales prioritise. Bridgend Youth Music were here today saying that they're struggling to keep the orchestra alive on a Friday night, as are Merthyr, as are Pontypridd, because of those cutbacks. What will this task and finish group deliver to the very real situation on our streets whereby those services are being cut in the here and now?

Weinidog, rwy'n credu nad yw'n wir o gwbl mai oherwydd y Llywodraeth Geidwadol y mae hyn yn digwydd gan fy mod yn cofio pan gefais fy ethol gyntaf yn 2007 fod nifer o gynghorau yn torri gwasanaethau cerdd. Mae hyn yn ymwneud â'r hyn rydych chi fel Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ledled Cymru yn rhoi blaenoriaeth iddo. Roedd Cerddoriaeth Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr yma heddiw yn dweud eu bod yn cael trafferth i gadw'r gerddorfa yn fyw ar nos Wener, fel y mae Merthyr, fel y mae Pontypridd, oherwydd y toriadau hynny. Beth fydd y grŵp gorchwyl a gorffen yn ei gynnig i'r sefyllfa go iawn ar ein strydoedd lle y mae'r gwasanaethau hynny'n cael eu torri ar hyn o bryd?

Senedd.tv Fideo Video

14:13 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Well, I hope I have indicated that I share the Member's concerns about this very important area of Welsh cultural life. I'm alive to the pressures that the people concerned who struggle to deliver on these music services are under, but I cannot this afternoon give a free preview of the actual task and finish group report. But I will say this: I think the task and finish group report contains obvious and helpful recommendations but also within it is an innovative solution that really could turn around the situation if enough sincere partners were to grasp the opportunity. I'll just say that for this afternoon, but it is for later in the month, when this is published on our website, for that to become public.

Wel, rwy'n gobeithio fy mod wedi dangos fy mod yn rhannu pryderon yr Aelod am y maes pwysig hwn o fywyd diwylliannol Cymru. Rwy'n ymwybodol o'r pwysau ar y bobl sy'n cael trafferth i ddarparu gwasanaethau cerdd o'r fath, ond y prynhawn yma ni allaf roi rhagolwg rhad ac am ddim o adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen. Ond rwyf am ddweud hyn: rwy'n meddwl bod adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen yn cynnwys argymhellion amlwg a defnyddiol ond hefyd mae'n cynnwys ateb arloesol a allai drawsnewid y sefyllfa pe bai digon o bartneriaid diffuant yn manteisio ar y cyfle. Hynny'n unig rwyf am ei ddweud y prynhawn yma, ond nid ddaw'n gyhoeddus tan yn ddiweddarach yn y mis pan gaiff ei gyhoeddi ar ein gwefan.

Senedd.tv Fideo Video

14:14 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Can I ask, Minister, what assessment you have done and what impact will the introduction of the Welsh baccalaureate at GCSE level have on optional subjects such as music?

A gaf fi ofyn, Weinidog, pa asesiad rydych wedi'i wneud a beth fydd effaith cyflwyno bagloriaeth Cymru ar lefel TGAU ar bynciau dewisol megis cerddoriaeth?

Senedd.tv Fideo Video

14:14 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Well, the Welsh bac, of course, opens up all sorts of opportunities, and the intent behind the Welsh baccalaureate is that we should keep as broad as possible the education of our young people. It's essentially our bulwark against the narrowing of the curriculum within Wales, and there are multiple ways in which a school could deliver along these artistic and cultural lines, yes.

Wel, mae Bagloriaeth Cymru, wrth gwrs, yn agor pob math o gyfleoedd, a'r bwriad sy'n sail i fagloriaeth Cymru yw y dylem gadw addysg ein pobl ifanc mor eang â phosibl. Dyma ein hamddiffyniad rhag culhau'r cwricwlwm yng Nghymru i bob pwrpas, ac mae ffyrdd lluosog y gall ysgol gyflawni ar hyd y llinellau artistig a diwylliannol hyn, oes.

Senedd.tv Fideo Video

14:14

## 2. Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

## 2. Questions to the Minister for Economy, Science and Transport

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to questions from the Minister for Economy, Science and Transport. Question 1 is from Mark Isherwood.

Symudwn yn awr at gwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Daw cwestiwn 1 gan Mark Isherwood.

### Gwasanaethau Rheilffyrdd Gogledd Cymru

### Rail Services in North Wales

14:15 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

*1. A wnaiff y Gweinidog amlinellu cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau rheilffyrdd yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)0569(EST)*

*1. Will the Minister outline Welsh Government proposals for rail services in North Wales? OAQ(4)0569(EST)*

Senedd.tv Fideo Video

14:15 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

I think all of us in this Chamber are committed to improving rail services in north Wales to ensure that we maximise the economic opportunities for jobs and access to services that transport connectivity, both across Wales and further, can deliver for the economy.

Rwy'n meddwl bod pob un ohonom yn y Siambr wedi ymrwymo i wella gwasanaethau rheilffyrdd yn y gogledd i sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o'r cyfleoedd economaidd ar gyfer swyddi a mynediad at wasanaethau y gall cysylltedd trafnidiaeth ar draws Cymru ac ymhellach eu cynnig i'r economi.

Senedd.tv Fideo Video

14:15

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

How do you respond to the rail user groups that are now calling for the reinstatement of the scheme for the redoubling of the line south of Rossett that leads to Gresford bank and north and Wrexham for the A483, stating that to have spent £44 million to provide for one extra service between north and south Wales every two hours would represent a poor return on the investment without the redoubling being reinstated?

Sut rydych yn ymateb i'r grwpiau defnyddwyr rheilffyrdd sydd bellach yn galw am adfer y cynllun i ailddyblu'r rheilffordd i'r de o'r Orsedd sy'n arwain at arglawdd Gresffordd a'r gogledd a Wrecsam ar gyfer yr A483, gan nodi y byddai gwario £44 miliwn i ddarparu ar gyfer un gwasanaeth ychwanegol rhwng gogledd a de Cymru bob dwy awr wedi bod yn enillion gwael ar y buddsoddiad heb adfer y cynllun i ailddyblu?

14:15

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You always manage to read their comments in a hostile tone, while I actually have a good deal of dialogue with these rail user groups and I'm very sympathetic to the issues that they raise with me, because it is important to have value for money and recognise some of the issues. We've only got to look—. Gresford bank is an enormous issue in terms of what we could do, but I can assure you that these matters are under constant review to ensure we have the best system we can.

Rydych chi bob amser yn llwyddo i ddarllen eu sylwadau mewn modd gelyniaethus, ond mewn gwirionedd rwy'n trafod llawer â'r grwpiau defnyddwyr rheilffyrdd ac yn cydymdeimlo'n fawr â'r materion y maent yn eu dwyn i fy sylw, oherwydd mae'n bwysig cael gwerth am arian a chydnabod rhai o'r problemau. Mae'n rhaid i ni edrych—. Mae arglawdd Gresffordd yn fater enfawr o ran yr hyn y gallem ei wneud, ond gallaf eich sicrhau bod y pethau hyn yn cael eu hadolygu'n gyson er mwyn sicrhau bod gennym y system orau sy'n bosibl.

14:16

## Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wel, Weinidog, rwyf eisiau dweud 'diolch' wrthych chi ar ran yr holl deithwyr yn y canolbarth a'r gogledd sydd wedi bod yn chwilio am flynyddoedd am gael ffordd gyflym a hwylus i Gaerdydd ac yn ôl. O'r diwedd, mae'n bosib gwneud y siwrnai yna mewn dwy awr a 40 munud o'r Trallwng I Gaerdydd ac yn ôl. Diolch yn fawr ichi, a derbyniwch ein llongyfarchion ni, yn arbennig y grŵp rheilffordd ar y Cambrian, Amwythig ac Aberystwyth ac ar y glannau, am y newidiadau rydym ni wedi'u cael. Rydym ni'n edrych ymlaen at ragor, Weinidog.

Well, Minister, I want to thank you on behalf of all those people travelling in mid and north Wales who for years have been seeking a quick and convenient way to Cardiff and back. At last it's possible to undertake that journey in two hours and 40 minutes from Welshpool to Cardiff and back. Thank you very much, and accept our congratulations, particularly the Cambrian rail group, Shrewsbury and Aberystwyth and on the coast, for the changes that we have seen. We look forward to seeing more changes, Minister.

14:16

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That's a very nice question; thank you very much. [Laughter.]

Dyna gwestiwn braf iawn; diolch yn fawr iawn i chi. [Chwerthin.]

14:16

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, rwy'n gwybod eich bod yn ymwybodol hefyd o bwysigrwydd cysylltiadau i Lerpwl a Manceinion o'r gogledd. Mae yna adroddiad diweddar gan Acorn Transportation ar ran dinas-ranbarth Lerpwl sydd wedi bod yn edrych ar opsiynau o ran gwasanaethau rhwng Lerpwl a Chaer neu Lerpwl a Wrecsam, ac maen nhw wedi dewis Lerpwl i Gaer yn unig, gan ddweud mai dyna le mae'r gefnogaeth wleidyddol, yn Lloegr, ond yn fwy pwysig mai dyna'r unig ffordd y bydden nhw'n cael arian refeniw yn flynyddol. A ydych chi wedi cael cyfle i edrych ar yr adroddiad ac a oes posibiliadau, hwyrach, y byddwch chi'n cael trafodaethau pellach efo Merseyrail?

Minister, I know that you're also aware of the importance of links to Liverpool and Manchester from north Wales. Recently, Acorn Transportation published a report on behalf of the city region of Liverpool. They have been looking at options for services between Liverpool and Chester or Liverpool and Wrexham, and they've selected Liverpool to Chester only, saying that that is where the political support comes from, in England, but, more importantly, that's the only way that they will receive annual revenue funding. Have you had an opportunity to look at that report and is there a possibility that you will have further discussions with Merseyrail?

14:17

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes. Can I thank you for that? Obviously, my officials had the opportunity to look at the report and I thank you very much for your engagement, since our agreement on the budget with the Liberal Democrats, to look at expenditure on transport in north Wales. We've had very good discussions about how these matters should be taken further forward and we will have the opportunity to raise these issues again, because I think it is very important that we go into Wrexham.

Ydw. A gaf fi ddiolch i chi am hynny? Yn amlwg, cafodd fy swyddogion gyfle i edrych ar yr adroddiad a diolch yn fawr iawn am eich ymrwymiad, ers ein cytundeb ar y gyllideb gyda'r Democratiaid Rhyddfrydol, i edrych ar y gwariant ar drafnidiaeth yng ngogledd Cymru. Rydym wedi cael trafodaethau da iawn am y modd y dylai'r materion hyn gael eu datblygu ymhellach, a byddwn yn cael cyfle i'w codi eto, gan fy mod o'r farn ei bod yn bwysig iawn i ni fynd i mewn i Wrecsam.

**Cyffordd 41 yr M4**

**Junction 41 of the M4**

14:18

## David Rees Bywgraffiad Biography

*2. A wnaiff y Gweinidog ddarparu amserlen fanwl ar gyfer y penderfyniad terfynol ar weithrediad ffordd ymuno tua'r gorllewin cyffordd 41 yr M4 yn y dyfodol? OAQ(4)0581(EST)*

*2. Will the Minister provide a detailed timeline for the final decision on the future operation of the westbound entry slip road of junction 41 of the M4? OAQ(4)0581(EST)*

Senedd.tv Fideo Video

14:18

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Yes. I've no further updates since my letter of 29 May.

Iawn. Nid oes gennyf ddiweddariadau pellach ers fy llythyr dyddiedig 29 Mai.

Senedd.tv Fideo Video

14:18

## David Rees Bywgraffiad Biography

I don't know if I want to thank you for that answer, Minister; I'd have preferred and hoped for a timescale. The residents and businesses of Port Talbot, particularly in the Baglan area, do actually welcome that statement on 31 May to halt the trial whilst further analysis is being undertaken. They're actually looking forward to reporting reduced congestion on our local roads, safer journeys and the return to seeing our town centre busy until the close of business. However, as your letter stated, there is still uncertainty and people want that removed as quickly as possible, so a detailed timeline is important to them. Whilst we await this decision, could you also publish details of all the alternative options that have been considered and the responses to those alternatives in addressing the initial reason for the trial—the pinch points surrounding junction 41?

Nid wyf yn gwybod os wyf am ddiolch i chi am yr ateb hwnnw, Weinidog; roeddwn wedi gobeithio cael amserlen. A dweud y gwir, mae trigolion a busnesau Port Talbot, yn enwedig yn ardal Baglan, yn croesawu'r datganiad ar 31 Mai i atal y treial tra bod dadansoddiad pellach yn cael ei wneud. Mewn gwirionedd maent yn edrych ymlaen at gofnodi llai o dagfeydd ar ein ffyrdd lleol, teithiau diogelach a dychwelyd at weld canol y dref yn brysur tan ddiwedd y diwrnod gwaith. Fodd bynnag, fel y nodai eich llythyr, mae ansicrwydd o hyd ac mae pobl eisiau cael gwared arno cyn gynted â phosibl, felly mae amserlen fanwl yn bwysig iddynt. Wrth i ni aros am y penderfyniad, a allech chi hefyd gyhoeddi manylion yr holl opsiynau amgen a ystyriwyd a'r ymatebion i'r dewisiadau amgen hynny wrth fynd i'r afael â'r rheswm cychwynnol ar gyfer y treial—y mannau cyfyng o amgylch cyffordd 41?

Senedd.tv Fideo Video

14:19

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Yes. I will, of course, make the final report on the trial available shortly on the Traffic Wales website, and I'll update, of course, in terms of the details of potential alternative options that have been considered. But I can say that you can't have it one way or the other. If I take a decision too quickly, I'm asked to rush into it, and then if I take my time because I'm looking at the evidence, I'm too slow in giving the timescale. I've always said that I will look at all the evidence that is appropriate and make the decisions in the correct order and that is the line I intend to maintain.

Gallaf. Wrth gwrs, byddaf yn sicrhau bod yr adroddiad terfynol ar y treial ar gael cyn bo hir ar wefan Traffig Cymru, a byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf, wrth gwrs, o ran manylion y dewisiadau amgen posibl sydd wedi cael eu hystyried. Ond gallaf ddweud na allwch ei chael y ddwy ffordd. Os wyf yn gwneud penderfyniad yn rhy gyflym, mae gofyn i mi ruthro i'w wneud, ac os wyf yn cymryd fy amser am fy mod yn edrych ar y dystiolaeth, rwy'n rhy araf yn rhoi'r amserlen. Rwyf wedi dweud bob amser y byddaf yn edrych ar yr holl dystiolaeth sy'n briodol ac yn gwneud y penderfyniadau yn y drefn gywir a dyna'r llwybr rwy'n bwriadu cadw ato.

Senedd.tv Fideo Video

14:19

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Minister, as David Rees and other Members in the Chamber over the last few months have pointed out, residents in this part of my region are now pretty fed up with the whole junction 41 saga, and, not least, they consider it ridiculous for you to assert, as you did in your letter of 29 May, that the report into the effect of the experiment stated that queue length,

Weinidog, fel y nododd David Rees ac Aelodau eraill yn y Siambr dros yr ychydig fisoedd diwethaf, mae preswylwyr yn y rhan hon o fy rhanbarth bellach wedi cael llond bol ar holl saga cyffordd 41, ac yn anad dim, maent yn ei hystyried yn chwerthinllyd eich bod yn mynnu, fel y gwnaethoch yn eich llythyr dyddiedig 29 Mai, fod yr adroddiad ar effaith yr arbrawf yn datgan nad oedd hyd y ciw,

Senedd.tv Fideo Video

'did not show any significant impact attributable to the trial closure'.

' did not show any significant impact attributable to the trial closure'.

Do you have complete confidence in the report that you received on the effect of the closure, or is the delay in making a decision prompted or based on that report? Is the delay attributable to that and any concerns that you might have that a decision based on the report could result in a judicial review of any decision based on it? Sorry, not very eloquently put—I apologise.

A oes gennych hyder llwyr yn yr adroddiad rydych wedi ei dderbyn ar effaith y cau, neu a yw'r oedi cyn gwneud penderfyniad wedi ei ysgogi gan neu'n seiliedig ar yr adroddiad hwnnw? A yw'r oedi i'w briodoli i hynny ac unrhyw bryderon a allai fod gennych y gallai penderfyniad yn seiliedig ar yr adroddiad arwain at adolygiad barnwrol o unrhyw benderfyniad yn seiliedig arno? Mae'n ddrwg gennyf, ni ddywedais hynny'n huawdl iawn—rwy'n ymddiheuro.

14:20

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I accept the reports that I have in good faith in terms of the information, but I have taken into account views that have been expressed in this Chamber by Members and others. Therefore, I've asked officials to do some other work on this issue, and I will take my time to consider what emerges from there, because I understand it's a very sensitive and controversial issue.

Rwy'n derbyn yr adroddiadau sydd gennyf yn ddidwyll o ran y wybodaeth, ond rwyf wedi ystyried safbwyntiau a fynegwyd yn y Siambr hon gan Aelodau ac eraill. Felly, rwyf wedi gofyn i swyddogion wneud gwaith arall ar y mater hwn, a byddaf yn cymryd fy amser i ystyried beth a ddaw ohono, oherwydd rwy'n deall ei fod yn fater sensitif a dadleuol iawn.

14:20

## Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you may have heard of the incident involving a local pensioner, Ken Picton, who last week tried to use the slip road, assuming that the road would be open because, obviously, there were no dates in the letter that you gave us, only to be threatened by officials. He would have been blocked into the slip road area and the police would have been called had he not moved. I think this was a very heavy-handed way of treating somebody local who merely wanted to use the slip road after I had told him of the information in your letter. So, in a way that we can look positively forward, would you be willing to organise a forum locally that would be wider than the chamber of trade, that would look at the effect on businesses and the transportation so that local people who are interested and very interested, actually, in this issue—Ken is especially very interested in the transportation element—so that we can move forward positively in the discussion that we have with you as Minister?

Weinidog, efallai eich bod wedi clywed am y digwyddiad yn ymwneud â phensiynwr lleol, Ken Picton, a geisiodd ddefnyddio'r ffordd ymuno yr wythnos diwethaf, gan dybio y byddai'r ffordd yn agored oherwydd, yn amlwg, nid oedd unrhyw ddyddiadau yn y llythyr a roesoch i ni, a chael ei fygwth gan swyddogion. Byddai wedi cael ei flocio yn ardal y ffordd ymuno a byddai'r heddlu wedi cael eu galw pe na bai wedi symud. Rwy'n credu bod hon yn ffordd lawdrwm iawn o drin rhywun lleol a oedd ond eisiau defnyddio'r ffordd ymuno ar ôl i mi ei hysbysu o'r wybodaeth yn eich llythyr. Felly, er mwyn gallu edrych yn gadarnhaol i'r dyfodol, a fyddech yn barod i drefnu fforwm yn lleol a fyddai'n ehangach na'r siambr fasnach, i edrych ar yr effaith ar fusnesau a chludiant fel bod modd i bobl leol sydd â diddordeb, a diddordeb mawr, mewn gwirionedd, yn y mater—mae gan Ken ddiddordeb arbennig yn yr elfen gludiant—fel bod modd i ni allu symud ymlaen yn gadarnhaol yn y drafodaeth sydd gennym â chi fel Gweinidog?

14:21

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm sure that you will be taking matters forward on behalf of Ken Picton in view of his experience, which you have outlined, in your capacity as Assembly Member. I believe that I have all the necessary groups together in terms of consultation about this matter already.

Rwy'n siŵr y byddwch yn symud pethau yn eu blaenau ar ran Ken Picton o ystyried ei brofiad, a amlinellwyd gennych, yn rhinwedd eich swydd fel Aelod o'r Cynulliad. Credaf fy mod wedi cynnull yr holl grwpiau angenrheidiol eisoes o ran ymgynghori ar y mater hwn.

14:22

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, can I also welcome the reopening of junction 41? It is noticeable that the traffic in Port Talbot is much easier now, and that is just as well because I am having a surgery there in the next few weeks. Given that you've now effectively removed the physical barriers that were on the junction, the indication seems to be that a decision on the future of junction 41 is some way off. Can I ask whether you'll be doing any further monitoring of the M4 with the junction open, so that you can actually compare the situation now with the speed cameras on it as compared to when the junction was closed?

Weinidog, a gaf fi hefyd groesawu ailagoriad cyffordd 41? Mae'n amlwg fod y traffig ym Mhort Talbot yn llawer mwy llyfn yn awr, a gorau oll, gan fy mod yn cynnal cymhorthfa yno yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf. O gofio eich bod bellach wedi cael gwared ar y rhwystrau ffisegol a oedd ar y gyffordd i bob pwrpas, mae'n ymddangos na wneir penderfyniad ar ddyfodol cyffordd 41 am beth amser eto. A gaf fi ofyn a fyddwch yn gwneud unrhyw waith monitro pellach ar yr M4 gyda'r gyffordd ar agor, er mwyn i chi allu cymharu'r sefyllfa yn awr gyda'r camerâu cyflymder yno o gymharu â phan oedd y gyffordd ar gau?

14:22 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

I'm giving further consideration to these issues with my officials currently, and we'll of course update immediately if there are any developments with regard to the junction.

Rwy'n ystyried y materion hyn ymhellach gyda fy swyddogion ar hyn o bryd, a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar unwaith, wrth gwrs, os oes unrhyw ddatblygiadau mewn perthynas â'r gyffordd.

Senedd.tv Fideo Video

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from Party Spokespeople

14:22 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to spokespeople's questions. First this afternoon is the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Eluned Parrott.

Symudwn yn awr at gwestiynau'r llefarwyr. Yn gyntaf y prynhawn yma, mae llefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Eluned Parrott.

Senedd.tv Fideo Video

14:22 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Diolch, Lywydd. Minister, last week you confirmed that you have now established a not-for-dividend transport company, modelled on Transport for London—a transport for Wales, if you like. Can you confirm whether this company has been established specifically to run rail in Wales, or is it seen as a delivery unit for the south Wales metro?

Diolch, Lywydd. Weinidog, yr wythnos diwethaf fe gadarnhaoch eich bod bellach wedi sefydlu cwmni trafnidiaeth di-ddifidend, wedi'i fodelu ar Transport for London—Trafnidiaeth i Gymru, os mynnwch. A allwch gadarnhau a yw'r cwmni hwn wedi ei sefydlu yn benodol i redeg y rheilffyrdd yng Nghymru, neu a yw'n cael ei weld fel uned gyflawni ar gyfer metro de Cymru?

Senedd.tv Fideo Video

14:23 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

We are currently considering other matters regarding this and I'll be making a statement on the metro in due course.

Ar hyn o bryd rydym yn ystyried materion eraill ynglŷn â hyn a byddaf yn gwneud datganiad ar y metro maes o law.

Senedd.tv Fideo Video

14:23 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister, although, obviously, that's not necessarily confirming whether it is one or the other. In terms of looking at Transport for London as a model, I mean, clearly they have responsibility for traffic, for active travel, for buses and taxis, as well as underground and overground services in the London area. They're responsible for an integrated transport model, which is what this Welsh Government has often told us it means to do. So, can I ask whether you'll be giving your transport for Wales company in the future responsibility for monitoring and ensuring a smooth delivery of the Active Travel (Wales) Act 2013?

Diolch i chi, Weinidog, er nad yw hynny o reidrwydd yn cadarnhau ai'r naill neu'r llall ydyw, mae'n amlwg. O ran edrych ar Transport for London fel model, hynny yw, mae'n amlwg eu bod yn gyfrifol am draffig, am deithio llesol, am fysiau a thacsis, yn ogystal â gwasanaethau trenau tanddaearol ac ar yr wyneb yn ardal Llundain. Maent yn gyfrifol am fodel trafnidiaeth integredig, sef yr hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi dweud wrthym yn aml y mae'n bwriadu ei wneud. Felly, a gaf fi ofyn a fyddwch yn cynnwys eich cwmni Trafnidiaeth i Gymru yn y cyfrifoldeb dros fonitro a sicrhau bod Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn cael ei gweithredu'n rhwydd yn y dyfodol?

Senedd.tv Fideo Video

14:23 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Active travel will be integral to everything we do in terms of transport. Obviously, there will be linkages into that. I am, of course, briefing transport people from the three parties later about developments in this particular area, and I'm sure that you'll pick up further points with me in readiness for when I do my metro statement later this term.

Bydd teithio llesol yn rhan annatod o bopeth a wnawn o ran trafnidiaeth. Yn amlwg, bydd cysylltiadau â hynny. Byddaf yn briffio pobl trafnidiaeth o'r tair plaid yn ddiweddarach ynghylch datblygiadau yn y maes penodol hwn wrth gwrs, ac rwy'n siŵr y byddwch yn dwyn pwyntiau pellach i fy sylw erbyn yr adeg y byddaf yn gwneud fy natganiad ar y metro yn ddiweddarach yn ystod y tymor hwn.

Senedd.tv Fideo Video

14:24 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Indeed, Minister, and I shall look forward to it, but I do have some questions, for the record. One of the interesting things in transport, obviously, for the future is that bus regulation is likely to be devolved in the next Wales Bill going before the Westminster Parliament. Clearly, this is a contentious issue, but if it is, will you be giving responsibility for bus regulation to your transport for Wales company to allow it to develop that integration that will be necessary in the delivery of the metro, but also in the delivery of rail services all over Wales to ensure that they work effectively together? If you do, does that mean that you are likely to move towards a direct commissioning model for bus services in the way that you've indicated that you may be looking at in terms of rail services in Wales?

Yn wir, Weinidog, ac edrychaf ymlaen at hynny, ond mae gennyf rai cwestiynau, ar gyfer y cofnod. Un o'r pethau diddorol o ran trafnidiaeth ar gyfer y dyfodol wrth gwrs yw bod rheoleiddio bysiau yn debygol o gael ei ddatganoli yn y Bil Cymru nesaf i fynd gerbron Senedd San Steffan. Yn amlwg, mae'n fater dadleuol, ond os yw'n mynd i gael ei ddatganoli, a fyddwch yn rhoi cyfrifoldeb am reoleiddio bysiau i'ch cwmni Trafnidiaeth i Gymru i'w alluogi i ddatblygu'r integreiddio a fydd yn angenrheidiol wrth gyflwyno'r metro, ond hefyd wrth gyflwyno gwasanaethau rheilffordd ar hyd a lled Cymru er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd? Os byddwch yn gwneud hynny, a yw'n golygu eich bod yn debygol o symud tuag at fodel comisiynu uniongyrchol ar gyfer gwasanaethau bysiau yn y ffordd rydych wedi nodi y gallech fod yn edrych arni ar gyfer gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru?

14:25 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that there are a lot of options to consider if and when we have the deregulation of bus services. I do want the deregulation of bus services, because even in the early discussions now about the metro, it's necessary to see that we can actually tell buses what to do in terms of routes, but there will be further consideration about this and I will keep Members updated.

Rwy'n meddwl bod llawer o ddewisiadau i'w hystyried os a phan fyddwn wedi dadreoleiddio gwasanaethau bysiau. Rwyf eisiau i wasanaethau bysiau gael eu dadreoleiddio, oherwydd hyd yn oed yn y trafodaethau cynnar yn awr am y metro, mae angen gweld y gallwn ddweud wrth fysiau beth i'w wneud o ran llwybrau, ond bydd hyn yn cael ei ystyried ymhellach a byddaf yn sicrhau bod yr Aelodau'n cael y wybodaeth ddiweddaraf.

14:25 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the Welsh Conservatives' spokesperson, Suzy Davies.

Symudwn yn awr at lefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Suzy Davies.

14:25 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch unwaith eto, Lywydd.

Thank you again, Presiding Officer.

Minister, yesterday, of course, we had the news regarding the planning permission consent for the Swansea bay tidal lagoon. In your capacity as economy Minister, and of course as a fellow Swansea bay Assembly Member, I'd be keen to hear what you might say to any individuals who might still be concerned about the effect of the lagoon to our local economy.

Weinidog, ddoe wrth gwrs, cawsom y newyddion ynghylch y caniatâd cynllunio i forlyn llanw bae Abertawe. Yn rhinwedd eich swydd fel Gweinidog yr economi, ac wrth gwrs fel cyd-Aelod o'r Cynulliad dros fae Abertawe, rwy'n awyddus i glywed beth fyddech yn ei ddweud wrth unrhyw un a allai fod yn parhau'n bryderus ynglŷn ag effaith y morlyn ar ein heconomi leol.

14:25 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Suzy Davies for her question, but the indication was that it was a question to the Deputy Minister that we were advised of at 12 noon. I'm more than happy to confirm that, as a Government, we've been very supportive of the tidal lagoon. There's been absolute delight in Swansea about the opportunities that the tidal lagoon project will give in Swansea, and also not limited to Swansea, but the opportunities for new industries within Wales and, perhaps particularly, Swansea and west Wales.

Diolch i Suzy Davies am ei chwestiwn, ond yr hyn a ddynodwyd oedd mai cwestiwn i'r Dirprwy Weinidog ydyw, a chawsom wybod amdano am hanner dydd. Rwy'n fwy na pharod i gadarnhau ein bod fel Llywodraeth wedi bod yn gefnogol iawn i'r morlyn llanw. Mae pobl Abertawe wedi bod wrth eu boddau ynglŷn â'r cyfleoedd y bydd prosiect y morlyn llanw yn eu cynnig yn Abertawe, a heb eu cyfyngu i Abertawe chwaith, ond y cyfleoedd i ddiwydiannau newydd yng Nghymru, ac Abertawe a gorllewin Cymru yn arbennig efallai.

14:26 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Thank you for your answer, and apologies, Minister, I didn't realise that the question had been allocated to the Deputy Minister, to whom I also apologise. I wonder if either of you could answer this for me then, please, because, as we know, the main infrastructure part of the plan has been granted to a Chinese firm because there are no companies in the area that are capable of dealing with that major an infrastructure. I'm keen to hear if either of you have spoken to businesses in the local supply chain and whether there'll be any new businesses created as a result of the tidal lagoon coming to the bay.

Diolch i chi am eich ateb, ac ymddiheuriadau, Weinidog, nid oeddwn yn sylweddoli bod y cwestiwn wedi'i bennu ar gyfer y Dirprwy Weinidog, ac rwy'n ymddiheuro iddo yntau hefyd. Tybed a fyddai modd i'r naill neu'r llall ohonoch ateb hyn i mi felly, os gwelwch yn dda, oherwydd, fel y gwyddom, rhoddwyd prif ran seilwaith y cynllun i gwmni Tsieineaidd am nad oes unrhyw gwmnïau yn yr ardal yn gallu delio â seilwaith mor fawr. Rwy'n awyddus i glywed a oes un ohonoch wedi siarad â busnesau yn y gadwyn gyflenwi leol ac a fydd unrhyw fusnesau newydd yn cael eu creu yn sgil dyfodiad y morlyn llanw i'r bae.

14:26 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

At my energy policy group, we had a presentation from the tidal lagoon, and one of the issues that they raised with us was the whole issue around small and medium-sized enterprise participation if things go ahead, how we can encourage the necessary infrastructure, really, in terms of jobs that might be available and what's required. So, we will be giving some further consideration to that, but, as you will appreciate, this is a planning permission issue. There are further stages to go through in respect of relationships and what DECC are likely to do, and it is sometimes difficult for SMEs, quite small ones, to look over that horizon and put the investment in something until there's absolute certainty on it, but we are, obviously, working, like we've done with the nuclear industry, to look at supply chains.

Yn fy ngrŵp polisi ynni, cawsom gyflwyniad gan bobl y morlyn llanw, ac un o'r materion a grybwyllwyd wrthym oedd cyfranogiad mentrau bach a chanolig eu maint os yw pethau'n mynd yn eu blaenau, sut y gallwn annog y seilwaith angenrheidiol, mewn gwirionedd, o ran swyddi a allai fod ar gael a'r hyn sydd ei angen. Felly, byddwn yn ystyried hynny ymhellach, ond fel y byddwch yn sylweddoli, mae'n fater sy'n ymwneud â chaniatâd cynllunio. Mae camau pellach i fynd drwyddynt o ran cysylltiadau a beth y mae'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd yn debygol o wneud, ac weithiau mae'n anodd i fusnesau bach a chanolig, rhai eithaf bach, i edrych dros y gorwel hwnnw a buddsoddi yn rhywbeth hyd nes y ceir sicrwydd llwyr yn ei gylch, ond yn amlwg, rydym yn gweithio, fel rydym wedi ei wneud gyda'r diwydiant niwclear, i edrych ar gadwyni cyflenwi.

14:27 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I'm very grateful for that answer as well. Again, I'm not sure who would like to answer this one, but, obviously, one of the selling points of the lagoon was the potential tourism benefits that it could bring to the area, and while Neath Port Talbot council no longer offers tourism development services, both Swansea and Carmarthenshire councils and Tourism Swansea Bay, the membership organisation locally, have taken up the challenge of promoting leisure tourism in particular. However, developing the business visitor economy is just as important, and, of course, it's a major factor in introducing inward investment into the bay in the face of fierce competition. Where do you see the existing but separate body of tourism expertise fitting into the wider economic development responsibilities of the big city region structures?

Rwy'n ddiolchgar iawn am yr ateb hwnnw hefyd. Unwaith eto, nid wyf yn siŵr pwy fyddai'n hoffi ateb hwn, ond yn amlwg, un o bwyntiau gwerthu'r morlyn oedd y manteision twristiaeth posibl y gallai eu dwyn i'r ardal, ac er nad yw cyngor Castell-nedd Port Talbot bellach yn cynnig gwasanaethau datblygu twristiaeth, mae cynghorau Abertawe a Sir Gaerfyrddin a Twristiaeth Bae Abertawe, y sefydliad aelodaeth yn lleol, wedi derbyn yr her o hyrwyddo twristiaeth hamdden yn arbennig. Fodd bynnag, mae datblygu economi ymwelwyr busnes yr un mor bwysig, ac wrth gwrs, mae'n ffactor mawr wrth gyflwyno buddsoddiad o'r tu allan i mewn i'r bae yn wyneb cystadleuaeth ffyrnig. Ble rydych chi'n gweld y corff presennol ond ar wahân o arbenigedd twristiaeth yn cymryd ei le yn rhan o gyfrifoldebau datblygu economaidd ehangach y strwythurau dinas-ranbarth mawr?

14:28 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The city region already takes on board tourism responsibilities. It has businesses that are interested in tourism, et cetera, and they are proceeding very well. They recognise the opportunities that the lagoon can bring, possibly, to tourism, and I can assure you that under Sir Terry Matthews, they're on top of this case.

Mae'r ddinas-ranbarth eisoes yn ysgwyddo cyfrifoldebau twristiaeth. Mae ganddo fusnesau sydd â diddordeb mewn twristiaeth ac ati, ac maent yn mynd rhagddynt yn dda iawn. Maent yn cydnabod y cyfleoedd y gall y morlyn eu creu i dwristiaeth o bosibl, a gallaf eich sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â hyn yn dda o dan Syr Terry Matthews.

14:28 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Thank you.

Diolch yn fawr.

14:28 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

We now move to Plaid Cymru's spokesperson, Rhun ap Iorwerth.

Symudwn yn awr at lefarydd Plaid Cymru, Rhun ap Iorwerth.

14:28 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Lywydd. Wales is an exporting nation, the value of our exported goods outweighing imports by about £5 billion, compared with the deficit for the UK as a whole of around a £100 billion. But, figures released last week by HM Revenue and Customs, which you'll be very aware of, I'm sure, show that Wales's traditionally strong performance on exports has been declining at an alarming rate under this Labour Government. What assessment has the Minister made of why our exports are falling so rapidly?

Diolch, Lywydd. Mae Cymru yn genedl sy'n allforio, mae gwerth ein nwyddau allforio £5 biliwn yn fwy na'n mewnforion, o'i gymharu â'r diffyg ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd o tua £100 biliwn. Ond mae ffigurau a ryddhawyd yr wythnos diwethaf gan Gyllid a Thollau EM, y byddwch yn ymwybodol iawn ohonynt rwy'n siŵr, yn dangos bod perfformiad traddodiadol gryf Cymru mewn perthynas ag allforion wedi bod yn gostwng ar raddfa frawychus o dan y Llywodraeth Lafur hon. Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r rheswm pam y mae ein hallforion yn gostwng mor gyflym?

14:29 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I think that there is further work to be undertaken on the drive for exports. I think that we have to do a lot more work with SMEs to encourage them to export. Sometimes SMEs are very confident about the business they do internally in Wales, perhaps within the UK, but we want to give them that extra spurt, I think, to make them confident to do more work abroad. There are discussions going on there, because that is one of the points that was actually made at the economic renewal council, about confidence in businesses getting bigger, stronger and, of course, then, export.

Ie, rwy'n meddwl bod gwaith pellach i'w wneud ar yr ymdrech i sicrhau allforion. Credaf fod yn rhaid i ni wneud llawer mwy o waith gyda busnesau bach a chanolig i'w hannog i allforio. Weithiau mae busnesau bach a chanolig yn hyderus iawn ynglŷn â'r busnes y maent yn ei wneud yn fewnol yng Nghymru, o fewn y DU efallai, ond rydym am roi'r hwb ychwanegol hwnnw iddynt, rwy'n meddwl, i'w gwneud yn hyderus i wneud mwy o waith dramor. Mae trafodaethau ar y gweill yn hyn o beth, am mai dyna un o'r pwyntiau a wnaed yn y cyngor adnewyddu'r economi mewn gwirionedd, ynghylch hyder i wneud i fusnesau dyfu'n fwy, yn gryfach ac yna allforio wrth gwrs.

14:29 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will, for the record, outline some of the figures that were published last week. They show that the value of exports decreased by 12 per cent during the year to March of this year. There had been a fall in exports for each of the last five quarters compared with the corresponding quarters of the previous year. To name just two countries: our exports to Ireland dropped by 23 per cent and to the Netherlands by 26 per cent. So, it's clear that this Government currently is presiding over a drastic decline in Wales's export base—another, from a general mention of working with SMEs. What specific steps can you, do you think, put in place now to halt this decline and reverse it?

Er mwyn eu cofnodi, amlinellaf rai o'r ffigurau a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf. Maent yn dangos bod gwerth allforion wedi gostwng 12 y cant yn ystod y flwyddyn hyd at fis Mawrth eleni. Cafwyd gostyngiad mewn allforion ym mhob un o'r pum chwarter diwethaf o gymharu â'r chwarteri cyfatebol yn ystod y flwyddyn flaenorol. I enwi dwy wlad yn unig: cafwyd gostyngiad o 23 y cant yn ein hallforion i Iwerddon a gostyngiad o 26 y cant yn ein hallforion i'r Iseldiroedd. Felly, mae'n amlwg fod y Llywodraeth hon ar hyn o bryd yn llywyddu dros ddirywiad difrifol yn sylfaen allforio Cymru. Hefyd, o sôn yn gyffredinol am weithio gyda busnesau bach a chanolig, pa gamau penodol y gallwch eu rhoi ar waith yn awr, yn eich barn chi, i atal y dirywiad hwn a'i wrthdroi?

14:30 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think we can all talk about statistics and some of the underlying reasons for them, and it's not as straightforward as just saying we've presided over that. There are significant issues, obviously—you've only got to look at the Murco oil refinery, and there are various factors.

Rwy'n meddwl y gallwn i gyd siarad am ystadegau a rhai o'r rhesymau sylfaenol drostynt, ac nid yw mor syml â dweud ein bod wedi llywyddu dros hynny. Mae yna faterion o bwys, yn amlwg—nid oes ond raid i chi edrych ar burfa olew Murco, a cheir nifer o ffactorau.

But, in terms of SMEs, I think it is giving them more encouragement, putting in place more help and assistance for them, if they are deciding to export, and encouraging more of them to come forward if they do want to test the market—about going on trade shows and going abroad, and making that better and more accessible. And I think we've done a lot about that. There's some very successful small companies that do export. You've only got to look at your own constituency, when I talk about salt. When they first started to think about it, who would have thought that would have gone all across the globe, in the very successful way it has? I appreciate there are issues, and there is work to be done, but I think we've got a strong base to do the work.

Ond o ran busnesau bach a chanolig, rwy'n credu bod rhoi mwy o help a chymorth ar waith yn rhoi mwy o anogaeth iddynt os ydynt yn penderfynu allforio, ac yn annog mwy ohonynt i ddod ymlaen os ydynt yn awyddus i brofi'r farchnad—ynghylch mynd i sioeau masnach a mynd dramor, a gwneud hynny'n well ac yn fwy hygyrch. Ac rwy'n credu ein bod wedi gwneud llawer am hynny. Mae rhai cwmnïau bach llwyddiannus yn allforio. Nid oes ond raid i chi edrych ar eich etholaeth eich hun, pan soniaf am halen. Pan ddechreuwyd meddwl am y peth, pwy fyddai wedi meddwl y byddai hynny wedi mynd ar draws y byd mewn modd mor llwyddiannus? Rwy'n derbyn bod problemau, ac mae gwaith i'w wneud, ond rwy'n meddwl bod gennym sylfaen gadarn ar gyfer gwneud y gwaith.

14:31

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I'd like to explore just one other potential idea. There is a clear link, of course, between private sector profitability and a country's exporting performance. Looking back to the 1990s, actually, there's a very good case in point. Between 1996 and 1999, Wales's net exports fell by £1.6 billion; that was around 6 per cent of Welsh GDP—the same amount by which Welsh GDP fell, relative to the rest of the UK, during the latter half of the 1990s. And that same mid to late 1990s period coincided with a steep decline in Welsh business profitability.

Hoffwn archwilio un syniad posibl arall. Mae cysylltiad clir, wrth gwrs, rhwng proffidioldeb y sector preifat a pherfformiad allforio gwlad. Wrth edrych yn ôl i'r 1990au, mewn gwirionedd, mae yna enghraifft dda iawn o hyn. Rhwng 1996 a 1999, cafwyd gostyngiad o £1.6 biliwn yn allforion net Cymru; roedd hynny oddeutu 6 y cant o gynnyrch domestig gros Cymru—yr un faint ag y gostyngodd cynnyrch domestig gros Cymru o gymharu â gweddill y DU, yn ystod ail hanner y 1990au. Ac roedd yr un cyfnod hwnnw rhwng canol a diwedd y 1990au yn cyd-daro gyda gostyngiad serth ym mhroffidioldeb busnesau yng Nghymru.

So, this exporting issue is clearly a vital one. And, given the clear importance of exports to the economy, given the urgent need for action to halt the decline, does the Minister agree that there's a strong argument now to establish an overseas trade body, not only to help those businesses already looking to export to realise their ambitions—those exporting already—but also to proactively encourage other businesses to export and seek new opportunities?

Felly, mae mater allforio yn amlwg yn un hollbwysig. Ac o gofio pwysigrwydd clir allforion i'r economi, o ystyried yr angen brys am weithredu i atal dirywiad, a yw'r Gweinidog yn cytuno bod dadl gref bellach dros sefydlu corff masnach dramor, nid yn unig i helpu busnesau sydd eisoes yn ystyried allforio i wireddu eu huchelgeisiau—y rhai sydd eisoes yn allforio—ond hefyd i fynd ati'n rhagweithiol i annog busnesau eraill i allforio a chwilio am gyfleoedd newydd?

14:32

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I think we do have the organisational structure in place already. I think there's more we can probably do with our existing organisational structure. Yes, I'm as keen as him to look at exports. But, of course, exports are about going outside the UK. It's very interesting seeing the number of Welsh firms that actually export into England, and elsewhere, where we are very successful as well, and perhaps I should do some more analysis on that figure for the benefit of Members as well.

Rwy'n credu bod gennym strwythur trefniadol eisoes ar waith. Rwy'n credu y gallwn wneud mwy gyda'n strwythur trefniadol presennol yn ôl pob tebyg. Ydw, rwyf yr un mor awyddus ag yntau i edrych ar allforion. Ond wrth gwrs, mae allforion yn ymwneud â mynd y tu allan i'r DU. Mae'n ddiddorol iawn gweld nifer y cwmnïau o Gymru sy'n allforio i Loegr mewn gwirionedd, ac i fannau eraill lle rydym yn llwyddiannus iawn hefyd, ac efallai y dylwn wneud ychydig mwy o ddadansoddi ar y ffigur hwnnw er budd yr Aelodau.

### Taliadau Hwyr

### Late Payments

14:32

## Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*3. Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i fusnesau bach sy'n cael eu rhoi o dan anfantais oherwydd taliadau hwyr a wneir iddynt gan gwmnïau eraill? OAQ(4)0572(EST)*

*3. What assistance does the Welsh Government provide to small businesses that are disadvantaged by late payments made to them by other companies? OAQ(4)0572(EST)*

14:32 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Obviously, as the Member is aware, this is a reserved matter for the UK Government. But the Business Wales service can support SMEs to mitigate the risks associated with late payments. We've got a website, which has introduced a business finance zone, providing small businesses with access to information, including guidance on ensuring customers pay on time.

Yn amlwg, fel y mae'r Aelod yn ymwybodol, mae hwn yn fater a gadwyd yn ôl i Lywodraeth y DU. Ond gall gwasanaeth Busnes Cymru gynorthwyo busnesau bach a chanolig i liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â thaliadau hwyr. Mae gennym wefan, sydd wedi cyflwyno parth cyllid busnes ac sy'n rhoi gwybodaeth i fusnesau bach, gan gynnwys canllawiau ar sicrhau bod cwsmeriaid yn talu'n brydlon.

Senedd.tv Fideo Video

14:33 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Diolch am yr ateb hynny, ac rwy'n deall y pwynt yr ydych yn ei wneud, ac felly'n ystyried y goblygiadau hynny—bod San Steffan yn gyfrifol. Ond, o gofio bod cymaint o achosion o daliadau hwyr yn cynnwys busnesau mawr, pa ddisgwyliadau sydd gan y Gweinidog o gwmnïau angor Cymreig dynodedig pan ddaw i dalu busnesau bach sy'n eu cyflenwi â nwyddau a gwasanaethau?

Thank you for that response, and I understand the point that you make and take your point that Westminster is responsible for this. But, given that there are so many cases of late payments involving large businesses, what expectations does the Minister have of anchor companies in Wales when it comes to actually making payments to their smaller suppliers?

Senedd.tv Fideo Video

14:33 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Well, obviously, the UK Government has actually been very helpfully looking at the introduction of a new reporting requirement, which will provide information on companies' payment practices and policies. And, of course, that will impact on the culture within large organisations, which will include the anchor companies in Wales. And, indeed, we're looking forward to further detail on this from the UK Government, because I think we're all aware of the difficulties that small businesses have when they're not the primary contractor, they're awaiting payments from other contractors, and the difficulty this causes for their cashflow.

Wel, yn amlwg, mae Llywodraeth y DU wedi bod yn ystyried cyflwyno gofyniad adrodd newydd, sy'n ddefnyddiol iawn. Bydd y gofyniad yn darparu gwybodaeth am arferion a pholisïau talu cwmnïau. Ac wrth gwrs, bydd hynny'n effeithio ar y diwylliant mewn sefydliadau mawr, a fydd yn cynnwys y cwmnïau angori yng Nghymru. Ac yn wir, rydym yn edrych ymlaen at gael manylion pellach ar hyn gan Lywodraeth y DU, oherwydd credaf ein bod i gyd yn ymwybodol o'r anawsterau y mae busnesau bach yn eu hwynebu pan nad ydynt yn brif gontractwyr, pan fyddant yn aros am daliadau gan gontractwyr eraill, a'r anhawster y gall hyn ei achosi o ran eu llif arian.

Senedd.tv Fideo Video

14:34 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Of course, Minister, one way that the Welsh Government could better support small businesses in Wales would be by implementing a better regime of business rate relief, which the Welsh Conservatives have long been calling for. Would you agree with me, Minister, that there is a wider issue here about how we support small and medium-sized enterprises—and it's one that I raised with the Minister for finance in the procurement debate earlier this week? SMEs feel, and smaller businesses feel, that there is a weighting towards larger companies, which is partially accepted, but there should be a weighting that favours smaller companies, particularly local smaller companies. Will you work with the Minister for finance to make sure that it is an even playing field, and that small home-grown Welsh business are able to compete with the bigger players?

Wrth gwrs, Weinidog, un ffordd y gallai Llywodraeth Cymru gefnogi busnesau bach yn well yng Nghymru fyddai drwy weithredu cyfundrefn well o ryddhad ardrethi busnes, fel y mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi galw amdano ers amser hir. A fyddech yn cytuno â mi, Weinidog, fod yna gwestiwn ehangach yma ynglŷn â sut rydym yn cefnogi mentrau bach a chanolig eu maint—ac mae'n un y soniais wrth y Gweinidog cyllid yn ei gylch yn y ddadl ar gaffael yn gynharach yr wythnos hon? Mae busnesau bach a chanolig yn teimlo, a busnesau llai yn teimlo, fod pwysoliad tuag at gwmnïau mwy o faint, sy'n cael ei dderbyn yn rhannol, ond dylid cael pwysoliad sy'n ffafrio cwmnïau llai o faint, yn enwedig cwmnïau lleol llai o faint. A wnewch chi weithio gyda'r Gweinidog cyllid i sicrhau chwarae teg, a bod busnesau bach cynhenid o Gymru yn gallu cystadlu yn erbyn cwmnïau mwy o faint?

Senedd.tv Fideo Video

14:34 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

I know that my colleague, the Minister for finance, looks at all aspects of her portfolio to see how she can greatly assist more SMEs.

Gwn fod fy nghyd-Aelod, y Gweinidog cyllid, yn edrych ar bob agwedd ar ei phortffolio er mwyn gweld sut y gall fod o gymorth mawr i fwy o fusnesau bach a chanolig.

Senedd.tv Fideo Video

## Cynllun Rhyddhad Manwerthu Cymru

## The Wales Retail Relief Scheme

14:35 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*4. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu cynllun rhyddhad manwerthu Cymru? OAQ(4)0579(EST)*

*4. Will the Minister provide an update on the implementation of the Wales Retail Relief scheme? OAQ(4)0579(EST)*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

14:35 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes. In April, I announced that the Wales retail relief scheme would be extended and enhanced this year, offering relief of up to £1,500 for businesses in Wales. Local authorities are responsible for administering this relief.

Gwnaf. Ym mis Ebrill, cyhoeddais y byddai cynllun rhyddhad manwerthu Cymru yn cael ei ymestyn a'i wella eleni, gan gynnig rhyddhad o hyd at £1,500 i fusnesau yng Nghymru. Yr awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am weinyddu'r rhyddhad hwn.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

14:35 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. In my Delyn constituency, there are small businesses and retailers, which, as you know, have operations that are vital to the local economy. This scheme will play a part in helping them to grow their businesses, but it's vital that businesses are clearly aware of what support is available to them and are able to access that information easily. So, can I ask how details and implementation of the scheme are being publicised via those local authorities to ensure that information reaches eligible businesses?

Diolch yn fawr, Weinidog. Yn fy etholaeth, sef Delyn, ceir busnesau a manwerthwyr bach, sydd, fel y gwyddoch, yn cyflawni gweithrediadau sy'n hanfodol i'r economi leol. Bydd y cynllun hwn yn chwarae rhan yn y broses o'u helpu i dyfu eu busnesau, ond mae'n hanfodol fod busnesau yn amlwg yn ymwybodol o ba gefnogaeth sydd ar gael iddynt ac yn gallu cael gafael ar y wybodaeth yn hawdd. Felly, a gaf fi ofyn sut y mae manylion am y cynllun a'i weithrediad yn cael eu cyhoeddi drwy gyfrwng yr awdurdodau lleol i sicrhau bod gwybodaeth yn cyrraedd busnesau cymwys?

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

14:35 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I've asked local authorities to take steps to make ratepayers in their areas aware of this relief to ensure that eligible businesses can access the support. There are obviously issues around this, because, when we reviewed the previous scheme, some businesses had clearly not applied, but that wasn't a specific issue in Wales, it was actually in England, and there were forecasts of underspend. But we'll certainly do further work in that area because I wouldn't want businesses to miss out for the lack of opportunity of having the scheme advised to them and advertised to them.

Rwyf wedi gofyn i awdurdodau lleol roi camau ar waith i wneud talwyr ardrethi yn eu hardaloedd yn ymwybodol o'r rhyddhad hwn er mwyn sicrhau bod y cymorth ar gael i fusnesau cymwys. Yn amlwg, mae problemau ynglŷn â hyn, oherwydd, pan adolygwyd y cynllun blaenorol, roedd hi'n amlwg nad oedd rhai busnesau wedi gwneud cais, ond nid oedd honno'n broblem benodol yng Nghymru. Yn Lloegr roedd hynny'n digwydd mewn gwirionedd, ac roedd rhagolygon o danwariant. Ond byddwn yn sicr yn gwneud rhagor o waith yn y maes oherwydd ni fyddwn am i fusnesau fod ar eu colled oherwydd diffyg cyfle i gael cyngor am y cynllun a'i gael wedi'i hysbysebu iddynt.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

14:36 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

The Welsh Conservatives have had a very strong platform on business rates for many years, introduced by the previous business spokesperson, David Melding, of taking businesses out of business rates altogether, which all businesses indicate would be of huge benefit to their bottom line. We've clearly funded that. We know that business rates are to be devolved. What discussions have you had with the finance Minister, as business and enterprise Minister, to update the position of businesses in Wales to get this relief as quickly as possible over a new regime that any future Welsh Government might wish to bring forward?

Ers blynyddoedd lawer, mae gan y Ceidwadwyr Cymreig safbwynt cryf iawn ar ardrethi busnes a gyflwynwyd gan y llefarydd busnes blaenorol, David Melding, sef sicrhau na fydd busnesau yn talu ardrethi busnes o gwbl, ac mae pob busnes yn dynodi y byddai hynny o fudd enfawr i'w gallu i wneud elw. Rydym wedi cyllido hynny'n glir. Gwyddom fod ardrethi busnes i gael eu datganoli. Pa drafodaethau a gawsoch gyda'r Gweinidog cyllid, fel Gweinidog menter a busnes, i sicrhau bod busnesau yng Nghymru yn cael y rhyddhad hwn cyn gynted â phosibl cyn unrhyw weithdrefn newydd y byddai Lywodraeth Cymru yn y dyfodol yn dymuno ei chyflwyno?

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

14:37 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We are very pleased with the existing arrangements we've got in place, but I have to say that myself and the finance Minister have regular meetings about how we can utilise the money that is available to help this area of the economy, and we'll be having further discussions again during the next few weeks to see what further moneys can be made available for specific schemes.

Rydym yn falch iawn o'r trefniadau presennol sydd gennym ar waith, ond rhaid i mi ddweud fy mod i a'r Gweinidog cyllid yn cael cyfarfodydd rheolaidd ynglŷn â sut y gallwn ddefnyddio'r arian sydd ar gael i helpu'r maes hwn o'r economi, a byddwn yn cael trafodaethau pellach eto yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf i weld pa arian pellach y gellir ei ryddhau ar gyfer cynlluniau penodol.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

14:37 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A gaf i groesawu yn fawr iawn y datganiad yma a'r cynllun yma, Weinidog? A wnewch chi roi ystyriaeth i ddefnyddio papurau lleol fel modd i sicrhau bod y neges yma yn cyrraedd perchnogion siopau? Yn aml iawn erbyn hyn, mae awdurdodau lleol yn cynhyrchu eu papurau newydd eu hunain, ac nid yw hynny'n sicr o gyrraedd perchnogion siopau. Byddai ymgyrch ar y cyd â'r papurau lleol—rwy'n siŵr y bydden nhw'n falch iawn o gydweithredu gyda chi—yn sicrhau bod y neges yma yn cyrraedd cynulleidfa eang.

May I very much welcome this scheme and the statement, Minister? Will you give consideration to using local newspapers as a way of ensuring that this message gets through to shop owners? Very often now, local authorities produce their own in-house newspaper and that is not guaranteed to reach shop owners. A joint campaign with the local newspapers—I'm sure they'd be very pleased to collaborate with you—would ensure that the message gets through.

14:37 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Following on from Sandy Mewies's supplementary question, I think what you suggested is good, that we perhaps need to look at a different type of communication strategy to make sure that the message goes out. I'll certainly take that up with my communications team, because it is important that the money we have made available is spent well and helps businesses.

Yn dilyn cwestiwn atodol Sandy Mewies, rwy'n meddwl bod yr hyn a awgrymwyd gennych yn dda, fod angen efallai i ni edrych ar wahanol fath o strategaeth gyfathrebu er mwyn sicrhau bod y neges yn mynd allan. Byddaf yn sicr yn sôn wrth fy nhîm cyfathrebu am hynny, oherwydd mae'n bwysig fod yr arian rydym wedi ei ryddhau yn cael ei wario'n dda ac yn helpu busnesau.

### Diwydiant Manwerthu Trwm

### Heavy Manufacturing Industry

14:38 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r diwydiant manwerthu trwm a'i weithle yng Nghymru? OAQ(4)0580(EST)*

*5. Will the Minister make a statement on how the Welsh Government supports the heavy manufacturing industry and its workforce in Wales? OAQ(4)0580(EST)*

14:38 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The contribution made by heavy manufacturing to the Welsh economy in terms of output, employment and exports is significant. In recognition, a number of heavy manufacturers have been awarded anchor or regionally important status as companies.

Mae cyfraniad gweithgynhyrchu trwm i economi Cymru o ran allbwn, cyflogaeth ac allforion yn sylweddol. I gydnabod hynny, mae nifer o gwmnïau gweithgynhyrchu trwm wedi ennill statws cwmni angori neu statws cwmni pwysig yn rhanbarthol.

14:38 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, in the context of the Welsh Government's work to bring business and trade unions together in Wales for mutual benefit, would you agree with me that, given the importance of the steel industry and Tata as a company, with its loyal and highly skilled workforce, it's very important that Tata now listens to its workforce's concerns regarding proposed changes to pension arrangements, changes that have resulted in strike action being called, not something that any trade union or workforce will do lightly? Would you agree with me that Tata now needs to listen very carefully to its workforce and its concerns regarding these proposed pension changes, and that it acts on those concerns?

Weinidog, yng nghyd-destun gwaith Llywodraeth Cymru i ddod â busnesau ac undebau llafur at ei gilydd yng Nghymru er budd pawb, o ystyried pwysigrwydd y diwydiant dur a Tata fel cwmni, gyda'i weithlu ffyddlon a medrus iawn, a fyddech yn cytuno ei bod yn bwysig iawn fod Tata yn awr yn gwrando ar bryderon ei weithlu ynghylch newidiadau arfaethedig i drefniadau pensiwn, newidiadau sydd wedi arwain at streicio, nad yw'n rhywbeth y byddai unrhyw undeb llafur neu weithlu yn ei wneud ar chwarae bach? A fyddech yn cytuno â mi fod angen i Tata wrando'n ofalus iawn yn awr ar ei weithlu a'i bryderon ynghylch y newidiadau arfaethedig i drefniadau pensiwn, a'i fod yn gweithredu ar y pryderon hynny?

14:39 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Obviously, we're all aware of the issue around the Tata pension scheme and all of us who will be in receipt of pensions in the future, and are part of such schemes, are very well aware of the importance of any changes that might occur in pension schemes and how they have to be negotiated through, because we don't want anybody, after paying in for years, to feel that they haven't had value for money in terms of what they've undertaken. Obviously, we are aware of issues on both sides of this and I have spoken to Tata myself in a meeting and referred to the issue of pensions.

Yn amlwg, rydym i gyd yn ymwybodol o fater cynllun pensiwn Tata ac mae pob un ohonom a fydd yn derbyn pensiwn yn y dyfodol, ac yn rhan o gynlluniau o'r fath, yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd unrhyw newidiadau a allai ddigwydd mewn cynlluniau pensiwn a sut y mae'n rhaid gallu eu trafod gan nad ydym am i neb a fu'n talu i mewn i gynllun ers blynyddoedd deimlo nad yw wedi cael gwerth am arian o wneud hynny. Yn amlwg, rydym yn ymwybodol o faterion sy'n codi ar y ddwy ochr ac rwyf wedi siarad â Tata fy hun mewn cyfarfod ac wedi cyfeirio at fater pensiynau.

14:40 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, back in April, you received a letter from Llanfyllin Town Council, who expressed their concern about the lack of incentives for manufacturing companies to base themselves in north Powys. I am told that the Welsh Government units are empty and advertised for £7,000 per annum—double the price of privately owned units that are occupied. There may well be a case here for Welsh Government to be flexible on what price it sets on those units and also to provide manufacturing businesses with an incentive to invest in that particular area, but I would be grateful for the Minister's comments on this and also for any further comments with regard to support for manufacturing businesses to base themselves in Llanfyllin specifically.

Weinidog, yn ôl ym mis Ebrill, cawsoch lythyr gan Gyngor Tref Llanfyllin, a fynegodd eu pryder am y diffyg cymhellion i gwmnïau gweithgynhyrchu leoli eu hunain yng ngogledd Powys. Dywedir wrthyf fod unedau Llywodraeth Cymru yn wag ac yn cael eu hysbysebu am £7,000 y flwyddyn—dwbl pris unedau eiddo preifat sy'n cael eu defnyddio. Mae'n ddigon posibl fod achos yma dros hyblygrwydd ar ran Llywodraeth Cymru ynghylch y pris y mae'n ei osod ar yr unedau hyn a hefyd i roi cymhelliad i fusnesau gweithgynhyrchu fuddsoddi yn yr ardal honno, ond byddwn yn ddiolchgar am sylwadau'r Gweinidog ar hyn, a hefyd am unrhyw sylwadau pellach mewn perthynas â chefnogaeth i fusnesau gweithgynhyrchu leoli eu hunain yn Llanfyllin yn benodol.

14:40 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have to say that we are very keen to see more manufacturing bases within mid Wales. Of course, we have looked at what is available in terms of land for other projects within mid Wales and, of course, we do have some units. I noticed comments regarding the rental on these particular units, but, of course, I have to add value to the public purse—unless you can guarantee that the Wales Audit Office won't chase after me in the future.

Rhaid i mi ddweud ein bod yn awyddus iawn i weld mwy o ganolfannau gweithgynhyrchu yng nghanolbarth Cymru. Wrth gwrs, rydym wedi edrych ar yr hyn sydd ar gael o ran tir ar gyfer prosiectau eraill yng nghanolbarth Cymru ac wrth gwrs, mae gennym rai unedau. Sylwais ar sylwadau ynglŷn â'r rhent ar yr unedau hyn, ond wrth gwrs, mae'n rhaid i mi ychwanegu gwerth i'r pwrs cyhoeddus—oni bai y gallwch warantu na fydd Swyddfa Archwilio Cymru yn dod ar fy ôl yn y dyfodol.

14:41 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, can I add my voice to the calls from John Griffiths in relation to Tata? I appreciate your answer and I appreciate that you've already spoken to them regarding the issues on steel pensions. A first strike in over 35 years—unknown for a long time—actions as a result of, basically, Tata failing to come and talk to and negotiate with the trade unions. Friends of mine, who I've known for 35 years, are talking about losing £400 a week in pensions and having to work five more years for them. It's totally unacceptable in today's modern age. But also, do you agree with me that there should not be threatening letters going to employees, indicating that loss of investment may be a result of any actions taken by the workforce? When you meet Tata next, would you please ensure that the investment that they have talked about in the past will continue to ensure that heavy industry remains an anchor industry within Wales?

Weinidog, a gaf fi ychwanegu fy llais at alwadau John Griffiths mewn perthynas â Tata? Rwy'n gwerthfawrogi eich ateb ac rwy'n gwerthfawrogi eich bod eisoes wedi siarad â hwy ar fater pensiynau dur. Y streic gyntaf ers dros 35 o flynyddoedd—ni chafwyd un ers amser hir—yn y bôn, camau gweithredu o ganlyniad i fethiant Tata i siarad a thrafod gyda'r undebau llafur. Mae cyfeillion rwyf wedi eu hadnabod ers 35 mlynedd yn sôn am golli £400 yr wythnos o bensiwn a gorfod gweithio pum mlynedd yn fwy i'w gael. Mae'n gwbl annerbyniol yn yr oes fodern heddiw. Ond hefyd, a ydych yn cytuno na ddylai fod llythyron bygythiol yn mynd i weithwyr yn dynodi y gallent golli buddsoddiad o ganlyniad i gamau a gymerwyd gan y gweithlu? Pan fyddwch yn cyfarfod â Tata nesaf, a wnewch chi sicrhau os gwelwch yn dda y bydd y buddsoddiad y maent wedi siarad amdano yn y gorffennol yn dal i sicrhau bod diwydiant trwm yn parhau i fod yn ddiwydiant angori yng Nghymru?

14:42 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We do have a good relationship with Tata Steel in terms of the support that we've given them as a company. I certainly note the points that you made to me, because you wouldn't want anybody threatened in terms of the issues. But we have to recognise that this is an industrial dispute between an employer and employees.

Mae gennym berthynas dda gyda Tata Steel o ran y gefnogaeth rydym wedi ei rhoi iddynt fel cwmni. Rwy'n sicr yn nodi'r pwyntiau a wnaethoch, oherwydd ni fyddech am i neb gael ei fygwth mewn perthynas â'r materion hyn. Ond rhaid i ni gydnabod mai anghydfod diwydiannol rhwng cyflogwr a gweithwyr yw hwn.

### Rhwydwaith Ffyrdd Gogledd Cymru

### The North Wales Road Network

14:42 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am rwydwaith ffyrdd gogledd Cymru? OAQ(4)0571(EST)*

*6. Will the Minister make a statement on the north Wales road network? OAQ(4)0571(EST)*

14:42 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes. I am committed to improving the strategic road network in Wales and I am considering options for further investment in north Wales.

Gwnaf. Rwyf wedi ymrwymo i wella'r rhwydwaith ffyrdd strategol yng Nghymru ac rwy'n ystyried opsiynau ar gyfer buddsoddiad pellach yng ngogledd Cymru.

14:42 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. As a Member with a constituency hugely dependent on the welcoming of tourists and a pleasant visitor experience, I am not alone in becoming gravely concerned at the number of times our main arterial link for the north—the A55—has traffic problems, lane closures and carriageway repairs. Already we have seen bank holiday and weekend tailbacks likened now to before the A55 was even constructed. Minister, what steps are you taking to bring about some immediate improvements to the A55, so as to open up this much-needed gateway to north Wales?

Diolch yn fawr, Weinidog. Fel Aelod sydd ag etholaeth hynod o ddibynnol ar groesawu twristiaid a phrofiad pleserus i ymwelwyr, nid fi yw'r unig un sy'n pryderu'n ddifrifol ynghylch y nifer o weithiau y ceir problemau traffig, cau lonydd ac atgyweiriadau ffordd ar ein prif wythïen gyswllt yn y gogledd—yr A55. Eisoes clywsom am dagfeydd ar wyliau banc ac ar benwythnosau yn cael eu cymharu â'r adeg cyn i'r A55 gael ei hadeiladu hyd yn oed. Weinidog, pa gamau rydych yn eu rhoi ar waith i sicrhau gwelliannau ar unwaith i'r A55, er mwyn agor y porth hwn i ogledd Cymru sydd cymaint o'i angen?

14:43 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I make it clear that we are making substantial investments in the A55? Some of these investments are in terms of road safety. I regard road safety as being the absolute priority for me as a transport Minister and I'm sure that you would agree with me, as a Member, that that is very important.

A gaf fi ei gwneud yn glir ein bod yn buddsoddi'n sylweddol yn yr A55? Mae rhai o'r buddsoddiadau hyn yn cael eu gwneud mewn perthynas â diogelwch ar y ffyrdd. Rwy'n ystyried bod diogelwch ar y ffyrdd yn flaenoriaeth lwyr i mi fel Gweinidog trafnidiaeth ac rwy'n siŵr y byddech yn cytuno, fel Aelod, fod hynny'n bwysig iawn.

Some of the problems are actually related to what's happening across our border in terms of some delays that are going to north Wales, but I can assure you, in terms of the programme of investment that we've got in north Wales roads, that it's very substantial. If I just quote you one figure, more money is spent on road schemes in north Wales than in south-east Wales—£135 per head compared with £118 per head in south-east Wales since 2011.

Mae rhai o'r problemau mewn gwirionedd yn gysylltiedig â'r hyn sy'n digwydd ar draws y ffin o ran peth o'r oedi sy'n digwydd yng ngogledd Cymru, ond gallaf eich sicrhau, o ran y rhaglen fuddsoddi sydd gennym yn ffyrdd y gogledd, ei fod yn sylweddol iawn. Os caf dynnu eich sylw at un ffigur, mae mwy o arian yn cael ei wario ar gynlluniau ffyrdd yn y gogledd nag yn ne-ddwyrain Cymru—£135 y pen o'i gymharu â £118 y pen yn ne-ddwyrain Cymru ers 2011.

14:43 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Hoffwn gyfeirio at y briffordd sydd yn mynd o Gaernarfon i gyfeiriad Porthmadog yn y Bontnewydd. Mae cyfyngiadau cyflymder llym wedi cael eu gosod yno yn ystod yr wythnos yma, ynghyd â threfn rheoli traffig newydd hefyd. Mae hyn wedi arwain at giwiau sylweddol i'r ddwy ochr. A allwch ddweud wrthyf faint o ymgynghori a fuodd efo'r cyngor sir, efo'r cyngor cymuned a chyda llywodraethwyr yr ysgol, a beth ydy pwrpas y newidiadau yma?

I'd like to refer to the road that goes from Caernarfon in the direction of Porthmadog at Bontnewydd. Severe speed restrictions have been placed there during this week, together with a new traffic management system. This had led to significant queues on both sides. Could you tell me how much consultation took place with the county council, the community council, and with the school governors, and what is the purpose of these changes?

14:44 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for your question. I've asked my officials to look at this particular issue with me and I will write to you and to other Members to update you on the full points that you've made in your question.

Diolch i chi am eich cwestiwn. Rwyf wedi gofyn i fy swyddogion edrych ar y mater penodol hwn a byddaf yn ysgrifennu atoch ac at Aelodau eraill i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ar y pwyntiau llawn rydych wedi eu gwneud yn eich cwestiwn.

14:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to question 7, which I understand will be replied to by the Deputy Minister. Question 7 is from Simon Thomas.

Symudwn yn awr at gwestiwn 7, ac rwy'n deall y bydd yn cael ei ateb gan y Dirprwy Weinidog. Daw cwestiwn 7 gan Simon Thomas.

## Treftadaeth Ddiwydiannol (Gorllewin Cymru)

## Industrial Heritage (West Wales)

14:44 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ddiogelu ein treftadaeth ddiwydiannol yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0577(EST)*

*7. What steps is the Welsh Government taking to protect our industrial heritage in west Wales? OAQ(4)0577(EST)*

14:45 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth / The Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism*

We are proud of our rich industrial heritage here in Wales. Over 1,000 industrial structures in Wales have statutory protection and the Welsh Government offers grants to maintain and to sustain the future of such important sites, both in west Wales and indeed across Wales as a whole.

Rydym yn falch o'n treftadaeth ddiwydiannol gyfoethog yma yng Nghymru. Mae dros 1,000 o strwythurau diwydiannol yng Nghymru wedi eu gwarchod yn statudol ac mae Llywodraeth Cymru yn cynnig grantiau i gadw ac i gynnal dyfodol safleoedd pwysig o'r fath, yng ngorllewin Cymru ac yn wir ar draws Cymru gyfan.

14:45 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Deputy Minister for his reply. His visit to the Chamber has not been in vain. One of the unfortunate side effects of the privatisation of our railways is that our railway heritage is now in the hands of the German Government. The company that represents that German Government, DB Schenker, intends to sell off a number of locomotives over the next few weeks, three of which, I am informed, were specifically designed to run on the Gwendraeth railway. I have written to you on this, and you have kindly replied, Minister, saying that you have taken advice from the National Waterfront Museum in Swansea, and it doesn't think that these locomotives are in any way special, but I am assured that although they are of the class that you refer to in your letter, they have been specifically re-engineered to run on a railway where the clearances did not allow the usual diesel locomotives to run. There are only three of these in existence. I have a picture of one of them, called 'Kidwelly', which I'd be delighted to show to you; it does look very different indeed, through I'm not a trainspotter in that regard. Would you look at this again, Minister? I think it would be unfortunate, to say the least, if we lose from Wales a locomotive specifically designed for our industrial heritage when there is an opportunity and a local group willing to store and look after such a locomotive. Really, we shouldn't see our heritage sold off for private profit in this way.

Diolch i'r Dirprwy Weinidog am ei ateb. Nid yw ei ymweliad â'r Siambr wedi bod yn ofer. Un o sgil-effeithiau anffodus preifateiddio ein rheilffyrdd yw bod ein treftadaeth rheilffyrdd bellach yn nwylo Llywodraeth yr Almaen. Mae'r cwmni sy'n cynrychioli Llywodraeth yr Almaen, DB Schenker, yn bwriadu gwerthu nifer o locomotifau yn ystod yr wythnosau nesaf, a chynlluniwyd tri ohonynt, yn ôl yr hyn a ddywedwyd wrthyf, yn benodol i deithio ar reilffordd Gwendraeth. Rwyf wedi ysgrifennu atoch ynglŷn â hyn, ac rydych wedi bod ymateb yn garedig, Weinidog, gan ddweud eich bod wedi cael cyngor gan Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe, ac nid yw'n meddwl bod y locomotifau hyn yn arbennig mewn unrhyw ffordd. Ond er eu bod yn y dosbarth y cyfeirioch ato yn eich llythyr, fe'm sicrhawyd eu bod wedi cael eu hail-beiriannu'n benodol ar gyfer teithio ar reilffordd lle nad oedd y cliriadau'n caniatáu i locomotifau diesel arferol deithio ar hyd-ddi. Tri o'r rhain yn unig sy'n bodoli. Mae gen i lun o un ohonynt, o'r enw 'Kidwelly', a byddwn wrth fy modd yn ei ddangos i chi; mae'n edrych yn wahanol iawn yn wir, er nad wyf yn wyliwr trenau o ran hynny. A wnewch chi edrych ar hyn eto, Weinidog? Rwy'n credu y byddai'n anffodus, a dweud y lleiaf os yw Cymru'n colli locomotif a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer ein treftadaeth ddiwydiannol pan fo cyfle a grŵp lleol yn barod i storio a gofalu am locomotif o'r fath. O ddifrif, ni ddylem weld ein treftadaeth yn cael ei gwerthu am elw preifat yn y ffordd hon.

14:46 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I thank the Member for his question? The railway heritage sector offers enormous value to the Welsh economy, and given the further information that the Member's been able to provide me with today, I will certainly give additional consideration to the potential sell-off.

A gaf fi ddiolch i'r Aelod am ei gwestiwn? Mae'r sector treftadaeth rheilffyrdd yn cynnig gwerth aruthrol i economi Cymru, ac o ystyried y wybodaeth bellach y mae'r Aelod wedi gallu ei rhoi i mi heddiw, byddaf yn sicr yn rhoi ystyriaeth ychwanegol i'r gwerthiant posibl.

14:47 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Deputy Minister, it's essential that we protect all types of heritage in west Wales, and I was delighted to join you for the recent reopening of Castell Henllys in my constituency, which is the longest standing reconstructed iron age roundhouse in Britain, which of course can teach future generations about our heritage. Can you tell us, Deputy Minister, what discussions you've had with your colleague the Minister for Education and Skills about developing stronger partnerships with local schools to ensure that learners can actually get the benefit of these important local attractions?

Ddirprwy Weinidog, mae'n hanfodol ein bod yn amddiffyn pob math o dreftadaeth yng ngorllewin Cymru, ac roeddwn yn falch iawn o ymuno â chi yn ailagoriad Castell Henllys yn fy etholaeth yn ddiweddar, sef y tŷ crwn hynaf a ailadeiladwyd o oes yr haearn ym Mhrydain, a all addysgu cenedlaethau'r dyfodol am ein treftadaeth wrth gwrs. A allwch ddweud wrthym, Ddirprwy Weinidog, pa drafodaethau rydych chi wedi'u cael gyda'ch cyd-Aelod, y Gweinidog Addysg a Sgiliau ynghylch datblygu partneriaethau cryfach gydag ysgolion lleol i sicrhau y gall dysgwyr gael budd o'r atyniadau lleol pwysig hyn?

14:47 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I thank the Member for his question and say that I was very pleased that he was able to join me and Simon Thomas at the opening of what is a very important attraction for the region? I do, of course, have regular meetings with the Minister for education, and also with the Deputy Minister for Skills and Technology. It's my feeling and my belief that programmes that are due to be rolled out, such as the enhanced employer engagement programme, offer enormous potential to bring together young people with the heritage sector, not just for the purpose of them being able to appreciate the value of our heritage and our culture, but also to open up opportunities for careers in the heritage sector as well.

A gaf fi ddiolch i'r Aelod am ei gwestiwn a dweud fy mod yn falch iawn ei fod wedi gallu ymuno â mi a Simon Thomas yn agoriad atyniad sy'n bwysig iawn i'r rhanbarth? Wrth gwrs, rwy'n cael cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Gweinidog Addysg, a hefyd gyda'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg. Rwy'n teimlo ac yn credu bod rhaglenni sydd ar fin cael eu cyflwyno, megis y rhaglen estynedig ar gyfer ymgysylltu â chyflogwyr, yn cynnig potensial enfawr i ddod â phobl ifanc a'r sector treftadaeth at ei gilydd, nid yn unig er mwyn iddynt allu gwerthfawrogi gwerth ein treftadaeth a'n diwylliant, ond hefyd i greu cyfleoedd ar gyfer gyrfaoedd yn y sector treftadaeth hefyd.

## Adroddiad McNulty

## The McNulty Report

14:48 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith gweithredu adroddiad McNulty ar ddarparu gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru yn y dyfodol? OAQ(4)0578(EST)*

*8. What assessment has the Minister made of the effect of the implementation of the McNulty report on the future delivery of rail services in Wales? OAQ(4)0578(EST)*

14:48 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That seems such a long time ago—the McNulty report back in 2011—but I can assure members that efficiency and securing value for money for passengers and the public purse will be a primary focus when the Wales and borders franchise comes under the control of the Welsh Government from 2018.

Mae'n ymddangos yn amser mor hir yn ôl—adroddiad McNulty yn ôl yn 2011—ond gallaf sicrhau'r Aelodau y bydd effeithlonrwydd a sicrhau gwerth am arian i deithwyr a'r pwrs cyhoeddus yn brif ffocws pan ddaw masnachfraint Cymru a'r gororau o dan reolaeth Llywodraeth Cymru o 2018.

14:48 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I appreciate that response, Minister. One of the concerns that does arise from the implementation of the McNulty report is the possibility of a move towards driver-only trains in the longer term. Just this lunchtime I attended the cross-party autism group chaired by your colleague, Jeff Cuthbert, and there was a presentation by Arriva Trains Wales emphasising the importance of the whole train crew in terms of assuring access to transport for those with special needs. I would ask you, Minister, to reassure this Chamber that there is an ongoing commitment to having trains that have the full range of train crew to ensure that they retain that opportunity to travel freely on the rail network without it being compromised?

Rwy'n gwerthfawrogi'r ymateb hwnnw, Weinidog. Un o'r pryderon sy'n codi o weithredu adroddiad McNulty yw'r posibilrwydd o symud tuag at drenau gyrrwr yn unig yn y tymor hwy. Amser cinio heddiw, mynychais y grŵp awtistiaeth trawsbleidiol dan gadeiryddiaeth eich cyd-Aelod, Jeff Cuthbert, lle y cafwyd cyflwyniad gan Drenau Arriva Cymru a oedd yn pwysleisio pwysigrwydd y criw trên cyfan o ran sicrhau mynediad i drafnidiaeth ar gyfer rhai sydd ag anghenion arbennig. Weinidog, hoffwn ofyn i chi roi sicrwydd i'r Siambr fod yna ymrwymiad parhaus i gael trenau â'r ystod lawn o griw trên er mwyn sicrhau eu bod yn cadw'r cyfle i deithio'n rhydd ar y rhwydwaith rheilffyrdd heb i'r cyfle hwnnw gael ei beryglu?

14:49 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rail user groups have made it absolutely clear, when we look at the new franchising arrangements and in anything else we would do, that they would like the maintenance of guards on trains. The role and function might well change, but I do think it is essential that we are able to have someone on the train that can deal with incidents on the train, and to help and assist passengers. I think this is absolutely clear. Of course, in life, it might be much cheaper to have driver-only trains that'll just stop, the doors will open and people will go, but I think we've got to have a very different approach in Wales to how we deal with these matters. It's about safety and security, I think, for passengers—knowing that someone's there and available.

Mae grwpiau defnyddwyr rheilffyrdd wedi ei gwneud yn gwbl glir y byddent yn hoffi cadw giardiau ar drenau pan fyddwn yn edrych ar drefniadau'r fasnachfraint newydd ac ym mhob dim arall a wnawn. Gallai'r rôl a'r swyddogaeth newid yn sicr, ond rwy'n credu ei bod yn hanfodol i ni allu cael rhywun ar y trên a all ddelio â digwyddiadau ar y trên, ac i helpu a chynorthwyo teithwyr. Rwy'n credu bod hyn yn gwbl glir. Wrth gwrs, mewn bywyd, gallai fod yn llawer rhatach cael trenau gyrrwr yn unig a fydd ond yn stopio, y drysau'n agor a phobl yn mynd, ond rwy'n meddwl bod yn rhaid i ni gael dull gwahanol iawn o fynd i'r afael â'r materion hyn yng Nghymru. Mae'n ymwneud â diogelwch a diogeled teithwyr, rwy'n credu—gwybod bod rhywun yno ac ar gael.

14:50 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The report highlights that the cost of Britain's railways are greater per passenger mile than that of any other European Union country, and one knows that the Minister is aware of this. Are there any particular proposals, do you think, that could be put in hand to reduce the cost of our railways?

Mae'r adroddiad yn amlygu bod cost rheilffyrdd Prydain yn uwch am bob milltir teithiwr nag unrhyw wlad arall yn yr Undeb Ewropeaidd, ac rwy'n gwybod bod y Gweinidog yn ymwybodol o hyn. A oes unrhyw gynigion penodol, yn eich barn chi, y gellid eu rhoi ar y gweill er mwyn lleihau cost ein rheilffyrdd?

14:50 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have to say that I think we've all discussed some of the mouth-watering figures that have emerged from Network Rail in terms of the work that they undertake. Also, their time delays, of course, cause an enormous amount of problems for us, when you're talking about works going over by two years, for example, in Cardiff. I'm very keen that we have a process where we can challenge all of this, and, if we have to, use alternatives in terms of doing the work, like we did in Pye Corner, and that is very high on my agenda—it must be—as we move into very exciting times with our projects.

Mae'n rhaid i mi ddweud fy mod yn credu ein bod i gyd wedi trafod rhai o'r ffigurau brawychus a ddaeth yn amlwg gan Network Rail o ran y gwaith y maent yn ei wneud. Hefyd, mae'r oedi sy'n gysylltiedig â hwy, wrth gwrs, yn achosi llawer iawn o broblemau i ni, pan feddyliwch am waith sy'n cymryd dwy flynedd yn hwy na'r disgwyl, er enghraifft, yng Nghaerdydd. Rwy'n awyddus iawn i ni gael proses lle y gallwn herio hyn i gyd, a defnyddio dewisiadau eraill i wneud y gwaith os oes rhaid, fel y gwnaethom yn Pye Corner, ac mae hynny'n uchel iawn ar fy agenda—rhaid iddo fod—wrth i ni symud i gyfnod cyffrous iawn gyda'n prosiectau.

14:51 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Question 9, OAQ(4)0567(EST), was transferred for written answer by the Minister for Communities and Tackling Poverty, so we move to Question 10, which is Jeff Cuthbert's.

Mae cwestiwn 9, OAQ (4) 0567 (EST), wedi ei drosglwyddo i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, felly symudwn at gwestiwn 10, gan Jeff Cuthbert.

## Metro De Cymru

## The South Wales Metro

14:51 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

*10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr effaith y bydd datblygu Metro De Cymru arfaethedig yn ei chael ar Gaerffili? OAQ(4)0576(EST)*

*10. Will the Minister make a statement on the proposed South Wales Metro development's impact on Caerphilly? OAQ(4)0576(EST)*

Senedd.tv Fideo Video

14:51 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Thank you. I will be providing a further update to Members on the metro system before the summer recess.

Diolch yn fawr. Byddaf yn rhoi newyddion pellach i'r Aelodau ar y system metro cyn toriad yr haf.

Senedd.tv Fideo Video

14:51 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister, for that response. When delivered, undoubtedly, it will lead to faster journey times to and from major centres of employment, such as Cardiff, as well as, one would hope, more and newer rolling stock to complement the great investment already in new and improved stations. Crucially, it will also help to spread housing development across the constituency, including further north in the Rhymney valley. So, do you agree with me, Minister, that we must work with all relevant stakeholders and partners and press ahead with these proposals to ensure that they are delivered for the benefit of communities across south Wales, such as those in my constituency of Caerphilly?

Diolch i chi am eich ymateb, Weinidog. Pan gaiff ei gyflwyno, mae'n sicr y bydd yn arwain at amseroedd teithio cyflymach i ac o ganolfannau cyflogaeth mawr, megis Caerdydd, yn ogystal â cherbydau mwy o faint a mwy newydd, byddai rhywun yn gobeithio, i ategu'r buddsoddiad mawr a wnaed eisoes mewn gorsafoedd newydd a gwell. Yn allweddol, bydd hefyd yn helpu i ledaenu datblygiadau tai ar draws yr etholaeth, gan gynnwys ymhellach i'r gogledd yng nghwm Rhymni. Felly, a ydych yn cytuno, Weinidog, fod yn rhaid i ni weithio gyda'r holl randdeiliaid a phartneriaid perthnasol a bwrw ymlaen â'r cynigion hyn i sicrhau eu bod yn cael eu darparu er budd cymunedau ar draws de Cymru, megis y rhai yn fy etholaeth i yng Nghaerffili?

Senedd.tv Fideo Video

14:52 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Yes, I think we're already working with the relevant stakeholders and partners, because the metro is a significant opportunity to enhance economic growth in the area, including Caerphilly, driven by greater mobility and ease of accessibility to jobs and services. I recently was discussing the whole issue of developments with the local authority leaders in south-east Wales regarding this very exciting scheme. You mentioned housing, and I know that my colleague, the Minister for planning, with his Planning (Wales) Bill, is ensuring that there's greater co-operation between local authorities to look at these issues and reap the benefits of economic issues arising from the metro development.

Ydw, rwy'n credu ein bod eisoes yn gweithio gyda'r rhanddeiliaid a'r partneriaid perthnasol, am fod y metro yn gyfle arwyddocaol i wella twf economaidd yn yr ardal, gan gynnwys Caerffili, wedi'i ysgogi gan fwy o symudedd a hygyrchedd swyddi a gwasanaethau. Yn ddiweddar, roeddwn yn trafod mater datblygiadau gydag arweinwyr awdurdodau lleol yn ne-ddwyrain Cymru mewn perthynas â'r cynllun cyffrous hwn. Fe sonioch am dai, a gwn fod fy nghyd-Aelod, y Gweinidog Cynllunio, a'i Fil Cynllunio (Cymru), yn sicrhau bod mwy o gydweithredu rhwng awdurdodau lleol i edrych ar y materion hyn ac elwa ar fanteision materion economaidd sy'n deillio o ddatblygiad y metro.

Senedd.tv Fideo Video

14:52 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Minister, have you had any discussions with Arriva Trains Wales regarding ticket prices recently? One issue that, I fear, could hold back the widespread use of any future improved rail network as part of the metro is the ever-escalating prices. A return ticket to travel the 15-minute journey between Caerphilly and Cardiff Queen Street now costs almost £7. With electrification, there is a chance that this could increase. Would you, perhaps, support a public or not-for-profit franchise to enable price increases to be minimised?

Weinidog, a ydych wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Trenau Arriva Cymru ynghylch prisiau tocynnau yn ddiweddar? Rwy'n ofni mai un mater a allai gyfyngu ar y defnydd eang o rwydwaith rheilffyrdd gwell yn y dyfodol fel rhan o'r metro yw prisiau sy'n codi drwy'r amser. Mae tocyn dwy ffordd ar gyfer y daith 15 munud rhwng Caerffili a Heol y Frenhines Caerdydd erbyn hyn yn costio bron i £7. Gyda thrydaneiddio, mae'n bosibl y gallai'r pris godi. A fyddech chi, efallai, yn cefnogi masnachfraint gyhoeddus neu ddielw er mwyn sicrhau y bydd prisiau'n codi cyn lleied ag y bo modd?

Senedd.tv Fideo Video

14:53 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I think those are all issues that we are looking at, and I do have regular meetings with Arriva Trains. Certainly, the issue of ticket prices does come up, because we want to ensure that we have not only a service that is efficient and very reliable but a service that people can afford to use, which I think is also particularly important, especially when you look at some of the wage rates, specifically with younger people going into employment—it is essential that we crack that issue.

Byddwn, rwy'n meddwl bod y rhain i gyd yn bethau rydym yn eu hystyried, ac rwy'n cael cyfarfodydd rheolaidd gyda Trenau Arriva. Yn sicr, mae mater prisiau tocynnau yn cael sylw am ein bod yn awyddus i sicrhau bod gennym wasanaeth sydd nid yn unig yn effeithlon a dibynadwy iawn, ond yn un y gall pobl fforddio ei ddefnyddio, sy'n arbennig o bwysig hefyd yn fy marn i, yn enwedig pan edrychwch ar rai o'r graddfeydd cyflog, yn benodol mewn perthynas â phobl iau yn mynd i'w gwaith—mae'n hanfodol ein bod yn cael hynny'n iawn.

14:53 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, a service that people can get onto is also a crucial issue, with regard to the services on the Valleys lines that serve Caerphilly. A number of people have raised with me the fact that they have to see two or three, sometimes, trains pass them in the morning before they are able to actually get on. When do you think you'll be in a position to share your rolling stock strategy with us, and what impact will we be able to have on that overcrowding situation in advance of electrification and the metro developments?

Weinidog, mae gwasanaeth y gall pobl ei ddefnyddio yn fater hollbwysig hefyd, o ran y gwasanaethau ar reilffyrdd y Cymoedd sy'n gwasanaethu Caerffili. Mae nifer o bobl wedi dweud eu bod yn gorfod gweld dau neu dri o drenau, weithiau, yn eu pasio yn y bore cyn y gallant fynd ar y trên. Pryd rydych chi'n meddwl y byddwch mewn sefyllfa i rannu eich strategaeth ar gyfer cerbydau trên gyda ni, a pha effaith y gallwn ei chael ar y sefyllfa o ran gorlenwi cyn i drydaneiddio a'r datblygiadau metro ddigwydd?

14:54 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Under the current franchising arrangements, the train operating companies are responsible for securing passenger rolling stock, and that is an issue. Of course, we're going to have to look at this rather differently when we go to the new franchise, because we do see that there's going to be an increase in the number of passengers, and we welcome that, but it is important that passengers are able to get on a train, sit down on the train and get to work, or wherever they're going, in time. So, we are, naturally, going to be looking at some of the issues around this, regarding new rolling stock and, perhaps, the leasing of rolling stock, but we certainly won't be having 40-year-old rolling stock.

O dan drefniadau'r fasnachfraint bresennol, y cwmnïau trenau sy'n gyfrifol am sicrhau cerbydau ar gyfer teithwyr, ac mae honno'n broblem. Wrth gwrs, rydym yn mynd i orfod edrych ar hyn mewn ffordd wahanol pan fyddwn yn cael y fasnachfraint newydd, gan ein bod yn gweld y bydd nifer y teithwyr yn cynyddu, ac rydym yn croesawu hynny, ond mae'n bwysig fod teithwyr yn gallu mynd ar y trên, eistedd ar y trên a mynd i'r gwaith, neu i ble bynnag y maent yn mynd, ac ar amser. Felly'n naturiol, byddwn yn edrych ar rai o'r materion sy'n ymwneud â cherbydau newydd, a lesio cerbydau efallai, ond yn sicr ni fydd gennym gerbydau trên 40 oed.

### Y Diwydiant Gweithgynhyrchu

### The Manufacturing Industry

14:54 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*11. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol y diwydiant gweithgynhyrchu yng nghanolbarth Cymru? OAQ(4)0575(EST)*

*11. Will the Minister make a statement on the manufacturing industry in mid Wales? OAQ(4)0575(EST)*

14:54 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Manufacturing in mid Wales, and looking at what we can do, is a priority, because we need to develop and strengthen the manufacturing base, because you have some excellent companies there.

Mae gweithgynhyrchu yng nghanolbarth Cymru, ac edrych ar yr hyn y gallwn ei wneud, yn flaenoriaeth, oherwydd mae angen i ni ddatblygu a chryfhau'r sylfaen weithgynhyrchu, gan fod gennych rai cwmnïau rhagorol yno.

14:55 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I agree, Minister, we do have some excellent companies. The Wales Audit Office will want to see best value when it comes to managing public assets, and we all want to see money from the public purse spent wisely. Therefore, would you agree with me, Minister, that it would be prudent to lower the asking price for rental units owned by the Welsh Government if they have remained empty for some time in order that that asset would generate an income? There may be examples of that in Llanfyllin and would you agree to investigate that?

Weinidog, rwy'n cytuno bod gennym rai cwmnïau rhagorol. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn awyddus i weld gwerth gorau o ran rheoli asedau cyhoeddus, ac rydym i gyd am weld arian o'r pwrs cyhoeddus yn cael ei wario'n ddoeth. Felly, a fyddech yn cytuno â mi, Weinidog, y byddai'n ddoeth i ni ostwng y pris sy'n cael ei ofyn am unedau rhentu sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru os ydynt wedi bod yn wag ers peth amser er mwyn i'r ased greu incwm? Efallai bod enghreifftiau o hynny yn Llanfyllin ac a fyddech yn cytuno i ymchwilio i hynny?

14:55 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

That's a nice second bite of the cherry. Of course, we will look at these issues that you're raising, because we are very keen to ensure that our sites do have people in them and that we are encouraging the necessary development.

Dyna'ch ail gynnig ar hyn. Wrth gwrs, byddwn yn edrych ar y materion a grybwyllwch, gan ein bod yn awyddus iawn i sicrhau bod gennym bobl ar ein safleoedd a'n bod yn annog y datblygiad angenrheidiol.

14:55 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Can I return to the excellent news of the tidal lagoon being approved for planning, at least, although there are some steps still, in Swansea? I declare an interest as a community shareholder in that project. There is a huge opportunity for manufacturers to become involved in that. Although the headline contracts have been talked about, there's a supply chain, and it's £1 billion of investment in Swansea, which is well open to mid Wales as well, and Powys manufacturers in particular can access that. Will you now put in place supply chain work on behalf of the Welsh Government? I know that the developers themselves have been discussing, throughout south and mid Wales, the supply chain, but this is a big investment, similar to a new nuclear power station, for example, that demands an investment from the Government as well.

A gaf fi ddychwelyd at y newyddion ardderchog am gymeradwyo'r morlyn llanw yn Abertawe ar gyfer y cam cynllunio, o leiaf, er bod rhai camau i ddod o hyd? Rwy'n datgan buddiant fel cyfranddaliwr cymunedol yn y prosiect hwnnw. Mae cyfle enfawr i weithgynhyrchwyr fod yn rhan o hynny. Er bod y prif gytundebau wedi cael eu trafod, mae yna gadwyn gyflenwi, ac mae'n £1 biliwn o fuddsoddiad yn Abertawe, sy'n agored iawn i ganolbarth Cymru yn ogystal, a gall gweithgynhyrchwyr Powys yn arbennig gael mynediad at hynny. A wnewch chi roi gwaith ar y gadwyn gyflenwi ar y gweill yn awr ar ran Llywodraeth Cymru? Gwn fod y datblygwyr eu hunain wedi bod yn trafod y gadwyn gyflenwi ar draws de a chanolbarth Cymru, ond mae hwn yn fuddsoddiad mawr, yn debyg i orsaf ynni niwclear newydd, er enghraifft, sy'n galw am fuddsoddiad gan y Llywodraeth yn ogystal.

14:56 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Yes, we will be looking at the supply chain framework. We will have to do some initial work on it, but, of course, this project will only be real when the strike price comes in, but we do have to prepare in advance.

Ie, byddwn yn edrych ar fframwaith y gadwyn gyflenwi. Bydd yn rhaid i ni wneud rhywfaint o waith cychwynnol arno, ond wrth gwrs, ni fydd y prosiect yn real tan y byddwn yn gwybod faint fydd y pris streic, ond mae'n rhaid i ni baratoi ymlaen llaw.

### Parc Loriau Newydd Caergybi

### Holyhead's New Lorry Park

14:57 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*12. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am annog pobl i ddefnyddio parc loriau newydd Caergybi? OAQ(4)0570(EST)*

*12. Will the Minister make a statement on encouraging people to use Holyhead's new lorry park? OAQ(4)0570(EST)*

14:57 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I think it's particularly important that we encourage the use of purpose-built lorry parking facilities, such as Parc Cybi, which are excellent facilities. We intend to pursue waiting restrictions on a number of lay-bys on the A55 in Anglesey.

Rwy'n credu ei bod yn arbennig o bwysig ein bod yn annog y defnydd o gyfleusterau pwrpasol ar gyfer parcio loriau, megis Parc Cybi, sy'n gyfleusterau ardderchog. Rydym yn bwriadu mynd ar drywydd cyfyngiadau aros ar nifer o encilfeydd ar yr A55 yn Ynys Môn.

14:57 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch. Mae datblygiad parc lorïau newydd Road King yng Nghaergybi yn rhywbeth roedd poblogaeth y dref yn edrych ymlaen ato fo yn fawr iawn oherwydd y niwsans gwirioneddol o lorïau yn parcio ar hyd a lled Caergybi. Ond, rŵan ei fod o wedi agor, mae'n amlwg bod llawer o gwmnïau a llawer o yrwyr yn dewis peidio â'i ddefnyddio fo, er gwaethaf yr adnoddau rhagorol a'r pris rhesymol. Mae camau yn cael eu rhoi mewn lle i gyflwyno rheolau traffig newydd, efo Road King yn cyfrannu tuag at y gost mewn cydweithrediad efo Cyngor Sir Ynys Môn, ond pa gymorth ychwanegol, yn ogystal â, o bosibl, y camau o ran defnyddio 'lay-bys' yr A55, all y Llywodraeth ei roi i sicrhau bod y datblygiad yma yn cael ei ddefnyddio?

Thank you. The development of the new Road King lorry park in Holyhead is something that the town's populace was looking forward to very much because of the very real nuisance caused by lorries parking throughout Holyhead. But, now that it has opened, it's clear that many companies that many companies and many drivers choose not to use it, despite the excellent facilities and the reasonable prices. Steps are being taken to put in place new traffic regulations, with Road King contributing towards the cost in collaboration with the Isle of Anglesey County Council, but what additional support, as well as the possible use of A55 lay-bys, can the Government provide in order to ensure that this development is used?

14:58 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, this must be very frustrating for your constituents, that people are not availing themselves of the facilities in Parc Cybi. Obviously, we're dealing with the traffic Orders we're currently preparing on that, and I will have a look at what further things we could do. Perhaps we could do an analysis of which companies are involved in going back and forth to the port in Holyhead and write directly to them to say, 'To be courteous and be good in terms of your business delivery, and to show responsibility, you should instruct your drivers to use this park'. I will certainly look at it.

Ie, rhaid bod hyn yn rhwystredig iawn i'ch etholwyr, nad yw pobl yn defnyddio'r cyfleusterau ym Mharc Cybi. Yn amlwg, rydym yn delio â'r Gorchmynion traffig rydym yn eu paratoi ar hynny ar hyn o bryd, a byddaf yn edrych ar ba bethau eraill y gallem eu gwneud. Efallai y gallem wneud dadansoddiad o ba gwmnïau sy'n mynd yn ôl ac ymlaen i'r porthladd yng Nghaergybi ac ysgrifennu atynt yn uniongyrchol i ddweud, 'Er mwyn bod yn gwrtais a chyflawni eich busnes yn dda, ac i ddangos cyfrifoldeb, dylech gyfarwyddo eich gyrwyr i ddefnyddio'r parc hwn'. Byddaf yn sicr yn edrych ar hynny.

14:58 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Clearly, Holyhead's new truck stop is good news for the development of the port and has already created 38 jobs. The town council clerk in Holyhead, Cliff Everett, has said he's working with the Welsh Government, the local authority and retailers to ensure lorry drivers do take advantage of the facility. Given that this is a trans-European route and an international port, linking to the west with Ireland, what action might you be able to take to promote this not only within the UK, but with our partners adjoining the UK and who use that route routinely?

Yn amlwg, mae arhosfan lori newydd Caergybi yn newyddion da i ddatblygiad y porthladd ac mae eisoes wedi creu 38 o swyddi. Mae clerc cyngor tref Caergybi, Cliff Everett, wedi dweud ei fod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, yr awdurdod lleol a manwerthwyr i sicrhau bod gyrwyr lorïau yn manteisio ar y cyfleuster. O gofio bod hwn yn llwybr traws-Ewropeaidd a phorthladd rhyngwladol, sy'n cysylltu gydag Iwerddon i'r gorllewin, pa gamau y gallech eu cymryd i hyrwyddo hyn, nid yn unig o fewn y DU, ond gyda phartneriaid cyfagos y DU sy'n defnyddio'r llwybr yn rheolaidd?

14:59 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, as I indicated, I think, to the Member for Ynys Môn, I will look at all I can in terms of the companies that are using that route on a regular basis to see what further can be done. Perhaps the port might be able to help in this regard in handing out leaflets, et cetera, et cetera, to indicate that you should use the park.

Wel, fel y dywedais wrth yr Aelod dros Ynys Môn, rwy'n credu, byddaf yn edrych ar bopeth a allaf o ran y cwmnïau sy'n defnyddio'r llwybr yn rheolaidd i weld beth arall y gellir ei wneud. Efallai y gallai'r porthladd ein helpu yn hyn o beth drwy ddosbarthu taflenni ac yn y blaen, i nodi y dylech ddefnyddio'r parc.

## Blaenoriaethau Trafnidiaeth yng Ngorllewin Cymru

## Transport Priorities for West Wales

14:59 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*13. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer trafnidiaeth yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0566(EST)*

*13. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's transport priorities for west Wales? OAQ(4)0566(EST)*

14:59 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Our transport priorities are set out in the final national transport plan, which I'll be publishing shortly.

Mae ein blaenoriaethau trafnidiaeth wedi'u hamlinellu yn y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol terfynol y byddaf yn ei gyhoeddi cyn bo hir.

14:59 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm grateful to the Minister for that answer. I'm sure you'll be aware of the Pembrokeshire Association of Community Transport Organisations, which provide invaluable community transport services to help people and groups who don't have access to their own transport. Now, the organisation, of course, particularly helps people in getting safely to and from local hospitals in the area. Can you tell us, Minister, what discussions you've had with your colleague, the Minister for Health and Social Services, about further supporting services like these, which provide such an important lifeline to those in need of assistance, particularly in rural areas?

Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am yr ateb hwnnw. Rwy'n siŵr y byddwch yn ymwybodol o Gymdeithas Mudiadau Trafnidiaeth Gymunedol Sir Benfro, sy'n darparu gwasanaethau trafnidiaeth cymunedol amhrisiadwy i helpu pobl a grwpiau heb drafnidiaeth eu hunain. Nawr, mae'r sefydliad wrth gwrs yn helpu pobl yn benodol i deithio'n ddiogel i ac o ysbytai lleol yn yr ardal. A allwch ddweud wrthym, Weinidog, pa drafodaethau a gawsoch gyda'ch cyd-Aelod, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ynglŷn â rhoi cefnogaeth bellach i wasanaethau fel y rhain, sy'n darparu achubiaeth mor bwysig i'r rhai sydd angen cymorth, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig?

15:00 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The health Minister and I have had discussions about the issue of community transport in relation particularly to hospitals, but I'm sure that we can have a further dialogue to see what further assistance we can give to ensure that we perhaps can get better arrangements in place. I'd be delighted to do so and report back.

Mae'r Gweinidog Iechyd a minnau wedi cael trafodaethau am drafnidiaeth gymunedol mewn perthynas ag ysbytai yn benodol, ond rwy'n siŵr y gallwn drafod ymhellach i weld pa gymorth arall y gallwn ei roi i sicrhau y gallwn gael gwell trefniadau ar waith. Byddwn wrth fy modd yn gwneud hynny a byddaf yn adrodd yn ôl ar y mater.

## Cynnydd Dinas-ranbarth Bae Abertawe

## Progress of the Swansea Bay City Region

15:00 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*14. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am gynnydd dinas-ranbarth bae Abertawe? OAQ(4)0574(EST)*

*14. Will the Minister update the Assembly on the progress of the Swansea bay city region? OAQ(4)0574(EST)*

15:00 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Excellent progress has been made. We've hosted an international summit showcasing the region's strength, and a very good innovation conference, and I think we need to recognise the two significant announcements recently of the BT broadband enterprise testbed for Swansea and the new brand for the city of Swansea and the wider region. In mentioning the BT broadband enterprise testbed, we must thank BT and particularly Ann Beynon, who was very helpful in this regard to the city region.

Mae cynnydd rhagorol wedi'i wneud. Rydym wedi cynnal uwchgynhadledd ryngwladol yn arddangos cryfder y rhanbarth, a chynhadledd arloesi dda iawn, ac rwy'n credu bod angen i ni gydnabod y ddau gyhoeddiad arwyddocaol a wnaed yn ddiweddar ynghylch profion menter band eang BT ar gyfer Abertawe a'r brand newydd ar gyfer dinas Abertawe a'r rhanbarth ehangach. Wrth sôn am brofion menter band eang BT, rhaid diolch i BT ac yn enwedig i Ann Beynon, a fu o gymorth mawr yn hyn o beth i'r ddinas-ranbarth.

15:01 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much for that answer, and obviously I welcome the news about the conference in particular. Residents and small businesses will of course have picked up a sense of what the city region is all about from the press and from questions to AMs and to yourself, but can you give us an indication of when there might be a mass publicity campaign for residents and small businesses, particularly if you have any views on the timing of that in view of any potential changes to local authority boundaries—just to avoid mixed messages? Thank you.

Diolch yn fawr iawn am yr ateb hwnnw, ac yn amlwg rwy'n croesawu'r newyddion am y gynhadledd yn arbennig. Bydd trigolion a busnesau bach, wrth gwrs, wedi cael syniad o'r hyn y mae'r ddinas-ranbarth yn ei olygu gan y wasg ac o gwestiynau i ACau ac i chi eich hun, ond a allwch roi syniad pa bryd y gallai fod ymgyrch gyhoeddusrwydd dorfol i drigolion a busnesau bach, yn enwedig os oes gennych unrhyw farn ar yr amseriad o ystyried unrhyw newidiadau posibl i ffiniau awdurdodau lleol—er mwyn osgoi negeseuon cymysg? Diolch yn fawr.

15:01

### Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, obviously, I've heard your comments and I will refer them to the city region board for their comment.

Wel, yn amlwg, rwyf wedi clywed eich sylwadau a fe'u cyfeiriaf at fwrdd y ddinas-ranbarth iddynt roi eu sylwadau hwy arnynt.

**SA1**

**SA1**

15:01

### Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*15. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau arfaethedig yn SA1? OAQ(4)0573(EST)*

*15. Will the Minister provide an update on the proposed developments in SA1? OAQ(4)0573(EST)*

15:01

### Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think the exciting developments that are going on in SA1 between ourselves and the University of Wales Trinity Saint David have been very good, because we've got a number of sites designated for their use, and there are a lot of public works under way as well.

Rwy'n meddwl bod y datblygiadau cyffrous sy'n digwydd yn SA1 rhyngom ni a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant wedi bod yn dda iawn, am fod gennym nifer o safleoedd a ddynodwyd at eu defnydd, ac mae llawer o weithiau cyhoeddus ar y gweill hefyd.

15:02

### Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I thank the Minister for that response? It follows on from the success of Swansea vale, which was another mixed-use development within my constituency, where housing and development, including commercial and manufacturing, occurred alongside each other. When will the Minister be able to give an update on the University of Wales Trinity Saint David development and, more importantly, when we are likely to see it finished?

A gaf fi ddiolch i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw? Mae'n dilyn llwyddiant Bro Abertawe, datblygiad defnydd cymysg arall yn fy etholaeth, lle y cafwyd tai a datblygiadau, gan gynnwys datblygiadau masnachol a gweithgynhyrchu, ochr yn ochr â'i gilydd. Pa bryd y bydd y Gweinidog yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am ddatblygiad Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ac yn bwysicach, pa bryd rydym yn debygol o'i weld yn cael ei orffen?

15:02

### Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Obviously, the development itself is about combining education and research opportunities, with opportunities for business collaboration. That's at its heart. We're looking now at a joint master planning exercise prior to submitting a planning application to Swansea, and we hope as well that we'll be using the site for open innovation and knowledge exploitation. I will certainly be more than happy to update Members in due course.

Yn amlwg, mae'r datblygiad ei hun yn ymwneud â chyfuno cyfleoedd addysg ac ymchwil gyda chyfleoedd ar gyfer cydweithrediad busnesau. Dyna sy'n ganolog iddo. Rydym yn edrych yn awr ar ymarfer uwchgynllunio ar y cyd cyn cyflwyno cais cynllunio i Abertawe, ac rydym yn gobeithio hefyd y byddwn yn defnyddio'r safle ar gyfer arloesi agored a datblygu gwybodaeth. Byddaf yn sicr yn fwy na pharod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau maes o law.

15:03

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

## 3. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Y Dreth Gyngor a Gwariant Llywodraeth Leol

## 3. Welsh Conservatives Debate: Council Tax and Local Government Spend

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Elin Jones, a gwelliant 2 yn enw Aled Roberts.*

*The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Elin Jones, and amendment 2 in the name of Aled Roberts.*

15:03

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to item 3, which is the Welsh Conservatives' debate on council tax and local government spend, and I call on Janet Finch-Saunders to move the motion.

Symudwn yn awr at eitem 3, sef dadl y Ceidwadwyr Cymreig ar y dreth gyngor a gwariant llywodraeth leol, a galwaf ar Janet Finch-Saunders i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5780 Paul Davies

Motion NDM5780 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi cynlluniau Ceidwadwyr Cymru i wella dealltwriaeth pobl sy'n talu'r dreth gyngor o sut y mae eu treth gyngor yn cael ei gwario.

1. Notes Welsh Conservative plans to give council taxpayers improved understanding of how their council tax is spent.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda chynghorau i wella atebolrwydd o ran gwariant treth gyngor.

2. Calls on the Welsh Government to work with councils to improve the accountability of council tax spend.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wella tryloywder mewn gwariant llywodraeth leol ledled Cymru.

3. Calls on the Welsh Government to improve transparency in local government spend across Wales.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

15:03

## Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I am indeed very pleased today to put forward the Welsh Conservative motion, a very clear motion that calls for our plans to give council tax payers an improved understanding of how their actual council tax money is spent.

Rwy’n falch dros ben o gael cyflwyno cynnig y Ceidwadwyr Cymreig heddiw, cynnig clir iawn sy’n galw am gynlluniau i wella dealltwriaeth pobl sy’n talu’r dreth gyngor o sut y mae arian eu treth gyngor yn cael ei wario mewn gwirionedd.

We do this alongside calling for the Welsh Government to work more closely with councils to improve the accountability of council tax spend, and we call on the Welsh Government to improve transparency in local government in general terms across Wales.

Rydym yn gwneud hyn gan alw ar Lywodraeth Cymru i weithio’n agosach gyda chynghorau i wella atebolrwydd o ran gwariant treth gyngor, ac rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i wella tryloywder mewn llywodraeth leol yn gyffredinol ledled Cymru.

At a time when there is much talk about reorganisation and the forthcoming map that the Minister is bringing forward ‘soon’, I would suggest to the Minister that now is a very good time in which he could put forward his suggestions and work with us in order to provide a clear strategic aim of good leadership and guidance to our authorities, ensuring that the Welsh pound and, indeed, the local government settlement are used wisely and that householders genuinely feel more connected with the process.

Ar adeg pan fo llawer o sôn am ad-drefnu a’r map sydd ar y ffordd, i’w gyflwyno gan y Gweinidog ‘yn fuan’, byddwn yn awgrymu i’r Gweinidog ei bod yn adeg dda iawn iddo gyflwyno ei awgrymiadau a gweithio gyda ni er mwyn darparu nod strategol clir o arweinyddiaeth a chyfarwyddyd da i’n hawdurdodau, gan sicrhau bod y bunt Gymreig ac yn wir, y setliad i lywodraeth leol yn cael eu defnyddio’n ddoeth a bod deiliaid tai yn teimlo bod ganddynt gysylltiad go iawn â’r broses.

Under Labour, since 1997, the people of Wales have suffered from crippling rises in their council tax bills. The reality is when Labour came to power in 1997, the average band D council tax was £495. Now, in 2015-16, it is £1,328. This is an increase of 168 per cent. Welsh Conservative policy to freeze council tax would’ve provided our hard-working taxpayers in the average band D council tax households in Wales with £201.31 more money in their pockets.

O dan Lafur, ers 1997, mae pobl Cymru wedi dioddef yn sgil codiadau niweidiol yn eu biliau treth gyngor. Y gwir amdani yw pan ddaeth Llafur i rym yn 1997, roedd y dreth gyngor ar gyfer band D cyfartalog yn £495. Yn awr, yn 2015-16, mae’n £1,328. Dyna gynnydd o 168 y cant. Byddai polisi’r Ceidwadwyr Cymreig i rewi’r dreth cyngor wedi rhoi £201.31 yn fwy o arian ym mhocedi ein trethdalwyr gweithgar ar aelwydydd band D cyfartalog y dreth gyngor yng Nghymru.

Whilst noting the amendment that 14 per cent of council tax spend is only sourced from council tax, the fact does remain that council tax in Wales is now becoming a huge burden on our hard-working families and our pensioners. Now, despite funding coming across to Wales from the UK Government for three years, which would’ve allowed a freeze on council tax—something that’s been enjoyed over the border in England, over the border in Scotland—Labour held—

Gan nodi’r gwelliant mai 14 y cant yn unig o wariant cyngor a ddaw o’r dreth gyngor, mae’n dal yn wir fod y dreth gyngor yng Nghymru yn awr yn dod yn faich enfawr ar ein teuluoedd gweithgar a’n pensiynwyr. Nawr, er bod cyllid yn dod i Gymru gan Lywodraeth y DU am dair blynedd a fyddai wedi caniatáu i ni rewi’r dreth gyngor—rhywbeth a wnaed dros y ffin yn Lloegr, dros y ffin yn yr Alban—daliodd Llafur—

*Mick Antoniw a gododd—*

*Mick Antoniw rose—*

15:05 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention? Mick Antoniw.

A wnewch chi dderbyn ymyriad? Mick Antoniw.

15:05 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Do you agree, though, that council tax is still significantly lower in Wales than in England, and Welsh council tax payers, as a result of having a Labour Government here, have more money in their pocket than they would if they were living in England?

A ydych yn cytuno, fodd bynnag, fod y dreth gyngor yn dal i fod yn sylweddol is yng Nghymru nag yn Lloegr, a bod pobl sy'n talu'r dreth gyngor yng Nghymru, o ganlyniad i gael Llywodraeth Lafur yma, â mwy o arian yn eu pocedi na phe baent yn byw yn Lloegr?

15:05 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

If you'd have asked me that question in 1997, I would've agreed with you. Roll forward to 2015 and a 5 per cent almost year on year on year increase is fast bringing up the levels with England. Labour held this funding back—as I say, spending that actually helped people in other parts of the United Kingdom to actually see their council tax frozen—and what did you spend it on? An ineffectual stimulus package. Welsh Conservatives believe that you have let down a large proportion of our Welsh residents in Wales.

Pe baech wedi gofyn y cwestiwn hwnnw i mi yn 1997, byddwn wedi cytuno gyda chi. Ewch ymlaen i 2015 ac mae cynnydd o 5 y cant bron bob blwyddyn yn prysur godi'r lefelau i'r hyn a geir yn Lloegr. Cadwodd Llafur y cyllid hwn yn ôl—fel y dywedais, gwariant a helpodd bobl mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig i gael eu treth gyngor wedi'i rhewi—ac ar beth y gwarioch chi'r arian? Pecyn ysgogi aneffeithiol. Cred y Ceidwadwyr Cymreig eich bod wedi gwneud cam â chyfran helaeth o'n trigolion yng Nghymru.

Significant levels of council tax go uncollected, and it is a scandal that, as bills continue to rise in Wales, with over £83 million of council tax going unpaid across the nation, this is money that is owed to the Government, and should be used to keep bills down for law-abiding residents and those who do not shy away from their own financial challenges. The Welsh Government has not introduced any initiative to support our local authorities in the collection of these moneys.

Mae lefelau sylweddol o'r dreth gyngor heb eu casglu, ac wrth i filiau barhau i godi yng Nghymru, gyda thros £83 miliwn o dreth gyngor heb ei thalu ar draws y wlad, mae'n sgandal fod hwn yn arian sy'n ddyledus i'r Llywodraeth, a dylid ei ddefnyddio i gadw biliau'n is i drigolion sy'n cydymffurfio â'r gyfraith a'r rhai nad ydynt yn cilio rhag eu heriau ariannol personol. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno unrhyw fenter i gynorthwyo ein hawdurdodau lleol i gasglu'r arian hwn.

Now, Welsh Labour should look to give people a say in how their money is spent. The Localism Act in England—

Yn awr, dylai Llafur Cymru roi llais i bobl yn y modd y caiff eu harian ei wario. Mae'r Ddeddf Lleoliaeth yn Lloegr—

*Rhodri Glyn Thomas a gododd—*

*Rhodri Glyn Thomas rose—*

15:07 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Go on, I will give way.

Ewch ymlaen, rwy'n ildio.

15:07 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I don't think it's my role to support the Labour Government here, but you will recall—[Interruption.]

Nid wyf yn credu mai fy rôl i yw cefnogi'r Llywodraeth Lafur yma, ond fe fyddwch yn cofio—[Torri ar draws.]

15:07 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Order, order.

Trefn, trefn.

15:07 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—that council tax benefits were devolved with a 10 per cent shortfall, and the Labour Government, due to pressure from Plaid Cymru and myself, I hasten to say, did actually step into the breach to ensure that money was available to pay that difference.

[Yn parhau.]—bod budd-daliadau'r dreth gyngor wedi eu datganoli gyda diffyg o 10 y cant, a bod y Llywodraeth Lafur, yn sgil pwysau gan Blaid Cymru a minnau, prysuraf i ddweud, wedi camu i'r adwy mewn gwirionedd i sicrhau bod arian ar gael i dalu am y gwahaniaeth hwnnw.

15:07 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We would've liked the same pressure, actually, from you to support our calls for a council tax freeze. Only the Welsh Conservatives are actually committed to supporting our council tax payers in Wales.

Byddem wedi hoffi gweld yr un pwysau gennych, mewn gwirionedd, i gefnogi ein galwadau am rewi'r dreth gyngor. Y Ceidwadwyr Cymreig yn unig sydd wedi ymrwymo mewn gwirionedd i gefnogi pobl sy'n talu'r dreth gyngor yng Nghymru.

The Localism Act in England ensures that councils cannot increase their council tax by more than 2 per cent without a community referendum. The average increase for council tax in England next year is 0.6 per cent, yet we know that, in Wales, you're looking at 4.5 per cent to 5 per cent already being added. Now then, under Plaid Cymru, and propped up by Welsh Labour, in my own authority of Conway, I understand that next year's budget has already been forecast with a predicted 5 per cent increase—and that's before we've even had any hint of any settlement. So, we do have a problem in local government in Wales. Welsh Conservatives are, and will remain, committed to freezing council tax, putting money back into the pockets of our residents.

Mae'r Ddeddf Lleoliaeth yn Lloegr yn sicrhau na all cynghorau godi eu treth gyngor fwy na 2 y cant heb refferendwm cymunedol. Y cynnydd cyfartalog ar gyfer y dreth gyngor yn Lloegr y flwyddyn nesaf yw 0.6 y cant, ac eto gwyddom ein bod yn wynebu 4.5 y cant i 5 cant yn ychwanegol eisoes yng Nghymru. Nawr, o dan Blaid Cymru, wedi'u cynnal gan Lafur Cymru, yn fy awdurdod hun yng Nghonwy, deallaf fod cynnydd o 5 y cant eisoes wedi'i ddarogan ar gyfer cyllideb y flwyddyn nesaf—a hynny cyn i ni gael unrhyw awgrym o setliad hyd yn oed. Felly, mae gennym broblem mewn llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn ymrwymedig ac yn mynd i barhau i fod yn ymrwymedig i rewi'r dreth gyngor, a rhoi arian yn ôl ym mhocedi ein trigolion.

Now, having put out a council tax survey recently and reading the many responses received, council tax increases remain a significant concern, with many council tax payers quite rightly wanting to know how their money is spent and on what. It revealed a worrying level of distress amongst the public as regards the transparency of council tax spending. Whilst 33 per cent of respondents had a little idea of how their money was spent, 63 per cent were not confident where the money goes and how it is spent. The people of Wales deserve greater efficiency, enhanced transparency, democratic accountability and robust financial probity, and we would address the differing standards of transparency across the 22 local authorities.

Nawr, ar ôl dosbarthu arolwg o'r dreth gyngor yn ddiweddar a darllen yr ymatebion niferus a ddaeth i law, mae codiadau yn y dreth gyngor yn parhau i fod yn bryder sylweddol, gyda llawer o bobl sy'n talu'r dreth gyngor, yn gwbl briodol, am wybod sut y mae eu harian yn cael ei wario ac ar beth. Mae'n datgelu lefel bryderus o ofid ymhlith y cyhoedd o ran tryloywder gwariant treth gyngor. Er bod gan 33 y cant o'r ymatebwyr ychydig o syniad ynglŷn â sut y mae eu harian yn cael ei wario, nid oedd 63 y cant yn hyderus eu bod yn gwybod i ble mae'r arian yn mynd a sut y caiff ei wario. Mae pobl Cymru yn haeddu mwy o effeithlonrwydd, tryloywder gwell, atebolrwydd democrataidd a gonestrwydd ariannol cadarn, a byddem yn mynd i'r afael â'r safonau tryloywder gwahanol ar draws y 22 awdurdod lleol.

Now, my own authority, in Conway, to their credit, do provide a table to detail the spending of council tax allocation. Swansea make available a very detailed guide, setting out information on the authority's reserves and the budget of community and town councils. However, much of this information is only available online, and is often very difficult to find.

Nawr, mae fy awdurdod i, yng Nghonwy, er clod iddynt, yn darparu tabl i fanylu ar wariant dyraniad y dreth gyngor. Mae Abertawe'n llunio canllaw manwl iawn, yn nodi gwybodaeth am gronfeydd wrth gefn yr awdurdod a chyllideb cynghorau tref a chymuned. Fodd bynnag, nid yw llawer o'r wybodaeth hon ond ar gael ar-lein, ac mae'n aml yn anodd iawn dod o hyd iddi.

More information provided in council tax bills will certainly go a long way to restore the trust of our taxpayers once again. So, we call on the Welsh Government today to work with our authorities to improve communication and the engagement of the community in council tax spend and their chosen priorities. I have to pay tribute once again to Conservative-led Monmouthshire council, who every year—every year—hold three sessions a day, every day for a week, one week a year. They enter into full dialogue with their residents as to how they want to see their council tax spent and what the priorities should be, and I think that's a really good model for other local authorities to follow. Bridgend council has explicitly stated that Welsh Government cuts have had an adverse effect on constituents' council tax payments. In addition to money raised by council tax, there must be transparency over every aspect of local authority spending.

Bydd darparu mwy o wybodaeth gyda biliau'r dreth gyngor yn sicr yn mynd gryn dipyn o ffordd i adfer ymddiriedaeth ein trethdalwyr unwaith eto. Felly, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru heddiw i weithio gyda'n hawdurdodau i wella cyfathrebu ac ymgysylltiad â'r gymuned o ran gwariant treth gyngor a'r blaenoriaethau a ddewiswyd ganddynt. Rhaid i mi dalu teyrnged unwaith eto i Gyngor Sir Fynwy dan arweiniad y Ceidwadwyr, sydd bob blwyddyn—bob blwyddyn—yn cynnal tair sesiwn y dydd, bob dydd am wythnos, am wythnos bob blwyddyn. Maent yn cynnal trafodaeth lawn gyda'u preswylwyr o ran y modd y maent am weld eu treth gyngor yn cael ei gwario a beth ddylai'r blaenoriaethau fod, ac rwy'n credu bod hwnnw'n fodel da iawn i awdurdodau lleol eraill ei ddilyn. Mae cyngor Pen-y-bont ar Ogwr wedi datgan yn benodol fod toriadau Llywodraeth Cymru wedi cael effaith niweidiol ar daliadau treth gyngor etholwyr. Yn ogystal â'r arian a godwyd gan y dreth gyngor, rhaid cael tryloywder ynghylch pob agwedd ar wariant awdurdodau lleol.

Lessons, of course, can be learned, not surprisingly, from our Conservative colleagues in Westminster. In 2014, the Conservative-led UK Government introduced the local government transparency code, making it a legal requirement for authorities to publish data specified in the code. The UK Government funded projects such as Lambeth in Numbers, used to demonstrate how better access to information can help people understand and solve problems in their area, and Openly Local, a project that makes use of more than 140 individual authorities' own data. During this current digital revolution, we are now seeing many silver surfers intent on knowing how public money is spent, and across Wales there have been some pretty poor examples of when an authorities feels it can simply just hide away from the public gaze when reckless or departmental overspends are highlighted internally.

Nid yw'n syndod y gellir dysgu gwersi, wrth gwrs, gan ein cydweithwyr Ceidwadol yn San Steffan. Yn 2014, cyflwynodd Llywodraeth y DU dan arweiniad y Ceidwadwyr god tryloywder ar gyfer llywodraeth leol, gan ei gwneud yn ofyniad cyfreithiol i awdurdodau gyhoeddi'r data a nodir yn y cod. Ariannodd Llywodraeth y DU brosiectau, megis Lambeth in Numbers, a ddefnyddiwyd i ddangos sut y gall gwell mynediad at wybodaeth helpu pobl i ddeall a datrys problemau yn eu hardaloedd, ac Openly Local, prosiect sy'n gwneud defnydd o ddata mwy na 140 o awdurdodau unigol. Yn ystod y chwyldro digidol cyfredol, rydym yn awr yn gweld llawer o borwyr penwyn sy'n benderfynol o wybod sut y caiff arian cyhoeddus ei wario, ac ar draws Cymru cafwyd rhai enghreifftiau digon gwael o awdurdodau yn teimlo y gallant guddio o olwg y cyhoedd pan gaiff gorwariant di-hid neu orwariant adrannol eu hamlygu'n fewnol.

Now, I am not alone in having grave concerns as regards the behaviour of some authorities who appear to use, overuse and actually abuse Schedule 12A, Part 4 of the Local Government Act 1972 in order to exclude the press and public, often when contentious issues would leave that authority feeling rather red-faced, whilst facing external democratic scrutiny. This Act is used, and it is to the detriment of our tax-paying public, who have a right to know when authorities get it wrong and have a right to know if there is a blatant mismanagement as to the use of council tax moneys and others. There are, of course, rare occasions, as intended by the Act, when a cabinet or council meeting may well have justifiable reasons for kicking out the press and public during commercially sensitive deliberations. However, when one looks at the regularity now in Wales with which this exemption is now applied, it is becoming almost the norm for deliberations to be made well away from any public scrutiny. It is little wonder, therefore, that at election times—

Nawr, nid fi yw'r unig un sy'n pryderu'n ddifrifol ynghylch ymddygiad rhai awdurdodau sydd i'w gweld yn defnyddio, yn gorddefnyddio ac mewn gwirionedd yn camddefnyddio Atodlen 12A, Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 er mwyn allgau'r wasg a'r cyhoedd, yn aml pan fyddai materion dadleuol yn gwneud i'r awdurdod gywilyddio wrth iddo wynebu prosesau craffu allanol democrataidd. Defnyddir y Ddeddf hon, a hynny ar draul ein cyhoedd sy'n talu trethi, sydd â hawl i wybod pan fydd awdurdodau yn gwneud camgymeriadau ac sydd â hawl i wybod os oes camreoli amlwg o ran y defnydd o arian y dreth gyngor a threthi eraill. Wrth gwrs, mae yna adegau prin, fel y bwriadwyd gan y Ddeddf, pan allai fod gan gabinet neu gyfarfod cyngor resymau digon cyfiawn dros gael gwared ar y wasg a'r cyhoedd yn ystod trafodaethau sy'n sensitif yn fasnachol. Fodd bynnag, pan edrychwn ar ba mor rheolaidd y cymhwysir yr eithriad hwn bellach yng Nghymru, mae'n dod yn norm bron i drafodaethau gael eu cynnal allan o olwg y cyhoedd. Nid yw'n syndod, felly, adeg etholiad—

*Mike Hedges rose—*

*Mike Hedges a gododd—*

15:13 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Sorry, I've taken two. Sorry, Mike.

Mae'n ddrwg gennyf, rwyf wedi cymryd dau. Mae'n ddrwg gennyf, Mike.

[Continues.]—the electorate are none too aware of whether their own councillor may be worthy of their support once again.

[Yn parhau.]—nad yw'r etholwyr yn ymwybodol o gwbl a yw eu cynghorydd eu hunain yn deilwng o'u cefnogaeth unwaith eto.

In 2013-14, Wrexham held at least part of every single cabinet meeting behind closed doors. In comparison, in the same year, Conservative-led Monmouth only went into private session just the once. Recently, the Wales Audit Office criticised Newport, saying that key decisions were being made outside of formal public meetings. It is clear that some councils are normalising this culture of exclusivity and secrecy, and that is simply alienating members of the public from issues that directly affect them.

Yn 2013-14, cynhaliodd Wrecsam o leiaf ran o bob cyfarfod cabinet y tu ôl i ddrysau caeedig. Ar y llaw arall, yn yr un flwyddyn, unwaith yn unig y cynhaliwyd sesiwn breifat gan gyngor Mynwy dan arweiniad y Ceidwadwyr. Yn ddiweddar, beirniadwyd Casnewydd gan Swyddfa Archwilio Cymru, a ddywedodd fod penderfyniadau allweddol yn cael eu gwneud y tu allan i gyfarfodydd cyhoeddus ffurfiol. Mae'n amlwg fod rhai cynghorau yn normaleiddio'r diwylliant detholus a chyfrinachol hwn, ac yn syml iawn, mae hynny'n dieithrio aelodau o'r cyhoedd rhag materion sy'n effeithio'n uniongyrchol arnynt.

The Minister will no doubt respond shortly to these criticisms by saying that, in March 2013, the Welsh Government provided £1.25 million to local authorities in order to broadcast and live-stream council meetings online, a brilliant initiative. However, only half of the authorities are using this money for that purpose, and of those that do, they're simply cherry-picking what they stream, often leaving out scrutiny and audit committees. Now, rather than isolating themselves, councils should be actively making steps towards increasing their own levels of transparency and civic engagement. Elected representatives have, after all, a duty to be accountable to the public they serve. Now, as the Minister for local government, I believe that you have that duty also, as the one ultimately presiding over our local government portfolio. I move our motion.

Mae'n siŵr y bydd y Gweinidog yn ymateb cyn bo hir i'r beirniadaethau hyn drwy ddweud bod Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2013 wedi darparu £1.25 miliwn i awdurdodau lleol er mwyn darlledu a ffrydio cyfarfodydd cyngor yn fyw ar-lein, a oedd yn fenter wych. Fodd bynnag, hanner yr awdurdodau yn unig sy'n defnyddio'r arian at y diben hwn, ac o'r rhai sy'n gwneud hynny, maent yn dewis a dethol yr hyn y maent yn ei ffrydio, gan hepgor pwyllgorau craffu ac archwilio yn aml. Nawr, yn hytrach nag ynysu eu hunain, dylai cynghorau fynd ati i roi camau ar waith tuag at gynyddu eu lefelau eu hunain o dryloywder ac ymgysylltiad dinesig. Wedi'r cyfan, mae gan gynrychiolwyr etholedig ddyletswydd i fod yn atebol i'r cyhoedd a wasanaethant. Nawr, fel y Gweinidog dros lywodraeth leol, rwy'n credu bod honno'n ddyletswydd i chi hefyd, fel yr un sy'n llywyddu dros ein portffolio llywodraeth leol yn y pen draw. Rwy'n cynnig ein cynnig.

15:15

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I have selected the two amendments to the motion. I call on Rhodri Glyn Thomas to move amendment 1, which was tabled in the name of Elin Jones.

Rwyf wedi dethol y ddau welliant i'r cynnig. Galwaf ar Rhodri Glyn Thomas i gynnig gwelliant 1, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

*Gwelliant 1—Elin Jones*

*Amendment 1—Elin Jones*

*Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Add as new point 2 and renumber accordingly:*

*Yn nodi bod y dreth gyngor yn cynrychioli dim ond oddeutu 14 y cant o wariant cynghorau yng Nghymru.*

*Notes that council tax represents only about 14 per cent of councils' expenditure in Wales.*

*Cynigiwyd gwelliant 1.*

*Amendment 1 moved.*

15:15

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch yn fawr iawn, Lywydd. Rwy'n falch iawn i gynnig gwelliant 1 yn enw Elin Jones ac yn falch iawn fod llefarydd y Ceidwadwyr wedi cydnabod bod ein gwelliant ni yn gosod y cynnig yma o fewn ei gyd-destun priodol ynglŷn â faint yn union o wariant llywodraeth leol yng Nghymru sydd yn dod yn uniongyrchol o'r dreth gyngor, ac y mae e'n ganran fach iawn, wrth gwrs, o'r cyfanswm hwnnw.

Thank you very much, Presiding Officer. I'm very pleased to be able to move amendment 1 in the name of Elin Jones and I'm very pleased that the Conservative spokesperson has acknowledged that our amendment places this motion within its appropriate context as regards exactly how much local government expenditure in Wales comes directly from the council tax, and it is a very small percentage, of course, of that total.

A gaf i ddweud bod rhai pethau yn y cynnig yma i'w croesawu? Os allaf roi gair o gyngor i chi ynglŷn â drafftio cynnig, hwyrach y byddai'n llawer iawn gwell petaech chi wedi dechrau gyda phwynt 3:

May I say that there are some things contained within this motion that are to be welcomed? If I can give you a word of advice on drafting a motion, it may have been much better had you started with point 3:

'Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wella tryloywder mewn gwariant llywodraeth leol ledled Cymru.'

'Calls on the Welsh Government to improve transparency in local government spend across Wales.'

Nid oes unrhyw un yn gallu anghytuno â'r egwyddor hwnnw. Rwy'n siŵr y byddai'r Gweinidog ei hun yn croesawu hynny. Ac yna dylid dilyn hynny gyda phwynt mwy cyfyngedig, sydd yn ymwneud â gwariant sydd yn codi o'r dreth gyngor, sef yr ail bwynt:

I'm sure nobody could disagree with that principle. I'm sure that the Minister himself would welcome that. And then that should be followed by a more limited point on expenditure, namely point 2:

'Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda chynghorau i wella atebolrwydd o ran gwariant treth gyngor.'

'Calls on the Welsh Government to work with councils to improve the accountability of council tax spend.'

Mae'r broblem sydd gen i gyda'ch cynnig chi yn deillio o'r pwynt cyntaf, oherwydd mai'r pwynt cyntaf yn ymwneud yn unig â'r bobl hynny sydd yn talu treth gyngor. Hynny yw, yn ôl y Ceidwadwyr, does gan neb arall unrhyw hawl i dderbyn gwybodaeth ynglŷn â gwariant treth gyngor yng Nghymru—dim ond y bobl hynny sydd yn talu treth gyngor. Mae gwariant treth gyngor ar wasanaethau sylfaenol—rŷm ni'n sôn yn y fan hon ynglŷn â rhai o'r gwasanaethau mwyaf angenrheidiol yn ein cymdeithas ni—megis gwasanaethau cymunedol, tai, addysg a'r holl bethau yma, yn dod o dan wariant llywodraeth leol, ond dim ond pobl sydd yn talu treth gyngor sydd i fod i gael y wybodaeth yma, yng nghyd-destun y pwynt cyntaf, pwynt agoriadol eich cynnig chi. Petaech chi wedi edrych ar y pwnc yma yn y cyd-destun ehangach o dryloywder, a'r angen i ddysgu pobl i ddeall gwariant llywodraeth leol, mae'n siŵr y byddai'n cefnogaeth ni i'ch cynnig chi yn llawer iawn mwy brwd.

The problem I have with your motion arises from point 1, because that appertains solely to those taxpayers, those people who pay their council tax. That is, according to the Conservatives, nobody else has any right to receive information about council tax expenditure—just those who are paying it. Council tax expenditure on basic services—we're talking here about some of the most essential services within our society—such as community services, housing, education and all of these things, come under local government expenditure, but it's only the council tax payers who should receive this information, in the context of the first point, the opening point of your motion. Had you looked at this subject in the wider context of transparency, and the need to ensure that people understand expenditure in local government, I'm sure that our support for your motion would be much more enthusiastic.

Gadewch inni fod yn glir ynglŷn â threth gyngor yng Nghymru. Roedd llefarydd y Ceidwadwyr eto'n rhoi'r argraff fod trethdalwyr yng Nghymru yn talu llawer iawn mwy—

Let's be clear about council tax in Wales. The Conservative spokesperson, once again, gave the impression that taxpayers in Wales pay very much more—

15:17 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Would the Member give way?

A wnaiff yr Aelod ildio?

15:18 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Wel, rwyf newydd ddechrau pwynt. Fe ildiaf ar y pwynt blaenorol, os ydych am ddod i mewn.

Well, I've only just started a point. I'll give way on the previous point, if you wish to come in.

15:18 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Thank you for giving way. Your amendment doesn't actually delete point 1 of our motion, does it? It adds to it, so you can't have that many problems with it.

Diolch i chi am ildio. Nid yw eich gwelliant yn dileu pwynt 1 ein cynnig mewn gwirionedd, nac ydy? Mae'n ychwanegu ato, felly ni all fod gennych gymaint â hynny o broblemau yn ei gylch.

15:18 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Nid wyf wedi dweud wrthych chi eto a ydym yn mynd i gefnogi'ch cynnig chi ai peidio—[Chwerthin.] Ac nid fy ngwaith i ydy ailddrafftio cynnig gan y blaid Geidwadol. Rwy'n dweud wrthych—. Ceisio bod o gymorth i chi yn y dyfodol rwyf i, er mwyn ichi ddysgu sut i ddrafftio cynigion mewn ffordd, hwyrach, fyddai'n cael cefnogaeth y pleidiau eraill.

I haven't told you yet whether we're going to support your motion or not—[Laughter.] And it's not my job to redraft the Conservative party's motions. I'm telling you—. I'm just trying to assist you for the future, so that you can learn how to draft motions in a way that may attract the support of the other parties.

Roedd llefarydd y Ceidwadwyr yn rhoi'r argraff bod trethdalwyr yng Nghymru yn talu mwy o dreth na phobl yn Lloegr. Gadewch inni fod yn gwbl glir am hyn. Mae'r dreth gyngor yng Nghymru yn cynrychioli 89 y cant o'r dreth gyngor ar gyfartaledd yn Lloegr. Hynny yw, mae'n llawer iawn yn llai—mae'n sylweddol is.

The Conservative spokesperson gave the impression that taxpayers in Wales pay more tax than people in England. Well, let's be crystal clear on this. The council tax in Wales represents 89 per cent of the council tax on average in England. That is, it's very much smaller—significantly less.

*Mark Isherwood a gododd—*

*Mark Isherwood rose—*

15:19 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Iawn.

Yes.

15:19 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Do you not share our concern that council tax payers in Wales pay a higher proportion of their income on council tax than those in England or Scotland?

Onid ydych yn rhannu ein pryder bod pobl sy'n talu'r dreth gyngor yng Nghymru yn talu cyfran uwch o'u hincwm ar y dreth gyngor na'r rheini yn Lloegr neu'r Alban?

15:19 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wel, gadewch inni fynd yn ôl at y ffigwr yma o 89 y cant. Rydych chi wedi derbyn bod y dreth gyngor yn cynrychioli rhan fechan iawn o'r gwariant sydd yn cael ei wneud gan lywodraeth leol yn gyfan gwbl yng Nghymru. Gadewch inni gofio bod Llywodraeth Cymru, sydd yn gyfrifol am 80 y cant o gyllid awdurdodau lleol yng Nghymru wedi derbyn toriadau sylweddol iawn gan y glymblaid yn San Steffan yn ystod y sesiwn ddiwethaf, ac rydym ni wedi clywed yr wythnos yma fod £50 miliwn o doriadau pellach yn dod i Lywodraeth Cymru, a bod hynny wedi cael effaith uniongyrchol ar y cymhorthdal i lywodraeth leol yng Nghymru. Gadewch inni fod yn glir am y ffigurau hynny: rŷm ni'n sôn am y ffaith fod 4.1 y cant o godiad, ar gyfartaledd, ar y dreth gyngor yng Nghymru, a gostyngiad o 3.4 y cant, ar gyfartaledd, trwy Gymru yn y cymhorthdal y mae llywodraeth leol yn ei dderbyn oddi wrth y Llywodraeth genedlaethol yma yng Nghaerdydd. Nid wyf yn credu bod y math hwnnw o godiad yn un afresymol. Rwy'n credu, petaem ni'n canolbwyntio ar ddealltwriaeth o'r gwariant hwnnw a gwerth sylfaenol y gwariant hwnnw mewn gwasanaethau sylfaenol hanfodol i'r holl bobl sy'n derbyn y gwasanaethau hynny gan awdurdodau lleol yng Nghymru, fe fyddem ni'n fwy parod i'ch cefnogi chi yn hyn o beth.

Well, let's return to this figure of 89 per cent. You have accepted that the council tax represents a very small proportion of the expenditure undertaken by local authorities in total in Wales. Let's remember that Welsh Government, which is responsible for 80 per cent of the funding of local authorities in Wales have been dealt very severe cuts from the coalition in Westminster during the last session, and, this week, we've heard that there are another £50 million of further cuts coming to Welsh Government, and that has had a direct impact on the grants to local government in Wales. Let us be clear on these figures: we're talking about the fact that there's a 4.1 per cent increase on average in council tax in Wales, and a reduction of 3.4 per cent on average throughout Wales in the grants that local government receive from the national Government here in Cardiff. I don't believe that that kind of increase is unreasonable. I think, if we were to focus on an understanding of that expenditure and the basic value of that expenditure in the basic essential services for all the people who are in receipt of those services from local authorities in Wales, then we would be more willing to support you in this regard.

15:21 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I now call on Peter Black to move amendment 2, which was tabled in the name of Aled Roberts.

Galwaf yn awr ar Peter Black i gynnig gwelliant 2, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Amendment 2—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu system drethiant leol gyfiawn sy'n deg, yn fforddiadwy ac sy'n lleihau'r baich ar y rhai sy'n ei chael hi'n anoddaf i dalu.*

*Calls on the Welsh Government to produce an equitable local taxation system that is fair, affordable and which reduces the burden on those least able to pay.*

*Cynigiwyd gwelliant 2.*

*Amendment 2 moved.*

15:21 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. Can I welcome the fact that we're having this debate today, although, like Rhodri Glyn Thomas, I'm still a bit puzzled about exactly what this motion says and the way it's been drafted?

Diolch i chi, Lywydd. A gaf fi groesawu'r ffaith ein bod yn cael y ddadl hon heddiw, er fy mod, fel Rhodri Glyn Thomas, yn dal i fod braidd yn ddryslyd ynglŷn â beth yn union y mae'r cynnig hwn yn ei ddweud a'r modd y mae wedi ei ddrafftio?

Part 1 of the motion does give me some difficulty, mostly because I'm still not quite clear what the Welsh Conservative plans to give council tax payers an improved understanding actually are. It seems, from listening very carefully to what Janet Finch-Saunders said, it boils down to more information with council tax bills and much of that information, of course, is prescribed in law as to what goes out with council tax bills.

Mae Rhan 1 y cynnig yn rhoi rhywfaint o anhawster i mi, yn bennaf am nad wyf yn hollol glir beth yn union yw cynlluniau'r Ceidwadwyr Cymreig i wella dealltwriaeth pobl sy'n talu'r dreth gyngor mewn gwirionedd. O wrando'n ofalus iawn ar yr hyn a ddywedodd Janet Finch-Saunders, mae'n ymddangos mai'r hyn ydyw yn y bôn yw mwy o wybodaeth gyda biliau'r dreth gyngor ac mae llawer o'r wybodaeth honno, wrth gwrs, yn cael ei phennu yn y gyfraith o ran yr hyn sy'n cael ei ddosbarthu gyda biliau'r dreth gyngor.

But I'm always happy, you know, if Janet Finch-Saunders is going to bring her skills to local government and help them to draft that information in a far clearer and sharper way, I'm sure local councillors and treasurers up and down the country will be very grateful for that assistance.

Ond wyddoch chi, rwy'n hapus bob amser, os yw Janet Finch-Saunders yn mynd i gyfrannu ei sgiliau i lywodraeth leol a'u helpu i ddrafftio'r wybodaeth honno mewn modd llawer cliriach a mwy pendant. Rwy'n siŵr y bydd cynghorwyr a thrysoryddion lleol ar hyd a lled y wlad yn ddiolchgar iawn am gymorth o'r fath.

I think, Presiding Officer, understanding accountability and transparency is essential in local government. My other concern about this motion is particularly with point 3, where it calls for the Welsh Government to improve the transparency of local government spending across Wales. Actually, it's the job of local government, which is the elected and accountable body, to take the responsibility for that. That, in a sense, is my concern with the whole motion: it takes this top-down approach to local councils when local councils should have that responsibility themselves.

Lywydd, rwy'n credu bod deall atebolrwydd a thryloywder yn hanfodol mewn llywodraeth leol. Mae fy mhryder arall am y cynnig hwn yn ymwneud yn benodol â phwynt 3, lle y mae'n galw ar Lywodraeth Cymru i wella tryloywder gwariant llywodraeth leol ar draws Cymru. A dweud y gwir, gwaith llywodraeth leol, sef y corff etholedig ac atebol, yw ysgwyddo'r cyfrifoldeb am hynny. Hynny, mewn ffordd, sy'n fy mhryderu ynglŷn â'r cynnig cyfan: mae ei agwedd at gynghorau lleol yn un o'r brig i lawr pan ddylai cynghorau lleol eu hunain gael y cyfrifoldeb hwn.

But, of course, if we're going to have more accountability and more transparency—and I think Janet Finch-Saunders made the case very well indeed—then we do need to have a reformed voting system for local government, because proportional representation and the single transferrable vote make sure that councils are more accountable, because they're more representative, and a more accountable local authority will, of course, ensure that that council is more efficient and more effective and, of course, more transparent and listens to people more closely. Councillors don't have the option of being able to fall back on the safely of first-past-the-post seats, which many councils up and down Wales have managed to do in the past.

Ond wrth gwrs, os ydym yn mynd i gael mwy o atebolrwydd a mwy o dryloywder—a chredaf fod Janet Finch-Saunders wedi cyflwyno'r achos yn dda iawn—mae angen i ni gael system bleidleisio ddiwygiedig ar gyfer llywodraeth leol, gan fod cynrychiolaeth gyfrannol a'r bleidlais sengl drosglwyddadwy yn sicrhau bod cynghorau'n fwy atebol, am eu bod yn fwy cynrychiadol, a bydd awdurdod lleol sy'n fwy atebol, wrth gwrs, yn sicrhau bod y cyngor yn fwy effeithlon ac yn fwy effeithiol ac wrth reswm, yn fwy tryloyw ac yn gwrando'n fwy astud ar bobl. Nid oes gan gynghorwyr yr opsiwn o allu dibynnu ar seddi diogel y cyntaf i'r felin, fel y mae llawer o gynghorau ar hyd a lled Cymru wedi llwyddo i wneud yn y gorffennol.

Of course, the other issue in terms of transparency and accountability is the effectiveness of scrutiny. I think that if you're going to really get a better understanding of how council tax is spent, and a better understanding of local government finance, then we need to have more effective scrutiny in local councils all across Wales. That is because, it seems to me, that many councils are not delivering in terms of putting on the spot the executive that makes the decisions on how that money is spent.

Wrth gwrs, y mater arall o ran tryloywder ac atebolrwydd yw effeithiolrwydd craffu. Os ydych yn mynd i gael gwell dealltwriaeth mewn gwirionedd o sut y mae'r dreth gyngor yn cael ei gwario, a gwell dealltwriaeth o gyllid llywodraeth leol, rwy'n credu bod angen i ni gael proses graffu fwy effeithiol mewn cynghorau lleol ledled Cymru. Ymddengys i mi mai'r rheswm am hynny yw nad yw llawer o gynghorau yn cyflawni o ran gwneud y weithrediaeth sy'n penderfynu sut y gwerir yr arian hwnnw yn atebol.

There are good examples, and I'll do a Mike Hedges here and resort to a Swansea council example. Of course, Swansea council has just decided that they're going to buy Oceana in the Kingsway, which is a major building right in the centre of Kingsway, presumably because they want to more their civic centre to that particular venue. They went into a property deal to do that, which I'm not at liberty to discuss here, because that was done in camera, but of course, we, as councillors—and I'm speaking as a councillor now—on that authority have decided, or opposition councillors decided that they were not happy with the way that deal was being put in place; they felt they wanted to ask more detailed questions about its effectiveness and whether it was actually producing value for money for local government. The problem is that when they tried to call that decision in, the process that was in place in Swansea council effectively stopped them from doing it. It's my view that many councillors around Wales, when opposition councillors and even backbench councillors are seeking to call in decisions on individual items of expenditure, the processes that are in place, and the constitutions that are in place are designed in such a way that the threshold that you have to pass to be able to call that decision in successfully is too great, and as a result of that, we're not getting the detailed scrutiny of very important financial decisions, which we need to have in those local councils.

Mae yna enghreifftiau da, a gwnaf yr hyn a wna Mike Hedges yma a throi at gyngor Abertawe am enghraifft. Wrth gwrs, mae cyngor Abertawe newydd benderfynu eu bod yn mynd i brynu Oceana ar Ffordd y Brenin, sy'n adeilad o bwys ar ganol Ffordd y Brenin, yn ôl pob tebyg oherwydd eu bod eisiau symud eu canolfan ddinesig i'r lleoliad hwnnw. Maent wedi trefnu cytundeb eiddo i wneud hynny, ac nid wyf yn rhydd i drafod hynny yma, oherwydd gwnaethpwyd hynny yn y dirgel, ond wrth gwrs, fe benderfynom ni, fel cynghorwyr—ac rwy'n siarad fel cynghorydd yn awr—ar yr awdurdod hwnnw, neu penderfynodd cynghorwyr y gwrthbleidiau nad oeddent yn fodlon â'r ffordd y rhoddwyd y cytundeb ar waith; teimlent eu bod eisiau gofyn cwestiynau manylach am ei effeithiolrwydd ac a oedd yn sicrhau gwerth am arian mewn gwirionedd i lywodraeth leol. Y broblem oedd, pan oeddent yn ceisio galw'r penderfyniad i mewn, roedd y broses a oedd ar waith yng nghyngor Abertawe yn eu hatal rhag gwneud hynny i bob pwrpas. Yn fy marn i, mewn sawl cyngor ledled Cymru, pan fo cynghorwyr yr wrthblaid a hyd yn oed cynghorwyr y meinciau cefn yn ceisio galw penderfyniad ar eitemau unigol o wariant i mewn, mae'r prosesau sydd ar waith, a'r cyfansoddiadau sydd ar waith wedi eu cynllunio yn y fath fodd fel bod y trothwy y mae'n rhaid i chi ei basio i allu galw'r penderfyniad i mewn yn llwyddiannus yn rhy uchel, ac o ganlyniad i hynny, ni wneir y gwaith craffu manwl ar benderfyniadau ariannol pwysig sydd ei angen arnom yn y cynghorau lleol hyn.

Just very briefly, as I don't have much time left now in terms of the Welsh Liberal Democrats' amendment, council tax itself is one of the most unfair taxes in our society as it actually does hit the poorest hardest. You don't have to take my word for it because, of course, Gerry Holtham has produced a very effective dissertation about this, in which he points out that property values are increasing at a much slower rate than house prices. So, for those properties worth up to £44,000, nearly 1.9 per cent of the value of the property is paid in council tax. For those properties over £424,000, the tax is just 0.5 per cent of the capital value. Gerry Holtham sets out some very interesting alternatives as to how we can reform council tax to make it fairer and to make sure that those in the more expensive properties are paying an equal or greater share of the capital value in tax. I haven't got time to go into that here, Presiding Officer, but I would ask the Minister to give us an indication as to whether he's looking at that particular dissertation and whether he will be considering that in terms of future reform.

Yn gryno iawn, gan nad oes gennyf lawer o amser ar ôl bellach o ran gwelliant Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, y dreth gyngor ei hun yw un o'r trethi mwyaf annheg yn ein cymdeithas am mai'r bobl dlotaf sy'n cael eu taro galetaf. Nid oes raid i chi gymryd fy ngair i am hynny oherwydd, wrth gwrs, mae Gerry Holtham wedi cynhyrchu ymdriniaeth effeithiol iawn o hyn, lle y nododd fod gwerth eiddo yn cynyddu ar raddfa lawer arafach na phrisiau tai. Felly, ar gyfer eiddo sy'n werth hyd at £44,000, telir bron i 1.9 y cant o werth yr eiddo mewn treth gyngor. Ar gyfer eiddo dros £424,000, nid yw'r dreth ond yn 0.5 y cant o'r gwerth cyfalaf. Noda Gerry Holtham rai dewisiadau eraill diddorol iawn ynglŷn â sut y gallwn ddiwygio'r dreth gyngor i'w gwneud yn decach ac i wneud yn siŵr fod y bobl mewn eiddo drutach yn talu cyfran gyfartal neu fwy o'r gwerth cyfalaf mewn treth. Nid oes gennyf amser i fynd ar drywydd hynny yma, Lywydd, ond hoffwn ofyn i'r Gweinidog roi syniad i ni a yw'n edrych ar yr ymdriniaeth benodol hon ac a fydd yn ei hystyried mewn perthynas â diwygio yn y dyfodol.

15:26

## Paul Davies [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i gymryd rhan yn y ddadl hon y prynhawn yma. Wrth gwrs, mae'r ddadl heddiw yn galw ar Lywodraeth Cymru i wella tryloywder yng ngwariant llywodraeth leol ar draws Cymru, yn ogystal â darparu eglurder ar sut mae awdurdodau lleol yn gwario'r dreth gyngor. Wrth gwrs, rwy'n derbyn bod awdurdodau lleol ar hyn o bryd yn wynebu amgylchiadau ariannol arbennig o anodd ac, felly, mae hi hyd yn oed yn fwy pwysig nag erioed fod pob punt sy'n cael ei gwario yn cael ei gwario'n effeithiol er mwyn darparu gwasanaethau lleol allweddol yn ein cymunedau.

I'm grateful for the opportunity to participate in this debate this afternoon. Of course, today's debate does call on the Welsh Government to improve transparency in local government expenditure across Wales, as well as providing clarity on how local authorities spend council tax. Of course, I accept that local authorities are currently facing particularly difficult financial circumstances and, therefore, it's even more important than ever that every pound spent is spent effectively in order to provide crucial local services within our communities.

Rydym ni ar yr ochr hon i'r Siambr yn credu bod gan awdurdodau lleol ddyletswydd i wario arian cyhoeddus yn ofalus er mwyn sicrhau bod cyfraddau'r dreth gyngor yn cael eu gosod mor isel â phosib i bobl a bod cyfraddau'r dreth gyngor yn darparu gwerth am arian i'r trethdalwr. Fel rydym ni'n ymwybodol, mae rhai cynghorau yng Nghymru yn barod yn cyhoeddi eu holl wariant ar-lein. Yn fy ardal i, mae penderfyniad wedi'i wneud yn ddiweddar gan aelodau o Gyngor Sir Penfro i gyhoeddi ar-lein yr holl wariant dros £500. Mae'r penderfyniad hwnnw'n golygu bod trethdalwyr bellach yn gallu gweld sut mae Cyngor Sir Penfro, ar y cyfan, yn gwario'i arian. Mae'r math hwnnw o dryloywder yn un ffordd o helpu i waredu gwastraff ac i gynyddu craffu ariannol.

We on this side of the Chamber believe that local authorities have a duty to spend public money prudently in order to ensure that council tax rates are set as low as possible for people and that council tax rates provide value for money to the taxpayer. As we know, some councils in Wales already publish all their expenditure online. In my area, a decision was taken recently by members of Pembrokeshire County Council to publish online all expenditure over £500. That decision means that taxpayers can now see how Pembrokeshire County Council does generally spend its money. This kind of transparency is one way of assisting in eradicating waste and enhancing financial scrutiny.

Nawr, mae adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ym mis Ebrill ar wytnwch ariannol cynghorau yng Nghymru yn nodi bod profiad cynghorau yn Lloegr yn dangos ei bod yn bosibl delio'n effeithiol â gostyngiadau sylweddol mewn cyllidebau drwy fodelau o ddarparu gwasanaethau wedi'u hailgynllunio a newydd. Yn wir, mae'r adroddiad yn dweud, ac rwy'n dyfynnu:

Now, the Auditor General for Wales's report in April into the financial robustness of councils in Wales notes that the experience of councils in England shows that it is possible to deal effectively with significant reductions in budgets through new, redesigned service delivery models. Indeed, the report states, and I quote:

'Er mwyn cynnal sefyllfa ariannol sefydlog, bu'n rhaid ailystyried pa wasanaethau a ddylai gael eu darparu yn y bôn; pwy ddylai eu derbyn a pha fodelau a ddylai gael eu defnyddio i'w darparu er mwyn lleihau costau a gwella effeithlonrwydd.'

'To maintain a stable financial position has required a fundamental re-think about what services should be delivered; who should receive them, and the models by which they should be delivered to reduce cost and improve efficiency.'

O ystyried ein bod ni o hyd yn disgwyl i weld sut fydd llywodraeth leol yn y dyfodol yn edrych, mae'n anodd i gynghorau ledled Cymru ragweld yn gywir eu gwariant ac i gynllunio ymlaen llaw, gan na allant ddatblygu modelau hirdymor i ddarparu gwasanaethau hyd nes y ceir mwy o sicrwydd am y dyfodol. Mae'n debyg mai hyn yw un o'r rhesymau pam nad yw cynghorau wedi gwario eu cronfeydd wrth gefn, ac yn anffodus, o ganlyniad, rydym ni'n gweld gwasanaethau cymunedol yn cael eu colli. Felly, mae angen i'r Gweinidog fynd i'r afael â'r mater hwn cyn gynted â phosib er mwyn cael gwared ar yr ansicrwydd hwn.

Given that we are still waiting to see what local government in Wales will look like in future, it's difficult for councils the length and breadth of Wales to anticipate their exact expenditure and to plan effectively, because they can't develop long-term models for service provision until there is more certainty about the future. It seems that this is one of the reasons why councils haven't spent their reserves, and unfortunately, as a result, we are seeing community services being lost. So, the Minister must tackle this issue as soon as possible in order to actually eradicate that uncertainty.

Wrth gwrs, rwy'n croesawu'r ffaith bod gwybodaeth am lefel yr arian wrth gefn sydd gan bob awdurdod lleol nawr yn cael ei chyhoeddi fel mater o drefn ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae hyn wedi arwain at system fwy agored sy'n rhoi cyfle i ni i gyd graffu ymhellach ar awdurdodau lleol. Mae'n gwbl hanfodol bod ein cynghorwyr lleol yn gallu craffu ar y cronfeydd wrth gefn sydd gan awdurdodau lleol a bod ganddynt y gallu i ddal awdurdodau lleol i gyfrif. Dywedodd y Gweinidog yn ddiweddar y byddai'n rhoi rhagor o arweiniad i awdurdodau lleol ar y mater hwn, ac rwy'n gobeithio ei fod yn mynd i ddefnyddio'r ddadl hon y prynhawn yma i'n diweddaru ni ar ba waith pellach y mae e'n ei wneud yn y maes hwn.

Of course, I welcome the fact that information about the reserves available to each local authority is published as a matter of course on the Welsh Government's website. This has led to a more open system that gives us all an opportunity to further scrutinise our local authorities. It is crucially important that local councillors can scrutinise the reserves held by local authorities and that they have the ability to hold the local authorities to account. The Minister said recently that he would provide more guidance for local authorities on this issue, and I hope that he will use this debate this afternoon to give us an update on what further work he is doing in this particular area.

Mae'n hanfodol bod tryloywder hefyd yn cael ei estyn i gyfarfodydd cynghorau, a dylai awdurdodau lleol fod yn annog cymunedau lleol i ddilyn y cyfarfodydd hyn. Byddai gwneud hyn hefyd yn cynyddu ymwybyddiaeth o'r gwaith y mae awdurdodau lleol yn ei wneud ac yn gwneud cynghorau yn fwy atebol i'r bobl y maent yn eu cynrychioli. Rwy'n falch o weld nad yw'r cyngor yn fy ardal i—Cyngor Sir Penfro—wedi gwahardd y cyhoedd o unrhyw un o'i gyfarfodydd yn 2013-14, ond, yn anffodus, nid yw hynny'n wir am awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, ac mae angen newid hynny. Mae'n bwysig bod pob awdurdod lleol, ledled Cymru, yn hyrwyddo ymgysylltiad dinesig, ac yn gwneud mwy i addysgu cymunedau lleol, fel y gall pobl leol ddeall yn well siwt mae eu hawdurdod lleol yn casglu ac yn gwario eu treth gyngor.

It's crucially important that transparency is also extended to council meetings, and local authorities should be encouraging local communities to take an interest in these meetings. Doing so would also increase awareness of the work that local authorities do and it would make councils more accountable to the people that they represent. I'm pleased to see that the council in my area—Pembrokeshire County Council—hasn't excluded the public from any of its meetings in 2013-14, but, unfortunately, that is not true of other local authorities in Wales, and we need to change that situation. It is important that every local authority the length and breadth of Wales should promote civic engagement, and should do more to educate local communities, so that local people can better understand how their local authority collects and spends their council tax.

Mae yna hefyd bryderon ar draws Cymru bod rhai awdurdodau lleol ddim yn casglu treth y cyngor fel y dylent. Rwy'n credu, mewn cyfnod o gyfyngu ar wariant cyhoeddus, fod yn rhaid i awdurdodau lleol wneud popeth yn eu gallu i gasglu treth y cyngor, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau rheng-flaen hanfodol yn cael eu hariannu. Yn fy ardal i, rwy'n falch gweld bod sir Benfro ar y brig pan ddaw hi i gasglu treth y cyngor, ac mae angen adlewyrchu hyn mewn rhannau eraill o Gymru hefyd.

There are also concerns across Wales that some local authorities don't collect council tax as they should. I think, in a period of restrictions of public expenditure, that local authorities must do everything that they can to collect council tax in order to ensure that front-line services are properly funded. In my area, I'm pleased that Pembrokeshire is on top of the league when it comes to council tax collection, and that needs to be reflected in other parts of Wales too.

Rwyf ar ddeall bod y cyfanswm a oedd yn ddyledus i gynghorau ar ddiwedd mis Mawrth 2014 yn £83 miliwn—mae hynny'n swm sylweddol o arian. Gallai'r arian hwn wneud cymaint o wahaniaeth i wasanaethau ar y rheng flaen, neu, ar y llaw arall, gallai'r arian yma hyd yn oed gael ei ddefnyddio i ysgafnhau'r pwysau ar gyllidebau teuluoedd. Rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog, a'r Llywodraeth, yn gwneud popeth o fewn eu gallu i gefnogi awdurdodau lleol i gasglu'r dreth gyngor yn y dyfodol.

I'm given to understand that the total owing to councils at the end of March 2014 was £83 million—that is a significant amount of money. That money could make so much difference to front-line services, or, on the other hand, it could even be used to lighten the load on family budgets. I do hope that the Minister and the Government will do everything within their power to support local authorities in collecting council tax in future.

Mae'n amlwg, Lywydd, bod angen gwneud mwy i gynyddu hyder y cyhoedd yn y ffordd y mae awdurdodau lleol yn gwario'u harian, ac, felly, rwy'n annog Aelodau i gefnogi'r cynnig yma y prynhawn yma. Diolch yn fawr iawn.

It's clear, Presiding Officer, that more needs to be done to enhance public confidence in the way that local authorities spend their money, and, therefore, I encourage Members to support this motion this afternoon. Thank you.

15:31

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A few minutes ago, Janet Finch-Saunders talked about councils going into private meetings. Can I ask her: how many meetings of committees that she has attended in this Assembly have been held in part, or whole, in private? [Interruption.] It's a rhetorical question, because I'll tell you the answer—nearly all of them.

Ychydig funudau yn ôl, soniodd Janet Finch-Saunders am gynghorau yn cynnal cyfarfodydd preifat. A gaf fi ofyn iddi: faint o gyfarfodydd pwyllgorau y mae hi wedi'u mynychu yn y Cynulliad hwn a gynhaliwyd yn breifat, naill ai'n rhannol, neu'n llwyr? [Torri ar draws.] Mae'n gwestiwn rhethregol, oherwydd fe ddywedaf yr ateb wrthych—bron bob un ohonynt.

I find the Conservative motion today insulting, not to me or the Labour Government here in Cardiff bay, but to over 1,000 councillors in Wales—some in this Chamber—of all parties and of none, who are doing their best for the communities they serve, under very difficult conditions and very severe budget cuts, caused by the Conservative Government at Westminster. I used to be able to say, the Conservative and Liberal Democrats—I can't any more.

Rwy'n ystyried bod cynnig y Ceidwadwyr heddiw yn un sarhaus, nid i mi na'r Llywodraeth Lafur yma ym mae Caerdydd, ond i dros 1,000 o gynghorwyr yng Nghymru—rhai yn y Siambr hon—o bob plaid a heb fod yn perthyn i blaid, sy'n gwneud eu gorau dros y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, o dan amgylchiadau anodd iawn a thoriadau difrifol iawn yn y gyllideb wedi'u hachosi gan y Llywodraeth Geidwadol yn San Steffan. Roeddwn i'n arfer gallu dweud, y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol—ond ni allaf wneud hynny mwyach.

This is a most difficult time for local government. What local government expenditure does not lack is transparency. Has the mover of the motion ever read a council budget book, or even their council tax demand? Also, local authorities—certainly in urban areas—come under substantial media scrutiny. The detailed budgets produced by local authorities are available online, and are also available in books. There are meetings with local residents, not just in Monmouthshire, but the length and breadth of Wales.

Mae hwn yn amser anodd tu hwnt i lywodraeth leol. Yr hyn nad yw llywodraeth leol yn brin ohono yw tryloywder. A yw'r sawl a gynigiodd y cynnig erioed wedi darllen llyfr cyllideb cyngor, neu hyd yn oed eu ffurflen dreth gyngor? Hefyd, mae awdurdodau lleol —mewn ardaloedd trefol yn sicr—yn ddarostyngedig i graffu sylweddol gan y cyfryngau. Mae'r cyllidebau manwl a gynhyrchir gan awdurdodau lleol ar gael ar-lein, ac maent ar gael mewn llyfrau hefyd. Ceir cyfarfodydd gyda thrigolion lleol, nid yn unig yn sir Fynwy, ond ar hyd a lled Cymru.

In fact, what local government does could be used as an example of a budget production in Westminster. Take the local government formula for distribution. It's much easier to follow than the Barnett formula distributing money. Why did we get a Barnett consequential for Crossrail but not for the London Olympics, and why are we not going to get one for HS2? The vast majority of local government expenditure, I know where it goes: schools and social services. Can I say, the social services budget is probably under greater pressure than any other budget that the Welsh Assembly Government are dealing with?

Yn wir, gellid defnyddio'r hyn y mae llywodraeth leol yn ei wneud fel patrwm o'r modd y dylid cynhyrchu cyllideb yn San Steffan. Cymerwch fformiwla llywodraeth leol ar gyfer dosbarthu. Mae'n llawer haws i'w dilyn na fformiwla Barnett wrth ddosbarthu arian. Pam y cawn swm canlyniadol Barnett ar gyfer Crossrail ond nid ar gyfer y Gemau Olympaidd yn Llundain, a pham nad ydym yn mynd i gael un ar gyfer HS2? Rwy'n gwybod lle y mae'r mwyafrif helaeth o wariant llywodraeth leol yn mynd: ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol. A gaf fi ddweud, mae cyllideb gwasanaethau cymdeithasol o dan fwy o bwysau nag unrhyw gyllideb arall y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymdrin â hi, yn ôl pob tebyg?

The level of transparency is such that the budget of each school is published, and the details are readily available to all who wish to see it. Local government's problems are many, but it's not transparency but the amount they receive in Government grant from here, caused by the actions of the Conservatives in Westminster.

Mae lefel y tryloywder cystal fel bod cyllideb pob ysgol yn cael ei chyhoeddi, ac mae'r manylion ar gael yn rhwydd i bawb sy'n dymuno ei gweld. Mae gan lywodraeth leol lawer o broblemau, ond nid tryloywder sy'n sail iddynt, ond yn hytrach y swm a gânt mewn grantiau Llywodraeth o'r fan hon, wedi'i achosi gan weithredoedd y Ceidwadwyr yn San Steffan.

Certainly, I will give way.

Yn sicr, fe ildiaf.

15:33

## Altaf Hussain Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thanks, Mike. I just wanted to ask you about the difference between Swansea West and Swansea East: prosperity, and poverty; ill health, and healthy. Why? You have one council.

Diolch, Mike. Roeddwn am eich holi am y gwahaniaeth rhwng Gorllewin Abertawe a Dwyrain Abertawe: ffyniant, a thlodi; afiechyd ac iechyd. Pam? Un cyngor sydd gennych.

15:34

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, actually, there's a number of things that are not actually true. If you're telling me that people living in Swansea West, in Townhill, are healthier and wealthier than my constituents living by me in Ynysforgan and Ynysdawe, I suggest you revisit both areas.

Wel, mewn gwirionedd, mae yna nifer o bethau nad ydynt yn wir mewn gwirionedd. Os ydych yn dweud wrthyf fod pobl sy'n byw yng Ngorllewin Abertawe, yn Townhill, yn iachach ac yn gyfoethocach na'r etholwyr sy'n byw yn fy ymyl yn Ynysforgan ac Ynysdawe, awgrymaf eich bod ailymweld â'r ddwy ardal.

I remember when the Conservative education spokesman wanted to end all central services provided by the education department. Leaving aside it would need an education Act, it would have ended all school transport, all educational psychology, and all the education otherwise in that school.

Rwy'n cofio pan oedd llefarydd addysg y Ceidwadwyr yn awyddus i roi terfyn ar yr holl wasanaethau canolog a ddarperid gan yr adran addysg. Gan roi o'r neilltu y byddai galw am Ddeddf addysg, byddai wedi rhoi diwedd yn gyfan gwbl ar gludiant i'r ysgol, seicoleg addysg, a'r holl addysg fel arall yn yr ysgol honno.

Council budgets also identify cuts, not just in a department, but the area and the service. As the Plaid Cymru amendment points out, council tax is only a very small part of the money used by local authorities to fund important services. The majority of the income of the local authority comes from the Assembly, with the rest of the income coming from rents, interest, fees and charges, as well as council tax. For those who wish to do away with reserves, apart from the fact that they cover areas that currently would be insured otherwise, and there would be a charge, they also bring in an income as do anybody else's savings. I'm sure many on the Conservative benches can tell me a lot more about savings than I know, regarding how much interest they're getting on that.

Mae cyllidebau cynghorau hefyd yn nodi toriadau, nid yn unig mewn adran, ond y maes a'r gwasanaeth. Fel y mae gwelliant Plaid Cymru yn ei nodi, nid yw'r dreth gyngor ond yn rhan fach iawn o'r arian a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i ariannu gwasanaethau pwysig. Daw'r rhan fwyaf o incwm yr awdurdod lleol o'r Cynulliad, gyda gweddill yr incwm yn dod o renti, llog, ffioedd a thaliadau, yn ogystal â'r dreth gyngor. I'r rhai sydd am gael gwared ar gronfeydd wrth gefn, ar wahân i'r ffaith eu bod yn ymdrin â meysydd a fyddai'n cael eu hyswirio fel arall ar hyn o bryd, ac fe fyddai tâl, maent hefyd yn dod ag incwm i mewn fel y byddai cynilion unrhyw un arall. Rwy'n siŵr y gall llawer ar feinciau'r Ceidwadwyr ddweud mwy o lawer am gynilion nag y gwn i, o ran faint o log y maent yn ei gael ar hynny.

Council tax and commercial rates are two taxes that are very difficult to minimise using tax avoidance techniques. You can not pay them, but there are no legal avoidance techniques. Perhaps that's why they are the two taxes most disliked by the rich and powerful. Compare those with income tax and corporation tax, which can be minimised by non-domiciled status or payments to holding companies abroad. Talking about not collecting council tax and the reasons that council tax is not being collected, one of them is that people are dead, and another is that they've been taken into a nursing home, and another one is that they've actually moved out of the area.

Mae'r dreth gyngor ac ardrethi masnachol yn ddwy dreth sy'n anodd iawn eu lleihau drwy ddefnyddio technegau osgoi talu treth. Gallwch beidio â'u talu, ond nid oes unrhyw dechnegau osgoi trethi cyfreithiol. Efallai mai dyna pam mai dyma'r ddwy dreth y mae'r cyfoethog a'r pwerus yn eu casáu fwyaf. Cymharwch y rhain â threth incwm a threth gorfforaeth, y gellir eu lleihau drwy statws heb fod yn hanu o Gymru neu daliadau i gwmnïau daliannol tramor. A siarad am beidio â chasglu'r dreth gyngor a'r rhesymau nad yw'r dreth gyngor yn cael ei chasglu, un ohonynt yw bod pobl wedi marw, ac un arall yw eu bod wedi cael eu symud i gartref nyrsio, ac un arall yw eu bod wedi symud allan o'r ardal.

Local government is under severe pressure. They're undertaking unprecedented cuts. Individual Conservative Members, whilst enthusiastically supporting a reduction in council expenditure here, when a library is under threat, when changes are proposed to take out a service, be it music or bus services, are there at the forefront saying 'Save our services'. Let's have a touch of intellectual honesty; if you believe in cutting expenditure, fine, but also believe in the removal of the services that that brings. [Interruption.]

Mae llywodraeth leol o dan bwysau difrifol. Maent yn wynebu toriadau digynsail. Er bod aelodau Ceidwadol unigol yn frwd eu cefnogaeth i leihau gwariant y cynghorau yma, pan fydd llyfrgell o dan fygythiad, pan argymhellir newidiadau i gael gwared ar wasanaeth, boed yn wasanaeth cerdd neu wasanaeth bws, maent yno ar y blaen yn dweud 'Achubwch ein gwasanaethau'. Gadewch i ni gael mymryn o onestrwydd deallusol; os ydych yn credu mewn torri gwariant, iawn, ond credwch hefyd fod hynny'n arwain at gael gwared ar wasanaethau. [Torri ar draws.]

15:36

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Order.

Trefn.

15:36

## Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The Liberals made a very sensible point regarding council tax. It is a problem, but can I just say one last thing on council tax? If you replace it with a local income tax, you'll have no certainty of income, it will be easy to evade and it will be catastrophic for local government expenditure.

Gwnaeth y Rhyddfrydwyr bwynt synhwyrol iawn mewn perthynas â'r dreth gyngor. Mae'n broblem, ond a gaf fi ddweud un peth olaf ar y dreth gyngor? Os rhowch dreth incwm leol yn ei lle, ni chewch unrhyw sicrwydd o incwm, bydd yn hawdd ei hosgoi a bydd yn drychinebus o ran gwariant llywodraeth leol.

15:37

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Nick Ramsay.

Nick Ramsay.

15:37

## Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Presiding Officer. How do you follow that? [Laughter.]

Diolch i chi, Lywydd. Sut ydych chi'n dilyn hynny? [Chwerthin.]

On your question about savings, Mike, I think it is a shame, actually, that the last Labour Government didn't make a few more savings itself and then the last Government and this one wouldn't have found itself in a position of needing to make the kinds of savings that you say we understand and, sadly, your side don't seem to.

O ran eich cwestiwn am gynilion, Mike, rwy'n credu ei bod yn drueni, mewn gwirionedd, nad oedd y Llywodraeth Lafur ddiwethaf wedi gwneud ychydig mwy o arbedion ac yna ni fyddai'r Llywodraeth ddiwethaf na hon wedi bod mewn sefyllfa o orfod gwneud y math o arbedion rydych yn dweud ein bod yn eu deall ac nad yw eich ochr chi, yn anffodus, i weld yn eu deall.

The Welsh Conservatives have long argued for greater transparency in local government. We believe that the communication of council tax spend to the taxpayer is an important part of achieving this. Some of the Members in other parties seem to have got a little bit hung up on this issue of the amount of money that council tax raises and the proportion of local income that's dependent upon it. And, okay, the bulk of money does indeed come through the local government revenue support grant from this place, but that doesn't mitigate the fact that council tax rises across Wales have been at a rate far higher than across the border in England since devolution came into being and this place was established. We are saying that if you don't recognise that, then you don't recognise some of the hardships that some council tax payers are having to put up with out there, and that is what this debate is trying to address.

Mae Ceidwadwyr Cymru wedi dadlau ers tro dros fwy o dryloywder mewn llywodraeth leol. Credwn fod cyfathrebu gwariant treth gyngor i'r trethdalwr yn rhan bwysig o gyflawni hyn. Mae rhai o Aelodau'r pleidiau eraill i'w gweld yn poeni eu pennau braidd ynglŷn â faint o arian y mae'r dreth gyngor yn ei godi a'r gyfran o incwm lleol sy'n ddibynnol arno. Ac yn wir, daw'r rhan fwyaf o'r arian drwy grant cynnal refeniw llywodraeth leol o'r lle hwn, ond nid yw hynny'n lliniaru'r ffaith fod codiadau yn y dreth gyngor ledled Cymru wedi bod ar gyfradd lawer uwch nag ar draws y ffin yn Lloegr ers datganoli a sefydlu'r lle hwn. Rydym ni'n dweud os nad ydych yn gweld hynny, nid ydych yn gweld peth o'r caledi y mae rhai o'r bobl sy'n talu'r dreth gyngor yn gorfod dygymod ag ef ar lawr gwlad, a dyna beth y mae'r ddadl hon yn ceisio mynd i'r afael ag ef.

As I've said, across the border in England, they are getting greater transparency, thanks to the Localism Act 2011, which ensures that councils cannot increase their council tax by more than 2 per cent without a community referendum. The average increase for council tax next year is 0.6 per cent, but here, as Janet Finch-Saunders said in opening this debate, we are looking at some rises of up to 5 per cent. I know full well that the Welsh Government will point out that there is a lower council tax base here compared to England. Yes, well, people in Wales earn lower wages than they do in the south-east of England, so you would expect the costs to be higher there. But the point is that the rates mean that, over time, we are catching up with those across the border in England and that cannot be right. Of course, these larger increases could have been mitigated, and funding was made available by the UK Government to the Welsh Government to keep bills down through that well-known council tax freeze. Mike Hedges, I'm sure that you regret that that money was not passed on to local authorities in Wales. As a result, the 4.56 per cent of the average wage in Wales is higher than that across the border in England.

Fel rwyf wedi dweud, ar draws y ffin yn Lloegr, maent yn cael mwy o dryloywder, diolch i Ddeddf Lleoliaeth 2011, sy'n sicrhau na all cynghorau godi eu treth gyngor fwy na 2 y cant heb refferendwm cymunedol. Y cynnydd cyfartalog ar gyfer y dreth gyngor y flwyddyn nesaf yw 0.6 y cant, ond yma, fel y dywedodd Janet Finch-Saunders wrth agor y ddadl, gwelwn godiadau o hyd at 5 y cant. Gwn yn iawn y bydd Llywodraeth Cymru yn nodi bod sylfaen y dreth gyngor yn is yma o'i chymharu â Lloegr. Ydy, wel, mae pobl yng Nghymru yn ennill cyflogau is nag y maent yn ei wneud yn ne-ddwyrain Lloegr, felly byddech yn disgwyl i'r costau fod yn uwch yno. Ond y pwynt yw bod y cyfraddau'n golygu, dros gyfnod o amser, ein bod yn cau'r bwlch rhyngom a thros y ffin yn Lloegr ac ni all hynny fod yn iawn. Wrth gwrs, gallai'r codiadau uwch hyn fod wedi cael eu lliniaru, ac roedd cyllid ar gael gan Lywodraeth y DU i Lywodraeth Cymru i gadw biliau i lawr drwy'r broses gyfarwydd o rewi'r dreth gyngor. Mike Hedges, rwy'n siŵr eich bod yn gresynu na chafodd yr arian ei drosglwyddo i awdurdodau lleol yng Nghymru. O ganlyniad, mae'r 4.56 y cant o'r cyflog cyfartalog yng Nghymru yn uwch nag ar draws y ffin yn Lloegr.

15:39 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, I don't regret it not being passed on because, one year, that was used for creating apprenticeships in Wales, getting people into work, which I think is very, very important.

Na, nid wyf yn difaru na chafodd ei drosglwyddo oherwydd, un flwyddyn, fe'i defnyddiwyd ar gyfer creu prentisiaethau yng Nghymru, i gael pobl i mewn i waith, sy'n bwysig iawn, iawn yn fy marn i.

15:39 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, you go on the doorsteps next year and tell people that you didn't pass on the funding that was made available to keep their bills down because you have different priorities. That's your choice, Mike; you know I appreciate your views on local government—you've got a lot of experience in that area—but there is a danger that we do become more and more detached from the average person on the street. When it comes to keeping council tax bills down, I actually think that the Welsh Conservative view on this probably holds a little bit more resonance than the Labour view that council tax rates in Wales should be allowed to spiral up and up, over and over again, and who cares that the members of the public have to foot the bill? Well, we do care on this side.

Wel, fe fyddwch yn mynd o ddrws i ddrws y flwyddyn nesaf yn dweud wrth bobl na throsglwyddoch chi'r cyllid a oedd ar gael i gadw eu biliau i lawr oherwydd bod gennych flaenoriaethau gwahanol. Dyna eich dewis, Mike; fe wyddoch fy mod yn gwerthfawrogi eich barn ar lywodraeth leol—mae gennych lawer o brofiad yn y maes hwnnw—ond mae perygl ein bod wedi datgysylltu fwyfwy oddi wrth y person cyffredin ar y stryd. O ran cadw biliau'r dreth gyngor i lawr, rwy 'n meddwl bod barn y Ceidwadwyr Cymreig ar hyn yn ôl pob tebyg yn fwy perthnasol na barn y Blaid Lafur y dylai cyfraddau'r dreth gyngor yng Nghymru gael eu gadael i godi yn uwch ac yn uwch, drosodd a throsodd, a beth yw'r ots mai aelodau'r cyhoedd sy'n gorfod talu? Wel, mae ots gennym ar yr ochr hon.

Turning to the issue of boosting transparency, our polling revealed that nearly half of people do not feel that they have sufficient access to information on how their council tax is spent. The situation does, of course, vary from local authority to local authority—you would anticipate that. My own local authority, in Monmouthshire, provides a great deal of information, and that's not to say that other authorities across Wales don't, but there is no doubt at all that Monmouthshire has been recognised as leading the field in terms of providing openness to information, particularly when it comes to budget setting. As Janet Finch-Saunders mentioned earlier, when it comes to the budget-setting time of the year, they do consult widely with members of the public and outside organisations.

Gan droi at fater hybu tryloywder, datgelodd ein polau piniwn nad yw bron i hanner y bobl yn teimlo eu bod yn cael digon o wybodaeth ynglŷn â sut y mae eu treth gyngor yn cael ei gwario. Mae'r sefyllfa'n amrywio o un awdurdod lleol i'r llall, wrth gwrs—byddech yn disgwyl hynny. Mae fy awdurdod lleol i, yn Sir Fynwy, yn darparu llawer iawn o wybodaeth, ac nid yw hynny'n dweud nad yw awdurdodau eraill ledled Cymru yn gwneud hynny, ond nid oes amheuaeth o gwbl fod Sir Fynwy wedi cael cydnabyddiaeth am fod ar y blaen o ran sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn agored, yn enwedig wrth bennu'r gyllideb. Fel y crybwyllodd Janet Finch-Saunders yn gynharach, ar yr adeg o'r flwyddyn y pennir y gyllideb, maent yn ymgynghori'n eang gydag aelodau o'r cyhoedd a sefydliadau allanol.

Yes, budgets are tight. We all accept that and the public will accept that. They are much more likely to accept that if they are given adequate information at the start. So, we need far greater transparency. In terms of transparency, whatever you think, things are clearly going in the wrong direction at the moment: we have more access to information than ever before through social media, and yet keeping members of the public and the press out of certain council meetings is clearly not something that we would want to encourage. So, I urge you to support the motion and make sure that some of the good practice that is carried out in areas such as Monmouthshire does actually reach some other parts of Wales and that the council tax payer gets the sort of value for money and transparency that they deserve.

Mae'n wir, mae cyllidebau'n dynn. Rydym i gyd yn derbyn hynny, a bydd y cyhoedd yn derbyn hynny. Maent yn llawer mwy tebygol o dderbyn hynny os ydynt yn cael digon o wybodaeth ar y dechrau. Felly, mae angen llawer mwy o dryloywder. O ran tryloywder, beth bynnag yw eich barn, mae pethau'n amlwg yn mynd i'r cyfeiriad anghywir ar hyn o bryd: mae gwybodaeth yn fwy hygyrch i ni nag erioed o'r blaen drwy gyfryngau cymdeithasol, ac eto mae'n amlwg nad yw cadw aelodau o'r cyhoedd a'r wasg allan o rai cyfarfodydd cyngor yn rhywbeth y byddem am ei annog. Felly, rwy'n eich annog i gefnogi'r cynnig a gwneud yn siŵr bod rhai o'r arferion da a gyflawnir mewn ardaloedd fel Sir Fynwy yn cyrraedd rhannau eraill o Gymru, a bod y sawl sy'n talu'r dreth gyngor yn cael y math o werth am arian a thryloywder y mae'n ei haeddu.

15:42 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am pleased to take part in this debate this afternoon. Over 50 years ago in her maiden speech, Margaret Thatcher called for councils to be more transparent by opening up their meetings to the press and public. As she argued at the time, and I quote—and I'm pleased to quote Margaret Thatcher:

Rwy'n falch o gymryd rhan yn y ddadl y prynhawn yma. Dros 50 mlynedd yn ôl yn ei haraith gyntaf yn y Senedd, galwodd Margaret Thatcher ar y cynghorau i fod yn fwy tryloyw drwy agor eu cyfarfodydd i'r wasg a'r cyhoedd. Fel y dadleuai ar y pryd—ac rwy'n falch o ddyfynnu Margaret Thatcher:

'The public has the right…to know what its elected representatives are doing.'

The public has the right…to know what its elected representatives are doing.'

Some councils in Wales have made some progress in this regard and I know that a number of councils, including Powys, of which I'm a member, do broadcast their meetings live, providing residents with an insight into how decisions are made. That boost of transparency is very welcome. I know that some concerns have been raised that some councils are still excluding members of the public for the larger degree of their meetings. I note Mike Hedges's comments, and what I would say is: look at the public information available, and the question is: why is there such a discrepancy between councils across Wales in that regard? Rather than isolating themselves, councils should be actively making steps towards increasing their levels of transparency and engagement, and local people should be able to hold politicians and public bodies to account over how council tax money is spent on their behalf.

Mae rhai cynghorau yng Nghymru wedi gwneud rhywfaint o gynnydd yn y cyswllt hwn a gwn fod nifer o gynghorau, gan gynnwys Powys lle rwy'n aelod, yn darlledu eu cyfarfodydd yn fyw, gan roi syniad i drigolion ynglŷn â sut y gwneir penderfyniadau. Mae'r hwb hwnnw i dryloywder i'w groesawu'n fawr. Gwn fod rhai pryderon wedi eu crybwyll fod rhai cynghorau yn dal i wahardd aelodau o'r cyhoedd o gyfradd uchel o'u cyfarfodydd. Nodaf sylwadau Mike Hedges, a'r hyn y byddwn yn ei ddweud yw: edrychwch ar y wybodaeth gyhoeddus sydd ar gael, a'r cwestiwn yw: pam y mae cymaint o anghysondeb rhwng cynghorau ledled Cymru yn hynny o beth? Yn hytrach nag ynysu eu hunain, dylai cynghorau fod yn mynd ati i roi camau ar waith ar gynyddu lefelau tryloywder ac ymgysylltiad, a dylai pobl leol allu gwneud gwleidyddion a chyrff cyhoeddus yn atebol am y modd y caiff arian y dreth gyngor ei wario ar eu rhan.

Yes, there's a financial cost to that, but in my experience, when you shine a light and you open up transparency, that leads to better decision making. With this spirit in mind, in recent years, the UK Government has ensured that transparency and openness underpin every decision that local councils make on their behalf—something that Janet Finch-Saunders expanded on in her comments. In contrast, councils in Wales are, at the very best, semi-accountable at the moment and are not compelled to outline how they spend their money. This is why we're calling for the introduction of a clear breakdown of how council taxes are spent.

Oes, mae yna gost ariannol i hyn, ond yn fy mhrofiad i, pan fyddwch yn taflu goleuni ac yn ehangu tryloywder, mae hynny'n arwain at benderfyniadau gwell. Gyda'r ysbryd hwn mewn golwg, yn y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth y DU wedi sicrhau bod tryloywder a threfn agored yn sail i bob penderfyniad a wneir gan gynghorau lleol ar eu rhan—rhywbeth yr ehangodd Janet Finch-Saunders arno yn ei sylwadau. Ar y llaw arall, lled atebol ar y gorau yw cynghorau yng Nghymru ar hyn o bryd ac nid oes gorfodaeth arnynt i amlinellu sut y maent yn gwario eu harian. Dyma pam y galwn am gyflwyno dadansoddiad clir o'r modd y caiff trethi cyngor eu gwario.

15:44

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

They are compelled to say how their money is spent. They have to put on the bill, when they send out the council tax bill, exactly how the money is being spent.

Mae'n orfodol iddynt ddweud sut y caiff eu harian ei wario. Pan fyddant yn anfon bil y dreth gyngor, mae'n rhaid iddynt nodi arno yn union sut y caiff yr arian ei wario.

15:44

## Russell George Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I was only half way through my sentence when I allowed that intervention—perhaps I should have continued. What I would like to see, Mike, is every council in Wales listing, when the council tax bill goes out, and exactly identifying where that money is spent. I know that some councils do that, but not all councils do.

Hanner ffordd drwy fy mrawddeg oeddwn i pan ildiais i'r ymyriad—efallai y dylwn fod wedi parhau. Yr hyn yr hoffwn ei weld, Mike, yw pob cyngor yng Nghymru yn rhestru, pan fydd bil y dreth gyngor yn mynd allan, ac yn nodi'n union lle y caiff yr arian ei wario. Gwn fod rhai cynghorau'n gwneud hynny, ond nid yw pob cyngor yn ei wneud.

When you think about it, the lack of accountability is ludicrous. Every four or five years, we go to the vote, we vote for our councillor and for the next four or five years in between that—in between elections—we are legally compelled, at the threat of prosecution, to hand over as much money as demanded by the ruling group on that council. Now, compare that to every supermarket in the country. Every time we go shopping, we go into our own referendum, in which supplier we give our money to. Any time we get a dodgy product or poor customer service or an unrealistic price, we are free to withdraw our business from any one of those companies. There's no such accountability in local government, and I challenge us to think about a single shop that has more than doubled its prices while cutting back its key services and then vastly increasing the pay of its senior staff.

Pan fyddwch yn meddwl am y peth, mae'r diffyg atebolrwydd yn chwerthinllyd. Bob pedair neu bum mlynedd, rydym yn cael etholiad, rydym yn pleidleisio dros ein cynghorydd ac am y pedair neu bum mlynedd nesaf rhwng hynny—rhwng etholiadau—mae'n orfodol arnom yn gyfreithiol, dan fygythiad o gael ein herlyn, i drosglwyddo cymaint o arian ag y gofynnir amdano gan y grŵp sy'n rheoli ar y cyngor hwnnw. Nawr, cymharwch hynny â phob archfarchnad yn y wlad. Bob tro y byddwn yn mynd i siopa, rydym yn wynebu ein refferendwm ein hunain ynglŷn â pha gyflenwr rydym yn rhoi ein harian iddo. Unrhyw bryd y cawn gynnyrch amheus neu wasanaeth gwael i gwsmeriaid neu bris afrealistig, rydym yn rhydd i beidio â rhoi ein busnes i unrhyw un o'r cwmnïau hynny. Nid oes unrhyw atebolrwydd o'r fath mewn llywodraeth leol, ac rwy'n ein herio i feddwl am un siop sydd wedi mwy na dyblu ei phrisiau gan dorri'n ôl ar ei gwasanaethau allweddol cyn codi cyflogau ei staff uwch yn helaeth.

To me, it's clear why councils should be more transparent. If voters are only given a choice about the council services once every four years, they deserve as much information as possible to inform that decision. And if taxpayers are forced to hand over their money, then, at the very least, what councils should do in return is to show how that money is spent, and this is what the Localism Act 2011 has delivered—something that, unfortunately, the Welsh Government has not implemented here, meaning that councils can, of course, increase their council tax by as much as 5 per cent. Now, this, coupled with the Welsh Government's decision not to implement a council tax freeze, means that not only do Welsh residents have councils that are less accountable, but they also have to pay more money in council tax than their English counterparts, too.

I mi, mae'n amlwg pam y dylai cynghorau fod yn fwy tryloyw. Os yw pleidleiswyr ond yn cael dewis ynglŷn â gwasanaethau cyngor unwaith bob pedair blynedd, maent yn haeddu cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl i hysbysu'r penderfyniad hwnnw. Ac os yw trethdalwyr yn cael eu gorfodi i drosglwyddo eu harian, y peth lleiaf y dylai cynghorau ei wneud yn ôl yw dangos sut y caiff yr arian ei wario, a dyma beth y mae Deddf Lleoliaeth 2011 wedi ei gyflwyno—rhywbeth nad yw Llywodraeth Cymru wedi ei roi ar waith yma, yn anffodus, sy'n golygu y gall cynghorau gynyddu eu treth gyngor gymaint â 5 y cant wrth gwrs. Nawr, mae hyn, ynghyd â phenderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio â rhewi'r dreth gyngor, yn golygu nid yn unig fod gan drigolion Cymru gynghorau sy'n llai atebol, ond rhaid iddynt hefyd dalu mwy o arian mewn treth gyngor na'u cymheiriaid yn Lloegr.

As Christopher Salmon, the Police and Crime Commissioner for Dyfed-Powys, said:

Fel y dywedodd Christopher Salmon, Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar gyfer Dyfed-Powys:

'there is no such thing as "government" money. All money is taxpayers' money.'

'there is no such thing as "government" money. All money is taxpayers' money.'

and that's very true. Those wise words, I think, should be remembered across this Chamber, and what I would finally say as well is, hearing Mike Hedges' contribution, I just wonder: why is he so fearful of transparency?

ac mae hynny'n wir iawn. Rwy'n credu y dylid cofio'r geiriau doeth hyn ar draws y Siambr, a'r hyn y byddwn yn ei ddweud yn olaf hefyd, o glywed cyfraniad Mike Hedges, yw fy mod yn meddwl tybed pam y mae arno cymaint o ofn tryloywder?

15:47

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I now call on the Minister for Public Services to speak on behalf of the Government—Leighton Andrews.

Galwaf yn awr ar y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i siarad ar ran y Llywodraeth—Leighton Andrews.

15:47

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Llywydd, according to Facebook, it is Nick Ramsay's birthday today, so, in keeping with my sunny disposition, I shall wish him 'pen-blwydd hapus', but that may be the last nice thing I say about the Conservatives and their motion today.

Lywydd, yn ôl Facebook, mae'n ben-blwydd ar Nick Ramsay heddiw, felly, i gyd-fynd â fy natur hwyliog, rwy'n dymuno pen-blwydd hapus iddo, ond efallai mai dyna'r peth neis diwethaf rwy'n ei ddweud am y Ceidwadwyr a'u cynnig heddiw.

We will be opposing the motion and call on the Assembly to do likewise. This is not because we oppose better understanding, accountability or transparency—of course, all of these are essential parts of healthy-functioning local government and key to this Government's reforms of local government—but is because the motion is framed in a narrow understanding of local government finance, and, of course, it fails to recognise all that the Government has done and is continuing to do in relation to transparency and accountability of local government spending, and the fairness of the council tax system.

Byddwn yn gwrthwynebu'r cynnig ac yn galw ar y Cynulliad i wneud yr un peth. Nid ydym yn gwneud hynny am ein bod yn gwrthwynebu gwell dealltwriaeth, atebolrwydd neu dryloywder—wrth gwrs fod pob un o'r rhain yn rhan hanfodol o lywodraeth sy'n gweithredu mewn ffordd iach ac yn allweddol i broses ddiwygio llywodraeth leol y Llywodraeth hon—ond yn hytrach oherwydd bod y cynnig yn cael ei fframio o fewn dealltwriaeth gul o gyllid llywodraeth leol, ac wrth gwrs, am ei fod yn methu cydnabod y cyfan y mae'r Llywodraeth wedi'i wneud ac yn parhau i wneud mewn perthynas â thryloywder ac atebolrwydd ynghylch gwariant llywodraeth leol, a thegwch y system dreth gyngor.

Local government spends over £8 billion a year on delivering services. Council tax forms just one component of the income that funds this spending. The Welsh Government channels £4.25 billion into the main local government settlement, allowing councils to allocate funding according to local priorities. We provide a further £750 million as specific grant. The remainder, of course, comes from other income streams, including council tax. This highlights the range of funding sources that influence spending priorities and which need to be taken into consideration when planning budgets.

Mae llywodraeth leol yn gwario dros £8 biliwn y flwyddyn ar ddarparu gwasanaethau. Un elfen yn unig o'r incwm sy'n cyllido'r gwariant hwn yw'r dreth gyngor. Mae Llywodraeth Cymru yn sianelu £4.25 biliwn tuag at y prif setliad ar gyfer llywodraeth leol, sy'n caniatáu i gynghorau ddyrannu cyllid yn ôl blaenoriaethau lleol. Rydym yn darparu £750 miliwn arall ar ffurf grantiau penodol. Daw'r gweddill, wrth gwrs, o ffrydiau incwm eraill, gan gynnwys y dreth gyngor. Mae hyn yn amlygu'r ystod o ffynonellau cyllid sy'n dylanwadu ar flaenoriaethau gwariant ac sydd angen eu hystyried wrth gynllunio cyllidebau.

We want to consider this debate in the context of local government reform. We've embarked on an extensive programme of reform, providing an opportunity to review the framework underpinning financial support for local services. This is not simply a matter of technical reform of parts of the funding system. Central to our ambition is improving the governance, transparency and accountability of the whole of local government spending. A key theme of our White Paper, 'Reforming Local Government: Power to Local People', is our aspiration for authorities that are much more closely connected with their communities and better able to respond to their needs. A fundamental part of this is the way in which authorities engage with their stakeholders, including local people, when determining spending priorities for the year ahead. Most authorities undertake thorough public consultations on their budget proposals, using innovative methods to involve their local electorates. These exercises are invaluable when determining spending priorities and shaping proposals for the services that matter most to local people, and we want to see more of them doing this in ways that really do engage their local citizens.

Rydym am ystyried y ddadl hon yng nghyd-destun diwygio llywodraeth leol. Rydym wedi cychwyn ar raglen helaeth o ddiwygio, gan roi cyfle i adolygu'r fframwaith sy'n sail i gymorth ariannol ar gyfer gwasanaethau lleol. Nid yw'n fater syml o ddiwygio rhannau o'r system gyllido yn dechnegol. Yn ganolog i'n huchelgais y mae gwella llywodraethu, tryloywder ac atebolrwydd gwariant llywodraeth leol yn ei gyfanrwydd. Un o themâu allweddol ein Papur Gwyn, 'Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol', yw ein dyhead i awdurdodau gael eu cysylltu'n llawer agosach â'u cymunedau a gallu ymateb i'w hanghenion yn well. Rhan sylfaenol o hyn yw'r ffordd y mae awdurdodau'n ymgysylltu â'u rhanddeiliaid, gan gynnwys pobl leol, wrth bennu blaenoriaethau gwario ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau yn cynnal ymgynghoriadau cyhoeddus trwyadl ar gynigion y gyllideb, gan ddefnyddio dulliau arloesol i gynnwys eu hetholwyr lleol. Mae'r ymarferion yn amhrisiadwy wrth bennu blaenoriaethau gwario a llunio cynigion ar gyfer y gwasanaethau sydd bwysicaf i bobl leol, ac rydym am weld mwy ohonynt yn gwneud hyn mewn ffyrdd sy'n mynd ati go iawn i ennyn diddordeb eu dinasyddion lleol.

We support the first amendment to the motion, as it correctly reflects the percentage of local authority gross expenditure funded by council tax in Wales. Local authorities and police and crime commissioners are responsible for determining the level of council tax in their areas. They need to maintain vital services while limiting the burden on hard-pressed households, and these are decisions that are best taken locally.

Rydym yn cefnogi'r gwelliant cyntaf i'r cynnig, gan ei fod yn adlewyrchu'n gywir y ganran o wariant gros awdurdodau lleol a ariennir gan y dreth gyngor yng Nghymru. Mae awdurdodau lleol a chomisiynwyr heddlu a throseddu yn gyfrifol am bennu lefel y dreth gyngor yn eu hardaloedd. Mae angen iddynt gynnal gwasanaethau hanfodol gan gyfyngu ar y baich i aelwydydd sydd dan bwysau, a phenderfyniadau yw'r rhain sy'n well o'u gwneud yn lleol.

We take our responsibility to protect council tax payers from excessive increases very seriously, and we recognise that times are hard for households in Wales. But the pressures, of course, on front-line services are unprecedented, including services that are vital to the wellbeing of our communities.

Rydym o ddifrif ynglŷn â'n cyfrifoldeb i ddiogelu pobl sy'n talu'r dreth gyngor rhag codiadau gormodol, ac rydym yn cydnabod bod pethau'n anodd i aelwydydd yng Nghymru. Ond wrth gwrs, mae'r pwysau ar wasanaethau rheng flaen yn ddigynsail, gan gynnwys gwasanaethau sy'n hanfodol i les ein cymunedau.

We also support the second amendment regarding affordability and support for those least able to pay. In 2015-16, our council tax reduction schemes, already mentioned by Rhodri Glyn Thomas, are providing financial support to 307,000 households in meeting their council tax bill. As a result of the additional funding provided by Welsh Ministers, all eligible households are receiving their full entitlement to support and more than 220,000—one in six—households will pay no council tax at all. This is despite the shortfall in funding transferred by the UK Government when it abolished council tax benefit on 31 March 2013.

Rydym hefyd yn cefnogi'r ail welliant o ran fforddiadwyedd a chymorth i'r rhai lleiaf abl i dalu. Yn 2015-16, mae ein cynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor, a grybwyllwyd eisoes gan Rhodri Glyn Thomas, yn darparu cymorth ariannol i 307,000 o gartrefi allu talu biliau'r dreth gyngor. O ganlyniad i'r cyllid ychwanegol a ddarperir gan Weinidogion Cymru, mae pob cartref cymwys yn cael hawl lawn i gymorth ac ni fydd unrhyw dreth gyngor o gwbl i'w thalu gan fwy na 220,000—un o bob chwech—o aelwydydd. Mae hyn er gwaethaf y diffyg yn y cyllid a drosglwyddwyd gan Lywodraeth y DU pan ddiddymodd fudd-dal y dreth gyngor ar 31 Mawrth 2013.

Contrast this with the situation in England, where over 2 million low-income households are on average faced with having to pay £167 more per year than under the previous system. The impact of the localisation of council tax support and associated reduction in funding is clear in England. Evidence shows the majority of local authorities in England have seen council tax arrears and court and administration costs increase while collection rates have fallen. There has also been an increase in the number of reports of bailiffs being brought in to chase outstanding council tax, and these changes are more pronounced in areas that reduce council tax support entitlement. By maintaining entitlements to council tax support in Wales, we have protected low-income families and avoided these additional costs for local authorities.

Cymharwch hyn â'r sefyllfa yn Lloegr, lle y mae dros 2 filiwn o gartrefi incwm isel ar gyfartaledd yn wynebu gorfod talu £167 yn fwy bob blwyddyn nag o dan y system flaenorol. Mae effaith lleoleiddio cymorth y dreth gyngor a'r lleihad cysylltiedig yn y cyllid yn glir yn Lloegr. Dengys tystiolaeth fod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn Lloegr wedi gweld ôl-ddyledion y dreth gyngor a chostau llys a gweinyddiaeth yn codi wrth i gyfraddau casglu ostwng. Cafwyd cynnydd hefyd yn nifer yr adroddiadau am feilïaid sy'n cael eu tynnu i mewn i fynd ar ôl treth gyngor ddyledus, ac mae'r newidiadau hyn yn fwy amlwg mewn ardaloedd sy'n cyfyngu ar yr hawl i gymorth i dalu'r dreth gyngor. Drwy gynnal hawl i gymorth i dalu'r dreth gyngor yng Nghymru, rydym wedi diogelu teuluoedd ar incwm isel ac wedi osgoi'r costau ychwanegol hyn i awdurdodau lleol.

Members will be aware that we intend to approach financial reform of local government spending over a longer timetable than that set out for structural mergers. I want to ensure that we get this right and that the future finance system remains fit for the longer term. There will be opportunities to seek innovative ideas and views on how we can design a funding system that supports improvement through more innovative and preventative spend, and to look at other ways, of course, of raising revenue. Peter Black referred to the work done by Gerry Holtham, and obviously I've had the opportunity to have conversations with Gerry Holtham about some of his ideas. Within this, and within the context of the devolution settlement for Wales, we will consider how we can ensure the local taxation system in the future is fair and efficient. In the meantime, we will continue to take steps to maintain the local taxation system and ensure it remains fit for purpose: for example, the recent introduction of the council tax premiums for second homes and long-term empty homes.

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol ein bod yn bwriadu mynd ati i ddiwygio trefniadau cyllido gwariant llywodraeth leol dros amserlen hwy na'r hyn a nodwyd ar gyfer uno strwythurol. Rwyf am sicrhau ein bod yn cael hyn yn iawn a bod y system ariannol yn y dyfodol yn parhau i fod yn addas ar gyfer y tymor hwy. Bydd cyfleoedd i edrych am syniadau a safbwyntiau arloesol ar sut y gallwn gynllunio system gyllido sy'n cefnogi gwelliant drwy wariant mwy arloesol ac ataliol, ac edrych ar ffyrdd eraill o godi refeniw wrth gwrs. Cyfeiriodd Peter Black at y gwaith a wnaed gan Gerry Holtham, ac yn amlwg rwyf wedi cael cyfle i gael sgyrsiau gyda Gerry Holtham ynglŷn â rhai o'i syniadau. Yn rhan o hyn, ac yng nghyd-destun y setliad datganoli i Gymru, byddwn yn ystyried sut y gallwn sicrhau bod y system drethi lleol yn y dyfodol yn deg ac yn effeithlon. Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i roi camau ar waith i gynnal y system drethi lleol a sicrhau ei bod yn parhau'n addas i'r diben: er enghraifft, cyflwyno premiymau'r dreth gyngor yn ddiweddar ar ail gartrefi a chartrefi sy'n wag yn hirdymor.

Llywydd, the reality is, of course, that council tax in Wales remains, on average, lower than it is in England. It remains a fact that the council tax freeze in England has been rejected by 43 per cent of councils in England. And this motion, of course, ignores the wider context that we in Wales have been subject to an additional £50 million of cuts in this financial year as a result of the actions of the Conservative Chancellor of the Exchequer last week. We will have an honest debate. We will be transparent, and the transparency is that they are cutting our budgets and leaving our councils here with very few options.

Lywydd, y gwir yw bod y dreth gyngor yng Nghymru, wrth gwrs, yn parhau i fod, ar gyfartaledd, yn is nag y mae yn Lloegr. Mae'n parhau'n ffaith fod rhewi'r dreth gyngor yn Lloegr wedi cael ei wrthod gan 43 y cant o gynghorau Lloegr. Ac mae'r cynnig hwn, wrth gwrs, yn anwybyddu'r cyd-destun ehangach ein bod ni yng Nghymru wedi bod yn ddarostyngedig i £50 miliwn ychwanegol o doriadau yn y flwyddyn ariannol hon o ganlyniad i'r hyn a wnaeth Canghellor Ceidwadol y Trysorlys yr wythnos diwethaf. Fe gawn ddadl onest. Fe fyddwn yn dryloyw, a'r tryloywder yw eu bod yn torri ein cyllidebau ac yn gadael ein cynghorau yma heb fawr o opsiynau.

15:53

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Suzy Davies to reply to the debate.

Galwaf ar Suzy Davies i ymateb i'r ddadl.

15:53 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch, Lywydd, and thank you everybody who's taken part in the debate today. I apologise that time prevents me acknowledging absolutely every contribution, but I think we've had some very good points raised about transparency on spending by local authorities. Just looking at the three local authorities in my own region, I was very pleased to hear that Swansea had a good report from Janet Finch-Saunders. It's not often we hear that. But I think there are questions as well about transparency about where councils get their money from. I appreciate—I think Mike Hedges raised this, and perhaps Peter Black too—that these things are prescribed by laws.

Diolch, Lywydd, a diolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y ddadl heddiw. Rwy'n ymddiheuro bod amser yn fy rhwystro rhag cydnabod pob cyfraniad, ond rwy'n credu ein bod wedi clywed rhai pwyntiau da iawn am dryloywder mewn perthynas â gwariant awdurdodau lleol. Gan edrych yn unig ar y tri awdurdod lleol yn fy rhanbarth i, roeddwn yn falch iawn o glywed bod Abertawe wedi cael adroddiad da gan Janet Finch-Saunders. Nid yn aml y clywn hynny. Ond rwy'n meddwl bod yna gwestiynau hefyd am dryloywder ynglŷn â lle y mae cynghorau'n cael eu harian. Rwy'n derbyn—credaf fod Mike Hedges wedi crybwyll hyn, a Peter Black hefyd efallai—fod y pethau hyn yn cael eu pennu gan ddeddfau.

I want a quick look at the two other councils in my region, and I'll begin with Bridgend, which actually is not too bad. It produces something called a budget overview, a short document that, unfortunately, does rather win the Jane Hutt prize for officer-speak, but it does lead to information about a fuller document, a very detailed document, actually, regarding the expenditure, which is welcome. But, in terms of where it gets its income from, there's reference to £33.5 million coming in to the council from 'fees, charges and other income'. There's no easily accessible detail about what those words mean.

Rwyf am edrych yn sydyn ar y ddau gyngor arall yn fy rhanbarth i, a dechreuaf gyda Phen-y-bont ar Ogwr, nad yw'n rhy ddrwg mewn gwirionedd. Mae'n cynhyrchu rhywbeth a elwir yn drosolwg o'r gyllideb, dogfen fer sydd, yn anffodus, yn ennill gwobr Jane Hutt am ddefnyddio iaith swyddogol, ond mae'n arwain at wybodaeth am ddogfen lawnach, dogfen fanwl iawn mewn gwirionedd, ar y gwariant, sydd i'w chroesawu. Ond o ran ble y caiff ei incwm, ceir cyfeiriad at £33.5 miliwn a ddaw i'r cyngor o 'ffioedd, taliadau ac incwm arall'. Ni cheir manylion hygyrch ynglŷn â'r hyn y mae'r geiriau hynny'n ei olygu.

In Neath Port Talbot, it's actually even worse, because, even though they've got a very user-friendly document that explains about council tax, it explains, Minister, that it gets its income only from the revenue support grant, from business rates and from council tax; it doesn't seem to acknowledge at all that it gets money from parking fines, parking charges and other kinds of fees. Funnily enough, Minister, it's questions on those subjects—I'm sure we all recognise that—that fill our inboxes, and it's particularly important with parking-charge income, because, of course, money raised in this way is supposed to be used for parking-related improvements. There is a suspicion, certainly amongst my constituents, that money is being raised in this way in order to backfill empty coffers that are, obviously, looking even emptier as a result of cuts imposed by the Government here.

Yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae'r sefyllfa hyd yn oed yn waeth, mewn gwirionedd, oherwydd, er bod ganddynt ddogfen hawdd iawn ei defnyddio sy'n egluro ynglŷn â'r dreth gyngor, mae'n egluro, Weinidog, eu bod yn cael eu hincwm o'r grant cynnal refeniw, ardrethi busnes ac o'r dreth gyngor yn unig; nid yw'n ymddangos ei fod yn cydnabod o gwbl ei fod yn cael arian o ddirwyon parcio, taliadau parcio a mathau eraill o ffioedd. Yn rhyfedd ddigon, Weinidog, cwestiynau ar y pynciau hyn—rwy'n siŵr ein bod i gyd yn gweld hynny—sy'n llenwi ein mewnflychau, ac mae'n arbennig o bwysig o ran incwm taliadau parcio, oherwydd, wrth gwrs, mae arian a godir yn y ffordd hon i fod i gael ei ddefnyddio ar gyfer gwelliannau'n ymwneud â pharcio. Mae yna amheuaeth, ymhlith fy etholwyr yn sicr, fod arian yn cael ei godi yn y ffordd hon er mwyn adlenwi coffrau gwag sy'n amlwg yn edrych yn wacach byth o ganlyniad i doriadau gan y Llywodraeth yma.

Now, none of this stuff is particularly easy to find, and I think what was Janet Finch-Saunders was asking for, really, is some sort of simple and digestible information—fairly standardised—that could be distributed as a matter of course, rather than some of the obscure routes that we have to take to find out this information at the moment. I think, also, that the kind of principles we were talking about today, Members, should also be applied to community councils, because, bizarrely, while it's quite easy to find out how much precept a community council gets through council tax raising, it's not always that easy to discover how that is spent.

Nawr, nid oes dim o'r pethau hyn yn arbennig o hawdd dod o hyd iddo, ac rwy'n meddwl mai'r hyn roedd Janet Finch-Saunders yn gofyn amdano mewn gwirionedd yw rhyw fath o wybodaeth syml a hawdd ei dreulio—gweddol safonedig—y gellid ei dosbarthu fel mater o drefn, yn hytrach na rhai o'r llwybrau aneglur sy'n rhaid i ni eu dilyn er mwyn dod o hyd i'r wybodaeth ar hyn o bryd. Rwy'n meddwl, hefyd, y dylid cymhwyso'r math o egwyddorion roeddem yn sôn amdanynt heddiw, Aelodau, i gynghorau cymuned, oherwydd, yn rhyfedd iawn, er ei bod yn eithaf hawdd cael gwybod faint o braesept y mae cyngor cymuned yn ei gael drwy godi'r dreth gyngor, nid yw bob amser yn hawdd darganfod sut y caiff ei wario.

Once again, Janet and others were right to raise the question about exclusions from meetings. We heard about the extremes of Monmouth and Wrexham, but there is a high degree of inconsistency in between. Actually, this applies to community councils as well; I get complaints—I'm sure that others do in my region—about one particular community council where it's very difficult to find out what on earth they're doing behind closed doors. So, I'd like to know: where is One Voice Wales in this? Where is the Welsh Local Government Association on this? Perhaps, Minister, this is a time, also, for some additional and refreshed guidance on this, because I also, actually, share your doubts about long-standing councillors and questions about how prepared they are to scrutinise their cabinet in areas where the council is made up very strongly of one particular party; that speaks to Peter's point about scrutiny.

Unwaith eto, roedd Janet ac eraill yn gywir i godi'r cwestiwn am waharddiadau o gyfarfodydd. Clywsom am eithafion Mynwy a Wrecsam, ond mae yna lefel uchel o anghysondeb yn y canol. Mewn gwirionedd, mae hyn yn berthnasol i gynghorau cymuned yn ogystal; rwy'n cael cwynion—rwy'n siŵr bod eraill yn eu cael yn fy rhanbarth—am un cyngor cymuned penodol lle y mae'n anodd iawn darganfod beth ar y ddaear y maent yn ei wneud y tu ôl i ddrysau caeedig. Felly, hoffwn wybod: ble mae Un Llais Cymru mewn perthynas â hyn? Ble mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru mewn perthynas â hyn? Efallai, Weinidog, mai dyma'r adeg hefyd i gael arweiniad ychwanegol ac adnewyddu canllawiau ar hyn, oherwydd rwyf innau hefyd, mewn gwirionedd, yn rhannu eich amheuon ynghylch cynghorwyr hirsefydlog a chwestiynau ynglŷn â pha mor barod ydynt i graffu ar eu cabinet mewn ardaloedd lle y mae'r cyngor yn cynnwys cynrychiolaeth gref iawn o un blaid benodol; mae hynny'n ymateb i bwynt Peter ynglŷn â chraffu.

The council tax freeze—I know that some Members here think this is something of a red herring, but I think this is very important, because there's a message here about the relationship between residents and their representatives. Welsh council tax payers, who pay a higher percentage of their income on council tax, as we heard, face tax rises, when they know that their friends over the border aren't facing that. They also see that services are being cut, and they blame the council for this. Now, I appreciate that councils make some rather unfathomable decisions, but they are also taking the rap for decisions made here. I think one of the greatest areas where there is lack of transparency is this: that it is this Welsh Government that is hanging on to council tax freeze money, it is their priority choices that result in local authority cuts, and it is their ideology that prevents residents exercising rights to veto council tax hikes and to exercise a community right to challenge. Thank you.

Mae rhewi'r dreth gyngor—gwn fod rhai Aelodau yma yn credu mai codi sgwarnog yw hyn, ond rwy'n credu bod hyn yn bwysig iawn, oherwydd mae neges yma ynglŷn â'r berthynas rhwng trigolion a'u cynrychiolwyr. Mae pobl sy'n talu'r dreth gyngor yng Nghymru, ac sy'n talu canran uwch o'u hincwm ar y dreth gyngor, fel y clywsom, yn wynebu codiadau yn y dreth, gan wybod nad yw eu cyfeillion dros y ffin yn wynebu hynny. Maent hefyd yn gweld bod gwasanaethau'n cael eu torri, ac maent yn rhoi'r bai ar y cyngor am hyn. Nawr, rwy'n derbyn bod cynghorau'n gwneud rhai penderfyniadau annirnadwy, ond maent hefyd yn cael eu beirniadu am benderfyniadau sy'n cael eu gwneud yma. Rwy'n credu mai un o'r meysydd mwyaf lle y ceir diffyg tryloywder yw hwn: mai Llywodraeth Cymru sy'n dal ei gafael ar arian rhewi'r dreth gyngor, y blaenoriaethau y mae hi'n eu dewis sy'n arwain at doriadau i awdurdodau lleol, a'i hideoleg hi sy'n atal trigolion rhag arfer hawliau i roi feto ar godiadau yn y dreth gyngor ac i arfer hawl y gymuned i herio. Diolch yn fawr.

15:58 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion without amendment. Does anyone object? [Objection.] I defer all voting on this item until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf bob pleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:58.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:58.*

## 4. Dadl Plaid Cymru: Cyfranogiad Economaidd Menywod

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Aled Roberts, a gwelliannau 2, 3 a 4 yn enw Paul Davies.*

## 4. Plaid Cymru Debate: Women's Economic Participation

*The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Aled Roberts, and amendments 2, 3 and 4 in the name of Paul Davies.*

15:58 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Item 4 is Plaid Cymru's debate on women's economic participation, and I call on Rhun ap Iorwerth to move the motion.

Eitem 4 yw dadl Plaid Cymru ar gyfranogiad economaidd menywod a galwaf ar Rhun ap Iorwerth i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5781 Elin Jones

Motion NDM5781 Elin Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau effeithiol i hyrwyddo cyfranogiad economaidd llawn gan fenywod.

Calls on the Welsh Government to take effective action to promote women's full economic participation.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

15:58

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd, a diolch am y cyfle i gyflwyno'r cynnig yma a gafodd ei osod yn enw Elin Jones.

Thank you, Deputy Presiding Officer, and thank you for the opportunity to move this motion, tabled in the name of Elin Jones.

Mi oedd yna gryn drafod ar gynnwys y cynnig heddiw, a geiriad y cynnig. Roedd y drafft gwreiddiol dipyn yn hirach na beth y gwelwch chi o'ch blaenau rŵan, yn rhoi rhagor o fanylder am gamau y gellid cael eu cymryd yn y maes pwysig yma. Ond, yn y pen draw, mi benderfynom ni fod yr un frawddeg yna yn dweud y cyfan, mewn difrif. Mae'r cynnig, felly, yn syml iawn, yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau effeithiol i hyrwyddo cyfranogiad economaidd llawn gan ferched.

There was quite some discussion on the content of the motion, and the wording of the motion. The original draft was a fair bit longer than what you have before you now, giving greater detail about the steps that could be taken in this important area. But, ultimately, we decided that that one sentence said it all, if truth be told. The motion, therefore, simply calls on the Welsh Government to take effective action to promote women's full economic participation.

Beth sy'n siomedig, wrth gwrs, ydy bod angen cynnig o'r fath, a'n bod ni, rŵan, yn yr unfed ganrif ar hugain, yn dal mewn sefyllfa lle nid yw merched yn cael cyfle teg i gyfrannu hyd at eithaf eu potensial i weithgaredd economaidd. Yn gefndir i'r cynnig heddiw, mae adroddiad a gafodd ei baratoi gan fudiad Chwarae Teg ar ran fy nghyd-Aelod Jocelyn Davies—adroddiad ar sicrhau bod merched yng Nghymru yn cyrraedd eu potensial. Ac, wrth gwrs, mae ennill tir wedi bod dros y blynyddoedd, ond mae merched yn dal i wynebu rhwystrau sy'n eu hatal nhw rhag gwneud cyfraniad llawn i economi Cymru. Ar gyfartaledd, mae merched yn cael eu talu llai yr awr na dynion am waith tebyg, ac yn fwy tebygol o fod mewn gwaith rhan amser neu'n cael eu tangyflogi. Mae'r gwahaniaeth cyflog rhwng merched a dynion ym Mhrydain yn dal i fod ychydig dros 19 y cant. Rŵan, mae dwy ran o dair o'r gweithlu ar gyflogau isel yng Nghymru yn ferched—ystadegyn arall sy'n crynhoi'r angen i weithredu.

Now, what's disappointing, of course, is that such a motion is needed, and that we are now, in the twenty-first century, still in a situation where women don't have a fair opportunity to contribute to the limits of their potential to economic activity. As background to this motion today, there is a report prepared by Chwarae Teg on behalf of my fellow Member Jocelyn Davies—a report on ensuring that women in Wales reach their potential. And, of course, ground has been gained over the years, but women still face barriers that prevent them from making a full contribution to the Welsh economy. On average, women are paid less per hour than men for similar work, and are more likely to be in part-time employment or underemployed. The pay differential between women and men in Britain is still a little over 19 per cent. Now, two thirds of the workforce on low wages in Wales are women—another statistic that encapsulates the need to take action.

Mi wnaf i a fy nghyd-Aelodau ar y meinciau yma edrych y prynhawn yma ar nifer o wahanol feysydd sy'n cyfrannu at y realiti yma a chrynhoi nifer o argymhellion sy'n codi o adroddiad Chwarae Teg. Mi roddaf grynodeb yn gyntaf, a dechreuaf efo sgiliau a hyfforddiant. Yn ôl Sefydliad Joseph Rowntree, y brif broblem o ran cyfranogiad merched yng Nghymru ydy diffyg swyddi y mae merched yn mynd i mewn iddyn nhw yn gyffredinol. Un o'r ffactorau sy'n gyrru hyn ydy rhaniad y ddau ryw mewn gweithleoedd yng Nghymru. Mae'r ystadegau yn ddifyr ac yn bryderus. Mae 80 y cant o lefydd gwaith yng Nghymru wedi'u dominyddu gan un rhyw. Mae merched yn cael eu tangynrychioli mewn sectorau twf, lle mae cyflogau yn uwch, ac yn cael eu gorgynrychioli mewn sectorau lle mae cyflogau isel a thangyflogaeth yn gyffredin. Mae ICT yn enghraifft dda iawn. Mae cyflogaeth ICT wedi cynyddu yn fawr iawn yn y blynyddoedd diwethaf, ac mae hynny i'w groesawu, ond prin iawn ydy'r myfyrwyr a'r gweithwyr ICT sy'n fenywaidd. Mae yna broblem efo diffyg merched yn astudio pynciau STEM yn gyffredinol, a dim ond 8 y cant o beirianwyr Prydain sy'n fenywaidd. Mae'n wir hefyd o ran prentisiaid: dim ond 3.2 y cant o brentisiaethau peirianneg sy'n cael eu cymryd i fyny gan ferched. Ym maes cyflogau isel, wedyn, neu lle mae cyflogau isel yn gyffredin, fel gofal plant ifanc fel un enghraifft, mae 97 y cant o brentisiaid yn ferched.

My fellow Members on these benches and I will look this afternoon at a number of different areas that contribute to the reality here and will summarise a number of recommendations arising from the Chwarae Teg report. I will first give you a summary, and I will start with skills and training. According to the Joseph Rowntree Foundation, the main problem in terms of the participation of women in Wales is the shortage of jobs that women generally apply for. One of the factors driving this is the gender divide in workplaces in Wales. The statistics are interesting and concerning. Eighty per cent of workplaces in Wales are dominated by one gender. Women are underrepresented in growth sectors, where salaries are higher, and overrepresented in sectors where lower salaries and underemployment are common. ICT is a very good example. ICT employment has increased greatly over the past few years, and that's to be welcomed, but the ICT professionals and students who are female are in short supply. There is a problem with a lack of women studying STEM subjects in general, and only 8 per cent of British engineers are female. It's also true of apprentices: only 3.2 per cent of engineering apprenticeships are being taken up by girls. In areas with low wages, then, or where low wages are prevalent, such as childcare for young children as one example, 97 per cent of apprentices are female.

Mae yna broblem yn codi hefyd wedyn o'r angen am hyfforddiant i ferched sydd eisiau mynd yn ôl i weithio ar ôl geni plant. Felly, mae'r argymhellion, wedyn, yn y maes yma yn cynnwys galw am werthusiad o raglenni i gynyddu diddordeb merched mewn pynciau STEM, a hefyd ymchwilio i'r camau y gellid eu cymryd i hybu cyfranogiad merched sydd eisiau gweithio ar ôl cyfnod mamolaeth—a hefyd mae'n rhaid cofio menywod hŷn sydd eisiau cynyddu cyfranogiad, o bosibl ar ôl magu plant.

There's also a problem arising in terms of the need for training for women who want to return to work after having children. Therefore, the recommendations in this area include calls for an evaluation of programmes to increase girls' interest in STEM subjects, and also to investigate the steps that could be taken to promote the participation of women who wish to work after maternity leave—and we must also bear in mind older women who want to increase their participation, possibly after having brought up their children.

Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi sylw i'r cwestiwn o uchelgais a stereoteipio. Nid diffyg uchelgais na diddordeb sydd gan ferched, ond yn hytrach, o bosibl, ddiffyg ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth o lwybrau gyrfa sydd ar agor iddyn nhw. Lle mae'r llwybrau gyrfa yn rhai hysbys iawn, fel meddygaeth, er enghraifft, mae merched yn cael eu cynrychioli yn dda iawn. Un broblem fawr, meddai Chwarae Teg, ydy'r diffyg menywod llwyddiannus amlwg iawn y gall merched ifanc edrych i fyny atyn nhw, ond hefyd sut y mae negeseuon yn cael eu trosglwyddo yn y wasg a'r cyfryngau ac ati ynglŷn â pha yrfaoedd sydd mewn rhyw ffordd yn dderbyniol i ferched. Ynghlwm â hyn, wedyn, mae'r elfen o stereoteipio sy'n digwydd yn aml iawn yn isymwybodol gan rieni, ymysg eraill, ac athrawon ac ati, ac mae'r broblem fwyaf ar gyfer y rheini o gefndiroedd difreintiedig. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu hynny'n glir iawn. Mae yna dystiolaeth hefyd o effaith ethnigrwydd yn y maes yma, ac rwy'n gwybod y gwnaiff rhai o fy nghyd-Aelodau fanylu ar hynny yn nes ymlaen.

The report also addresses the issue of ambition and stereotyping. It's not that women lack ambition or interest, but rather, perhaps, a lack of awareness of the variety of career paths open to them. Where those career paths are well known, such as medicine, for example, then women are well represented. One major problem, according to Chwarae Teg, is the absence of prominent successful role models for women, who young girls can look up to, but also how messages are conveyed in the press and media et cetera in terms of which careers are in some way acceptable for women. Linked to that, then, there is the issue of stereotyping that happens, very often subconsciously, among parents, among others, and teachers et cetera, and the problem is all the greater for those from disadvantaged backgrounds. The evidence suggests that very strongly. There is also evidence of the impact of ethnicity in this area, and I know that some of my fellow Members will go into that in greater detail a little later.

Mae hefyd y cwestiwn o waith hyblyg—gweithio'n hyblyg a gweithio yn rhan amser. Mae'r adroddiad yn nodi bod merched yn fwy tebygol na dynion o chwilio am swyddi rhan amser, ond efo cyfleoedd gwaith hyblyg neu ran amser yn fwy cyffredin mewn swyddi sgiliau isel, mae'n golygu wedyn bod merched yn ei chael yn anodd dod o hyd i waith sy'n addas i'w gallu nhw, sy'n eu gwthio nhw, ac sy'n caniatáu iddyn nhw gyrraedd eu potensial. Mae hefyd yn cyfrannu tuag at y lefelau uchel o ferched sydd mewn swyddi efo cyflogau isel. Mae'r adroddiad yn argymell, felly, y dylid hyrwyddo achosion lle mae cyflogwyr wedi newid patrymau gwaith yn llwyddiannus—ac mae yna enghreifftiau arbennig o dda allan yna, yn enwedig efo swyddi uwch neu swyddi sgiliau uchel.

There is also the question of agile working—flexible working and part-time work. The report notes that women are more likely than men to look for part-time employment, but with flexible or part-time work opportunities more common in low-skilled sectors, it does mean that women find it more difficult to find employment that is appropriate to their skills, that stretches them, and that enables them to reach their potential. It also contributes to the high levels of women in low-paid employment. The report recommends, therefore, that we should promote those cases where employers have successfully changed work patterns—and there are particularly good examples out there, especially with senior posts or highly skilled roles.

Un rheswm am y nifer uchel o ferched sy'n chwilio am waith rhan amser ydy cyfrifoldebau gofalu a domestig, wrth gwrs, ac mi wnaf i droi at hynny rŵan. Er gwaethaf newidiadau diweddar yn y gyfraith—fel rhannu absenoldeb rhiant, sydd i'w groesawu, ac sy'n gam positif iawn, yn sicr, tuag at gydbwyso cyfrifoldebau gofal plant—mae trefnu gofal plant yn dal i'w gael ei weld, yn gyffredinol, yn anffodus, fel rôl dynes. Mae hyn yn naturiol wedyn yn dylanwadu ar y penderfyniadau am batrymau, oriau ac, yn aml, natur y gwaith. Mi oedd argaeledd gofal plant addas yn cael ei godi sawl gwaith yng ngwaith ymchwil Chwarae Teg fel rhwystr i gyflogaeth a dilyniant gyrfa gan ferched, sy'n bwysig hefyd, efo cyflogwyr yn ogystal, rhaid dweud, a gweithwyr yn nodi hyn fel problem.

One reason for the high number of women looking for part-time work is domestic and caring responsibilities, of course, and I'll turn to that now. Despite recent changes in the law—such as shared parental leave, which is to be welcomed, and is certainly a very positive step towards balancing the responsibilities of childcare—arranging childcare continues to be seen, generally, unfortunately, as the role of women. That naturally then influences decisions about work patterns, hours and, often, the nature of work. The availability of appropriate childcare was raised several times in Chwarae Teg's research as a barrier to women's employment and career progression, which is also important, with employers as well as workers identifying it as a problem.

Yn gyntaf—ac mae hyn yn bwysig—mae gofal plant yn gallu bod yn ddrud iawn, iawn. Mae rhieni yn yr ynysoedd yma yn y Deyrnas Gyfunol yn talu'r gyfradd uchaf am ofal plant yn y byd datblygedig, efo'r gost yn gallu bod dros 26 y cant o incwm cyfartalog teulu yn ôl yr adroddiad yma. Yn ail, ac yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig neu ardaloedd gwledig, mae diffyg gofal plant ar gael yn enwedig ar gyfer rhieni efo patrymau gwaith anarferol—gweithwyr shifftiau, neu'r rhai sy'n gweithio ar benwythnos. Yn drydydd, mae diffyg amlwg mewn darpariaeth gofal plant ar gyfer plant efo anghenion ychwanegol.

For one thing—and this is important—childcare can be extremely expensive. Parents in these islands of the United Kingdom pay the highest rates for childcare in the developed world, as the cost can be more than 26 per cent of the average family earnings, according to this report. Secondly, and especially in disadvantaged areas or rural areas, there is a shortage of childcare available, particularly for parents with unusual work patterns—shift workers, or those who work on the weekend. Thirdly, there is a clear shortage of childcare provision for children who have additional needs.

Mae'r adroddiad felly yn amlygu'r angen i ddatblygu gofal plant sy'n cyfarfod anghenion teuluoedd modern. Dyna rydym yn chwilio amdano fo—crèches ar safleoedd gwaith, trefniadau ar gyfer rhieni sy'n gweithio shifftiau a phenwythnosau, fel y dywedais i, cymhorthdal â sawl prawf modd, a gwella'r ddarpariaeth mewn ardaloedd gwledig yn benodol, sy'n effeithio ar etholaethau llawer ohonom ni.

The report therefore highlights the need to develop childcare that actually meets the needs of modern families. That's what we're looking—workplace crèches, arrangements for parents who work shifts and at weekends, as I said, financial support that has several means-tests, and improved provision in rural areas in particular, which is something that affects many of our constituents.

I grynhoi, beth sydd gennym ni felly yn yr adroddiad yma ydy cyfres o argymhellion rŷm ni a Chwarae Teg yn eiddgar i'r Llywodraeth i'w hystyried ac i weithredu arnyn nhw, ac mi edrychaf ymlaen at glywed ymateb y Gweinidog maes o law.

To summarise, what we have in this report therefore is a series of recommendations that we and Chwarae Teg are eager for the Government to consider and to implement, and I look forward to hearing the Minister's response in due course.

I droi at y gwelliannau, mi gefnogwn ni welliant 1 y Democratiaid Rhyddfrydol. Rŷm ni'n sicr yn cefnogi unrhyw gamau a all ryddhau merched i ddychwelyd i gyfranogiad economaidd ar ôl geni plant, fel y dywedais i. O ran gwelliant 2 y Ceidwadwyr, eto mi gefnogwn ni, wrth gwrs, achos mae cael gwared ar y bwlch cyflog yna rhwng y ddau ryw yn ganolog i'r hyn rŷm ni am ei weld yn cael ei gyflawni. Ar welliant 3, roedd ychydig bach o grafu pen yn y fan hyn, ond mi gefnogwn ni hwn o'i ddarllen o fel datganiad o egwyddor yn hytrach nag fel sylw ar unrhyw weithgaredd neu weithredoedd gan y Llywodraeth yma neu yn Llundain. Y gwir amdani ydy bod tystiolaeth yn dangos bod yna fanteision amlwg o gynnig gofal plant fforddiadwy o ansawdd uchel o ran cefnogi merched yn ôl i'r gweithle, fel mae'r gwelliant yn ei ddweud, ond rydym yn cydnabod nad oes gennym ni unrhyw beth yn agos at y ddarpariaeth sydd ei hangen arnom ni yma yng Nghymru, yn enwedig i'r rheini sy'n ei chael hi'n anodd fforddio unrhyw ddarpariaeth sydd yn digwydd bod ar gael yn lleol iddyn nhw.

Turning now to the amendments, we will support amendment 1 from the Liberal Democrats. We certainly support any steps that can release women to be economically active after having children, as I said. With regard to the Conservatives' amendment 2, we will again support this, of course, because closing the gender pay gap is central to what we want to see achieved. On amendment 3, I did have to scratch my head here, but we will support this as a statement of principle rather than as a comment on any activity or action taken by the Government here or in London. The truth is that there is evidence to show that there are clear advantages to offering affordable, high-quality childcare in terms of supporting women back into the workplace, as the amendment says, but we don't believe that we have anywhere near the provision required here in Wales, particularly for those who find it difficult to afford the provision that happens to be available to them at a local level.

Mae'n bleser hefyd gefnogi gwelliant 4, eto yn enw Paul Davies a'r Ceidwadwyr. Rŷm ni'n falch iawn gweld y Ceidwadwyr yn galw am droi Cymru yn genedl cyflog byw, ac yn edrych ymlaen at glywed yr Aelodau ar y meinciau gyferbyn yn trio dwyn perswâd ar y Llywodraeth Geidwadol yn Llundain i weithredu addewid etholiad Plaid Cymru i wneud hynny yn statudol o fewn y pum mlynedd nesaf. Rwy'n edrych ymlaen, felly, at glywed eich cyfraniadau chi i gyd y prynhawn yma. Mae'r egwyddor fan hyn, wrth gwrs, yn rhywbeth rwy'n siŵr yr ydan ni i gyd yn gytûn arno fo.

It is also a pleasure to support amendment 4, again in the name of Paul Davies and the Welsh Conservatives. We're very pleased to see the Conservatives calling for Wales to become a living wage nation, and we look forward to hearing Members on the opposite benches trying to persuade the Conservative Government in London to implement the Plaid Cymru election pledge to make that statutory within the next five years. I therefore look forward to hearing all your contributions this afternoon. The principle here, of course, is something that I'm sure we can all agree on.

16:09

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have selected the four amendments to the motion. I call on Eluned Parrott to move amendment 1 tabled in the name of Aled Roberts.

Rwyf wedi dethol pedwar gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Eluned Parrott i gynnig gwelliant 1 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Amendment 1—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn croesawu cyflwyno rhannu cyfnodau absenoldeb rhieni, sef penderfyniad a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2015, a fydd yn cefnogi dynion i gymryd rôl fwy gweithredol o ran magu plant, ac yn cefnogi menywod i ddychwelyd i gyfranogiad economaidd llawn ar ôl rhoi genedigaeth.*

*Welcomes the introduction of shared parental leave that came into force in April 2015, which will support men taking a more active role in parenthood, and support women's return to full economic participation following childbirth.*

*Cynigiwyd gwelliant 1.*

*Amendment 1 moved.*

16:09

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'd like to thank Plaid Cymru for bringing this important debate today, and I think we've heard some really very challenging statistics about the barriers that women face in trying to be fully participative in the economy. But, I think if we want to bring forward practical measures in which we can improve the situation, we really do need to understand not only the statistics but also what lies behind the barriers that women can sometimes face.

Hoffwn ddiolch i Blaid Cymru am gyflwyno'r ddadl bwysig hon heddiw, ac rwy'n credu ein bod wedi clywed rhai ystadegau gwirioneddol heriol ynglŷn â'r rhwystrau y mae menywod yn eu hwynebu wrth geisio cyfranogi'n llawn yn yr economi. Ond os ydym am gyflwyno mesurau ymarferol ar gyfer gwella'r sefyllfa, rwy'n credu bod angen i ni ddeall o ddifrif, nid yn unig yr ystadegau, ond hefyd yr hyn sydd wrth wraidd y rhwystrau y gall menywod eu hwynebu o bryd i'w gilydd.

Clearly, there are issues of prejudice in our society, unconscious and conscious prejudice, even now. Looking to my own career experience, I thought that we had things, if not cracked, but that we were doing pretty well on challenging prejudice. It wasn't until after I'd had a family that I started to see these unconscious prejudices really come to the fore. There are issues about confidence, there are issues about training, and there are practical issues around childcare as well that you've explored. But, as I say, I think we really need to start by asking ourselves the question, 'What are the reasons behind people's prejudices, and what can we do to challenge those assumptions?'

Yn amlwg, mae yna ragfarn yn ein cymdeithas, rhagfarn anymwybodol ac ymwybodol, hyd yn oed yn awr. Gan edrych ar fy mhrofiad gyrfaol fy hun, roeddwn yn meddwl ein bod wedi llwyddo i herio rhagfarn yn weddol, os nad yn llwyr. Nid tan ar ôl i mi gael teulu y dechreuais weld y rhagfarnau anymwybodol hyn yn dod yn amlwg mewn gwirionedd. Mae yna broblemau gyda hyder, mae yna bethau'n codi mewn perthynas â hyfforddiant, a cheir materion ymarferol yn ymwneud â gofal plant hefyd yr ydych wedi edrych arnynt. Ond fel y dywedais, rwy'n meddwl bod gwir angen i ni ddechrau drwy ofyn i ni ein hunain, 'Beth yw'r rhesymau wrth wraidd rhagfarnau pobl, a beth y gallwn ei wneud i herio'r rhagdybiaethau hynny?'

I was really, really shocked by the assumptions that people made—within my own family, and speaking to friends in a similar position—about professional couples when they have a family; the assumptions made about the role of the mother and the role of the father. Why is it that childcare is seen as the mother's problem? Why is it that if a child has an injury in school or an illness in school, the school automatically phones the mother? Why is it that when my midwife and my health visitor were making appointments with me and I said to them, 'I'm afraid I'd need to change that appointment because my husband can't make it', they said to me, 'Don't worry, we don't need to see him'. I'm sorry, but my husband is part of that family and an equal part of that family. This is not an appropriate institutional response to a modern way of ensuring that there is equality in the family. I think some of those attitudes, some of those prejudices, are actually entrenched in the way we deal with maternity and paternity leave up until this point in time. That's why I've brought forward this amendment about shared parental leave, because I think it will make a material difference, not only in practice, but actually also in terms of those subconscious prejudices in people's minds.

Testun syndod mawr iawn i mi oedd y rhagdybiaethau a oedd gan bobl—yn fy nheulu fy hun, ac wrth siarad â ffrindiau mewn sefyllfa debyg—am gyplau proffesiynol pan fyddant yn cael teulu; y rhagdybiaethau ynghylch rôl y fam a rôl y tad. Pam y caiff gofal plant ei weld fel problem i'r fam? Os yw plentyn yn cael anaf neu salwch yn yr ysgol, pam y mae'r ysgol yn ffonio'r fam heb feddwl ddwywaith? Pan oedd fy mydwraig a fy ymwelydd iechyd yn trefnu apwyntiadau gyda mi a minnau'n dweud wrthynt, 'Rwy'n ofni y bydd angen i mi newid yr apwyntiad am nad yw'n gyfleus i fy ngŵr', pam eu bod wedi dweud wrthyf, 'Paid â phoeni, nid oes angen i ni ei weld ef'. Mae'n ddrwg gen i, ond mae fy ngŵr yn rhan o'r teulu ac yn rhan gyfartal o'r teulu. Nid yw hwn yn ymateb cyfundrefnol priodol i ffordd fodern o sicrhau bod cydraddoldeb yn y teulu. Rwy'n credu bod rhai o'r agweddau hynny, rhai o'r rhagfarnau hynny, wedi gwreiddio yn y ffordd rydym wedi ymdrin ag absenoldeb mamolaeth a thadolaeth hyd yma. Dyna pam y cyflwynais y gwelliant hwn ynghylch rhannu absenoldeb rhieni, gan fy mod yn credu y bydd yn gwneud gwahaniaeth sylweddol, nid yn unig yn ymarferol, ond hefyd o ran y rhagfarnau isymwybodol hyn ym meddyliau pobl.

If we look to places like Iceland, where the caucus for Women in Democracy visited to find out how they'd achieved such good record on equal representation, it's because they have a very equal record on women in the economy more generally. Their politics is a reflection of their society; not the other way around. They have shared parental leave; for many, many years, they've had it. It gives both parents, then, an equal role in parenting. There is no default to the mother by the authorities, but it also gives both parents an equal opportunity, then, to be economically active and to be career-focused if they want to. It also means, of course, that women of child-bearing age are not discriminated against in the job market, because there is an equal chance that the father will take a significant amount of parental leave. That, I think, is a wonderful thing to do to undermine the causes and, indeed, the bases for prejudice. As I say, our amendment welcomes that shared parental leave and I thank you for accepting it, because it enables parents to make the choice about what their own work-life balance is going to be and set that pattern of equal parenting from day one.

Os edrychwn ar lefydd fel Gwlad yr Iâ, yr ymwelodd y cawcws Menywod mewn Democratiaeth â hi i ddarganfod sut y maent wedi cyflawni record cystal ar gynrychiolaeth gyfartal, gwelwn mai'r rheswm yw bod ganddynt record gyfartal iawn ar fenywod yn yr economi yn fwy cyffredinol. Mae eu gwleidyddiaeth yn adlewyrchiad o'u cymdeithas; nid fel arall. Mae ganddynt drefniadau rhannu absenoldeb rhieni, a hynny ers llawer iawn o flynyddoedd. Mae'n rhoi rôl gyfartal i'r ddau riant mewn rhianta. Nid yw'r awdurdodau yn gwyro'n ddiofyn tuag at y fam, ond mae hefyd yn rhoi cyfle cyfartal i'r ddau riant fod yn economaidd weithgar ac i ganolbwyntio ar yrfa os ydynt yn dymuno. Mae hefyd yn golygu, wrth gwrs, na wahaniaethir yn erbyn menywod o oed cael plant yn y farchnad swyddi, oherwydd mae cyfle cyfartal y bydd y tad yn cymryd cryn dipyn o absenoldeb rhiant. Mae hynny, rwy'n meddwl, yn beth gwych i'w wneud i danseilio'r achosion ac yn wir, y seiliau dros ragfarn. Fel y dywedais, mae ein gwelliant yn croesawu trefniadau rhannu absenoldeb rhieni a diolch i chi am ei dderbyn, gan ei fod yn galluogi rhieni i ddewis beth fydd eu cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ac yn gosod patrwm rhianta cyfartal o'r diwrnod cyntaf.

As I say, I hope that it will help to tackle the gender pay gap as well, because while for women under 35 that gender pay gap is almost gone—it's very, very small—for women once they've had a family, that's when the gender pay gap really starts to take hold. If both parents, as I say, are equally likely and able to take time out of their careers for childcare, women's salaries won't necessarily be disproportionately hit. Perhaps, if men are equally engaged in that parental leave—if men's salaries are equally threatened by taking parental leave—perhaps nobody's salary has to take a hit; perhaps we will change the way in which we view careers and career breaks in our society.

Fel y dywedais, rwy'n gobeithio y bydd yn helpu i fynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau hefyd, oherwydd er bod y bwlch bron â diflannu ar gyfer menywod o dan 35 oed—mae'n fach iawn—i fenywod ar ôl iddynt gael teulu, dyna pryd y mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn dechrau dod yn amlwg go iawn. Os yw'r ddau riant, fel y dywedais, yr un mor debygol ac yn gallu cymryd seibiant o'u gyrfaoedd ar gyfer gofalu am blant, ni fydd cyflogau merched o reidrwydd yn cael eu taro'n anghymesur. Os yw dynion yn cymryd rhan gyfartal yn yr absenoldeb rhiant—os yw cyflogau dynion yn wynebu'r un bygythiad drwy gymryd absenoldeb rhiant—efallai na fydd yn rhaid i gyflogau neb gael eu taro; efallai y byddwn yn newid y ffordd rydym yn edrych ar yrfaoedd a seibiannau gyrfa yn ein cymdeithas.

But there are tools in our grasp that we can look to; childcare, and making sure, for example, that there is flexibility in the way we do our free nursery places. Two and a half hours a day is not a way that is helpful for working women. What on earth can you do in the two and a half hours between dropping off your child, driving to work, and then driving back again straight away to get the child? It is not a flexible way to work; we need to think about that and wraparound care. We can look at procurement and whether or not we can put targets for gender equality in our apprenticeships placements and community benefits clauses. Actually, more broadly in training, we could look at doing that so that we have a better gender balance in all areas. We also need to have a look at the career pathways in things like, as you say, the sciences. Women are not underrepresented at undergraduate level across the STEM ranges, but they're concentrated in the biosciences and they fall out of the career path, again, at those child-bearing ages. So, there are things that we can do, but thank you so much for bringing that to the Assembly's attention today.

Ond mae gennym offerynnau yn ein gafael y gallwn eu defnyddio; gofal plant, a gwneud yn siŵr, er enghraifft, fod yna hyblygrwydd yn y ffordd rydym yn darparu lleoedd meithrin am ddim. Nid yw dwy awr a hanner y dydd yn ffordd sy'n helpu menywod sy'n gweithio. Beth ar wyneb y ddaear sy'n bosibl ei wneud yn y ddwy awr a hanner rhwng gadael eich plentyn, gyrru i'r gwaith, a gyrru yn ôl eto'n syth i gasglu'r plentyn? Nid yw'n ffordd hyblyg o weithio; mae angen i ni feddwl am hynny a gofal cofleidiol. Gallwn edrych ar gaffael ac a allwn bennu targedau ar gyfer cydraddoldeb rhywiol yn ein lleoliadau prentisiaethau ai peidio, a chymalau budd i'r gymuned. Mewn gwirionedd, yn fwy cyffredinol mewn hyfforddiant, gallem ystyried gwneud hynny er mwyn i ni gael gwell cydbwysedd rhwng y rhywiau ym mhob maes. Hefyd, mae angen i ni fwrw golwg ar y llwybrau gyrfa mewn pethau fel y gwyddorau er enghraifft. Mae menywod yn cael eu cynrychioli'n gyfartal ar lefel israddedig ar draws yr ystodau STEM, ond maent yn crynhoi yn y biowyddorau ac maent yn disgyn oddi ar y llwybr gyrfa, unwaith eto, pan ddônt i oed cael plant. Felly, mae yna bethau y gallwn eu gwneud, ond diolch yn fawr am ddwyn hynny i sylw'r Cynulliad heddiw.

16:14

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call on William Graham to move amendments 2, 3 and 4 tabled in the name of Paul Davies.

Galwaf ar William Graham i gynnig gwelliannau 2, 3 a 4 a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

*Gwelliant 2—Paul Davies*

*Amendment 2—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn cydnabod yr angen i gau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau er mwyn sicrhau bod menywod yn cael mynediad i gyflogaeth o ansawdd, sy'n talu'n dda ac sy'n hyblyg.*

*Recognises the need to close the gender pay gap to ensure that women have access to quality, well-paid and flexible employment.*

*Gwelliant 3—Paul Davies*

*Amendment 3—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi manteision gofal plant fforddiadwy o ansawdd uchel o ran cefnogi menywod yn ôl i'r gweithle.*

*Notes the benefit of affordable, high-quality childcare in supporting women back to the workplace.*

*Gwelliant 4—Paul Davies*

*Amendment 4—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Adds as new point at end of motion:*

*Yn cefnogi galwadau i Gymru ddod yn genedl cyflog byw i fynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.*

*Supports calls for Wales to become a living wage nation to tackle the gender pay gap.*

*Cynigiwyd gwelliannau 2, 3 a 4.*

*Amendments 2, 3 and 4 moved.*

16:14

## William Graham Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. Enabling women to participate fully in the Welsh economy must be a top priority for Welsh Government. Removing the barriers that women encounter will benefit women and their families as well as the Welsh economy, helping to build a prosperous and more equal Wales. While the economy has grown, the Welsh Government has still failed to adequately address the need to provide and supply affordable childcare to make it economically viable for parents and to help them return to the workplace.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rhaid i alluogi menywod i gymryd rhan lawn yn economi Cymru fod yn brif flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Bydd cael gwared ar y rhwystrau y mae menywod yn eu hwynebu o fudd i fenywod a'u teuluoedd yn ogystal ag economi Cymru, gan helpu i greu Cymru ffyniannus a mwy cyfartal. Er bod yr economi wedi tyfu, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i fethu mynd i'r afael yn ddigonol â'r angen i ddarparu a chyflenwi gofal plant fforddiadwy i'w gwneud yn ymarferol yn economaidd i rieni ac i'w helpu i ddychwelyd i'r gweithle.

In a United Kingdom-wide survey conducted for the Westminster Government by Netmums, 80 per cent of parents said their childcare fees are too high, 10 per cent were unable to find a child carer they could trust, and over 25 per cent stated they cannot find care to cover the hours they needed. The study revealed that more than two-thirds of parents have been stopped from doing their job due to problems in finding suitable childcare. The Conservative-led United Kingdom Government listened to the issues raised by parents, and they have acted. On 22 April this year, the Prime Minister announced that the next Conservative Government would double the amount of free childcare available for working families with three and four-year-olds, meaning over 600,000 extra free childcare places for families every year. The new childcare offer will be available to all families where both parents work, even those who work part-time. So we ask today: what is the Welsh Government going to do to support women into getting back into work?

Mewn arolwg drwy'r Deyrnas Unedig gyfan a gynhaliwyd ar gyfer Llywodraeth San Steffan gan Netmums, dywedodd 80 y cant o rieni fod eu ffioedd gofal plant yn rhy uchel, roedd 10 y cant yn methu dod o hyd i ofalwr plant y gallent ymddiried ynddynt, a dywedodd dros 25 y cant na allant ddod o hyd i ofal dros yr oriau y maent eu hangen. Dangosodd yr astudiaeth fod mwy na dwy ran o dair o rieni wedi cael eu hatal rhag gwneud eu gwaith oherwydd problemau gyda dod o hyd i ofal plant addas. Gwrandawodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig dan arweiniad y Ceidwadwyr ar y problemau a leisiwyd gan rieni, ac maent wedi gweithredu. Ar 22 Ebrill eleni, cyhoeddodd y Prif Weinidog y byddai'r Llywodraeth Geidwadol nesaf yn dyblu faint o ofal plant am ddim sydd ar gael i deuluoedd sy'n gweithio a chanddynt blant tair a phedair oed, sy'n golygu dros 600,000 o leoedd gofal plant rhad ac am ddim ychwanegol ar gyfer teuluoedd bob blwyddyn. Bydd y cynnig gofal plant newydd ar gael i bob teulu lle y mae'r ddau riant yn gweithio, hyd yn oed y rhai sy'n gweithio'n rhan-amser. Felly gofynnwn heddiw: beth y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'w wneud i gynorthwyo menywod i ddychwelyd i fyd gwaith?

Local councils in Wales have a legal duty to make appropriate childcare provision, yet they seem to be failing to do this. Only 49% of councils in Wales have enough childcare for working parents and just 11 per cent of Welsh local authorities have sufficient childcare for children aged between five and 11.

Mae dyletswydd gyfreithiol gan gynghorau lleol yng Nghymru i ddarparu gofal plant priodol, ac eto maent i'w gweld yn methu gwneud hyn. Dim ond 49 y cant o gynghorau Cymru sydd â digon o ofal plant i rieni sy'n gweithio ac 11 y cant o awdurdodau lleol Cymru yn unig sydd â digon o ofal plant ar gyfer plant rhwng pump ac 11 oed.

The annual Family and Childcare Trust survey for 2014 highlighted the rising cost of childcare across the United Kingdom. In Wales, you can expect to pay an average of £103 per week for a nursery place, which totals £5,356 per annum, so it is no wonder that women are going into part-time, low-paid jobs when the harsh reality is that they cannot access or find childcare that would allow them to take up more highly skilled and better-paid jobs.

Roedd arolwg blynyddol yr Ymddiriedolaeth Teuluoedd a Gofal Plant ar gyfer 2014 yn tynnu sylw at gost gynyddol gofal plant ar draws y Deyrnas Unedig. Yng Nghymru, gallwch ddisgwyl talu £103 yr wythnos ar gyfartaledd am le meithrin, sef cyfanswm o £5,356 y flwyddyn, felly nid yw'n syndod fod menywod yn dewis swyddi rhan-amser ar gyflog isel gan mai'r realiti creulon yw na allant ddod o hyd i ofal plant a fyddai'n eu galluogi i gymryd swyddi mwy medrus sy'n talu'n well.

Women remain considerably under-represented in leadership roles in both the public and private sector in Wales. In the public sector, women occupy just 10 per cent of NHS health boards and trust chief executives, 22 per cent of university chancellors and 18 per cent of local government chief executives. In the private sector, representation is far lower, with women only occupying 2 per cent of chief executive positions in the top-100 Welsh businesses. Some progress is being made, with women occupying 21 per cent of overall FTSE board directorships, but they only occupy 7 per cent of executive positions within FTSE 100 companies in Wales.

I raddau helaeth, mae menywod yn parhau i fod heb gynrychiolaeth ddigonol mewn rolau arwain yn y sector cyhoeddus a phreifat yng Nghymru. Yn y sector cyhoeddus, menywod yw 10 y cant o aelodau byrddau iechyd y GIG a phrif weithredwyr ymddiriedolaethau, 22 y cant o gangellorion prifysgolion a 18 y cant o brif weithredwyr llywodraeth leol. Yn y sector preifat, mae'r gynrychiolaeth yn llawer is, a 2 y cant yn unig o brif weithredwyr y 100 o fusnesau ar y brig yng Nghymru sy'n fenywod. Mae peth cynnydd yn cael ei wneud, gyda 21 y cant o gyfarwyddwyr bwrdd yr FTSE yn gyffredinol yn fenywod, ond 7 y cant yn unig o swyddi gweithredol can cwmni'r FTSE yng Nghymru a ddelir gan fenywod.

So, despite some progress, the gender pay gap still persists and is particularly marked for older women. The root causes of the gender pay gap relate to women's position in the home and the labour market, with them continuing to often be the primary carer in a household and dominating in low-paid, part-time work. To close the gender pay gap, we need to ensure that the right infrastructure is in place to enable women to work and that they have access to quality, well-paid and flexible employment.

Felly, er gwaethaf rhywfaint o gynnydd, mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn dal yn parhau ac yn fwyaf amlwg ymhlith menywod hŷn. Mae'r achosion sylfaenol dros y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn ymwneud â safle menywod yn y cartref ac yn y farchnad lafur, a hwy'n aml sy'n parhau i fod yn brif ofalwyr yn y cartref ac yn fwyaf niferus mewn gwaith rhan-amser am gyflog isel. I gau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, mae angen i ni sicrhau bod y seilwaith cywir yn ei le i alluogi menywod i weithio a bod ganddynt fynediad at gyflogaeth o ansawdd, sy'n talu'n dda ac sy'n hyblyg.

To achieve women's full economic participation, there are a variety of factors and barriers that must be addressed across education, the workplace, infrastructure and societal attitudes. Gender stereotyping continues to be an issue, with ideas about men's work and women's work shaping the subject and career choices made by girls. This leads to occupational segregation. Indeed, during the Enterprise and Business Committee, we heard that there is a huge gap with women entering the field of engineering and sciences. Yet today we will have all heard, with some dismay, the comments by the Nobel-prize-winning scientist Tim Hunt, who said that women cause trouble for men in labs and that girls cause men to fall in love with them and cry when criticised—hardly the type of encouragement anyone needs.

I sicrhau cyfranogiad economaidd llawn gan fenywod, mae yna amrywiaeth o ffactorau a rhwystrau sy'n rhaid rhoi sylw iddynt ar draws addysg, y gweithle, seilwaith ac agweddau cymdeithasol. Mae stereoteipio ar sail rhyw yn parhau i fod yn broblem, gyda syniadau am waith dynion a gwaith menywod yn siapio dewisiadau pwnc a gyrfa a wneir gan ferched. Mae'n arwain at wahanu galwedigaethol. Yn wir, yn y Pwyllgor Menter a Busnes, clywsom fod bwlch enfawr o ran y menywod sy'n mynd i mewn i faes peirianneg a'r gwyddorau. Eto i gyd heddiw, byddwn i gyd wedi clywed, gyda rhywfaint o siom, y sylwadau gan y gwyddonydd Nobel arobryn, Tim Hunt, a ddywedodd fod menywod yn achosi trafferth i ddynion mewn labordai a bod menywod yn achosi i ddynion gwympo mewn cariad â hwy a chrio pan gânt eu beirniadu—a go brin mai dyma'r math o anogaeth sydd ei angen ar unrhyw un.

Currently, women in the UK are half as likely as men to set up their own business and face a range of gender-specific barriers such as lack of finance, lack of childcare and lack of confidence in some cases. We need more role models in business like the small business ambassador for the UK, Karen Brady, who advocates that women who have got to the top need actively to ensure there is a pipeline of younger women, whether by networking or mentoring, who in turn are encouraging those below them. Women in the boardroom must not forget how many challenges and difficulties they have overcome, and they should share their coping strategies. She goes on to say that it is critical to create opportunities to identify talented women in businesses.

Ar hyn o bryd, mae menywod yn y DU hanner mor debygol â dynion i sefydlu eu busnesau eu hunain ac maent yn wynebu ystod o rwystrau'n ymwneud yn benodol â'u rhyw megis diffyg cyllid, diffyg gofal plant a diffyg hyder mewn rhai achosion. Mae arnom angen mwy o fodelau rôl mewn busnes fel y llysgennad busnesau bach ar gyfer y DU, Karen Brady, sy'n dadlau bod angen i fenywod sydd wedi cyrraedd y brig sicrhau ffynhonnell o fenywod iau, boed hynny drwy rwydweithio neu fentora, i annog y rhai oddi tanynt yn eu tro. Ni ddylai menywod yn ystafell y bwrdd anghofio faint o heriau ac anawsterau y maent wedi eu goresgyn, a dylent rannu eu strategaethau ymdopi. Mae'n mynd rhagddi i ddweud bod yn rhaid creu cyfleoedd i dynnu sylw at fenywod dawnus mewn busnesau.

I think a mention should be given to one of the most outstanding political leaders of the last century, Margaret Thatcher, who said—

Rwy'n credu y dylid sôn am un o arweinwyr gwleidyddol mwyaf eithriadol y ganrif ddiwethaf, Margaret Thatcher, a ddywedodd—

16:19 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You must conclude.

Rhaid i chi ddod i ben.

16:19 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

On your scripture, Presiding Officer:

Ar eich ysgrythur, Lywydd:

'If you want something said, ask a man; if you want something done, ask a woman.'

'Os ydych chi eisiau rhywbeth wedi'i ddweud, gofynnwch i ddyn; os ydych eisiau rhywbeth wedi'i wneud, gofynnwch i fenyw.'

16:19 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Gosh. Yeah. I know my voice is low—Leanne Wood told me yesterday—but I don't want to get as low as Margaret Thatcher. [Laughter.]

Wel. Ie. Rwy'n gwybod bod fy llais yn isel—fe ddywedodd Leanne Wood wrthyf ddoe—ond nid wyf eisiau mynd mor ddwfn â Margaret Thatcher. [Chwerthin.]

There is a wealth of research that shows us that women are subject to sexism at an early age, that they consequently become accustomed to gender stereotypes and that this, in turn, governs the way in which they become involved in the economy and the wider world. To use the words of David Sadker, an author who focuses on gender bias in education, upon entering schools, girls perform equal to or better than boys on nearly every measure of achievement, but by the time they graduate from high school or college, they have fallen behind. In any discussion on women in the economy, we must ask ourselves why this is and what we can do to eradicate this issue.

Ceir cyfoeth o ymchwil sy'n dangos i ni fod menywod yn destun rhywiaeth yn ifanc, eu bod o ganlyniad i hynny'n dod yn gyfarwydd â stereoteipiau rhyw a bod hyn, yn ei dro, yn rheoli'r ffordd y maent yn cymryd rhan yn yr economi a'r byd ehangach. I ddefnyddio geiriau David Sadker, awdur sy'n canolbwyntio ar ragfarn ar sail rhyw mewn addysg, wrth ddechrau yn yr ysgol mae merched yn perfformio cystal neu'n well na bechgyn ar bron bob mesur cyrhaeddiad, ond erbyn iddynt raddio o'r ysgol uwchradd neu'r coleg, maent wedi llithro ar ôl. Mewn unrhyw drafodaeth ar fenywod yn yr economi, rhaid i ni ofyn i ni ein hunain pam y mae hyn yn digwydd a beth y gallwn ei wneud i roi diwedd ar hyn.

Gender stereotyping can begin in primary education. Basic elements of a child's primary school experience, such as homework, have a long-lasting effect on how they see their place in the world. A report by Laura Bates in the 'The Guardian' earlier this year outlined just how much primary schools uphold gender stereotypes, citing homework that posed the following questions: 'Who is the person you've chosen to look at? How old were they when they began inventing? Did they have a wife and family?' Well, this immediately discounted the possibility of any student choosing a successful woman. After the report was published, many parents then began to share their anger on online forums at similar examples of homework their children had been given. One referenced that their son had even been asked to compare the qualities of a 'good wife' from biblical to modern times, with no similar instructions to outline what might make a good husband.

Gall stereoteipio ar sail rhyw ddechrau mewn addysg gynradd. Mae elfennau sylfaenol o brofiad plentyn yn yr ysgol gynradd, fel gwaith cartref, yn cael effaith hirbarhaol ar sut y maent yn gweld eu lle yn y byd. Amlinellodd adroddiad gan Laura Bates yn y 'The Guardian' yn gynharach eleni i ba raddau'n union y mae ysgolion cynradd yn cynnal stereoteipiau rhyw, gan gyfeirio at waith cartref a ofynnai'r cwestiynau canlynol: 'Pwy yw'r person rydych wedi dewis edrych arnynt? Pa mor hen oeddent pan oeddent yn dechrau dyfeisio? A oedd ganddynt wraig a'i theulu?' Wel, roedd yn diystyru'r posibilrwydd ar unwaith y byddai myfyriwr yn dewis menyw lwyddiannus. Ar ôl i'r adroddiad gael ei gyhoeddi, dechreuodd llawer o rieni rannu eu dicter ar fforymau ar-lein ynghylch enghreifftiau tebyg o waith cartref a gawsai eu plant. Soniodd un fod eu mab hyd yn oed wedi cael cais i gymharu rhinweddau 'gwraig dda' o'r cyfnod Beiblaidd a'r cyfnod modern, heb unrhyw gyfarwyddiadau tebyg i amlinellu beth fyddai'n gwneud gŵr da.

Children are conditioned from a young age to associate themselves with certain gender roles. This can only limit the industries that they might find themselves entering or being successful in. The Institute of Physics report, 'It's Different for Girls', highlighted the significance of the role of school ethos in upholding gender bias. Of 2,465 educational state schools, it found that less than 20 per cent actually countered stereotypes in lessons. Consequently, it remains very rare that a school will see a 50:50 gender composition in A-level classes, with evidence that half of educational state schools do not see a single girl progress to A-level physics. However, the likelihood of a girl progressing in higher education from single-sex schools are two and a half times greater, a clear indication that the way in which teachers handle classes and create expectations contributes to the issues of gender stereotyping within education.

Mae plant yn cael eu cyflyru o oedran ifanc i gysylltu eu hunain â rolau rhyw penodol. Ni all hyn ond cyfyngu ar y diwydiannau y gallent fynd i mewn iddynt neu fod yn llwyddiannus ynddynt. Roedd adroddiad y Sefydliad Ffiseg, 'It's Different for Girls', yn tynnu sylw at arwyddocâd rôl ethos yr ysgol yn cynnal gwahaniaethu ar sail rhyw. O'r 2,465 o ysgolion addysgol y wladwriaeth, canfu fod llai nag 20 y cant mewn gwirionedd yn gwrthsefyll stereoteipiau mewn gwersi. O'r herwydd, anaml iawn o hyd y bydd gan ysgol raniad 50:50 rhwng y rhywiau yn ei dosbarthiadau Safon Uwch, gyda thystiolaeth nad oedd gan hanner ysgolion addysgol y wladwriaeth un ferch a oedd wedi camu ymlaen i astudio ffiseg Safon Uwch. Fodd bynnag, mae'r tebygolrwydd y byddai merch yn symud ymlaen at addysg uwch mewn ysgolion un rhyw ddwywaith a hanner yn fwy, arwydd clir bod y ffordd y mae athrawon yn trin dosbarthiadau ac yn creu disgwyliadau yn cyfrannu at stereoteipio ar sail rhyw mewn addysg.

Gender stereotyping is increasingly being seen as funnelling women away from certain fields of endeavour, with 34 per cent of women believing that careers advice pushes them against entering STEM subjects and four other subjects—we know what they are. But, away from schools, the sporting industry has played a considerable role in reinforcing inequality and stereotyping. Women are paid less. Many female professional footballers at the top of their game are paid £20,000 a year, while their male counterparts often receive that each week. The abilities of female athletes often come secondary to how they look. Rebecca Adlington, Britain's most successful swimmer, is more remarked upon for her appearance than her sporting success, none of which helps at all in persuading teenage girls that they should partake more in sport at a younger age.

Caiff stereoteipio ar sail rhyw ei weld yn gynyddol fel sianelu menywod i ffwrdd o feysydd ymdrech penodol, gyda 34 y cant o fenywod yn credu bod cyngor gyrfaoedd yn eu gwthio rhag astudio pynciau STEM a phedwar arall pwnc—rydym yn gwybod beth ydynt. Ond i ffwrdd o ysgolion, mae'r diwydiant chwaraeon wedi chwarae rôl sylweddol yn atgyfnerthu anghydraddoldeb a stereoteipio. Mae menywod yn cael llai o dâl. Mae llawer o bêl-droedwyr proffesiynol benywaidd ar frig eu gêm yn cael £20,000 y flwyddyn o dâl, a'u cymheiriaid gwrywaidd yn aml yn cael hynny bob wythnos. Mae gallu athletwyr benywaidd yn aml yn llai pwysig na sut y maent yn edrych. Gwneir mwy o sylwadau am ymddangosiad Rebecca Adlington, nofiwr mwyaf llwyddiannus Prydain, na'i llwyddiant ym maes chwaraeon, ac nid oes dim o hyn yn help o gwbl i berswadio merched yn eu harddegau y dylent gymryd mwy o ran mewn chwaraeon ar oedran iau.

If this Assembly is serious about building a successful Welsh economy in the future, then it has to take talented people from both genders and all walks of life. It won't be done by consigning women to fewer opportunities and lower pay. What we don't need is a bolt-on initiative with headline-friendly names that are quietly dropped when funding comes to an end after a couple of years. We need gender equality stamped into the DNA of our education system.

Os yw'r Cynulliad hwn o ddifrif am feithrin economi lwyddiannus i Gymru yn y dyfodol, yna mae'n rhaid iddo gael pobl dalentog o'r ddau ryw ac o bob math o gefndir. Ni fydd yn cael ei wneud drwy roi llai o gyfleoedd a chyflog is i fenywod. Yr hyn nad oes ei angen arnom yw menter fel ychwanegiad gydag enw sy'n cyrraedd y penawdau ond sy'n cael ei hanghofio pan ddaw'r cyllid i ben ar ôl ychydig o flynyddoedd. Mae angen argraffu cydraddoldeb rhwng y rhywiau ar DNA ein system addysg.

Lastly, I'd like to thank Bryony Moore, an A-level student currently studying at St Joseph's sixth form in Port Talbot, who has helped significantly in writing this speech today, which just goes to show how much gender stereotyping still exists for our young people. Diolch yn fawr.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i Bryony Moore, myfyriwr Lefel A sy'n astudio yn chweched dosbarth St Joseph ym Mhort Talbot ar hyn o bryd, ac sydd wedi helpu'n fawr gydag ysgrifennu'r araith hon heddiw, sy'n dangos faint o stereoteipio ar sail rhyw sy'n dal i fodoli i'n pobl ifanc. Diolch yn fawr.

16:24

## Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Do you know, it's really fascinating, women's economic participation in Wales? There's a generation in Wales that is fast disappearing now who actually helped with the war effort. Take the land army—my Aunt Sylvia worked driving tractors on the mountains of south Wales. My own mother, as a munitions worker, walked from Senghenydd to the RAF in Llanishen, did a 12-hour shift and walked home. It's only a total of a 12-mile walk, but there's a little mountain called Caerphilly mountain in the way.

Wyddoch chi, mae'n wirioneddol ddiddorol, cyfranogiad economaidd menywod yng Nghymru? Mae yna genhedlaeth yng Nghymru sy'n prysur ddiflannu erbyn hyn a fu'n helpu gydag ymdrech y rhyfel. Dyna i chi fyddin y tir—roedd fy modryb Sylvia yn gweithio yn gyrru tractorau ar fynyddoedd de Cymru. Fel gweithiwr arfau rhyfel, roedd fy mam fy hun yn cerdded o Senghenydd i'r RAF yn Llanisien, yn gweithio sifft 12 awr ac yn cerdded adref. Cyfanswm o 12 milltir o daith, dyna i gyd, ond bod mynydd bach o'r enw mynydd Caerffili yn y ffordd.

Then, as we evolved into the 1950s and 1960s when I was growing up, women were always the cleaners and the dinner ladies—we even called them 'the dinner ladies'; I think they still do today—and they were always going to be the nurse; they were never going to be the plumber, the mechanic, or the engineer. I think we began to change a little bit in the 1970s. There was this big fuss about—well, it even merited newspaper and television stories—the council employing the first ever female bus driver and the first ever female binman—so, she was a female 'binman'. It's beyond belief, isn't it? It's a shame we don't highlight, though, the plasterers and the carpenter who has done some work in my house far better than I could ever do, I can assure you, or the female mechanic who repairs my car.

Yna, wrth i ni esblygu i'r 1950au a'r 1960au pan oeddwn yn tyfu i fyny, menywod oedd y glanhawyr a'r menywod cinio bob amser—roeddem hyd yn oed yn eu galw'n 'fenywod cinio' ac rwy'n credu eu bod yn dal i wneud hynny heddiw—ac roeddent bob amser yn mynd i fod y nyrs; nid oeddent byth yn mynd i fod yn blymwr, yn fecanic, neu'n beiriannydd. Rwy'n credu ein bod yn dechrau newid rhywfaint yn ystod y 1970au. Roedd cryn dipyn o ffws am y cyngor—wel, roedd hyd yn oed yn haeddu storïau yn y papur newydd ac ar y teledu—yn cyflogi'r gyrrwr bws fenywaidd gyntaf erioed a'r dyn sbwriel fenywaidd gyntaf erioed—felly roedd hi'n 'ddyn sbwriel' fenywaidd. Mae'n anghredadwy, onid yw? Ond mae'n drueni nad ydym yn tynnu sylw at y plastrwyr a'r saer sydd wedi gwneud gwaith ar fy nhŷ yn llawer gwell nag y gallwn i ei wneud, gallaf eich sicrhau, neu'r mecanic fenywaidd sy'n trwsio fy nghar.

So, Dirprwy Lywydd, as most speakers here today are, I'm concerned that women are indeed not discriminated against in any way when they're seeking employment. On this point, my attention has been drawn to the Welsh Government's equal opportunities monitoring form for people who wish to apply for a temporary contract of employment. After the first question about male or female, it asks you three questions: 'Are you married or in a civil partnership?', 'Are you currently pregnant or have you been pregnant in the last year?', and 'Have you taken maternity leave within the past year?' I'm very interested to know why these questions are relevant, particularly the two on pregnancy and maternity leave. On the face of it, they would seem to be implying that any female applicant is less likely to be considered if they reply 'yes' to either of these questions. Of course, we'll be told that this is just a monitoring form and it will be kept separate from the actual application form.

Felly, Ddirprwy Lywydd, fel y rhan fwyaf o'r siaradwyr yma heddiw, rwyf o'r farn ei bod hi'n bwysig nad oes gwahaniaethu'n digwydd yn erbyn menywod mewn unrhyw ffordd pan fyddant yn chwilio am waith. Ar y pwynt hwn, tynnwyd fy sylw at ffurflen monitro cyfle cyfartal Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl sy'n dymuno gwneud cais am gontract cyflogaeth dros dro. Ar ôl y cwestiwn cyntaf sy'n gofyn ai gwryw neu fenyw ydych chi, mae'n gofyn tri chwestiwn: 'a ydych yn briod neu mewn partneriaeth sifil', 'a ydych chi ar hyn o bryd yn feichiog neu a ydych chi wedi bod yn feichiog yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?', ac 'a ydych chi wedi cymryd absenoldeb mamolaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?' Rwy'n awyddus iawn i wybod pam y mae'r cwestiynau hyn yn berthnasol, yn enwedig y ddau ar feichiogrwydd a mamolaeth. Ar yr olwg gyntaf, mae'n ymddangos eu bod yn awgrymu bod unrhyw ymgeisydd benywaidd yn llai tebygol o gael eu hystyried os ydynt yn ateb 'ydw' i unrhyw un o'r cwestiynau hyn. Wrth gwrs, cawn wybod mai ffurflen fonitro'n unig yw hon ac y bydd yn cael ei chadw ar wahân i'r ffurflen gais ei hun.

But as far as equality issues are concerned, why aren't there then similar questions to male applicants, such as, 'Have you taken paternity leave within the past year?' Or, even more controversially, 'Are you likely to get someone pregnant in the next 12 months?' [Laughter.] In any case, as a general point, why should applicants for any job have to complete an equalities monitoring form at the same time as an application form? All any prospective employer needs to know at the time of the application is: do you have the appropriate training, qualifications or experience to do this job?

Ond o ran y materion cydraddoldeb, pam nad oes yna gwestiynau tebyg ar gyfer ymgeiswyr gwrywaidd, megis, 'a ydych chi wedi cymryd absenoldeb tadolaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?' Neu, hyd yn oed yn fwy dadleuol, 'a ydych yn debygol o gael rhywun yn feichiog yn ystod y 12 mis nesaf?' [Chwerthin.] Beth bynnag, fel pwynt cyffredinol, pam y mae'n rhaid i ymgeiswyr am swydd lenwi ffurflen fonitro cydraddoldeb ar yr un pryd â ffurflen gais? Y cyfan sydd angen i ddarpar gyflogwr ei wybod ar adeg cyflwyno'r cais yw: a oes gennych yr hyfforddiant, y cymwysterau neu'r profiad priodol i wneud y swydd hon?

Dirprwy Lywydd, I would like answers to those questions I've raised about this apparent contradiction between the Welsh Government's expressed commitment to equality and those questions on that monitoring form that are clearly aimed at women. If our principled stance on equality for women is to be taken seriously—and it should—then questions on maternity, paternity and pregnancy should not be asked.

Ddirprwy Lywydd, hoffwn atebion i'r cwestiynau rwyf wedi eu crybwyll am y croesddweud ymddangosiadol hwn rhwng ymrwymiad a fynegodd Llywodraeth Cymru i gydraddoldeb a'r cwestiynau ar y ffurflen fonitro sy'n amlwg wedi'u hanelu at fenywod. Os yw ein safiad egwyddorol ar gydraddoldeb i fenywod i'w gymryd o ddifrif —a dylai fod—yna ni ddylid gofyn cwestiynau ar absenoldeb mamolaeth, tadolaeth a beichiogrwydd.

16:28 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I'll be speaking in Welsh, but I just wanted to start with a comment on the contribution from the Conservatives, which I listened to in detail. There was no mention there of the amendment on the living wage and I wondered if that was because the Prime Minister today ruled out the living wage for those employed by his own Government.

Byddaf yn siarad yn y Gymraeg, ond roeddwn i eisiau dechrau gyda sylwadau ar y cyfraniad gan y Ceidwadwyr y gwrandewais arno'n fanwl. Nid oedd unrhyw sôn yno am y gwelliant ar y cyflog byw ac roeddwn yn meddwl tybed ai'r rheswm am hynny yw bod y Prif Weinidog wedi diystyru'r cyflog byw heddiw ar gyfer y rhai a gyflogir gan ei Lywodraeth ei hun.

Nawr, y ddadl sydd ger ein bron heddiw yw dadl sy'n ymwneud â thri 80 y cant, fel yr wyf i'n edrych arno. Mae'r rhan fwyaf o swyddi cyflog isel a sgiliau isel yn dal i gael eu gwneud gan fenywod. Mae'r ymchwil sydd wedi cael ei gyfeirio ato heddiw, a gomisiynwyd gan Jocelyn Davies gan Chwarae Teg, yn dangos bod menywod yn ennill tua 80 y cant o gyflog dynion, a bod 80 y cant o weithleoedd yn cael eu dominyddu gan un rhyw uwchben y llall. Ond, at hynny, mae 80 y cant o swyddi rhan-amser yng Nghymru yn cael eu gwneud gan fenywod, yn ogystal.

Now, the debate before us today is one related to three 80 per cents, as I see it. Most of the low-paid low-skilled jobs are still carried out by women. The research referred to today, commissioned by Jocelyn Davies by Chwarae Teg, does show that women earn some 80 per cent of male salaries, and that 80 per cent of workplaces are dominated by one gender above the other. But, on top of that, 80 per cent of part-time jobs in Wales are undertaken by women as well.

Mae hyn, wrth gwrs, yn anghydraddoldeb mawr, ond mae hefyd yn golygu ein bod yn colli allan fel cenedl. Mae 28 y cant o fenywod yn dweud nad yw eu sgiliau'n cael eu defnyddio i'w llawn botensial. Gydag economi sy'n perfformio'n wael o gymharu â gweddill y Deyrnas Gyfunol, a allwn ni fforddio cau allan cymaint o fenywod a dinistrio'n heconomi oherwydd stereoteipiau ar sail rhyw a'n cyfundrefn gymdeithasol?

This, of course, is a great inequality, but it also means that we are losing out as a nation. Twenty-eight per cent of women say that their skills aren't used to their full potential. With an economy that is performing poorly compared to the rest of the UK, can we afford to exclude so many women and destroy our economy because of stereotypes based on gender and our social order?

Rydym eisoes yn gwybod mai cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol yw un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu ysgolion Cymru. Y tu ôl i'r pennawd hwn, yr hyn a welir yn glir iawn yn yr adroddiadau diweddar ar dlodi plant a symudedd cymdeithasol yn y Deyrnas Gyfunol yw anghydbwysedd a'r gogwydd ar sail rhyw, gyda gwahaniaethau dwfn rhwng dyheadau a chyrhaeddiad bechgyn a merched, rhywbeth y mae Bethan Jenkins eisoes wedi cyfeirio ato. Felly, er bod merched yn aml yn perfformio yn well na bechgyn ym myd addysg, maen nhw'n tueddol o ddewis gyrfaoedd cyflog is. Mae llawer o'r tueddiadau hyn yn deillio o farn hirhoedlog pobl am waith dynion a menywod, ac mae angen i ni fynd ati i herio'r safbwyntiau hyn. All ysgolion ddim gwneud y gwaith ar eu pennau eu hunain, wrth gwrs. Mae'n broblem gymdeithasol ac mae angen ymwybyddiaeth a gweithredu cadarnhaol ledled cymdeithas. Ond mae ysgolion yn cynrychioli'r rhyngwyneb go iawn rhwng bywyd preifat, y byd cyhoeddus a'r gymuned leol. Felly, mae'r camau a gymerir mewn ysgolion yn gallu gwneud gwahaniaeth. Maen nhw'n gallu herio rhagdybiaethau a rhoi i ferched a bechgyn gwestiynau stereoteipiau.

We already know that the link between poverty and educational attainment is one of the greatest challenges facing Welsh schools. Behind that headline, what we clearly see in recent reports on child poverty and social mobility in the UK is the inequality and the bias on the basis of gender, with great differences in terms of the aspirations and attainment of boys and girls, which Bethan Jenkins has already mentioned. Therefore, although girls often perform better than boys in education, they tend to choose lower paid employment. Many of these tendencies are because of the long-term perceptions of people in terms of women's and men's employment, and we need to challenge these perceptions. Schools can't undertake this work on their own, of course. It is a social problem and we need awareness and positive action throughout society. But schools represent that real interface between private lives, public life and the local community. Therefore, the actions taken by schools can make a difference. They can challenge stereotypes and empower girls and boys to question stereotypes.

Cefais argraff ffafriol iawn o gynllun o'r enw Sylfeini Teg, Fair Foundations, pan ymwelais ag Ysgol Gynradd Gymunedol Doc Penfro yn ddiweddar. Roedd gwaith yr ysgol ar gydraddoldeb rhywiol yn amlwg nid yn unig yn yr ystafell ddosbarth, ond ar hyd y coridorau ac ym mhob agwedd ar waith yr ysgol. Mae'r ysgol wedi gwneud hyn mewn un o'r ddwy gymuned dlotaf Cymunedau'n Gyntaf sydd ar gael yng Nghymru, a hynny'n llwyddiannus.

I was given a very favourable impression of a scheme called Fair Foundations when I visited Pembroke Dock Community Primary School recently. The work of the school on gender equality was clear, not only in the classroom but along the corridors and in all aspects of the school's work. The school has done this in one of the two poorest Communities First communities in Wales, and has done so successfully.

Mae'n amlwg y bydd tlodi os na fydd menywod yn cael swyddi cyflog uwch. Mewn prentisiaethau, er enghraifft, mae 91 y cant o brentisiaid trin gwallt yn fenywod. Dim ond 3 y cant, fel rydym newydd ei glywed, o brentisiaid peirianneg sy'n fenywod, a dim ond 1 y cant o brentisiaid adeiladu sy'n fenywod. O ystyried mae adeiladu yw un o'r meysydd twf prin yn economi Cymru, mae hwn yn ffigur siomedig iawn. Ond rwy hefyd yn golygu tlodi yn y synnwyr ehangach. Mae gweithleoedd sy'n pwysleisio un rhyw yn creu rhwystrau rhwng dynion a menywod yn hytrach na dileu'r rhwystrau hynny. Mae'r agweddau'n bwrw gwreiddiau dwfn, ac nid ydynt yn cael eu herio. Mae rhagdybiaethau yn cael eu gwneud, ac mae gweithle anghytbwys o ran y rhywiau yn cael ei ystyried yn beth normal, ac rydym wedi clywed yn y ddadl am sawl enghraifft o hynny.

It's clear that there will be poverty unless women can get higher paid employment. In apprenticeships, for example, 91 per cent of hairdressing apprenticeships are undertaken by women. As we have heard, only 3 per cent of engineering apprenticeships are undertaken by women, and only 1 per cent of construction apprenticeships are undertaken by women. Given that construction is one of the rare growth areas in the Welsh economy, this is a very disappointing figure. But I'm also thinking of poverty in its wider sense. Workplaces emphasising one gender actually create barriers between men and women rather than eradicating those barriers. These are deep-rooted problems, which are not challenged. There are assumptions being made, and imbalanced workplaces in gender terms are seen as the norm, and we've heard a number of examples of that during the debate.

Un o'r meysydd allweddol lle yr ydym am weld economi Cymru yn tyfu yw busnesau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg—y 'STEM subjects'. Ond, eto, dim ond 13 y cant o swyddi o'r fath sydd yn cael eu gwneud gan fenywod ar hyn o bryd. Felly, mae gan addysg, yn fy marn i, gyfraniad allweddol i'w wneud i herio stereoteipiau ac i newid y drefn. Mae angen gwneud mwy o waith i dynnu sylw merched at bynciau STEM, er bod mwy yn prysur ddewis y llwybr yma, ond mae'r ffaith mai dim ond 5 y cant o athrawon ysgol gynradd Cymru â gradd mewn gwyddoniaeth yn un o'r pethau sydd yn effeithio ar hyn. Mae angen hefyd—a dadl ynglŷn â rôl menywod yw hon, rwy'n gwybod—mwy o athrawon gwrywaidd mewn ysgolion cynradd i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd rhwng y rhywiau a geir yn yr ysgolion ar y lefel hynny.

One of the key areas where we want to see the Welsh economy grow is in the science, technology, engineering and mathematics businesses—the STEM subjects. But, again, only 13 per cent of such jobs are currently undertaken by women. Therefore, education, I believe, does have a key contribution to play in challenging the stereotypes and in changing the system. We need to do more work to attract girls to STEM subjects, although more are now choosing these options, but the fact that only 5 per cent of primary school teachers in Wales have a degree in any science is one of the things that has an impact on this area. We also need—and I know that this is a debate on the role of women—more male teachers in primary schools in order to tackle the imbalance between the genders in those schools at that level.

Y pwynt olaf rwyf am ei wneud yw bod angen datganoli'r Ganolfan Byd Gwaith i ni yma yng Nghymru, fel y gallem wneud mwy o waith i gefnogi menywod ifanc yn y farchnad swyddi. Un o'r ffeithiau nad yw'n hysbys iawn i bawb yw bod mwy o fenywod ifanc yn NEET nag o fechgyn.

The final point I want to make is that we need to devolve the Jobcentre Plus to us here in Wales so that we could do more work to support young women in the labour market. One of the facts that are not particularly well known is that more young women are NEET than is the case for young men.

16:33

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister for Communities and Tackling Poverty, Lesley Griffiths.

Galwaf ar y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, Lesley Griffiths.

16:33

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Thank you, Deputy Presiding Officer. I welcome the opportunity to respond to the debate today. As a Government, we agree that women can and absolutely do make a valuable contribution to the success of the Welsh economy. We are taking action to promote women's full economic participation, and believe this has the potential to boost the Welsh economy. To achieve this, we do need to continue our efforts to address the range of barriers that prevent women from participating fully in the workplace.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n croesawu'r cyfle i ymateb i'r ddadl heddiw. Fel Llywodraeth, rydym yn cytuno y gall menywod wneud cyfraniad gwerthfawr i lwyddiant economi Cymru, ac maent yn bendant yn gwneud hynny. Rydym yn cymryd camau i hybu cyfranogiad economaidd llawn gan fenywod, ac yn credu bod potensial yma i roi hwb i economi Cymru. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i ni barhau â'n hymdrechion i fynd i'r afael â'r ystod o rwystrau sy'n atal menywod rhag cymryd rhan lawn yn y gweithle.

We want to ensure Wales has a diverse workforce and that those in positions of power and influence are not predominantly men. Our strategic equality plan sets out the actions we are taking to help women and girls to access, achieve and aspire in education, training and employment. It sets out what we are doing to tackle gender stereotyping to enable women to access the careers of their choice, and to increase diversity in public life by challenging and changing the status quo.

Rydym am sicrhau bod gan Gymru weithlu amrywiol ac nad dynion yn bennaf yw'r rhai mewn safleoedd o rym a dylanwad. Mae ein cynllun cydraddoldeb strategol yn nodi'r camau rydym yn eu cymryd i helpu menywod a merched i sicrhau mynediad, i gyflawni ac i gael uchelgeisiau mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Mae'n nodi'r hyn rydym yn ei wneud i fynd i'r afael â stereoteipio ar sail rhyw i alluogi menywod i gael mynediad at yrfaoedd o'u dewis, ac i gynyddu amrywiaeth mewn bywyd cyhoeddus drwy herio a newid y status quo.

Gender segregation in the workforce unfortunately persists and is often at the root of pay inequalities, with women concentrated in sectors and occupations over-associated with low pay, often with low hours, and on casual or zero-hours contracts. Of course, part-time work can help to balance home and work responsibilities. However, as Rhun ap Iorwerth pointed out, all too often, where part-time work is available, it is low paid and can create a significant barrier to women's career progression.

Yn anffodus, mae gwahanu ar sail rhyw yn y gweithlu yn parhau ac yn aml yn sail i anghydraddoldebau cyflog, gyda menywod wedi'u crynhoi mewn sectorau a galwedigaethau sy'n rhy gysylltiedig â chyflog isel, yn aml heb lawer o oriau, ac ar gontractau dros dro neu gontractau dim oriau. Wrth gwrs, gall gwaith rhan-amser helpu i sicrhau cydbwysedd rhwng y cartref a chyfrifoldebau gweithio. Fodd bynnag, fel y nododd Rhun ap Iorwerth, yn rhy aml, lle y mae gwaith rhan-amser ar gael, mae'r cyflog yn isel a gall greu rhwystr sylweddol i fenywod rhag camu ymlaen yn eu gyrfaoedd.

At every opportunity we all need to challenge gender stereotyping, which limits the range of education and employment opportunities most girls and women consider. We are committed to helping young people keep their options open and inspiring them to know that no career is off limits because of their gender, race or background.

Ar bob cyfle mae angen i bawb ohonom herio stereoteipio ar sail rhyw sy'n cyfyngu ar yr ystod o gyfleoedd addysg a chyflogaeth y bydd y rhan fwyaf o ferched a menywod yn eu hystyried. Rydym wedi ymrwymo i helpu pobl ifanc i gadw eu hopsiynau'n agored a'u hysbrydoli i wybod nad oes unrhyw yrfa y tu hwnt i'w gafael oherwydd eu rhyw, eu hil neu eu cefndir.

Following a very successful event we had in south Wales, we'll be holding a second Girls Make a Difference conference in north Wales in October, and this will showcase the career paths that are considered less traditional for women, and encourage girls to aspire to achieve in these areas. In April of this year, the Minister for Finance and Government Business announced a Welsh Government investment of £10 million, including over £8 million of EU funds, to help improve gender equality in workplaces across Wales. The Agile Nation 2 project, delivered by Chwarae Teg between 2015 and 2018, will support 2,750 women and work with 400 employers to promote female career advancement and help reduce the gender pay gap. It builds on the success of the first Agile Nation project, also supported by EU funds, which boosted the careers of almost 3,000 women and worked with over 500 employers. So, while we have seen improvements in Wales in terms of gender equality, as this afternoon's debate has highlighted, there is always more to be done and we are committed to taking further action.

Yn dilyn digwyddiad llwyddiannus iawn a gawsom yn ne Cymru, byddwn yn cynnal ail gynhadledd Merched yn Gwneud Gwahaniaeth yng ngogledd Cymru ym mis Hydref, a bydd yn dangos y llwybrau gyrfa sy'n cael eu hystyried yn llai traddodiadol i fenywod, ac yn annog merched i ddyheu am gyflawni yn y meysydd hyn. Ym mis Ebrill eleni, cyhoeddodd Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth fuddsoddiad o £10 miliwn gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys dros £8 miliwn o arian yr UE, er mwyn helpu i wella cydraddoldeb rhwng y rhywiau mewn gweithleoedd ledled Cymru. Bydd prosiect Cenedl Hyblyg 2, a gyflwynir gan Chwarae Teg rhwng 2015 a 2018, yn cefnogi 2,750 o fenywod ac yn gweithio gyda 400 o gyflogwyr i hyrwyddo datblygiad gyrfa menywod ac yn helpu i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Mae'n adeiladu ar lwyddiant y prosiect Cenedl Hyblyg cyntaf, a gafodd gymorth drwy gronfeydd yr UE hefyd, ac a oedd yn hwb i yrfaoedd bron 3,000 o fenywod gan weithio gyda thros 500 o gyflogwyr. Felly, er ein bod wedi gweld gwelliannau yng Nghymru o ran cydraddoldeb rhywiol, fel y mae'r ddadl y prynhawn yma wedi amlygu, mae bob amser mwy i'w wneud ac rydym wedi ymrwymo i roi camau pellach ar waith.

We are supportive of the motion as tabled by Plaid Cymru. We will continue to take effective action to maximise women's full economic participation. We recognise and value the contribution of women to Welsh working life, and will continue to do all that we can to ensure access to good-quality, well-paid and flexible employment so that women can achieve and prosper in Wales.

Rydym yn cefnogi'r cynnig fel y'i cyflwynwyd gan Blaid Cymru. Byddwn yn parhau i roi camau effeithiol ar waith i sicrhau cyfranogiad economaidd llawn gan fenywod. Rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi cyfraniad menywod i fywyd gwaith Cymru, ac yn parhau i wneud popeth a allwn i sicrhau mynediad at gyflogaeth o ansawdd, sy'n talu'n dda ac sy'n hyblyg er mwyn i fenywod allu cyflawni a ffynnu yng Nghymru.

Turning to the amendments, and amendment 1, tabled by the Welsh Liberal Democrats, I think that we need to take a more pragmatic approach and we will be opposing amendment 1. The Welsh Government supports men taking a more active role in parenthood, which will help in our efforts to ensure that women are not seen as carers first and earners second, as Eluned Parrott highlighted. However, without additional paid paternity leave at a realistic rate, few families are going to be able to afford to take up the option of shared parental leave. Currently, only 55 per cent of fathers take the full two weeks of paternity leave, because of financial pressures, and, realistically, we need an increase in the length of paid paternity leave and an increase in the rate at which it is paid.

Gan droi at y gwelliannau, a gwelliant 1, a gyflwynwyd gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru, rwy'n meddwl bod angen i ni fabwysiadu agwedd fwy pragmataidd a byddwn yn gwrthwynebu gwelliant 1. Mae Llywodraeth Cymru o blaid gweld dynion yn cymryd rôl fwy gweithredol wrth fagu plant, a fydd yn helpu yn ein hymdrechion i sicrhau nad yw menywod yn cael eu gweld fel gofalwyr yn gyntaf ac enillwyr wedyn, fel y pwysleisiodd Eluned Parrott. Fodd bynnag, heb absenoldeb tadolaeth â thâl ychwanegol ar gyfradd realistig, ychydig o deuluoedd sy'n mynd i allu fforddio manteisio ar yr opsiwn o rannu absenoldeb rhieni. Ar hyn o bryd, 55 y cant yn unig o dadau sy'n cymryd y pythefnos llawn o absenoldeb tadolaeth, oherwydd pwysau ariannol, ac yn realistig, mae angen ymestyn hyd y cyfnod absenoldeb tadolaeth â thâl a chynyddu'r gyfradd a delir.

I support amendment 2, tabled by the Welsh Conservatives, which recognises the need to close the gender-pay gap to ensure that women have access to quality, well-paid and flexible employment. Welsh Government is firmly committed to achieving gender equality in the workplace and to tackling the underlying issues that create pay inequality and limit women's economic participation. We already here have the most robust equal pay duty in the UK, introduced through our Welsh-specific equality duties, and we're building on this to ensure that Welsh Government actions are focused on addressing the causes of pay differences, which will help to ensure a level playing field for all.

Rwy'n cefnogi gwelliant 2, a gyflwynwyd gan y Ceidwadwyr Cymreig, sy'n cydnabod yr angen i gau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau er mwyn sicrhau bod menywod yn cael mynediad at gyflogaeth o ansawdd, sy'n talu'n dda ac sy'n hyblyg. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn y gweithle a mynd i'r afael â'r problemau sylfaenol sy'n creu anghydraddoldeb cyflog ac yn cyfyngu ar gyfranogiad economaidd menywod. Eisoes, gennym ni y mae'r ddyletswydd cyflog cyfartal fwyaf cadarn yn y DU, a gyflwynwyd drwy ein dyletswyddau cydraddoldeb sy'n benodol i Gymru, ac rydym yn adeiladu ar hyn er mwyn sicrhau bod camau gweithredu Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag achosion o wahaniaethau rhwng cyflogau, a fydd yn helpu i sicrhau chwarae teg i bawb.

We're very pleased to support projects such as Women Adding Value to the Economy, funded by the European social fund through the Welsh Government, which tackles or seeks to tackle the underlying issues that contribute to gender pay inequalities, and the three strands of the project have meant that more than 400 women in disadvantaged areas of Wales are looking forward to brighter career prospects.

Rydym yn falch iawn o gefnogi prosiectau megis Menywod yn Ychwanegu Gwerth at yr Economi, a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru, sy'n mynd i'r afael neu'n ceisio mynd i'r afael â'r problemau sylfaenol sy'n cyfrannu at anghydraddoldeb cyflog rhwng y rhywiau, ac mae tair elfen y prosiect wedi golygu bod mwy na 400 o fenywod mewn ardaloedd difreintiedig yng Nghymru yn edrych ymlaen at ragolygon gyrfa mwy disglair.

I also support amendment 3. Improving access to affordable childcare remains a key priority for Welsh Government. Affordable, accessible childcare, as prioritised within our tackling poverty action plan and the early years in childcare plan, enables parents, particularly women, to work or access training and supports our drive to increase economic growth, tackle poverty and reduce inequalities. I work very closely with the childcare sector to ensure that we look at the issues facing them, as was brought forward, again, by Rhun ap Iorwerth around shift work and having that flexibility, particularly in rural areas, and issues around having a mobile crèche, for instance, and it's up to local authorities, obviously, to ensure that their local needs are met, but that was something that was raised at a meeting that we held last week. Two to three-year-olds in Flying Start areas receive 12.5 hours of free childcare a week, while all three and four-year-olds receive at least 10 hours a week of high-quality, early-years education. Of course, schools throughout Wales provide free school breakfasts, and this has an added benefit of providing childcare before the start of the school day, which I think is a very welcome addition to the actual policy intent.

Rwyf hefyd yn cefnogi gwelliant 3. Mae gwella mynediad at ofal plant fforddiadwy yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Mae gofal plant fforddiadwy, hygyrch, fel sy'n cael blaenoriaeth yn ein cynllun gweithredu ar drechu tlodi a'r cynllun blynyddoedd cynnar a gofal plant, yn galluogi rhieni, yn enwedig menywod, i weithio neu fanteisio ar hyfforddiant ac yn cefnogi ein hymgyrch i gynyddu twf economaidd, trechu tlodi a lleihau anghydraddoldebau. Rwy'n gweithio'n agos iawn gyda'r sector gofal plant er mwyn sicrhau ein bod yn edrych ar y problemau sy'n eu hwynebu, fel y soniodd Rhun ap Iorwerth amdanynt mewn perthynas â gwaith sifft a sicrhau hyblygrwydd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, a materion yn ymwneud â chael crèche symudol, er enghraifft. Lle'r awdurdodau lleol, yn amlwg, yw sicrhau bod eu hanghenion lleol yn cael eu diwallu, ond roedd hynny'n rhywbeth a godwyd mewn cyfarfod a gynhaliwyd gennym yr wythnos diwethaf. Mae plant rhwng dwy a thair oed yn ardaloedd Dechrau'n Deg yn cael 12.5 awr o ofal plant rhad ac am ddim bob wythnos, ac mae pob plentyn tair a phedair oed yn cael o leiaf 10 awr yr wythnos o addysg blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel. Wrth gwrs, mae ysgolion ar hyd a lled Cymru yn darparu brecwast am ddim mewn ysgolion, ac mae mantais ychwanegol i hyn drwy ei fod yn darparu gofal plant cyn dechrau'r diwrnod ysgol, a chredaf fod hynny'n ychwanegiad i'w groesawu'n fawr i wir fwriad y polisi.

We want to do more, and we await the details of the UK Government's plans, because, with any consequential that would then be made available to us, we can take forward our plans, and I know that William Graham heralds the UK Tory Government's plans, but there's been a lot of noise, not much detail, and we're all waiting to see how they're going to pay for it. I have to say, the Childcare Bill is one of the smallest Bills I've ever seen.

Rydym yn awyddus i wneud mwy, ac rydym yn aros am fanylion cynlluniau Llywodraeth y DU, oherwydd, gydag unrhyw swm canlyniadol a fyddai ar gael i ni wedyn, gallwn fwrw ymlaen â'n cynlluniau, a gwn fod William Graham yn cenhadu dros gynlluniau Llywodraeth Doriaidd y DU, ond cafwyd llawer o sŵn, heb lawer o fanylion, ac rydym i gyd yn aros i weld sut y maent yn mynd i dalu amdano. Rhaid i mi ddweud, y Bil Gofal Plant yn un o'r Biliau lleiaf i mi ei weld erioed.

I also support amendment 4. Supporting households to increase their income is a key element of the Welsh Government's approach to tackling poverty, and the living wage will contribute to this agenda. In Living Wage Week, November 2013, Welsh Government made a strong statement to Assembly Members that we encourage employers across the public, private and third sectors to become living-wage employers, and I heard what Simon Thomas said regarding the Prime Minister's announcement with great concern today. Since January this year, colleagues will be aware, the Welsh NHS has been a living-wage employer. As we've discussed today, women are disproportionately represented in low-paid jobs, and, where the living wage is introduced, women are therefore particularly likely to benefit from this.

Rwyf hefyd yn cefnogi gwelliant 4. Mae cynorthwyo teuluoedd i gynyddu eu hincwm yn elfen allweddol o agwedd Llywodraeth Cymru tuag at drechu tlodi, a bydd y cyflog byw yn cyfrannu at yr agenda hon. Yn ystod Wythnos Cyflog Byw ym mis Tachwedd 2013, gwnaeth Llywodraeth Cymru ddatganiad cryf i Aelodau'r Cynulliad ein bod yn annog cyflogwyr ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i ddod yn gyflogwyr cyflog byw, a thestun gofid mawr i mi oedd clywed yr hyn a ddywedodd Simon Thomas ynghylch cyhoeddiad y Prif Weinidog. Bydd fy nghyd-Aelodau'n gwybod bod GIG Cymru wedi bod yn gyflogwr cyflog byw ers mis Ionawr eleni. Fel rydym wedi trafod heddiw, mae nifer anghymesur o fenywod mewn swyddi ar gyflog isel, a lle y cyflwynwyd y cyflog byw felly, mae menywod yn arbennig yn debygol o elwa.

If I could just pick up a couple of specific points, Lindsay Whittle mentioned the monitoring form, and it is a legal requirement to collect data. The monitoring forms are completely separate from the selection process, but I will write to the Member with more details around those concerns. Both Eluned Parrott and Simon Thomas mentioned STEM subjects, and getting more women into place, and—many north Wales Members will appreciate this story—last week, I met a professor from Bangor University on the train going home from Cardiff, and we had a very interesting conversation where she was telling me that, for some reason, it's the women who, even after graduating in a science subject, often then don't look for work in STEM subject areas. She was very concerned as to why that was and what we could do.

Os caf nodi un neu ddau o bwyntiau penodol, crybwyllodd Lindsay Whittle y ffurflen fonitro, ac mae casglu data yn ofyniad cyfreithiol. Mae'r ffurflenni monitro yn gwbl annibynnol ar y broses ddethol, ond byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod gyda mwy o fanylion ynghylch y pryderon hynny. Crybwyllodd Eluned Parrott a Simon Thomas y pynciau STEM, a chael mwy o fenywod i mewn, a'r wythnos diwethaf—bydd llawer o Aelodau gogledd Cymru yn gwerthfawrogi'r stori hon—cyfarfûm ag athro o Brifysgol Bangor ar y trên yn mynd adref o Gaerdydd, a chawsom sgwrs ddiddorol iawn lle roedd yn dweud wrthyf fod yna fenywod yn aml nad ydynt, am ryw reswm, hyd yn oed ar ôl graddio mewn pwnc gwyddonol, yn chwilio am waith mewn meysydd STEM. Roedd hi'n bryderus iawn ynglŷn â pham roedd hynny'n digwydd a beth y gallem ei wneud.

Finally, Deputy Presiding Officer, as a Government we are working to tackle the barriers that may restrict women's full participation in the economy, because we do want Wales to be a country where women are equally represented at all levels, where they receive equal pay, and where there is fairness and equality for all. Diolch.

Yn olaf, Ddirprwy Lywydd, fel Llywodraeth, rydym yn gweithio i fynd i'r afael â'r rhwystrau a allai gyfyngu ar gyfranogiad llawn menywod yn yr economi, oherwydd ein bod am i Gymru fod yn wlad lle y mae cynrychiolaeth menywod yn gyfartal ar bob lefel, lle y maent yn cael cyflog cyfartal, a lle y ceir tegwch a chydraddoldeb i bawb. Diolch.

16:41

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And I call on Rhun ap Iorwerth to reply to the debate.

Galwaf ar Rhun ap Iorwerth i ymateb i'r ddadl.

16:41

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Just a couple of things I'll say in very briefly responding at the end of this debate: firstly, praise to the Deputy Presiding Officer for his sense of timing when William Graham's five minutes were up, but, secondly, just to thank everybody for their contributions to this debate today—both evidential contributions, but also anecdotal and personal evidence, as we heard from Eluned Parrott, who also made the very important point that there's much that we can learn from the experiences of other countries that have got over many of these barriers in reaching a point where equality is the norm.

Diolch yn fawr Iawn, Ddirprwy Lywydd. Un neu ddau o bethau sydd gennyf i'w dweud wrth ymateb yn fyr iawn ar ddiwedd y ddadl hon: yn gyntaf, canmoliaeth i'r Dirprwy Lywydd am ei synnwyr amseru pan ddaeth pum munud William Graham i ben, ond yn ail, diolch i bawb am eu cyfraniadau i'r ddadl hon heddiw—cyfraniadau tystiolaethol, ond tystiolaeth anecdotaidd a phersonol hefyd, fel y clywsom gan Eluned Parrott, a wnaeth y pwynt pwysig iawn hefyd fod llawer y gallwn ei ddysgu o brofiadau gwledydd eraill sydd wedi goresgyn llawer o'r rhwystrau hyn i gyrraedd pwynt lle y mae cydraddoldeb yn norm.

Thanks also to the Minister for her response, and for outlining some of the efforts that the Government is making in order to reach a point where we can be satisfied that equality is being achieved. I do not doubt for a second that this is something that the Government takes seriously, and wants to see change happening, but the report from Chwarae Teg shows just how much there is to do. The Minister tells us that there is always more that can be done. I would say that it's not just more that needs to be done; it's much, much more that needs to be done, and, at times, actually, when you look at the Chwarae Teg report, you start to think that maybe the work is only just beginning, or so it feels. I think action can be seen in two ways. Firstly, action needs to come in practical form. We've heard many suggestions coming from the Chwarae Teg report, and other suggestions made today, on increasing participation of young women in STEM subjects, on tackling the issue of affordable childcare, on training, on making sure that there's a spotlight on successful female role models in order to bring forward the next generation of young women who want to aim higher and achieve success in the workplace.

Diolch hefyd i'r Gweinidog am ei hymateb, ac am amlinellu rhai o'r ymdrechion y mae'r Llywodraeth yn eu gwneud er mwyn cyrraedd pwynt lle y gallwn fod yn fodlon fod cydraddoldeb yn cael ei gyflawni. Nid wyf yn amau am eiliad nad yw hyn yn fater y mae'r Llywodraeth o ddifrif yn ei gylch, ac yn awyddus i weld newid yn digwydd, ond mae'r adroddiad gan Chwarae Teg yn dangos yn union faint sydd i'w wneud. Mae'r Gweinidog yn dweud wrthym fod yna bob amser ragor y gellir ei wneud. Fe fyddwn yn dweud nid yn unig fod angen gwneud rhagor; mae angen gwneud llawer, llawer mwy, ac ar adegau mewn gwirionedd, pan edrychwch ar adroddiad Chwarae Teg, rydych yn dechrau meddwl efallai mai megis dechrau y mae'r gwaith, neu felly y mae'n teimlo. Rwy'n credu y gellir gweithredu mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, mae angen i weithredu ddigwydd ar ffurf ymarferol. Rydym wedi clywed llawer o awgrymiadau o adroddiad Chwarae Teg, ac awgrymiadau eraill a wnaed heddiw, ynglŷn â chynyddu cyfranogiad menywod ifanc mewn pynciau STEM, ynglŷn â mynd i'r afael â mater gofal plant fforddiadwy, ynglŷn â hyfforddiant, ynglŷn â sicrhau sylw i fodelau rôl o blith menywod llwyddiannus er mwyn denu'r genhedlaeth nesaf o fenywod ifanc sydd am anelu'n uwch a sicrhau llwyddiant yn y gweithle.

But, apart from those practical steps that can be taken, I think we're all realising that there needs to be a cultural shift, too, and it's incumbent on all of us here as elected Members to show leadership. I think that, though that cultural change—any cultural change—is something that's difficult to achieve, or certainly difficult to achieve quickly, showing real determination to take action on those practical issues can make it easier for us to show that we all, together, want to head in the same direction. So, support this motion today, and let's see if Wales, in time, can be one of those countries that others look to for leadership on this important matter.

Ond ar wahân i'r camau ymarferol y gellir eu cymryd, rwy'n meddwl ein bod i gyd yn sylweddoli bod angen newid diwylliannol hefyd, ac mae'n ddyletswydd ar bob un ohonom yma fel Aelodau etholedig i ddangos arweiniad. Fodd bynnag, er bod newid diwylliannol o'r fath—unrhyw newid diwylliannol—yn rhywbeth sy'n anodd ei gyflawni, neu'n sicr yn anodd ei gyflawni'n gyflym, credaf fod dangos penderfyniad go iawn i weithredu ar faterion ymarferol o'r fath yn gallu ei gwneud yn haws i ni ddangos ein bod i gyd, gyda'n gilydd, yn awyddus i anelu i'r un cyfeiriad. Felly, cefnogwch y cynnig hwn heddiw, a gadewch i ni weld a all Cymru, ymhen amser, fod yn un o'r gwledydd hynny y mae eraill yn troi ati am arweiniad ar y mater pwysig hwn.

16:45

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I will defer voting under this item to voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y pleidleisio o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

# 5. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Arolygu Gwasanaethau Gofal Iechyd

# 5. Welsh Liberal Democrats Debate: Inspection of Healthcare Services

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Elin Jones, a gwelliant 2 yn enw Paul Davies.*

*The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Elin Jones, and amendment 2 in the name of Paul Davies.*

16:45

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Item 5 is the Welsh Liberal Democrats' debate on the inspection of healthcare services, and I call on Aled Roberts to move the motion.

Eitem 5 yw dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ar arolygu gwasanaethau gofal iechyd, a galwaf ar Aled Roberts i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5779 Aled Roberts

Motion NDM5779 Aled Roberts

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn credu nad yw'r system bresennol ar gyfer sicrhau ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd yn addas at y diben ac nad yw Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn ateb yr angen i archwilio'r system iechyd yng Nghymru yn annibynnol.

1. Believes that the current system for ensuring the quality and safety of healthcare services is not fit for purpose and that Healthcare Inspectorate Wales does not fulfil the need for independent inspection of the health system in Wales.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu system sicrhau ansawdd mwy cadarn sy'n cynnwys:

2. Calls on the Welsh Government to establish a more robust quality assurance system that includes:

a) cael gwared ar Arolygiaeth Iechyd Cymru a sefydlu arolygiaeth newydd sy'n gwbl annibynnol ar Lywodraeth Cymru;

a) scrapping Health Inspectorate Wales and establishing a new inspectorate that is fully independent of the Welsh Government;

b) penodi prif arolygydd ar gyfer ysbytai a gofal iechyd;

b) appointing a chief inspector for hospitals and healthcare;

c) cyflwyno arolygiadau a arweinir yn glinigol ac a adolygir gan gymheiriaid gyda mewnbwn sylweddol gan gleifion;

c) introducing clinically-led and peer-reviewed inspections with significant patient input;

d) cefnogi staff a chleifion i ddefnyddio mecanweithiau ar gyfer chwythu'r chwiban drwy annog diwylliant cryfach o fod yn agored ac yn dryloyw; ac

d) supporting staff and patients to use mechanisms for whistleblowing by encouraging a stronger culture of openness and transparency; and

e) diwygio'r drefn gwyno er mwyn sicrhau mwy o annibyniaeth ac adfer ymddiriedaeth cleifion a'u teuluoedd.

e) reforming the complaints procedure to ensure greater independence and restore the trust of patients and their families.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

16:45

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae'n bleser gennyf gynnig y ddadl yma heddiw, oherwydd ein bod ni wedi bod yn pryderu ers cryn amser erbyn hyn nad yw'r system bresennol ar gyfer sicrhau ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd yn addas. Rwy'n siŵr bod pob un yn cytuno bod y newyddion o Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ystod y pythefnos diwethaf wedi cynyddu'r pryderon hynny ac, erbyn hyn, mae'n amser inni gynnal dadl onest am ddyfodol Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, a hefyd y ffordd, yn amlwg, rydym yn arolygu'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru.

Thank you, Deputy Presiding Officer. It's my pleasure to move this motion today, because we've been concerned for some time by now that the current system for ensuring the quality and safety of healthcare services is not appropriate. I'm sure that everyone agrees that the news from the Betsi Cadwaladr University Local Health Board over the last fortnight has increased those concerns and, by now, it's time for us to have an honest debate about Healthcare Inspectorate Wales, and also the way, obviously, that we inspect the health service in Wales.

Ddoe, roeddwn yn gwrando ar ddatganiad y Gweinidog wrth iddo osod y bwrdd iechyd yn y gogledd dan fesurau arbennig, yn dilyn cyfres o adroddiadau damniol. Mae yna sbectrwm eang o bryderon yn ymwneud â'r ffordd mae'r bwrdd iechyd yn y gogledd yn cael ei lywodraethu, a'r ddarpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl, gwasanaethau mamolaeth a'r gwasanaethau allan o oriau. Ond, mae'r adroddiad diweddar ar ward Tawel Fan yn codi cwestiynau difrifol ynglŷn â'r broses arolygu.

Yesterday, I was listening to the Minister's statement as he placed the health board in special measures, following a series of damning reports. There is a wide spectrum of concerns to do with the way in which the health board in north Wales is governed, and the provision of mental health services, maternity services and out-of-hours services. But, the recent report on the Tawel Fan ward raises serious questions about the inspection process.

Rwyf eisiau cyfeirio at rai adroddiadau, megis yr un ym mis Chwefror 2012, lle'r oedd yr arolygiaeth yn canmol bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr am ei strwythurau hyfforddi cadarn a'i strategaethau diogelwch ar gyfer oedolion. Mae'r un adroddiad yn nodi bod y bwrdd wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth ddelio efo cwynion ac wedi gwella ei berfformiad yn ystod yn flwyddyn.

I want to refer to some reports, namely one in February 2012, where the inspectorate praised Betsi Cadwaladr health board for its robust training procedures and its safety strategies for adults. The same report notes that the board had made significant progress in dealing with complaints and had improved its performance during the year.

Diddorol, felly, pan rydych yn darllen adroddiad mewnol Betsi Cadwaladr y flwyddyn ganlynol ar ward Tawel Fan a gwasanaethau dementia, yw'r datganiad bod y ward, ac fe wnaf i ddyfynnu yn Saesneg, yn

What's interesting, therefore, when you read an internal report from Betsi Cadwaladr the following year on the Tawel Fan ward and dementia services, is the statement that the ward, and I will quote in English, was

'uneventful, mundane and lacking in stimulation'.

'uneventful, mundane and lacking in stimulation.'

Mae Donna Ockenden, yn ei hadroddiad hithau, yn dod i'r casgliad hwn:

Donna Ockenden, in her report, comes to this conclusion:

Findings in 2013 found that conditions were at or below the most basic levels of care, yet no action plan and no review of areas of concern were actually identified. I reviewed all meetings within Betsi Cadwaladr, and nothing seems to have happened.

Gwelodd canfyddiadau yn 2013 fod amodau ar y lefelau mwyaf sylfaenol neu'n is na'r lefelau mwyaf sylfaenol o ofal, ac eto ni nodwyd cynllun gweithredu nac adolygiad o'r meysydd sy'n peri pryder. Adolygais bob cyfarfod yn Betsi Cadwaladr, ac ymddengys nad oes dim wedi digwydd.

I fod yn deg, mae'r Gweinidog iechyd yn cydnabod yn amlwg bod gennym broblem, ond mae'r problemau yma yn ddwfn, ac erbyn hyn rwy'n credu y dylwn ni edrych yn wirioneddol ar yr angen am gyfundrefn arolygu sydd yn hollol annibynnol ar y Llywodraeth.

To be fair, the health Minister does recognise that we have a problem, but these problems are deep, and by now I believe that we should look at the need for an inspection regime that is completely independent from the Government.

Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, mae'n debyg, wedi dod, neu yn dod i'r un casgliad. Yn eu hadroddiad nhw ym mis Mawrth 2014, maen nhw'n cyfaddef ac yn dweud bod yn rhaid cael arolygiaeth effeithiol er mwyn diogelu'r cyhoedd rhag risg o unrhyw fethiant systemig eang fel y gwelwyd ym Mid Staffs. Casgliad y pwyllgor oedd nad oedd sicrwydd ynghylch rôl yr arolygiaeth iechyd, a bod hynny yn codi cwestiynau ynghylch ansawdd y gwasanaeth a'r ymyrraeth a wnaed pan oedd problemau yn cael eu canfod. Pan ofynnodd Kirsty Williams i'r uwch-reolwyr o fewn yr arolygiaeth a oeddent yn ffyddiog na fyddai achos tebyg yn digwydd yma yng Nghymru, yr ymateb a gafwyd oedd:

The Health and Social Care Committee has, or is coming to the same conclusion. In its report in March 2014, they say that there must be an effective inspectorate in order to protect the public from the risk of any systemic failures as was seen in Mid Staffs. The committee's conclusion was that there wasn't any assurance in terms of the role of the health inspectorate and that that raised questions the quality of the service and the intervention that was made when problems were found. When Kirsty Williams asked the senior managers within the inspectorate whether they were confident that there wouldn't be a similar case here in Wales, the response was:

'I am not convinced that we have sufficient coverage in terms of testing for me to be able to give you that strong assurance.'

'I am not convinced that we have sufficient coverage in terms of testing for me to be able to give you that strong assurance.'

Un o'r problemau yma, mae'n debyg, yw bod cyfrifoldebau'r arolygiaeth wedi cael eu hymestyn o dro i dro gan y Llywodraeth. Erbyn hyn, mae cyfrifoldebau yn cynnwys ymchwiliadau dynladdiad, rheoliadau ymbelydredd ïoneiddio ac adolygu timau troseddau ieuenctid. Mae'n amlwg, erbyn hyn, nad yw adolygu cylch gwaith yr arolygiaeth yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon, ac mae rhai ohonom yn pryderu bod yr arolygiaeth yn colli ei ffocws.

It seems that one of these problems is that the responsibilities of the inspectorate have been extended by the Government. By now, the responsibilities include homicide investigations, ionising radiation regulations and reviews of youth offending teams. It's clear, by now, that reviewing the remit of the inspectorate is not a priority for this Government, and some of us are concerned that the inspectorate is losing its focus.

Pan holodd Kirsty Williams y Prif Weinidog yr wythnos diwethaf ynghylch yr arolygiaeth, a gofyn a oedd yr arolygiaeth yn ddigon annibynnol, dywedodd:

When Kirsty Williams asked the First Minister about the inspectorate last week, and asked whether the inspectorate was independent enough, he said:

'Byddem yn gobeithio ei bod, wrth gwrs'.

'We would hope that it is, of course'.

Nawr, ymateb Llywodraeth clymblaid Prydain i adroddiad Francis ar y pryd yn Lloegr oedd cryfhau pwerau'r Comisiwn Ansawdd Gofal yn Lloegr a hefyd creu swydd newydd prif arolygydd yr ysbytai. Erbyn hyn, mae'r Athro Mike Richards, oncolegydd Prydeinig blaenllaw a chyn tsar cancr yn Lloegr, yn arwain tîm cenedlaethol o arolygwyr ysbytai sy'n targedu unedau lle mae yna bryderon. Mae ganddo fo a'r tîm y grym i osod ymddiriedolaeth iechyd mewn mesurau arbennig, yn wahanol iawn i'r sefyllfa yma yng Nghymru, lle mae'r grym yn nwylo'r gwleidydd.

Now, the response of the UK coalition Government to the Francis report in England was to bolster the powers of the Care Quality Commission in England and to create a new post of chief inspector of hospitals. By now, Professor Mike Richards, a leading British oncologist and a former cancer tsar in Britain, is leading a national team of hospital inspectors that target units where there are concerns. He and his team have the power to place a trust in special measures, which is very different to the situation here in Wales, where the power resides with politicians.

Mae'r gyfundrefn o arolygwyr yn cynnwys nid yn unig cyn uwch-reolwyr o fewn y gwasanaeth iechyd, ond hefyd meddygon, nyrsys, rheolwyr adrannau ac, yn hollbwysig, cleifion eu hunain. Mae system debyg dan arweiniad cyfoedion wedi ei chyflwyno yn yr Alban erbyn hyn. Felly, dylid sefydlu proses adolygu tebyg gan gymheiriaid yma yng Nghymru, sy'n cymharu perfformiad yn erbyn hanfodion gofal. Wrth gwrs, mae adroddiad annibynnol Ruth Marks, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2015, yn gwneud nifer o argymhellion, ond yn hytrach na gweithredu, ymateb y Llywodraeth ar y pryd oedd dweud y byddent yn ystyried yr awgrymiadau fel rhan o'r gwaith ar y Papur Gwyrdd.

The regime of inspectors doesn't only include former senior managers within the health services, but also physicians, nurses, department leaders, and, all importantly, patients themselves. A similar peer-review system has also been introduced in Scotland by now. Therefore, we should have a similar peer-led review process here in Wales, which compares performance against fundamentals of care. Of course, the independent report of Ruth Marks, published in January 2015, makes many recommendations, but rather than acting on them, the Government's response at the time was to say that they would consider the suggestions as part of the work on the Green Paper.

Erbyn hyn, lle rydym yn wynebu problemau megis y rhai a welwyd yng ngogledd Cymru, ni ddylem ofni dysgu gwersi oddi wrth ein cymdogion. Mae'n amser inni ystyried cael gwared ar y system arolygu bresennol neu ei diwygio'n radical er mwyn sicrhau bod gennym wasanaeth iechyd sy'n cadw pobl yn ddiogel yn ein gwlad.

By now, where we face problems such as those seen in north Wales, we shouldn't be afraid of learning lessons from our neighbours. It's time for us to consider scrapping the current inspection system or reforming it radically to ensure that we have a health service that keeps people safe in our country.

16:52 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have selected the two amendments to the motion, and I call on Lindsay Whittle to move amendment 1, tabled in the name of Elin Jones.

Rwyf wedi dethol y ddau welliant i'r cynnig, a galwaf ar Lindsay Whittle i gynnig gwelliant 1, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

*Gwelliant 1—Elin Jones*

*Amendment 1—Elin Jones*

*Cynnwys is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 2:*

*Insert new sub-point at end of point 2:*

*f) ystyried uno'r arolygiaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn llawn.*

*f) considering a full merger of health and social care inspectorates.*

*Cynigiwyd gwelliant 1.*

*Amendment 1 moved.*

16:52 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move the amendment in the name of Elin Jones.

Cynigiaf y gwelliant yn enw Elin Jones.

Some time ago, I expressed my serious reservations about the capacity of Healthcare Inspectorate Wales to provide a high standard of sustained inspections that would lead to significant improvements in the quality of care provided across the health service. These concerns centred on a number of failings within HIW, and these were, and indeed still are, that HIW focused on ensuring that basic standards were met, rather than the highest quality; that they did not communicate adequately with the Minister or with community health councils; they did not focus enough on sub-standard hospital care and the times that people needing treatment have to wait for what is often a life-saving operation; what's more, that they have not done a great deal of work on the inspection of primary care, and there was little evidence of a follow-up by HIW to ensure that local health boards have amended their policy and practice in order to remedy failings; and there, indeed, is an unacceptable delay once an inspection has been carried out before the inspection report was published, so that the public can know.

Beth amser yn ôl, mynegais fy amheuon difrifol ynghylch gallu Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i ddarparu arolygiadau parhaus o safon uchel a fyddai'n arwain at welliannau sylweddol yn ansawdd y gofal a ddarperir ar draws y gwasanaeth iechyd. Roedd y pryderon hyn yn canolbwyntio ar nifer o fethiannau o fewn AGIC, ac roedd y rhain yn cynnwys, ac yn wir, maent yn dal i gynnwys y ffaith fod AGIC wedi canolbwyntio ar sicrhau mai'r safonau sylfaenol yn hytrach na'r ansawdd gorau a gâi eu cyrraedd; nad oeddent yn cyfathrebu'n ddigonol gyda'r Gweinidog a'r cynghorau iechyd cymuned; nad oeddent yn canolbwyntio digon ar ofal ysbyty is na'r safon a'r amser sy'n rhaid i bobl sydd angen triniaeth aros am lawdriniaeth sy'n aml yn achub eu bywyd; hefyd, nad ydynt wedi gwneud llawer iawn o waith ar arolygu gofal sylfaenol, ac nad oedd llawer o dystiolaeth o waith dilynol gan AGIC i sicrhau bod byrddau iechyd lleol wedi diwygio eu polisi a'u hymarfer er mwyn unioni methiannau; ac yn wir, ceir oedi annerbyniol ar ôl cynnal arolygiad cyn cyhoeddi'r adroddiad arolygu er mwyn i'r cyhoedd gael gwybod.

So, I was very keen to read HIW's strategic plan for the next three years, and I must say that my opinion hasn't changed of Healthcare Inspectorate Wales; it's still not good. For a start, despite the independent review of HIW, commissioned by the Welsh Government, and published in November 2014, the HIW document makes no reference whatsoever to the review and its recommendations, but I'll come back to that point later. What is more, it does not set out any achievements over the past three years—I wonder why—and all the strategic plan does is catalogue what its responsibilities are. Any specific actions that they list merely refer to internal matters.

Felly, roeddwn yn awyddus iawn i ddarllen cynllun strategol AGIC ar gyfer y tair blynedd nesaf, ac mae'n rhaid i mi ddweud nad yw fy marn ar Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi newid; nid yw'n dda o hyd. I ddechrau, er gwaethaf yr adolygiad annibynnol o AGIC, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, ac a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2014, nid yw'r ddogfen AGIC yn sôn o gwbl am yr adolygiad a'i argymhellion, ond dof yn ôl at y pwynt hwnnw yn nes ymlaen. At hynny, nid yw'n nodi unrhyw gyflawniadau dros y tair blynedd diwethaf—tybed pam—a'r cyfan y mae'r cynllun strategol yn ei wneud yw rhestru beth yw ei gyfrifoldebau. Cyfeirio'n unig at faterion mewnol y mae unrhyw gamau gweithredu penodol y maent yn eu rhestru.

Let's look for a few minutes at what the independent review said. It said, and I quote:

Gadewch i ni edrych am ychydig funudau ar yr hyn a ddywedai'r adolygiad annibynnol:

'the core purpose of HIW is not well understood and clear enough, in particular it is not sufficiently patient or citizen focused'.

'Nid oes dealltwriaeth ddigonol o ddiben craidd AGIC ac nid yw'n ddigon clir. Yn benodol nid yw'n canolbwyntio'n ddigonol ar gleifion a dinasyddion.'

If there's just a grain of truth in this, what on earth is HIW doing if it is not focusing its attention on patients, their views and their needs? Another comment in the review is that HIW should concentrate

Os oes gronyn o wirionedd yn hyn, beth ar y ddaear y mae AGIC yn ei wneud os nad yw'n canolbwyntio ei sylw ar gleifion, eu safbwyntiau a'u hanghenion? Sylw arall yn yr adolygiad yw y dylai AGIC ganolbwyntio

'more on evaluating patient outcomes and less on scrutinising whether appropriate processes have been followed'.

'mwy ar werthuso canlyniadau i gleifion a llai ar graffu ar a yw prosesau priodol wedi eu dilyn.'

And an even more crucial recommendation is that HIW needs to show how its inspections have had a significant impact on the safety and quality of healthcare services by helping providers improve their performance. Yet, despite these strong recommendations, what is HIW's reaction? Silence. Simply silence, which only goes to underline that it operates, indeed, within its own bubble. As this motion makes clear, it's time to burst that bubble and replace HIW, along with Plaid Cymru's amendment, I hope, in asking that we have a full merger of health and social care inspectorates across Wales. Diolch yn fawr.

Ac argymhelliad hyd yn oed yn fwy allweddol yw bod angen i AGIC ddangos sut y mae ei harolygiadau wedi cael effaith sylweddol ar ddiogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd drwy helpu darparwyr i wella eu perfformiad. Eto i gyd, er gwaethaf yr argymhellion cryf hyn, beth yw ymateb AGIC? Distawrwydd. Distawrwydd a dim mwy, sydd ond yn tanlinellu ei bod, yn wir, yn gweithredu o fewn ei swigen ei hun. Fel y mae'r cynnig hwn yn ei gwneud yn glir, mae'n bryd rhoi pin yn y swigen a chael rhywbeth yn lle AGIC, ynghyd â gwelliant Plaid Cymru, rwy'n gobeithio, o ran gofyn am uno arolygiaethau iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru yn llawn. Diolch yn fawr.

16:55

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call on Andrew R.T. Davies to move amendment 2, tabled in the name of Paul Davies.

Galwaf ar Andrew R.T. Davies i gynnig gwelliant 2, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

*Gwelliant 2—Paul Davies*

*Amendment 2—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynyddu tryloywder yn y broses o arolygu a rheoleiddio darparwyr gofal iechyd yng Nghymru drwy gomisiynu ymchwiliad llawn ac annibynnol i'r GIG yng Nghymru.*

*Calls on the Welsh Government to increase transparency in the inspection and regulation of healthcare providers in Wales by commissioning a full and independent inquiry into the Welsh NHS.*

*Cynigiwyd gwelliant 2.*

*Amendment 2 moved.*

16:55

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

It's a pleasure to move the amendment in the name of Paul Davies on the order paper this afternoon. It is a long-standing Conservative position and one that, obviously, I hope will come to fruition and that we will get that independent review and inspection led by a senior clinician, such as a Keogh-style review that was undertaken in England. Some of the recommendations that have been enacted from that review that have greatly enhanced the patient experience, but also given far greater confidence to the clinicians and the workers within the English NHS in making sure that their concerns are addressed.

Mae'n bleser gennyf gynnig y gwelliant yn enw Paul Davies ar y papur trefn y prynhawn yma. Dyma safbwynt hirsefydlog y Ceidwadwyr ac un a fydd, yn amlwg, yn dwyn ffrwyth gobeithio, ac y cawn yr adolygiad a'r arolygiad annibynnol dan arweiniad uwch glinigydd, tebyg i adolygiad o fath Keogh a gynhaliwyd yn Lloegr. Mae rhai o'r argymhellion a roddwyd ar waith o'r adolygiad hwnnw wedi gwella profiad y claf yn fawr, ond mae hefyd wedi rhoi llawer mwy o hyder i glinigwyr a gweithwyr y GIG yn Lloegr i sicrhau bod eu pryderon yn cael sylw.

I do commend the Liberal Democrats for bringing forward the motion today. Much of this is so topical to discuss. I do commend the Liberal Democrats' researchers for keeping the motion so short. Normally, with a Lib Dem motion it runs to a page or a page and a half, but each and every one of these points is valid, and I hope that the Minister will address them fully in his response today.

Rwy'n canmol y Democratiaid Rhyddfrydol am gyflwyno'r cynnig heddiw. Mae llawer o hyn mor amserol i'w drafod. Rwy'n canmol ymchwilwyr y Democratiaid Rhyddfrydol am gadw'r cynnig mor fyr. Fel arfer, mae cynigion y Democratiaid Rhyddfrydol yn dudalen neu dudalen a hanner o hyd, ond mae pob un o'r pwyntiau hyn yn ddilys, ac rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn rhoi sylw llawn iddynt yn ei ymateb heddiw.

My colleague, Paul Davies, to my left, and I, when we first came in this Assembly in 2007, spent many a dark Tuesday morning on the Subordinate Legislation Committee dealing with the NHS Redress (Wales) Measure 2008. That was one of the first Measures to be introduced into this Assembly, and I well remember taking evidence from the Minister saying, 'This is going to address the complaints procedure', 'This is going to give power to the elbow of patients who had been wronged', and 'This would free up health boards not to get tied up in court proceedings, and take the money from the lawyers and keep the money in the health service.' Now in 2015, I would say those laudable comments that were made by the Minister at the time have clearly been missed, because, regrettably, health boards find themselves not just in the courts, but in the press because of some of the appalling levels of care that have gone on, not just in Betsi Cadwaladr but also in Abertawe Bro Morgannwg, because it's easy to forget the scenarios and the cases that have gone on at the Princess of Wales Hospital.

Treuliodd fy nghyd-Aelod, Paul Davies, ar fy llaw chwith, a minnau, lawer bore Mawrth diflas pan ddaethom i'r Cynulliad gyntaf yn 2007 ar y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth yn ymdrin â Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008. Dyna un o'r Mesurau cyntaf i gael eu cyflwyno yn y Cynulliad hwn, a chofiaf glywed tystiolaeth gan y Gweinidog yn dweud, 'Bydd hyn yn mynd i'r afael â'r weithdrefn gwynion', 'Mae hyn yn mynd i roi pŵer i gleifion a gafodd gam', a' Bydd hyn yn rhyddhau byrddau iechyd rhag cael eu clymu mewn achosion llys, yn mynd ag arian oddi wrth y cyfreithwyr ac yn ei gadw yn y gwasanaeth iechyd.' Yn awr, yn 2015, fe fyddwn yn dweud bod y sylwadau canmoladwy a wnaed gan y Gweinidog ar y pryd wedi mynd ar goll, oherwydd, yn anffodus, mae byrddau iechyd nid yn unig yn wynebu'r llysoedd, ond y wasg hefyd, oherwydd rhai o'r lefelau ofnadwy o ofal a welwyd, nid yn unig yn Betsi Cadwaladr, ond yn Abertawe Bro Morgannwg hefyd, gan ei bod yn hawdd anghofio'r senarios a'r achosion a ddigwyddodd yn Ysbyty Tywysoges Cymru.

I do think it is vital, as this motion highlights, that we give greater power to patients but also to the staff within the health service to feel empowered to come forward with their concerns. We must remember that the majority of people have a very positive experience within our health service, but, regrettably, an increasingly significant minority of cases and incidents are causing huge concern and distress to the patients and clinicians involved, and demoralising the administrators who are charged with delivering the service across the whole of Wales. I have to say that a lot of that blame does emanate or leaves itself at the door of the Minister in Cathays park for not reacting, in particular this Government in the first two years of its term, to the very serious concerns that were highlighted, in particular around Healthcare Inspectorate Wales. One can only endorse the sentiments that have been expressed in this debate already by other speakers around the situation that the health inspectorate finds itself in, the secrecy in which it operates and the lack of action on some of the reports that do actually find their way into the public domain. What is the point in having an inspectorate that doesn't actually fulfil its role to the standard that we'd all like to see?

Rwy'n meddwl ei bod yn hanfodol, fel y mae'r cynnig hwn yn ei amlygu, ein bod yn rhoi mwy o bŵer i gleifion, ond hefyd i staff y gwasanaeth iechyd gael eu grymuso i gyflwyno eu pryderon. Rhaid i ni gofio bod y rhan fwyaf o bobl yn cael profiad cadarnhaol iawn yn ein gwasanaeth iechyd, ond yn anffodus, mae lleiafrif mwy a mwy sylweddol o achosion a digwyddiadau yn achosi pryder mawr a gofid i'r cleifion a chlinigwyr dan sylw, ac yn digalonni gweinyddwyr sy'n ysgwyddo'r gwaith o ddarparu'r gwasanaeth ar draws Cymru. Mae'n rhaid i mi ddweud bod llawer o'r bai yn tarddu neu i'w ganfod wrth ddrws y Gweinidog ym mharc Cathays am beidio ag ymateb, yn enwedig y Llywodraeth hon yn ystod ei dwy flynedd gyntaf, i'r pryderon difrifol iawn y tynnwyd sylw atynt, yn enwedig mewn perthynas ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Ni allaf ond cefnogi'r teimladau a fynegwyd yn y ddadl hon eisoes gan siaradwyr eraill ynghylch y sefyllfa y mae'r arolygiaeth iechyd ynddi, y cyfrinachedd y mae'n gweithredu o'i fewn a'r diffyg gweithredu ar rai o'r adroddiadau sy'n dod o hyd i'w ffordd at lygad y cyhoedd. Beth yw'r pwynt cael arolygiaeth nad yw'n cyflawni ei rôl i'r safon y byddem i gyd yn hoffi ei gweld?

I would also endorse point 2(b) of the motion about appointing a chief inspector of hospitals and healthcare. When you look at the improvements and the challenge that Mike Richards has done in England in his role, one has to say that surely that is a logical step for us here in Wales to take. Just because it happened on the other side of Offa's Dyke doesn't mean that we shouldn't do it this side of Offa's Dyke, here in Wales. I do believe and hope that the Minister will look at this as a positive route forward to offer that challenge.

Byddwn hefyd yn cymeradwyo pwynt 2(b) y cynnig ynghylch penodi prif arolygydd ysbytai a gofal iechyd. Pan edrychwch ar y gwelliannau a'r her y mae Mike Richards wedi eu cynnig yn Lloegr yn ei rôl, rhaid dweud bod hwn yn sicr yn gam rhesymegol i ni ei gymryd yma yng Nghymru. Nid yw'r ffaith ei fod wedi digwydd ar yr ochr arall i Glawdd Offa yn golygu na ddylem ei wneud ar yr ochr hon i Glawdd Offa, yma yng Nghymru. Rwy'n credu ac yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn edrych ar hyn fel llwybr cadarnhaol ymlaen i gynnig yr her honno.

It is also noticeable today in the press that three health boards have failed to draw up service plans that the Minister charged them with doing, and two of them have been given extra time. So, five of our health boards have failed to deliver their three-year health plans to the health Minister and his officials to test the robustness of the delivery. Yet again, we see the Minister and his officials obviously not managing to bear down on the health boards to deliver for patients the length and breadth of Wales. Importantly, the staff who work within our health service, because without the staff, we have not got a health service. It's their expertise and their dedication that deliver the quality service that patients rely on. We can't continue having an inspectorate that isn't fulfilling its job. We need that review; we need to make sure that we devise an inspectorate that can be fit for the twenty-first century. And, when we look at what has gone on and the lessons learnt in England around a Keogh-style review, I implore the Minister again today, for the hundredth time, to actually put his shoulder to the wheel to commit to such a review, so that we can have the points coming out of a clinically led review that will provide the dramatic improvements that we all want to see in the Welsh NHS. Surely, that is a sensible route-map forward for us all to take. That is why I urge the Assembly to endorse the amendment in the name of Paul Davies to the motion this afternoon.

Hefyd, mae'n amlwg yn y wasg heddiw fod tri bwrdd iechyd wedi methu â llunio'r cynlluniau gwasanaeth y gofynnodd y Gweinidog amdanynt, ac mae dau ohonynt wedi cael amser ychwanegol. Felly, mae pump o'n byrddau iechyd wedi methu â chyflawni eu cynlluniau iechyd tair blynedd i'r Gweinidog Iechyd a'i swyddogion allu profi cadernid y ddarpariaeth. Unwaith eto, rydym yn gweld y Gweinidog a'i swyddogion yn amlwg yn methu â phwyso ar y byrddau iechyd i ddarparu ar gyfer cleifion ar hyd a lled Cymru. Yn bwysig, y staff sy'n gweithio yn ein gwasanaeth iechyd, oherwydd heb y staff, nid oes gennym wasanaeth iechyd: eu harbenigedd a'u hymroddiad sy'n darparu'r gwasanaeth o ansawdd y mae cleifion yn dibynnu arno. Ni allwn barhau i gael arolygiaeth nad yw'n cyflawni ei gwaith. Mae arnom angen yr adolygiad; mae angen i ni sicrhau ein bod yn dyfeisio arolygiaeth a all fod yn addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. A phan edrychwn ar yr hyn sydd wedi digwydd a'r gwersi a ddysgwyd yn Lloegr gydag adolygiad o fath Keogh, erfyniaf ar y Gweinidog eto heddiw, am y canfed tro, i roi ei bwysau y tu ôl i hyn ac i ymrwymo i adolygiad o'r fath, er mwyn i ni allu cael y pwyntiau a ddaw allan o adolygiad dan arweiniad clinigol a fydd yn darparu'r gwelliannau dramatig rydym i gyd am eu gweld yn y GIG yng Nghymru. Yn sicr, dyna'r llwybr synhwyrol i ni i gyd ei ddilyn. Dyna pam rwy'n annog y Cynulliad i gymeradwyo'r gwelliant yn enw Paul Davies i'r cynnig y prynhawn yma.

17:01

## Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

A clear and effective complaints and concerns policy is integral to a robust inspection system within the NHS, yet examples within the Abertawe Bro Morgannwg university health board have highlighted that the current system has continued to fail Welsh patients. The Minister, of course, will be familiar with the case of Gareth Williams, whose mother died following appalling treatment at the Princess of Wales Hospital in Bridgend. The health board, in this case, admitted giving unnecessary sedation and failing to administer prescribed medication, and, of course, the case led to criminal investigations into the wilful neglect of patients. As a result of that, the Andrews report was commissioned, which found that the care of older patients was compromised by variable and poor professional behaviour. The report found that, in some case, people waited months for an acknowledgement of their complaint, and that delay, prevarication and misinformation led many to give up in the process. It noted that those complaining were upset in large part about the way that their complaints had been handled and that there is a need for a new approach based on openness, early dispute resolution and mediation. I know, because I've got a meeting with the health board on Friday, that they are starting to address those concerns and put in place measures to start to deal with them. But, the question, I think, which still hangs open in terms of this whole process is: where was Healthcare Inspectorate Wales in this, why were they not picking up these failings, and where was the community health council as well, in terms of identifying the problems that were taking place at Princess of Wales Hospital and Neath Port Talbot Hospital at that time?

Mae polisi cwynion a phryderon clir ac effeithiol yn rhan annatod o system arolygu gadarn o fewn y GIG, ac eto mae enghreifftiau ym mwrdd iechyd prifysgol Abertawe Bro Morgannwg wedi amlygu bod y system bresennol wedi parhau i wneud cam â chleifion o Gymru. Wrth gwrs, bydd y Gweinidog yn gyfarwydd ag achos Gareth Williams, y bu ei fam farw yn dilyn triniaeth ofnadwy yn Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Cyfaddefodd y bwrdd iechyd, yn yr achos hwn, fod tawelydd wedi'i roi'n ddiangen ac na chafodd meddyginiaeth bresgripsiwn ei gweinyddu, ac wrth gwrs, arweiniodd yr achos at ymchwiliadau troseddol i esgeuluso cleifion yn fwriadol. O ganlyniad i hynny, comisiynwyd adroddiad Andrews, a ganfu fod gofal i gleifion hŷn yn cael ei beryglu gan ymddygiad proffesiynol amrywiol a gwael. Canfu'r adroddiad bod pobl mewn rhai achosion yn aros mis i gael eu cwyn wedi'i chydnabod, a bod oedi, osgoi ateb a gwybodaeth anghywir wedi peri i sawl un roi'r gorau i'r broses. Nodai fod y rhai a oedd yn cwyno yn ofidus i raddau helaeth am y ffordd y cafodd eu cwynion eu trin a bod angen dull newydd o weithredu yn seiliedig ar fod yn agored, datrys anghydfodau'n gynnar a chyfryngu. Gan fod gennyf gyfarfod gyda'r bwrdd iechyd ddydd Gwener, gwn eu bod yn dechrau mynd i'r afael â'r pryderon hyn ac yn rhoi mesurau ar waith i ddechrau ymdrin â hwy. Ond rwy'n meddwl mai'r cwestiwn sy'n dal heb ei ateb o ran yr holl broses hon yw: ble roedd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn hyn, pam na sylwont ar y diffygion hyn, a ble roedd y cyngor iechyd cymuned hefyd, o ran nodi'r problemau a oedd yn digwydd yn Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ar y pryd?

Despite these findings, there are still cases of neglect and failings in governance at ABMU. Kirsty Williams has been contacted by a constituent just yesterday regarding care failings at Morriston Hospital. Her constituent's mother was a patient there in 2013, suffering with dementia and breast cancer at the time of admission. During her stay, she fell twice, resulting in a broken hip and surgery. Sadly, she suffered a stroke and died some days later. The constituent, Jo McClean, has been fighting for answers for two years, and has been through two protection of vulnerable adults investigations. She says that,

'Sadly, two years on, although the health board has admitted negligence and a breach in their duty of care towards my mum, nothing else has changed. The complaints procedure has also been appallingly handled and has been a stressful and upsetting experience. The saddest thing is that, although nothing will bring her back, the health board seems happy to wallow in mediocrity and doesn't really have the impetus for change.'

These statements—the views and experience of one patient more recently—sum up that the complaints system is failing patients and their families, and despite the changes that have been put in place in ABMU, there are still problems in that trust, and, of course, across the whole of Wales, which do need to be addressed. To do that, we do need to have that independent review body, Health Wales, to actually focus on this, independently of Government, and actually do the job they're meant to be doing in terms of identifying these problems.

We have seen a number of high-profile reports, including Clwyd and Hart, Francis, Berwick, Keogh, Andrews and the Evans report, 'Using the Gift of Complaints', which made 109 recommendations to improve complaints handling within the Welsh NHS. The BMA argues that this evidence all points to the fact that,

'a non-listening culture is a widespread problem across NHS institutions and poses a significant threat to patient safety.'

Er gwaethaf y canfyddiadau hyn, mae'n dal i fod achosion o esgeulustod a methiannau llywodraethu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Daeth etholwr i gysylltiad â Kirsty Williams ddoe ddiwethaf ynghylch methiannau gofal yn Ysbyty Treforys. Roedd mam ei hetholwr yn glaf yno yn 2013, yn dioddef o ddementia a chanser y fron ar yr adeg y cafodd ei derbyn i'r ysbyty. Yn ystod ei harhosiad, fe gwympodd ddwywaith gan dorri ei chlun a bu'n rhaid iddi gael llawdriniaeth. Yn anffodus, dioddefodd strôc a bu farw rai dyddiau'n ddiweddarach. Mae'r etholwr, Jo McClean, wedi bod yn brwydro am atebion ers dwy flynedd, ac mae wedi bod drwy ddau ymchwiliad amddiffyn oedolion agored i niwed. Mae'n dweud hyn:

'Yn anffodus, ddwy flynedd yn ddiweddarach, er bod y bwrdd iechyd wedi cyfaddef esgeulustod a methu yn eu dyletswydd gofal tuag at fy mam, nid oes dim arall wedi newid. Mae'r drefn gwyno wedi cael ei thrin yn warthus hefyd, ac mae wedi bod yn brofiad sydd wedi achosi straen a gofid. Er na ddaw dim â hi'n ôl, y peth mwyaf trist yw bod y bwrdd iechyd yn ymddangos yn hapus i ymfodloni ar gyffredinedd ac nid oes ganddo'r ysgogiad i newid mewn gwirionedd.'

Mae'r datganiadau hyn—barn a phrofiad un claf yn fwy diweddar—yn dynodi bod y system gwynion yn gwneud cam â chleifion a'u teuluoedd, ac er gwaethaf y newidiadau a roddwyd ar waith ym Mhrifysgol Abertawe Bro Morgannwg, mae problemau yn yr ymddiriedolaeth honno o hyd, ac wrth gwrs, ar draws Cymru gyfan, sy'n galw am eu datrys. I wneud hynny, mae angen i ni gael y corff adolygu annibynnol, Iechyd Cymru, i ganolbwyntio ar hyn, yn annibynnol ar y Llywodraeth, a mynd ati go iawn i wneud y gwaith y maent i fod i'w wneud o ran canfod y problemau hyn.

Rydym wedi gweld nifer o adroddiadau proffil uchel, gan gynnwys Clwyd a Hart, Francis, Berwick, Keogh, Andrews ac adroddiad Evans, 'Defnyddio'r Rhodd o Gwynion', a oedd yn gwneud 109 o argymhellion i wella'r modd y caiff cwynion eu trin yn y GIG yng Nghymru. Mae Cymdeithas Feddygol Prydain yn dadlau bod y dystiolaeth hon yn dangos bod,

'a non-listening culture is a widespread problem across NHS institutions and poses a significant threat to patient safety.'

In August last year, the Assembly's health committee also conducted a review into the NHS complaints process in Wales. Whilst it found that in the overwhelming majority of cases people's experiences of NHS Wales are positive, and I think we need to underline that most people do have a positive experience in the NHS, it found that much work remains if NHS Wales is to meet the standards of transparency, openness and compassion we would expect. In giving evidence to the committee, Mr Evans described a culture of lockdown within NHS Wales and a service characterised by a sense of defensiveness on the part of those handling complaints and fear on the part of those wishing to raise them. The committee referred to its previous recommendation to review the remit of HIW, that this should also cover its role in relation to the NHS complaints process, and that the Minister should also consider alternative mechanisms for independent regulation of complaints handling. We echo these calls in our motion today. Alongside an independent inspectorate, we must reform the complaints procedure to ensure greater independence and restore the trust of patients and their families. These processes are intertwined and their success is essential in ensuring the safety of patients in Wales and the future sustainability of our NHS.

Ym mis Awst y llynedd hefyd, cynhaliodd pwyllgor iechyd y Cynulliad adolygiad o broses gwyno'r GIG yng Nghymru. Er ei fod wedi gweld bod profiad pobl o'r GIG yng Nghymru yn gadarnhaol yn y mwyafrif llethol o achosion, ac rwy'n credu bod angen tanlinellu bod y rhan fwyaf o bobl yn cael profiad cadarnhaol yn y GIG, gwelodd fod llawer o waith i'w wneud eto os yw GIG Cymru i gyrraedd y safonau disgwyliedig o ran tryloywder, bod yn agored a thosturi. Wrth roi tystiolaeth i'r pwyllgor, disgrifiodd Mr Evans ddiwylliant o gloi drysau yn GIG Cymru a gwasanaeth a nodweddir gan ymdeimlad amddiffynnol ar ran y rhai sy'n ymdrin â chwynion ac ofn ar ran y rhai sy'n dymuno eu lleisio. Cyfeiriodd y pwyllgor at ei argymhelliad blaenorol i adolygu cylch gwaith AGIC, y dylai hyn gynnwys ei rôl mewn perthynas â phroses gwynion y GIG hefyd, ac y dylai'r Gweinidog ystyried mecanweithiau amgen ar gyfer rheoleiddio'r modd y caiff cwynion eu trin yn annibynnol. Rydym yn adleisio'r galwadau hyn yn ein cynnig heddiw. Ochr yn ochr ag arolygiaeth annibynnol, mae'n rhaid i ni ddiwygio'r drefn gwynion er mwyn sicrhau mwy o annibyniaeth ac adfer ymddiriedaeth cleifion a'u teuluoedd. Mae'r prosesau hyn yn cydblethu ac mae eu llwyddiant yn hanfodol i sicrhau diogelwch cleifion yng Nghymru a chynaliadwyedd ein GIG yn y dyfodol.

17:06

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

While we have tabled this debate today in the aftermath of the Tawel Fan report and the move to place Betsi Cadwaladr in special measures, as colleagues have highlighted these issues are not unique to north Wales. I have a number of cases in both the health boards within my region where it seems to be that it's not only the care that has been brought into question, but then how issues surrounding care have been handled by health boards and others in the aftermath.

Er ein bod wedi cyflwyno'r ddadl hon heddiw yn dilyn adroddiad Tawel Fan a'r camau i osod Betsi Cadwaladr o dan weithdrefn mesurau arbennig, fel y mae cyd-Aelodau wedi nodi, nid yw'r materion hyn yn unigryw i ogledd Cymru. Mae gennyf nifer o achosion yn y byrddau iechyd yn fy rhanbarth lle yr ymddengys nad y gofal yn unig sy'n cael ei gwestiynu, ond sut y cafodd materion yn ymwneud â gofal eu trin wedyn gan fyrddau iechyd ac eraill.

I want to give you some examples. Since December, I have been assisting a constituent whose wife fell and sustained a serious pelvic injury. She waited more than two hours for an ambulance on a cold pavement at night, and then waited a further four and a half hours to be seen by a doctor, only after she had fainted and collapsed in the emergency room because of the pain. After an initial two-month wait for a response from the Minister, we have been passed from pillar to post. We have been passed to the health board, to the Welsh ambulance trust, to the community health council, to nursing directors, and yet six months on, we are still awaiting a substantive response—that constituent is still awaiting a substantive response.

Rwyf am roi rhai enghreifftiau i chi. Ers mis Rhagfyr, rwyf wedi bod yn cynorthwyo etholwr wedi i'w wraig gwympo a chael anaf difrifol i'r pelfis. Arhosodd am fwy na dwy awr am ambiwlans ar balmant oer yn ystod y nos, ac yna arhosodd am bedair awr a hanner arall i gael ei gweld gan feddyg, a hynny'n unig ar ôl iddi lewygu a chwympo yn yr ystafell argyfwng oherwydd y boen. Ar ôl aros deufis i gychwyn am ymateb gan y Gweinidog, rydym wedi cael ein pasio o un lle i'r llall. Rydym wedi cael ein pasio at y bwrdd iechyd, at ymddiriedolaeth ambiwlans Cymru, at y cyngor iechyd cymuned, at gyfarwyddwyr nyrsio, ac eto chwe mis yn ddiweddarach, rydym yn dal i aros am ymateb o sylwedd—mae'r etholwr yn dal i aros am ymateb o sylwedd.

In a second case, a dreadful case where a young man sadly took his own life after a number of years of failed interventions from health services, again in Cardiff and the Vale, the parents of that poor young man have been through the complaints process. They have been in that process now for more than two years. For two years, their pain and their anxiety have been dragged out. For two years, they have been unable to understand what went wrong. For two years, they feel they have been unable to grieve. I spent a morning with the mother; I wish I could show you, Minister, the pain and anxiety that that wait is causing because the complaints procedure is not working for them.

Mewn ail achos, achos ofnadwy o drist pan gyflawnodd dyn ifanc hunanladdiad ar ôl blynyddoedd o ymyriadau aflwyddiannus ar ran y gwasanaethau iechyd, unwaith eto yng Nghaerdydd a'r Fro, mae rhieni'r dyn ifanc anffodus wedi bod drwy'r broses gwynion. Maent wedi bod yn y broses honno bellach ers dros ddwy flynedd. Cafodd eu poen a'u pryder eu hymestyn dros ddwy flynedd. Ers dwy flynedd, maent wedi methu deall beth aeth o'i le. Ers dwy flynedd, maent yn teimlo eu bod wedi methu galaru. Treuliais fore gyda'r fam; hoffwn pe bawn yn gallu dangos i chi, Weinidog, y boen a'r pryder y mae'r aros yn ei achosi am nad yw'r weithdrefn gwyno yn gweithio iddynt.

Just last week I received a new case where a constituent's mother was treated with what I found to be an astounding lack of care and compassion by some professionals at the Royal Glamorgan and Prince Charles hospitals. In addition to his mother being without her medication, without food and without water on some occasions, he also reported to me that he'd seen a member of staff mimicking a stroke patient while they were walking down a corridor for the entertainment of their colleagues, and no-one intervened, no-one stopped that from happening. Now, if the treatment that his mother received and the conditions that she was in on that ward were not distressing enough, the complaints system is now making that even worse. Despite lodging a complaint in October, he has merely received monthly letters from the health board stating that the investigation is ongoing and that they are not able to get some information. He has been denied a solicitor or an independent medical advisor at meetings, leaving him feeling vulnerable in that position, because it is this us-and-them situation where it's him against the experts, and he doesn't know how to deal with that. He felt he had no faith in the system, so he wrote to the First Minister. Indeed, Minister, as you know, I've written to you three times for three different people to complain about the complaints process, and the replies we've received have been very similar. I will read out to you:

Yr wythnos diwethaf, cefais achos newydd lle y cafodd mam etholwr ei thrin gyda'r hyn y teimlwn ei fod yn enghraifft syfrdanol o ddiffyg gofal a thosturi gan rai gweithwyr proffesiynol yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Ysbyty'r Tywysog Siarl. Yn ogystal â'r ffaith fod ei fam yn cael ei gadael heb ei meddyginiaeth, na bwyd a dŵr ar rai achlysuron, dywedodd wrthyf hefyd ei fod wedi gweld aelod o staff yn dynwared claf strôc wrth gerdded ar hyd y coridor er diddanwch ei gydweithwyr, ac ni wnaeth neb ymyrryd, ni wnaeth neb atal hynny rhag digwydd. Nawr, os nad oedd y driniaeth a gafodd ei fam a'r amodau roedd hi'n eu hwynebu ar y ward yn ddigon trallodus, mae'r system gwynion yn awr yn gwneud hynny hyd yn oed yn waeth. Er iddo gyflwyno cwyn ym mis Hydref, nid yw ond wedi cael llythyrau misol gan y bwrdd iechyd yn nodi bod yr ymchwiliad yn mynd rhagddo ac nad ydynt yn gallu cael gafael ar ryw wybodaeth. Gwrthodwyd gadael iddo gael cyfreithiwr neu gynghorydd meddygol annibynnol mewn cyfarfodydd, gan ei adael yn teimlo'n fregus yn y sefyllfa honno, am ei bod yn sefyllfa 'ni a nhw', gydag ef yn erbyn yr arbenigwyr, ac nid yw'n gwybod sut i ddelio â hynny. Roedd yn teimlo nad oedd ganddo unrhyw ffydd yn y system, felly ysgrifennodd at y Prif Weinidog. Yn wir, Weinidog, fel y gwyddoch, rwyf wedi ysgrifennu atoch dair gwaith ar ran tri unigolyn gwahanol i gwyno am y broses gwyno, ac mae'r ymatebion a gawsom wedi bod yn debyg iawn. Darllenaf hwn i chi:

'I hope that you will understand that neither I nor my officials can intervene in individual cases as these are medical matters and the responsibility of clinicians.'

'Rwy'n gobeithio y byddwch yn deall nad wyf i na fy swyddogion yn gallu ymyrryd mewn achosion unigol gan fod y rhain yn faterion meddygol ac yn gyfrifoldeb clinigwyr.'

'I hope you will appreciate I am unable to comment on the treatment of individual patients as these are decisions for the appropriate clinician to take.'

'Rwy'n gobeithio y byddwch yn derbyn na allaf roi sylwadau ar driniaeth cleifion unigol gan fod y rhain yn benderfyniadau i'r clinigydd priodol eu gwneud.'

That is absolutely appropriate for individual cases, Minister, but I have five of these letters, and if you have to have a standard letter for cases where the complaints process has fallen down and you feel unable to intervene, these are no longer individual cases; this is a systemic problem in the complaints process because you feel that you have to tell several people the same thing—that the process that they have engaged with has not worked for them. I recognise that you're not able to work on those individual cases and intervene—that is absolutely appropriate—but, Minister, what I would ask you to do is to look at the complaints process that leaves these people feeling that they have nowhere to go, that they have nowhere to turn to, that the process that has been established for them is us versus them, that it is the system against the patient, that it is a closed shop, and that they don't have an honest voice.

Mae hynny'n gwbl briodol ar gyfer achosion unigol, Weinidog, ond mae gennyf bump o'r llythyrau hyn, ac os oes rhaid i chi gael llythyr safonol ar gyfer achosion lle y mae'r broses gwynion wedi methu a'ch bod yn teimlo na allwch ymyrryd, nid achosion unigol yw'r rhain mwyach; mae hon yn broblem systemig yn y broses gwyno oherwydd eich bod yn teimlo bod rhaid i chi ddweud yr un peth wrth nifer o bobl—fod y broses y maent wedi'i defnyddio heb weithio iddynt. Rwy'n cydnabod nad ydych yn gallu gweithio ar achosion unigol ac ymyrryd—mae hynny'n gwbl briodol—ond, Weinidog, yr hyn y byddwn yn gofyn i chi ei wneud yw edrych ar y broses gwyno sy'n gwneud i'r bobl hyn deimlo nad oes ganddynt unrhyw le i fynd, nad oes ganddynt unman i droi, fod y broses a sefydlwyd ar eu cyfer yn un 'ni yn eu herbyn nhw', y system yn erbyn y claf, siop gaeedig, ac nad oes ganddynt lais gonest.

This is the same kind of concern that we hear with whistleblowing as well. As I say, it's a grim reminder of this kind of closed shop, that staff are fearful of reprisal, they're fearful of the impact, that there isn't a healthy corporate environment, and the gift of complaint isn't being taken seriously. There is still that fear that what is actually happening is that people are closing ranks and protecting their own. The honest concerns of individual people, when brought together as a group, should obviously show you that there is a problem with our complaints process and we must reform it.

Dyma'r un math o bryder a glywn mewn perthynas â chwythu'r chwiban hefyd. Fel y dywedais, mae'n atgoffa'n glir mai siop gaeedig o'r fath sydd yma, fod staff yn ofni dial, yn ofni'r effaith, nad oes amgylchedd corfforaethol iach, ac nad yw'r rhodd o gŵyn yn cael ei chymryd o ddifrif. Mae ofn o hyd mai'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd yw bod pobl yn cau'r rhengoedd ac yn amddiffyn eu hunain. Yn amlwg, dylai pryderon gonest unigolion, o'u dwyn at ei gilydd fel grŵp, ddangos i chi fod yna broblem gyda'n proses gwyno ac mae'n rhaid i ni ei diwygio.

17:11 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Minister for Health and Social Services, Mark Drakeford.

Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Mark Drakeford.

17:11 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Thank you for the opportunity to respond to today's debate and to set out the actions that have been taken to strengthen Healthcare Inspectorate Wales and to improve the discharge of its responsibilities, both for the future and in the here and now. This is an effort that requires sustained and careful attention, where Government sets out a plan for all to see and then shows a respect for the seriousness of the subject and the legitimate interests of those many people with a part to play in it by sticking to what the Government has said.

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Diolch am y cyfle i ymateb i'r ddadl heddiw ac i nodi'r camau sydd wedi eu rhoi ar waith i gryfhau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac i wella'r modd y mae'n cyflawni ei gyfrifoldebau, ar gyfer y dyfodol ac ar hyn o bryd. Mae hon yn ymdrech sy'n galw am sylw cyson a gofalus, lle y mae'r Llywodraeth yn nodi cynllun i bawb ei weld, ac yna'n dangos parch at ddifrifoldeb y pwnc a buddiannau cyfreithlon y nifer o bobl sydd â rhan i'w chwarae ynddo drwy gadw at yr hyn y mae'r Llywodraeth wedi'i ddweud.

In this case, the actions of this Government were the product of the very serious attention we have given to the report of the Health and Social Care Committee into the work of Healthcare Inspectorate Wales. I know from my discussions with her that the chief executive of the inspectorate has been equally serious in the way that she has gone about responding to that report. It was a report that contained just one single recommendation, and that was that the Welsh Government should undertake a fundamental review of HIW to reform, develop and improve its regulatory and inspection functions.

Yn yr achos hwn, roedd camau gweithredu'r Llywodraeth hon yn deillio o'r sylw difrifol iawn a roesom i adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar waith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Rwy'n gwybod o fy nhrafodaethau â hi fod prif weithredwr yr arolygiaeth wedi mynd ati gyda'r un difrifoldeb i ymateb i'r adroddiad. Roedd yn adroddiad a oedd yn cynnwys un argymhelliad yn unig, sef y dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad sylfaenol o AGIC er mwyn diwygio, datblygu a gwella ei swyddogaethau rheoleiddio ac arolygu.

Three key and specific points were set out in the Government's response to that report and in my contribution to the debate on it, which was held in the Assembly just a year ago. Firstly, I agreed with the committee that such a review should take place. Secondly, I made it clear in that response that the product of such a review would be a Green Paper, setting out Government proposals for reform. Thirdly, I made it clear that this part of the process would be completed within this Assembly term so that any legislation could follow early in the fifth Assembly, should any incoming Government choose to do so. Now, that was our commitment to this Assembly, and that is exactly what we will do.

Nodwyd tri phwynt allweddol a phenodol yn ymateb y Llywodraeth i'r adroddiad hwnnw ac yn fy nghyfraniad at y ddadl yn ei gylch a gynhaliwyd yn y Cynulliad flwyddyn yn ôl. Yn gyntaf, roeddwn yn cytuno â'r pwyllgor y dylid cynnal adolygiad o'r fath. Yn ail, fe'i gwnes yn glir yn yr ymateb hwnnw mai Papur Gwyrdd fyddai cynnyrch adolygiad o'r fath, yn nodi argymhellion y Llywodraeth ar gyfer diwygio. Yn drydydd, fe'i gwnes yn glir y byddai'r rhan hon o'r broses yn cael ei chwblhau yn ystod tymor y Cynulliad hwn er mwyn i ddeddfwriaeth allu dilyn yn gynnar yn pumed Cynulliad, pe bai unrhyw Lywodraeth newydd yn dewis gwneud hynny. Nawr, dyna oedd ein hymrwymiad i'r Cynulliad hwn, a dyna'n union y byddwn yn ei wneud.

The review has already been completed and published. It was carried out by Ruth Marks, the former Commissioner for Older People in Wales. She concluded that HIW was a complex regulator, but that its role and functions were largely fit for purpose. She made a number of observations and recommendations for both HIW and for the Welsh Government. Of those, there were two key recommendations that fell for the Government to consider. In the first, Ruth Marks confirmed that, whatever the statutory arrangements, in practice, HIW has operated and has been expected to operate in an entirely independent manner. Yet, she makes the entirely proper point that this practical reality of independence might be better matched in perception if its legal personality were to be reformed to provide greater independence in statute.

Mae'r adolygiad eisoes wedi ei gwblhau a'i gyhoeddi. Cafodd ei gynnal gan Ruth Marks, y cyn-Gomisiynydd Pobl Hŷn yng Nghymru. Daeth i'r casgliad fod AGIC yn rheoleiddiwr cymhleth, ond bod ei rôl a'i swyddogaethau yn addas at y diben i raddau helaeth. Gwnaeth nifer o sylwadau ac argymhellion ar gyfer AGIC a Llywodraeth Cymru. O'r rheini, roedd dau argymhelliad allweddol i'r Llywodraeth eu hystyried. Yn y cyntaf, cadarnhaodd Ruth Marks, beth bynnag y bo'r trefniadau statudol, yn ymarferol mae AGIC wedi gweithredu, fel roedd disgwyl iddi weithredu, mewn modd hollol annibynnol. Eto i gyd, mae Ruth Marks yn gwneud y pwynt cwbl briodol y gellid sicrhau canfyddiad gwell o realiti ymarferol annibyniaeth pe bai ei natur gyfreithiol yn cael ei diwygio er mwyn darparu mwy o annibyniaeth mewn statud.

In her second recommendation to Government, Ruth made a distinction between the relationship between our separate inspectorates of health and social care. She warned against the simplistic assumption that the integrated agenda is inevitably or automatically best served by a single inspectorate, and the history of this attempt at the Care Quality Commission in England shows the wisdom of that warning. Ruth Marks did, nevertheless, conclude that the merits of a single unified inspectorate were such that they ought to be properly tested.

Yn ei hail argymhelliad i'r Llywodraeth, gwahaniaethai Ruth rhwng y berthynas rhwng ein harolygiaethau ar wahân ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Rhybuddiodd yn erbyn y rhagdybiaeth or-syml mai un arolygiaeth yn anochel neu'n awtomatig a fyddai orau ar gyfer cyflawni'r agenda integredig, ac mae hanes ymgais y Comisiwn Ansawdd Gofal yn Lloegr yn hyn o beth yn tystio i ddoethineb y rhybudd. Daeth Ruth Marks i'r casgliad, er hynny, fod rhinweddau arolygiaeth unedig o'r fath fel y dylid eu profi'n iawn.

Dirprwy Lywydd, I promised the Assembly that the conclusions of the independent review, insofar as they might require legislation, would be put before you in a Green Paper, and that is exactly what I will do. While the Health and Social Care Committee report had only one recommendation, it identified six key issues that it said required attention. Five of these were directed to HIW itself to resolve. A year later, I think it is simply fair to say that they have taken these very seriously and can provide clear evidence of their response.

Ddirprwy Lywydd, addewais i'r Cynulliad y byddai casgliadau'r adolygiad annibynnol, i'r graddau y byddai galw am ddeddfwriaeth ar eu cyfer, yn cael eu rhoi ger eich bron mewn Papur Gwyrdd, a dyna'n union y byddaf yn ei wneud. Er mai un argymhelliad yn unig oedd adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ei gynnwys, nodai chwe mater allweddol y dywedai fod angen rhoi sylw iddynt. Roedd pump o'r rhain wedi'u cyfeirio at yr AGIC i'w datrys. Flwyddyn yn ddiweddarach, rwy'n credu ei bod yn deg dweud eu bod wedi rhoi sylw difrifol iawn i'r rhain ac yn gallu darparu tystiolaeth glir o'u hymateb.

For example, the committee said that HIW should publish its work programme, making public how often it intended to carry out its different strands within its inspection work. It has done just that. HIW met the objectives it set out for 2014-15; it significantly increased the number of inspections to 352, compared to 73 in the previous years, and its inspections in the last financial year also covered a far wider range of settings, including new inspections in primary care, in dentists, and in GP practices.

Er enghraifft, dywedodd y pwyllgor y dylai AGIC gyhoeddi ei rhaglen waith, gan gyhoeddi pa mor aml y mae'n bwriadu cyflawni ei gwahanol elfennau yn ei gwaith arolygu. Mae wedi gwneud yn union hynny. Cyflawnodd AGIC yr amcanion a nododd ar gyfer 2014-15; cynyddodd yn sylweddol y nifer o arolygiadau i 352, o'i gymharu â 73 yn y blynyddoedd blaenorol, ac roedd ei harolygiadau yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf hefyd yn cynnwys ystod lawer ehangach o leoliadau, gan gynnwys arolygiadau newydd mewn gofal sylfaenol, practisau deintyddol a phractisau meddygon teulu.

The committee concluded that the inspector's reports were taking too long to be published and needed to be put in the public domain in a timely fashion. Today, HIW can demonstrate a significant improvement in the timeliness of reporting and the publication of their reports. In the last financial year, over two thirds of those reports were published within three months of the inspection being concluded, and, where concerns were identified in inspections that required urgent action, then the inspectorate is clear that they do not wait until they have drafted their report; immediate assurance is sought from the organisation inspected that those concerns have been acted upon, and 67 immediate assurance letters were issued by the inspectorate last year.

Daeth y pwyllgor i'r casgliad fod adroddiadau'r arolygydd yn cymryd gormod o amser i'w cyhoeddi ac angen eu darparu ar gyfer y cyhoedd mewn modd amserol. Heddiw, gall AGIC ddangos gwelliant sylweddol o ran amseroldeb cyflwyno a chyhoeddi adroddiadau. Yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, cyhoeddwyd dros ddwy ran o dair o'r adroddiadau o fewn tri mis i gwblhau'r arolygiad, a lle y nodwyd pryderon mewn arolygiadau a alwai am weithredu ar frys, mae'r arolygiaeth yn glir nad ydynt yn aros nes eu bod wedi drafftio'u hadroddiad; ceisir sicrwydd ar unwaith gan y sefydliad a arolygwyd ei fod wedi gweithredu i unioni'r pryderon, a dosbarthwyd 67 o lythyrau'n mynnu sicrwydd ar unwaith gan yr arolygiaeth y llynedd.

The Health and Social Care Committee also made it as a key issue that the findings of HIW inspections should be made more accessible. As a result, and in the last 12 months, the website of the inspectorate has been very significantly upgraded and a range of new ways have been introduced to communicate better with the public about their findings, including new use of social media.

Gwnaeth y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yr angen i wneud canfyddiadau arolygiadau AGIC yn fwy hygyrch yn fater allweddol. O ganlyniad, ac yn ystod y 12 mis diwethaf, mae gwefan yr arolygiaeth wedi cael ei huwchraddio'n sylweddol iawn ac ystod o ffyrdd newydd wedi'u cyflwyno i gyfathrebu'n well â'r cyhoedd ynglŷn â'u canfyddiadau, gan gynnwys defnydd newydd o gyfryngau cymdeithasol.

Now, much of this has been possible by filling key vacancies in their core staffing—another issue identified in the health committee's report—and by significantly expanding the inspectorate's pool of specialist peer and lay reviewers. The operational plan clearly refers to the recommendations of the Ruth Marks review and how they are responding to it.

Nawr, mae llawer o hyn wedi bod yn bosibl drwy lenwi swyddi gwag allweddol yn eu staff craidd—mater arall a nodwyd yn adroddiad y pwyllgor iechyd—a thrwy ehangu cronfa'r arolygiaeth o adolygwyr arbenigol a lleyg yn sylweddol. Mae'r cynllun gweithredol yn cyfeirio'n glir at argymhellion adolygiad Ruth Marks a sut y maent yn ymateb iddo.

I'm sure that Members, when they have seen the work that HIW has conducted since the committee's report was published—and they will see that in its annual report, which will be published in July of this year—will see that there is a considerably improved position since the committee reported.

Wedi iddynt weld y gwaith y mae AGIC wedi ei wneud ers cyhoeddi adroddiad y pwyllgor—a byddant yn gweld hynny yn ei adroddiad blynyddol, a gyhoeddir ym mis Gorffennaf eleni—rwy'n siŵr y gwêl yr Aelodau fod y sefyllfa wedi gwella'n sylweddol ers i'r pwyllgor adrodd.

Dirprwy Lywydd, as far as the motion is concerned, the Government will reject the Conservative party amendment, support the constructive Plaid Cymru amendment, and while, for reasons that I have just set out, we cannot support the motion itself, it does contain aspects that we could have supported had they been presented in a different fashion.

Ddirprwy Lywydd, o ran y cynnig, bydd y Llywodraeth yn gwrthod gwelliant y blaid Geidwadol, yn cefnogi gwelliant adeiladol Plaid Cymru, ac er na allwn gefnogi'r cynnig ei hun am y rhesymau rwyf newydd eu nodi, mae'n cynnwys agweddau y gallem fod wedi eu cefnogi pe baent wedi eu cyflwyno mewn modd gwahanol.

I am a particularly strong supporter of the use of the peer review system, to which the motion refers, with patient input to drive learning and improvement. We are reforming the complaints procedure and we will put forward possibilities for further reform of whistleblowing in the Green Paper as well.

Rwy'n arbennig o gefnogol i ddefnyddio'r system adolygu gan gymheiriaid y mae'r cynnig yn cyfeirio ati, gyda mewnbwn y cleifion i ysgogi dysgu a gwella. Rydym yn diwygio'r weithdrefn gwyno a byddwn yn cyflwyno posibiliadau ar gyfer diwygio chwythu'r chwiban ymhellach yn y Papur Gwyrdd hefyd.

Dirprwy Lywydd, there is more to be done and much of it is concerned with what today's motion seeks to achieve. We will do it in a way that allows our staff or patients, and, indeed, any interested citizen of Wales, to contribute to that agenda of reform. We will do it in the way the way that we have already and absolutely consistently made clear, and in doing so we will end with a system of inspectorate that does what this motion seeks to achieve.

Ddirprwy Lywydd, mae rhagor i'w wneud ac mae llawer ohono'n ymwneud â'r hyn y mae cynnig heddiw yn ceisio ei gyflawni. Byddwn yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n galluogi ein staff a'n cleifion, ac yn wir, unrhyw ddinesydd sydd â diddordeb yng Nghymru, i gyfrannu at agenda ddiwygio o'r fath. Byddwn yn ei wneud yn y modd rydym wedi ei egluro eisoes ac yn gwbl gyson, ac wrth wneud hynny, yn y pen draw bydd gennym system arolygu sy'n gwneud yr hyn y mae'r cynnig hwn yn ceisio ei gyflawni.

17:20

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And Kirsty Williams to reply.

A Kirsty Williams i ymateb.

17:20

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. I thank colleagues across the Chamber for their contributions to the debate this afternoon, which I believe is timely, given what has happened in the last fortnight in north Wales.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Diolch i gyd-Aelodau ar draws y Siambr am eu cyfraniadau yn y ddadl y prynhawn yma, sy'n amserol yn fy marn i, o ystyried yr hyn sydd wedi digwydd yn y pythefnos diwethaf yng ngogledd Cymru.

Of course, an independent, effective inspection and regulatory regime, embodied in a single organisation, can only be one part of a quality assurance system within any healthcare system. It should be, in a way, that we never need a Healthcare Inspectorate Wales or any body that may or may not follow it following the Government's Green Paper. One would hope that the professional conduct of people to practice within the context of their registration, the ability of internal mechanisms of quality assurance and review, and the governance arrangements of a board, should be enough that we never need that final backstop. But we do need a final backstop to this system, and it has to be one that works.

Wrth gwrs, ni all trefn arolygu annibynnol effeithiol a gweithdrefn reoleiddio wedi'u hymgorffori mewn un sefydliad ond bod yn un rhan o system sicrhau ansawdd mewn unrhyw system gofal iechyd. Mewn ffordd, ni ddylai fod angen Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o gwbl neu ba gorff bynnag a allai ei ddilyn ai peidio yn sgil Papur Gwyrdd y Llywodraeth. Byddai rhywun yn gobeithio y dylai ymddygiad proffesiynol pobl i ymarfer o fewn cyd-destun eu cofrestriad, gallu'r systemau sicrwydd ac adolygu ansawdd mewnol, a threfniadau llywodraethu bwrdd, fod yn ddigon fel na fyddai byth angen y cam terfynol hwnnw arnom. Ond mae angen cam terfynol yn y system hon, a rhaid iddo fod yn un sy'n gweithio.

Like you, Lindsay, I'm yet to be convinced that what we have got and the changes—and I would agree with the Minister that there have been changes—that have happened to date within HIW get us to that point. So, your concerns mirror mine, Lindsay. We will support the Plaid Cymru amendment before us today, because there is absolute value in looking at how an integrated inspection and regulation regime is needed and warranted, especially if we look at the direction of policy travel of how health services and care services continue to develop and become more closely integrated.

Fel chi, Lindsay, rwyf eto i gael fy argyhoeddi bod yr hyn sydd gennym a'r newidiadau—a byddwn yn cytuno gyda'r Gweinidog fod newidiadau wedi bod—a gafwyd hyd yma o fewn AGIC yn mynd â ni i'r pwynt hwnnw. Felly, yr un yw eich pryderon chi a minnau, Lindsay. Byddwn yn cefnogi gwelliant Plaid Cymru ger ein bron heddiw, am fod gwerth gwirioneddol mewn edrych ar sut y mae angen a sut y gellir cyfiawnhau trefn arolygu a rheoleiddio integredig, yn enwedig os edrychwn ar gyfeiriad teithio'r polisi o ran sut y mae gwasanaethau iechyd a gwasanaethau gofal yn parhau i ddatblygu a dod yn fwy integredig.

Lindsay also stressed the point of the system being person centred. That's absolutely right. In the Scottish system, when they were developing their new regulation and inspection regime, patients and patient groups were at the heart of those discussions on what that inspection would look like, what that body would inspect, how it would regulate, and they were involved at the very, very beginning, not just simply once those inspectors were in individual institutions.

Hefyd pwysleisiodd Lindsay y pwynt fod y system yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae hynny'n hollol gywir. Yn system yr Alban, pan oeddent yn datblygu eu trefn reoleiddio ac arolygu newydd, roedd cleifion a grwpiau cleifion yn ganolog i'r trafodaethau hynny ar sut olwg fyddai ar arolygu, beth fyddai'r corff yn ei arolygu, sut y byddai'n rheoleiddio, ac roeddent yn rhan o'r broses o'r cychwyn cyntaf un, nid ar ôl i'r arolygwyr fynd i mewn i sefydliadau unigol yn unig.

Andrew R.T. Davies, in his contribution, talked about why we need to get this right not just for patients but for staff that work within the NHS. They, too, need to have confidence—confidence that they will be supported and listened to if they call out their colleagues on bad practice. Too often, people try to raise the alarm and only have that knocked back—knocked back either by senior clinical colleagues under whom they work, or, if they try to take those concerns to the board, ignored by the board. There are only so many times you can expect an individual to raise those concerns before, in the end, they simply stop doing that because of the frustration that it brings to them—only so many times.

Siaradodd Andrew R.T. Davies yn ei gyfraniad ynghylch pam y mae angen i ni gael hyn yn iawn nid yn unig i gleifion ond ar gyfer y staff sy'n gweithio yn y GIG. Mae angen iddynt hwythau gael hyder hefyd—hyder y byddant yn cael eu cefnogi a'u clywed os ydynt yn tynnu sylw at arfer gwael eu cydweithwyr. Yn rhy aml, mae pobl yn ceisio rhybuddio, ac yn cael eu diystyru—eu diystyru naill ai gan uwch gydweithwyr clinigol y maent yn gweithio oddi tanynt, neu os ydynt yn ceisio lleisio'r pryderon wrth y bwrdd, yn cael eu hanwybyddu gan y bwrdd. Hyn a hyn o weithiau y gallwch ddisgwyl i unigolyn leisio pryderon cyn iddynt roi'r gorau i wneud hynny yn y diwedd oherwydd y rhwystredigaeth y mae'n ei achosi iddynt—hyn a hyn o weithiau'n unig.

Andrew also talked about the NHS Redress (Wales) Measure 2008. You know, we acknowledged then that there were significant problems in the system and that the system was adversarial and not delivering, either for the NHS or for the people who wanted to seek redress. The people I meet who want to complain about the NHS do not want financial recompense. They're not interested in money. What they say to me is that they simply do not want it to happen to anybody else's mum or dad or grandma or son or daughter. But many of them only find that a complaints regime adds insult to the injury that they have already suffered. Just this week I've had two constituents who've expressed their utter frustration to me in two different health boards: one highlighted by Peter Black, and another constituent, who said, 'Kirsty, we only ever hear from them about what's happening with my complaint if you or somebody else writes to them. We never hear from them proactively about what is going on with my case. Only when they're prompted by somebody outside the system do they bother to get in touch'.

Siaradodd Andrew hefyd am Fesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008. Wyddoch chi, fe gydnabuom bryd hynny fod problemau sylweddol yn y system a bod y system yn wrthwynebol ac nad oedd yn cyflawni, naill ai ar ran y GIG neu ar ran y bobl a oedd yn ceisio iawn. Nid yw'r bobl rwy'n eu cyfarfod sydd am gwyno am y GIG eisiau ad-daliad ariannol. Nid oes ganddynt ddiddordeb mewn arian. Yr hyn y maent yn ei ddweud wrthyf yn syml yw nad ydynt eisiau iddo ddigwydd i fam neu dad neu nain neu fab neu ferch neb arall. Ond mae llawer ohonynt yn canfod bod trefn gwynion yn ychwanegu sarhad at y poen y maent eisoes wedi'i ddioddef. Yr wythnos hon mae dau etholwr wedi mynegi eu rhwystredigaeth lwyr wrthyf mewn dau fwrdd iechyd gwahanol: tynnodd Peter Black sylw at un, a dywedodd yr etholwr arall, 'Kirsty, nid ydym ond yn clywed ganddynt beth sy'n digwydd ynglŷn â fy nghwyn os ydych chi neu rywun arall yn ysgrifennu atynt. Nid ydym byth yn clywed oddi wrthynt yn rhagweithiol am yr hyn sy'n digwydd gyda fy achos. Nid ydynt yn trafferthu i gysylltu oni bai eu bod yn cael eu hysgogi gan rywun y tu allan i'r system'.

We will not be supporting the Tories' amendment with regard to a Keogh-style review. Our preference continues to be a forward-looking way at how these situations can be addressed. The service is under unprecedented pressure, with a changing demographic, shrinking budgets, difficulties in recruiting and retaining staff, and I think that there are ideas around this Chamber that can solve those problems. More importantly, there are ideas outside this Chamber that can solve those problems, and I think we need to sit down and discuss them and find a way forward.

Ni fyddwn yn cefnogi gwelliant y Torïaid mewn perthynas ag adolygiad o fath Keogh. Mae'n dal i fod yn well gennym ffordd sy'n edrych tua'r dyfodol o fynd i'r afael â'r sefyllfaoedd hyn. Mae'r gwasanaeth dan fwy o bwysau nag erioed, gyda demograffeg sy'n newid, cyllidebau sy'n crebachu, anawsterau wrth recriwtio a chadw staff, ac rwy'n meddwl bod yna syniadau o amgylch y Siambr hon a all ddatrys y problemau hyn. Yn bwysicach fyth, mae yna syniadau y tu allan i'r Siambr a all ddatrys y problemau hyn, ac rwy'n credu bod angen i ni ddod at ein gilydd i'w trafod a dod o hyd i ffordd ymlaen.

Now, the Minister seemed to be hung up on the idea that there was only one recommendation from the health committee's report. Let me tell you, Minister, there was only one recommendation, because we wanted to make the point—we wanted to make the point that we were simply not convinced that the system that is in place at the moment is the right system. You say that there have been great improvements. Well, there have been an increased number of inspections. It shows the paucity of what was going on before, of course, but it's not just the number, Minister. You and I have discussions about numbers all the time. A number isn't necessarily an indication of the quality of that inspection, the robustness of that inspection, or whether it's looking at the right things. The Minister also said about the issue about publication of reports. The report by HIW into the out-of-hours service in Betsi was completed at the end of December/the beginning of January. It finally found its way onto the website in May of this year, only when my colleague Aled Roberts rang them and asked them where it was and when they were going to publish it. And, as for the website, the new improved website, it tells you all you need to know about this organisation: it says, on the right hand side, 'How do I…?' Does it ask, 'How do I make a concern known to you?' or 'How do I find out what's going on in my local hospital or GP service?' No, it doesn't. Its top line says 'How do I register with HIW?' That's its priority: 'How do I register with HIW?' And to find a report, Minister—I urge you, have a look now. Have a look at trying to find a report into your local area. It's not easy to do. It's not.

Nawr, roedd yn ymddangos bod y Gweinidog yn gwneud yn fawr o'r syniad mai un argymhelliad yn unig a gynhwysai adroddiad y pwyllgor iechyd. Gadewch i mi ddweud wrthych, Weinidog, un argymhelliad yn unig oedd ynddo am ein bod yn awyddus i wneud y pwynt—roeddem am wneud y pwynt nad oeddem yn argyhoeddedig o gwbl mai'r system sydd ar waith ar hyn o bryd yw'r system gywir. Rydych yn dweud fod gwelliannau gwych wedi bod. Wel, bu cynnydd yn y nifer o arolygiadau. Mae'n dangos cyn lleied oedd yn digwydd o'r blaen, wrth gwrs, ond nid yw'n ymwneud â nifer yn unig, Weinidog. Rydych chi a minnau'n cael trafodaethau ynghylch niferoedd drwy'r amser. Nid yw nifer o reidrwydd yn arwydd o ansawdd yr arolygiad, cadernid yr arolygiad, neu a yw'n edrych ar y pethau cywir. Soniodd y Gweinidog hefyd am fater cyhoeddi adroddiadau. Cwblhawyd yr adroddiad gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar y gwasanaeth y tu allan i oriau yn Betsi Cadwaladr ar ddiwedd mis Rhagfyr/dechrau mis Ionawr. Daeth o hyd i'w ffordd ar y wefan yn y diwedd ym mis Mai eleni wedi i fy nghyd-Aelod, Aled Roberts, ffonio i ofyn iddynt lle roedd yr adroddiad a pha bryd y byddent yn ei gyhoeddi. Ac o ran y wefan, y wefan newydd well, mae'n dweud popeth sydd angen i chi ei wybod am y sefydliad hwn: mae'n dweud, ar yr ochr dde, 'Sut ydw i'n...?' A yw'n gofyn, 'Sut ydw i'n eich hysbysu am bryder?' neu 'Sut ydw i'n cael gwybod beth sy'n digwydd yn fy ysbyty lleol neu wasanaeth meddyg teulu?' Nac ydi. Mae'r llinell uchaf yn dweud 'Sut ydw i'n cofrestru gydag AGIC?' Dyna'i flaenoriaeth: 'Sut ydw i'n cofrestru gydag AGIC?' Ac i ddod o hyd i adroddiad, Weinidog—rwy'n eich annog i edrych yn awr. Ceisiwch ddod o hyd i adroddiad ar eich ardal leol. Nid yw'n hawdd ei wneud, yn sicr ddigon.

What I believe, sincerely, we need is a stand-alone institution that is based in statute, separate from this institution. I appreciate that the reason we don't have that is because, when HIW was created, we did not have the powers to do it. But we do now, Deputy Presiding Officer: we have the power now to do it, separate from Government. We need to ensure that that institution has a very clear mission and aim and objective. Over the years, there's been mission creep with HIW. Every time something new has been devolved and the Government hasn't quite known what to do with it or where to put it, it said, 'Oh, we'll give that to HIW'. The organisational chart on the website shows what a mismatch of objectives, jobs and roles that this organisation has, and it's very difficult for them. We need a stand-alone institution that has one very clear objective about what it's about. And it needs to be able to make a judgment on the quality of service and actions on that service without any reference to a politician. Now, the Minister took the step this week of taking advice and putting Betsi into special measures. But what happens if there hadn't been a furore around that report? How many times—. I'm sure it hasn't happened, but HIW could have been giving advice to Ministers for many months, and maybe we wouldn't know about it. We need an inspector that can say, 'This service is not good enough, it's going into special measures, and I don't have to worry about what a politician may or may not have to say about it'. That's the kind of system the Welsh Liberal Democrats believe in. That's the kind of system that Welsh Liberal Democrats believe patients and staff should have.

Yr hyn rwy'n ei gredu'n ddiffuant sydd ei angen yw sefydliad ar wahân yn seiliedig ar statud, yn annibynnol ar y sefydliad hwn. Rwy'n derbyn mai'r rheswm nad dyna sydd gennym yw nad oedd gennym y pwerau i wneud hynny pan grëwyd AGIC. Ond mae'r pwerau gennym yn awr, Ddirprwy Lywydd: mae gennym y pŵer i wneud hynny bellach, gwahanu oddi wrth y Llywodraeth. Mae angen i ni sicrhau bod gan y sefydliad genhadaeth glir iawn a nod ac amcanion. Dros y blynyddoedd, mae AGIC wedi bod yn ehangu i feysydd newydd. Bob amser y bydd rhywbeth newydd wedi cael ei ddatganoli a'r Llywodraeth heb wybod yn iawn beth i'w wneud ag ef neu ble i'w roi, mae wedi dweud, 'O, fe'i rhown i AGIC'. Mae'r siart trefniadol ar y wefan yn dangos cymaint o gymysgwch sy'n wynebu'r sefydliad o ran amcanion, swyddi a rolau, ac mae'n anodd iawn iddynt. Mae angen sefydliad annibynnol gydag un amcan clir iawn o'r hyn y mae'n ymwneud ag ef. Ac mae angen iddo allu llunio barn ar ansawdd y gwasanaeth a chamau gweithredu mewn perthynas â'r gwasanaeth heb droi at unrhyw wleidydd. Nawr, yr wythnos hon cymerodd y Gweinidog y cam o gymryd cyngor a gosod Betsi Cadwaladr dan weithdrefn mesurau arbennig. Ond beth fyddai wedi digwydd pe na bai helynt wedi'i godi ynghylch yr adroddiad? Sawl gwaith—? Rwy'n siŵr nad yw wedi digwydd, ond gallai AGIC fod wedi bod yn rhoi cyngor i Weinidogion am fisoedd lawer, ac efallai na fyddem yn gwybod am y peth. Mae arnom angen arolygydd sy'n gallu dweud, 'Nid yw'r gwasanaeth hwn yn ddigon da, mae'n cael ei osod dan weithdrefn mesurau arbennig, ac nid oes rhaid i mi boeni beth allai fod gan wleidydd i'w ddweud neu beidio â'i ddweud am y peth'. Dyna'r math o system y mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn credu ynddi. Dyna'r math o system y mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn credu y dylai cleifion a staff ei chael.

17:29

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I will defer voting until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

17:29

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Voting time now follows. Before I commence, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not.

Mae'r cyfnod pleidleisio yn dilyn yn awr. Cyn i mi ddechrau, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes.

17:29

# 6. Cyfnod Pleidleisio

# 6. Voting Time

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We'll vote on the Welsh Conservatives' debate, and I call for a vote on the motion tabled in the name of Paul Davies. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 10. There voted against 38. Therefore the motion without amendment is not agreed and we will now vote on the amendments.

Pleidleisiwn ar ddadl y Ceidwadwyr Cymreig, a galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Os na fydd y cynnig yn cael ei dderbyn, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 10 o blaid. Pleidleisiodd 38 yn erbyn. Felly, nid yw'r cynnig heb ei ddiwygio yn cael ei dderbyn, a byddwn yn awr yn pleidleisio ar y gwelliannau.

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 10, Yn erbyn 38, Ymatal 0.*

*Motion not agreed: For 10, Against 38, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5780](#)

[Result of the vote on motion NDM5780](#)

17:30 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for a vote on amendment 1, tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 38. There were no votes against. There were 10 abstentions. Therefore amendment 1 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 1 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 38 o blaid. Nid oedd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Roedd 10 yn ymatal. Felly mae gwelliant 1 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 38, Yn erbyn 0, Ymatal 10.*

*Amendment agreed: For 38, Against 0, Abstain 10.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5780

Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5780

17:30 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for a vote on amendment 2, tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 38. There were no votes against. There were 10 abstentions, and amendment 2 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 2, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 38 o blaid. Nid oedd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Roedd 10 yn ymatal, ac mae gwelliant 2 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 38, Yn erbyn 0, Ymatal 10.*

*Amendment agreed: For 38, Against 0, Abstain 10.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5780

Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5780

17:30 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I now call for a vote on the motion as amended.

Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd.

Cynnig NDM5780 fel y'i diwygiwyd

Motion NDM5780 as amended

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi cynlluniau Ceidwadwyr Cymru i wella dealltwriaeth pobl sy'n talu'r dreth gyngor o sut y mae eu treth gyngor yn cael ei gwario.

1. Notes Welsh Conservative plans to give council taxpayers improved understanding of how their council tax is spent.

2. Yn nodi bod y dreth gyngor yn cynrychioli dim ond oddeutu 14 y cant o wariant cynghorau yng Nghymru.

2. Notes that council tax represents only about 14 per cent of councils' expenditure in Wales.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda chynghorau i wella atebolrwydd o ran gwariant treth gyngor.

3. Calls on the Welsh Government to work with councils to improve the accountability of council tax spend.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wella tryloywder mewn gwariant llywodraeth leol ledled Cymru.

4. Calls on the Welsh Government to improve transparency in local government spend across Wales.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu system drethiant leol gyfiawn sy'n deg, yn fforddiadwy ac sy'n lleihau'r baich ar y rhai sy'n ei chael hi'n anoddaf i dalu.

5. Calls on the Welsh Government to produce an equitable local taxation system that is fair, affordable and which reduces the burden on those least able to pay.

17:30 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Open the vote. Close the vote. There were no votes in favour. There were 38 votes against and there were 10 abstentions. Therefore the motion as amended is not agreed.

Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Nid oedd unrhyw bleidleisiau o blaid. Cafwyd 38 o bleidleisiau yn erbyn ac roedd 10 yn ymatal. Felly, nid yw'r cynnig wedi'i ddiwygio yn cael ei dderbyn.

*Gwrthodwyd cynnig NDM5780 fel y'i diwygiwyd: O blaid 0, Yn erbyn 38, Ymatal 10.*

*Motion NDM5780 as amended not agreed: For 0, Against 38, Abstain 10.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5780 fel y'i diwygiwyd

Result of the vote on motion NDM5780 as amended

17:31

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We now vote on the Plaid Cymru debate. I call for a vote on the motion, tabled in the name of Elin Jones. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 33. There voted against 15. Therefore the motion without amendment is agreed.

Pleidleisiwn yn awr ar ddadl Plaid Cymru. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Os na fydd y cynnig yn cael ei dderbyn, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 33 o blaid. Pleidleisiodd 15 yn erbyn. Felly, mae'r cynnig heb ei ddiwygio yn cael ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 33, Yn erbyn 15, Ymatal 0.*

*Motion agreed: For 33, Against 15, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5781

Result of the vote on motion NDM5781

17:31

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We now vote on the Welsh Liberal Democrats debate. I call for a vote on the motion, tabled in the name of Aled Roberts. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 6. There voted against 42, therefore the motion without amendment is not agreed.

Pleidleisiwn yn awr ar ddadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Os na fydd y cynnig yn cael ei dderbyn, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 6 o blaid. Pleidleisiodd 42 yn erbyn, felly nid yw'r cynnig heb ei ddiwygio yn cael ei dderbyn.

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 6, Yn erbyn 42, Ymatal 0.*

*Motion not agreed: For 6, Against 42, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5779

Result of the vote on motion NDM5779

17:32

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We will now vote on the amendments. I call for a vote on amendment 1, tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 48. There were no votes against. Therefore amendment 1 is agreed.

Pleidleisiwn yn awr ar y gwelliannau. Galwaf am bleidlais ar welliant 1 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 48 o blaid. Nid oedd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly mae gwelliant 1 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 48, Yn erbyn 0, Ymatal 0*
.

*Amendment agreed: For 48, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5779

Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5779

17:32

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call for a vote on amendment 2, tabled in the name of Paul Davies. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 10. There voted against 29. There were nine abstentions, therefore amendment 2 is not agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 2, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 10 o blaid. Pleidleisiodd 29 yn erbyn. Roedd 9 yn ymatal, felly nid yw gwelliant 2 wedi ei dderbyn.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 10, Yn erbyn 29, Ymatal 9 .*

*Amendment not agreed: For 10, Against 29, Abstain 9.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5779

Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5779

17:33

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I now call for a vote on the motion as amended.

Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd.

Cynnig NDM5779 fel y'i diwygiwyd

Motion NDM5779 as amended

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn credu nad yw'r system bresennol ar gyfer sicrhau ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd yn addas at y diben ac nad yw Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn ateb yr angen i archwilio'r system iechyd yng Nghymru yn annibynnol.

1. Believes that the current system for ensuring the quality and safety of healthcare services is not fit for purpose and that Healthcare Inspectorate Wales does not fulfil the need for independent inspection of the health system in Wales.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu system sicrhau ansawdd mwy cadarn sy'n cynnwys:

2. Calls on the Welsh Government to establish a more robust quality assurance system that includes:

a) cael gwared ar Arolygiaeth Iechyd Cymru a sefydlu arolygiaeth newydd sy'n gwbl annibynnol ar Lywodraeth Cymru;

a) scrapping Health Inspectorate Wales and establishing a new inspectorate that is fully independent of the Welsh Government;

b) penodi prif arolygydd ar gyfer ysbytai a gofal iechyd;

b) appointing a chief inspector for hospitals and healthcare;

c) cyflwyno arolygiadau a arweinir yn glinigol ac a adolygir gan gymheiriaid gyda mewnbwn sylweddol gan gleifion;

c) introducing clinically-led and peer-reviewed inspections with significant patient input;

d) cefnogi staff a chleifion i ddefnyddio mecanweithiau ar gyfer chwythu'r chwiban drwy annog diwylliant cryfach o fod yn agored ac yn dryloyw; ac

d) supporting staff and patients to use mechanisms for whistleblowing by encouraging a stronger culture of openness and transparency; and

e) diwygio'r drefn gwyno er mwyn sicrhau mwy o annibyniaeth ac adfer ymddiriedaeth cleifion a'u teuluoedd.

e) reforming the complaints procedure to ensure greater independence and restore the trust of patients and their families.

f) ystyried uno'r arolygiaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn llawn.

f) considering a full merger of health and social care inspectorates.

17:33

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Open the vote. Close the vote. There voted in favour 24. There voted against 24. As required under Standing Order 6.20, I exercise my casting vote against the motion, which consequently falls.

Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 24 o blaid. Pleidleisiodd 24 yn erbyn 24. Fel sy’n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, rwy’n arfer fy mhleidlais fwrw yn erbyn y cynnig, sydd felly’n cael ei wrthod.

*Gwrthodwyd cynnig NDM5779 fel y’i diwygiwyd: O blaid 24, Yn erbyn 24, Ymatal 0.*

*Motion NDM5779 as amended not agreed: For 24, Against 24, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5779 fel y’i diwygiwyd

Result of the vote on motion NDM5779 as amended

*Fel sy’n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

17:33

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will those Members who are leaving the Chamber please do so quickly and quietly.

A wnaiff yr Aelodau sy’n gadael y Siambr wneud hynny’n gyflym ac yn dawel os gwelwch yn dda?

17:34

# 7. Dadl Fer: Gastroenteroleg—Gwella Ymwybyddiaeth a Thriniaeth yng Nghymru

# 7. Short Debate: Gastroenterology Y—Improving Awareness and Treatment in Wales

Senedd.tv Fideo Video

## Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Item 7 is the short debate. I call on Aled Roberts to speak on the topic he has chosen.

Eitem 7 yw’r ddadl fer. Galwaf ar Aled Roberts i siarad ar y pwnc y mae wedi ei ddewis.

17:34 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n falch iawn o'r cyfle i gyflwyno'r ddadl fer hon y prynhawn yma. Rwy'n ddiolchgar i Jeff Cuthbert, Mark Isherwood a Kirsty Williams am ofyn i gymryd rhan.

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. I am very pleased to have the opportunity to present this short debate this afternoon. I am grateful to Jeff Cuthbert, Mark Isherwood and Kirsty Williams for asking to participate in it.

Rwyf hefyd yn ddiolchgar i nifer o fudiadau sy'n gweithio o fewn y maes yma sydd wedi cynnig rhan o'r wybodaeth yr wyf yn mynd i'w defnyddio. Rwyf hefyd yn mynd i ofyn i'r Gweinidog dderbyn fy mod i yn ymddiheuro os ydwyf yn creu'r delwedd o ymosod arno fo wrth ddewis mater eto yn y byd iechyd yr wythnos yma, ond mae'r ddadl yma yn dod o achos fy mod i yn ymwneud â'r grŵp trawsbleidiol ar glefyd seliag, lle rwyf wedi dysgu llawer iawn am ofal gastroenterolegol, ac, hefyd, wedi dysgu mwy am rai o'r anawsterau sy'n wynebu'r rhai hynny sydd â'r cyflyrau yma.

I am also grateful to the many organisations working in this field that have provided some of the information that I'm going to refer to. I am also going to ask the Minister to accept that I apologise if I give the impression that I'm attacking him by choosing another health issue again this week, but this debate has come about because I am involved with the cross-party group on coeliac disease, where I've learnt a great deal about gastroenterological care, and I've also learnt more about the difficulties faced by those people who have these conditions.

Mae'r ddadl heddiw yn ymgais i gyflwyno tystiolaeth i'r Cynulliad fod angen i gastroenteroleg fod yn llawer uwch ar ein hagenda iechyd yma yng Nghymru. Mae 300,000 o bobl yn y Deyrnas Unedig, neu un ym mhob 210 person, yn dioddef o glefyd 'ulcerative colitis' neu 'Crohn's disease', ac amcangyfrifir bod tua 15,000 o'r rheini yng Nghymru. Mae'r cyflwr yn anweladwy, a gall yr amodau fod yn bresennol o fewn unrhyw oedran, ond mae'n fwyaf cyffredin ymysg pobl yn eu harddegau neu yn eu hugeiniau.

Today's debate is an attempt to present evidence to the Assembly that gastroenterology needs to be far higher on our health agenda in Wales. At least 300,000 people in the UK, or one in every 210 people, have ulcerative colitis, or Crohn's disease, and it's estimated that some 15,000 of those are in Wales. The condition is invisible and can affect all age groups, but it's most common among those people in their teens or their 20s.

Mae'r cleifion hyn yn defnyddio llawer o'n gwasanaethau iechyd, gyda 50 y cant o'r rhai hynny sy'n dioddef o glefyd Crohn angen llawdriniaeth yn ystod eu hoes. Gall yr amodau gael effaith ddinistriol ar fywyd unigolyn, ac, yn aml, mae'n effeithio ar allu unigolyn i weithio, dysgu, cymdeithasu a ffurfio a chynnal perthynas. Mae nifer yr achosion yn y Deyrnas Unedig ddwywaith yn uwch na chlefyd Parkinson, sydd â 127,000 o ddioddefwyr, tra bod costau meddygol gydol oes yn debyg iawn i glefydau megis diabetes a chanser, gyda gwariant o ryw £200 miliwn y flwyddyn ledled y Deyrnas Unedig.

These patients make great demands of our health services, with 50 per cent of those patients with Crohn's disease requiring surgery during their lifetime. The condition can have a devastating impact on individuals' lives and, very often, it affects their ability to work, learn, socialise and form and maintain relationships. The prevalence of cases in the United Kingdom is twice as high as that of Parkinson's disease, where there are 127,000 sufferers, while lifetime medical costs compare with those of other major diseases such as diabetes and cancer, with expenditure of some £200 million per annum across the United Kingdom.

Mae gan Gymdeithas Gastroenteroleg Prydain bryderon yng Nghymru ar ôl i'r Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd gael ei diddymu—yr NLIAH. Maen nhw'n credu bod yna bryder bod y gwasanaeth endosgopi, yn arbennig, yn dirywio. A bod yn deg, mae'r Gweinidog eisoes wedi cyhoeddi bod angen i bob un o'r unedau gastroenteroleg gydymffurfio ag achrediad y joint advisory group erbyn mis Ebrill 2016, ond, ar hyn o bryd, dim ond tri allan o'r 20 uned sydd wedi cyrraedd y safonau. Mae yna amrywiadau daearyddol. Mae de-orllewin Cymru mewn sefyllfa well na rhanbarthau eraill, ond, yn fy rhanbarth i yn y gogledd, fel esiampl, rydym yn wynebu heriau difrifol, gyda thri o'r swyddi ymgynghorol ar hyn o bryd yn wag. Nid oes unrhyw gyfundrefn ar wella nac arolygiaeth o'r gwasanaeth gan y gwasanaeth iechyd yn ganolog.

The British Society of Gastroenterology has concerns in Wales following the abolition of the National Leadership and Innovation Agency for Healthcare—NLIAH. They believe that there is concern that the endoscopy service, in particular, is declining here. To be fair, the Minister has already announced that every one of the gastroenterology units has to comply with the joint advisory group accreditation by April 2016, but, at present, only three of the 20 units have reached those standards. There is some geographical variation. South-west Wales is in a better position than elsewhere, but, in my region of north Wales, for example, we are facing serious challenges, with three consultant posts currently vacant. There is no regime for improvement or a review of the service by the health service centrally.

Mae canser y coluddyn yn llawer mwy cyffredin erbyn hyn, gyda 474 yn fwy o achosion yn flynyddol erbyn 2012 o gymharu â 2003. Mae angen cefnogi diagnosis cynharach. Nid oes unrhyw dargedau amseroedd aros am brofion yng Nghymru, ac, yn hytrach, mae gennym safon weithredol o weld claf o fewn wyth wythnos. Fodd bynnag, mewn rhai byrddau iechyd, mae hyd at 40 y cant o gleifion yn aros dros 14 o wythnosau, a dim ond 78 y cant o gleifion ar hyn o bryd sy'n cael 'flexible sigmoidoscopy' o fewn wyth wythnos. Mae'r oedi yma yn dangos y pwysau sydd ar unedau endosgopi. Wrth i nifer y cleifion gynyddu, ac wrth i natur y clefyd ei hun waethygu, mae'n debyg y bydd y rhestri aros yma yn gwaethygu.

Bowel cancer is now far more prevalent, with 474 more cases annually by 2012 as compared with 2003. We need support for earlier diagnosis. There are no waiting time targets for tests in Wales, but, rather, we have an operational standard of seeing a patient within eight weeks. However, within some health boards, up to 40 per cent of patients wait longer than 14 weeks, and only 78 per cent of patients currently have the flexible sigmoidoscopy within eight weeks. These delays demonstrate the pressures on endoscopy units. As the number of patients increases, and as the nature of the disease gets worse, then I suppose that these waiting lists will grow longer.

If we move to outpatient appointments, there's a possible wait of five months for such an appointment, and then a further five months for an urgent colonoscopy in some parts of Wales. Patients on a non-urgent suspected cancer pathway can wait up to nine months for a cancer diagnosis, and figures from the 2012 national colonoscopy audit show that the variation in rates for colonoscopy between the devolved nations ranges from 23.3 in Wales to 46.8 procedures per 100,000 of population in Scotland.

Os symudwn at apwyntiadau cleifion allanol, mae yna amser aros posibl o bum mis am apwyntiad o'r fath, a phum mis arall wedyn i gael colonosgopi brys mewn rhai rhannau o Gymru. Gall cleifion ar lwybr amheuaeth o ganser nad yw'n achos brys aros hyd at naw mis am ddiagnosis o ganser, a dengys ffigurau o archwiliad colonosgopi cenedlaethol 2012 fod yr amrywiad yn y cyfraddau ar gyfer colonosgopi rhwng y gwledydd datganoledig yn amrywio o 23.3 triniaeth yng Nghymru i 46.8 triniaeth fesul 100,000 o'r boblogaeth yn yr Alban.

People with inflammatory bowel disease—IBD—use and rely on gastroenterological services in Wales, with the condition primarily managed in secondary care. Whilst standards of treatment and care for people with Crohn's disease and ulcerative colitis in Wales have improved in recent years, they still fall behind the average for the rest of the UK. The latest findings of the UK IBD audit have found considerable variation between individual hospitals in the extent to which they meet the UK IBD standards, which define what good care looks like. A number of these key findings echo the results of a recent patient survey of IBD services in Wales undertaken by Crohn's and Colitis UK between May and June this year. As a result of this inconsistent picture of IBD care, the society are calling on the Welsh Government, working in partnership with people who suffer from IBD, to develop a pan-Wales approach so that we can meet the national IBD standards set in 2013.

Mae pobl â chlefyd y coluddyn llidus—IBD—yn defnyddio ac yn dibynnu ar wasanaethau gastroenterolegol yng Nghymru, gyda'r cyflwr yn cael ei reoli'n bennaf mewn gofal eilaidd. Er bod safonau triniaeth a gofal i bobl â chlefyd Crohn's a llid briwiol y coluddyn yng Nghymru wedi gwella yn y blynyddoedd diwethaf, maent yn dal yn is na'r cyfartaledd ar gyfer gweddill y DU. Mae canfyddiadau diweddaraf yr archwiliad i glefyd y coluddyn llidus yn y DU wedi dod o hyd i amrywiaeth sylweddol rhwng ysbytai unigol o ran i ba raddau y maent yn cyrraedd y safonau ar gyfer clefyd y coluddyn llidus yn y DU, sy'n diffinio sut beth yw gofal da. Mae nifer o'r canfyddiadau allweddol hyn yn adleisio canlyniadau arolwg cleifion diweddar o wasanaethau clefyd y coluddyn llidus yng Nghymru a gynhaliwyd gan Crohn's and Colitis UK rhwng mis Mai a Mehefin eleni. O ganlyniad i'r darlun anghyson hwn o ofal clefyd y coluddyn llidus, mae'r gymdeithas yn galw ar Lywodraeth Cymru, gan weithio mewn partneriaeth â phobl sy'n dioddef o glefyd y coluddyn llidus, i ddatblygu dull o weithredu ar gyfer Cymru gyfan er mwyn i ni allu bodloni'r safonau cenedlaethol ar gyfer clefyd y coluddyn llidus a bennwyd yn 2013.

I just want to refer to some of the findings from this survey of patient care and experiences in Wales, to which there were 447 responses. Twenty per cent of respondents were unsatisfied with their care and 42 per cent did not have access to a specialist IBD nurse. Worryingly, 26 per cent were not having an annual review, and 38 per cent were off work for more than four weeks. In view of the results of the recent national audit of IBD provision, in September 2014, the south Wales IBD patient panel submitted a petition to the Assembly. The petition had 664 signatures and called on the Welsh Government to develop a gastroenterology delivery plan to address variation, ensure basic standards of treatment were met and make sure that Welsh patients no longer receive a lower standard of care than their counterparts in other parts of the UK. The fact that they needed to submit a petition is surely a measure of the need for us to improve provision by the development of a delivery plan. Although the Minister for Health and Social Services responded to the petition by rejecting the panel's call for a delivery plan, stating in his letter of 14 May that he saw no need for a plan, I would ask the Minister to take the opportunity to actually reconsider his position. I accept that the Minister is confident that improvements can be made without a plan and that the health boards have the capacity to deliver a higher standard of service to patients requiring gastrointestinal treatment, but I would suggest that other debates over the past week or so have suggested otherwise.

Rwyf am gyfeirio at rai o ganfyddiadau'r arolwg o ofal a phrofiadau cleifion yng Nghymru, y cafwyd 447 o ymatebion iddo. Mae 20 y cant o'r ymatebwyr yn anfodlon gyda'u gofal a 42 y cant heb weld nyrs sy'n arbenigo ar glefyd y coluddyn llidus. Mae'n destun pryder nad yw 26 y cant yn cael adolygiad blynyddol, ac roedd 38 y cant yn absennol o'r gwaith am fwy na phedair wythnos. O ystyried canlyniadau'r archwiliad cenedlaethol diweddar o'r ddarpariaeth ar gyfer clefyd y coluddyn llidus, ym mis Medi 2014, cyflwynodd panel cleifion clefyd y coluddyn llidus yn ne Cymru ddeiseb i'r Cynulliad. Roedd 664 o lofnodion ar y ddeiseb a galwai ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu cynllun cyflawni ar gyfer gastroenteroleg i fynd i'r afael ag amrywiadau gwasanaeth, sicrhau bod safonau sylfaenol o driniaeth yn cael eu cyrraedd a gwneud yn siŵr nad oedd cleifion Cymru bellach yn cael gofal o safon is na'u cymheiriaid mewn rhannau eraill o'r DU. Mae'r ffaith fod angen iddynt gyflwyno deiseb yn sicr yn fesur o'r angen i ni wella'r ddarpariaeth drwy ddatblygu cynllun cyflawni. Er bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ymateb i'r ddeiseb drwy wrthod galwad y panel am gynllun cyflawni, gan nodi yn ei lythyr dyddiedig 14 Mai nad oedd yn gweld yr angen am gynllun, byddwn yn gofyn i'r Gweinidog fanteisio ar y cyfle i ailystyried ei safbwynt mewn gwirionedd. Rwy'n derbyn bod y Gweinidog yn hyderus y gellir gwneud gwelliannau heb gynllun, a bod gan y byrddau iechyd gapasiti i ddarparu gwasanaeth o safon uwch i gleifion sydd angen triniaeth ar y stumog a'r perfedd, ond byddwn yn awgrymu bod dadleuon eraill dros yr wythnos neu ddwy ddiwethaf yn awgrymu fel arall.

The same patient response suggests that there are problems accessing clinicians in Wales, that there's a lack of access to IBD nurses, or IBD nurse clinics, that there's a low level of awareness of IBD amongst GPs, and that insufficient information about IBD or support is available to manage their condition. If anyone wants to understand what this situation means to an individual, I would suggest that they read the article prepared by Rachel Flint, who writes for the 'Daily Post', who recently wrote an article about her own personal experience with ulcerative colitis and how Wales is failing hospital patients with gastro-type conditions, with only one hospital in Wales, Ysbyty Bronglais, having at least one toilet for every three IBD patients; in England, there are 43 hospitals in that position.

Mae'r un arolwg cleifion yn awgrymu bod problemau gyda gweld clinigwyr yng Nghymru, fod diffyg mynediad at nyrsys clefyd y coluddyn llidus, neu glinigau gan nyrsys clefyd y coluddyn llidus, fod lefel ymwybyddiaeth o glefyd y coluddyn llidus yn isel ymhlith meddygon teulu, ac nad oes digon o wybodaeth am y clefyd neu gymorth ar gael i gleifion reoli eu cyflwr. Os oes unrhyw un eisiau deall beth y mae'r sefyllfa hon yn ei olygu i unigolyn, byddwn yn awgrymu eu bod yn darllen yr erthygl gan Rachel Fflint, sy'n ysgrifennu ar gyfer y 'Daily Post', a ysgrifennodd erthygl yn ddiweddar am ei phrofiad personol o lid briwiol y coluddyn a sut y mae Cymru'n gwneud cam â chleifion ysbyty â chyflyrau gastroberfeddol eu natur, gydag un ysbyty yn unig yng Nghymru, Ysbyty Bronglais, yn darparu o leiaf un toiled ar gyfer pob tri chlaf â chlefyd y coluddyn llidus; yn Lloegr, ceir 43 o ysbytai yn y sefyllfa honno.

Crohn's and Colitis UK found that IBD specialist nurses can reduce hospital admissions and urgent outpatient attendances by providing immediate expedited review. Only 60 per cent, which is nine out of 15 units, of IBD services in Wales report some level of specialist IBD nursing provision. This is significantly lower than the 86 per cent average in the UK. Additionally, only one site meets the recommended number of IBD specialist nursing support as set out in the 2013 standards, which is 1.5 whole-time equivalent nursing staff per 250,000 population.

Darganfu Crohn's and Colitis UK y gall nyrsys sy'n arbenigo ar glefyd y coluddyn llidus leihau nifer y cleifion a dderbynnir i'r ysbyty a nifer cleifion allanol brys drwy ddarparu adolygiad brys ar unwaith. Nid oes ond 60 y cant, sef naw allan o 15 uned, o'r gwasanaethau ar gyfer clefyd y coluddyn llidus yng Nghymru yn cofnodi rhyw lefel o ddarpariaeth nyrsio arbenigol ar gyfer y clefyd. Mae hyn gryn dipyn yn is na chyfartaledd y DU o 86 y cant. Yn ogystal, un safle yn unig sy'n bodloni'r nifer a argymhellir o gynorthwywyr nyrsio sy'n arbenigo ar glefyd y coluddyn llidus fel y'i nodir yn safonau 2013, sef 1.5 aelod o staff nyrsio cyfwerth ag amser llawn am bob 250,000 o'r boblogaeth.

The provision of nutritional support for patients with IBD remains mixed. Less than half—seven out of 15—of the sites had at least some dietetic support. Furthermore, only four in 10 IBD services across the UK reported carrying out nutritional risk assessments routinely, despite the high occurrence of malnutrition and dehydration in people who suffer from IBD. Again, Rachel Flint's experiences are telling here. She was finally diagnosed at the age of 14, but, by then, she weighed just five stone, was exhausted, in her own words, and close to death.

Mae'r ddarpariaeth o gymorth ar faeth ar gyfer cleifion â chlefyd y coluddyn llidus yn parhau'n gymysg. Roedd gan lai na hanner y safleoedd—saith allan o 15—o leiaf rywfaint o gymorth deietegol. Ar ben hynny, pedwar yn unig o bob 10 gwasanaeth ar gyfer clefyd y coluddyn llidus ar draws y DU a nododd eu bod yn cynnal asesiadau risg o ran maeth fel mater o drefn, er gwaethaf y lefelau uchel o ddiffyg maeth a diffyg hylif mewn pobl sy'n dioddef o'r clefyd. Unwaith eto, mae profiadau Rachel Fflint yn dweud llawer. Cafodd ei diagnosis yn y diwedd yn 14 oed ond erbyn hynny, pum stôn yn unig oedd ei phwysau, roedd wedi blino'n lân, ac yn ei geiriau ei hun, yn agos i farwolaeth.

The IBD audit also highlighted poor access to support services for people with IBD, with just 12 per cent of sites reporting access to defined psychological support. Deputy Minister, I would like to share these figures with you in the hope that you and your colleagues will reconsider your view on a gastroenterology delivery plan. Crohn's and Colitis UK have found that two of the 15 hospital sites—13 per cent of the total—didn't even have an identifiable gastroenterology ward on site. Less than half—seven out of the 15—of services did not report having a defined policy and protocol or dedicated clinic or support for young people making the transition between paediatric and adult care. Four of our 15 sites did not have guidance for the management of ulcerative colitis. Thirty two per cent of patients in Wales were not prescribed bone protection medication when discharged home with steroids. In particular, Crohn's and Colitis UK advocate that no-one should be waiting longer than the recommended four weeks from referral for access to diagnostic tests such as endoscopy, barium x-ray, colonoscopy and MRI/CT scans. Increasing use of NICE-approved tests in primary care is also recommended.

Mae'r archwiliad i glefyd y coluddyn llidus hefyd yn tynnu sylw at ba mor anhygyrch yw gwasanaethau cymorth i bobl sy'n dioddef o'r clefyd, gyda 12 y cant yn unig o safleoedd yn nodi eu bod yn darparu cymorth seicolegol diffiniedig. Ddirprwy Weinidog, hoffwn rannu'r ffigurau hyn gyda chi yn y gobaith y byddwch chi a'ch cyd-Aelodau yn ailystyried eich barn ynglŷn â'r cynllun cyflawni ar gyfer gastroenteroleg. Mae Crohn's and Colitis UK wedi canfod nad oedd gan ddau allan o'r 15 safle ysbyty—13 y cant o'r cyfanswm—ward gastroenteroleg adnabyddadwy ar y safle hyd yn oed. Roedd llai na hanner—saith allan o'r 15—o wasanaethau yn dweud nad oedd ganddynt bolisi a phrotocol diffiniedig na chlinig pwrpasol na chymorth i bobl ifanc bontio rhwng gofal pediatrig a gofal i oedolion. Nid oedd gan bedwar allan o'n 15 safle ganllawiau ar gyfer rheoli llid briwiol y coluddyn. Nid yw 32 y cant o gleifion Cymru yn cael meddyginiaeth amddiffyn esgyrn ar bresgripsiwn wrth eu rhyddhau i fynd adref ar steroidau. Yn fwyaf arbennig, mae Crohn's and Colitis UK yn cynghori na ddylai neb orfod aros mwy na'r pedair wythnos a argymhellir o gael eu hatgyfeirio i gael profion diagnostig megis endosgopi, pelydr-x bariwm, colonosgopi a sganiau MRI/CT. Hefyd, argymhellir defnydd cynyddol o brofion wedi'u cymeradwyo gan NICE mewn gofal sylfaenol.

The IBD standards, last updated in 2013, show what standard of provision should be expected, but it is clear that much more needs to be done in Wales. Again, I would urge this Government to look at how gastroenterological conditions are perceived and treated under this Government's watch, and reconsider the way forward for the delivery of gastroenterological services in Wales.

Mae'r safonau clefyd y coluddyn llidus, a ddiweddarwyd ddiwethaf yn 2013, yn dangos pa safon o ddarpariaeth sy'n ddisgwyliedig, ond mae'n amlwg fod angen gwneud llawer mwy yng Nghymru. Unwaith eto, byddwn yn annog y Llywodraeth i edrych ar y modd y caiff cyflyrau gastroenterolegol eu hystyried a'u trin o dan y Llywodraeth hon, ac ailystyried y ffordd ymlaen o ran darparu gwasanaethau gastroenterolegol yng Nghymru.

17:46

## Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm very grateful to Aled Roberts for allowing me the opportunity to speak in his debate today. Gastroenterology is a vital but sometimes overlooked part of the national health service in Wales, but ensuring that we have an effective set of services of an excellent standard across Wales is important, both for the health service in general and for those constituents of ours who live with these conditions.

Rwy'n ddiolchgar iawn i Aled Roberts am ganiatáu cyfle i mi siarad yn ei ddadl heddiw. Mae gastroenteroleg yn rhan hanfodol o'r gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru sydd weithiau'n cael ei anwybyddu, ond mae sicrhau bod gennym set effeithiol o wasanaethau o safon ragorol ar draws Cymru yn bwysig, ar gyfer y gwasanaeth iechyd yn gyffredinol ac ar gyfer ein hetholwyr sy'n byw gyda'r cyflyrau hyn.

Deputy Llywydd, as someone who is both diabetic and coeliac, I am well aware of the common challenges of living with and managing a chronic health condition. However, this is a particular challenge for people across Wales who have a form of IBD. I speak from some personal experience—my late mother lived with the effects of ulcerated colitis for over 50 years, and one of my staff in the Assembly also has the condition. I have seen the challenges of living with such a condition—the little changes that you have to make to your daily life, even if a person appears fit and well to the untrained eye.

Ddirprwy Lywydd, fel rhywun â diabetes a chlefyd seliag, rwy'n ymwybodol iawn o'r heriau cyffredin o fyw gyda chyflwr iechyd cronig a'i reoli. Fodd bynnag, mae hon yn her arbennig i bobl ledled Cymru sydd â rhyw ffurf ar glefyd y coluddyn llidus. Rwy'n siarad o brofiad personol—bu fy niweddar fam yn byw gydag effeithiau llid briwiol y coluddyn am dros 50 mlynedd, ac mae un o fy staff yn y Cynulliad yn dioddef o'r cyflwr. Rwyf wedi gweld yr heriau o fyw gyda chyflwr o'r fath—y newidiadau bach sy'n rhaid i chi eu gwneud i'ch bywyd bob dydd, hyd yn oed os yw person yn ymddangos yn ffit ac yn iach i rywun heb brofiad yn y maes.

Minister, in light of this short debate today, I hope that you will consider any action that you need to take in order to ensure that health boards deliver the minimum standards of care expected by people with conditions like IBD, so that my constituents and people across Wales can enjoy a first-class service of which we can all be proud.

Weinidog, yng ngoleuni'r ddadl fer hon heddiw, rwy'n gobeithio y byddwch yn ystyried unrhyw gamau sydd angen i chi eu cymryd er mwyn sicrhau bod byrddau iechyd yn darparu gofal o'r safon ofynnol y bydd pobl â chyflyrau fel clefyd y coluddyn llidus yn eu disgwyl, fel y gall fy etholwyr a phobl ledled Cymru fwynhau gwasanaeth o'r radd flaenaf y gallwn i gyd fod yn falch ohono.

17:48

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Approximately 15,000 people live with inflammatory bowel disease across Wales, and, as chair of the cross-party group on neurological conditions, I know that prevalence is twice as high for Parkinson's and multiple sclerosis, with medical costs comparable to other major diseases such as diabetes and cancer. However, IBD remains both under-recognised and under-prioritised within health services.

Mae tua 15,000 o bobl yn byw gyda chlefyd y coluddyn llidus ledled Cymru, ac fel cadeirydd y grŵp trawsbleidiol ar gyflyrau niwrolegol, gwn fod nifer yr achosion ddwywaith cymaint â'r nifer sy'n dioddef o glefyd Parkinson a sglerosis ymledol, gyda chostau meddygol tebyg i glefydau mawr eraill fel diabetes a chanser. Fodd bynnag, mae clefyd y coluddyn llidus yn parhau i fod heb ei gydnabod a'i flaenoriaethu'n iawn o fewn y gwasanaethau iechyd.

We heard that the findings of the latest IBD audit point to a continuation of variable standards of care across Wales, first identified in 2006. While IBD services have improved in some areas, overall they still lag behind those elsewhere in the UK. We need to see greater use of the NICE quality standard in the delivery and commissioning of IBD services across Wales, and a pan-Wales approach to meet the national IBD standards 2013.

Clywsom fod canfyddiadau'r archwiliad diweddaraf i glefyd y coluddyn llidus yn dynodi bod safonau amrywiol o ofal yn parhau ar draws Cymru ar ôl cael eu nodi am y tro cyntaf yn 2006. Er bod gwasanaethau ar gyfer clefyd y coluddyn llidus wedi gwella mewn rhai ardaloedd, yn gyffredinol maent yn dal i lusgo ar ôl rhai rhannau eraill o'r DU. Mae angen i ni weld mwy o ddefnydd o safon ansawdd NICE wrth ddarparu a chomisiynu gwasanaethau ar gyfer clefyd y coluddyn llidus ar draws Cymru, a dull o weithredu drwy Gymru er mwyn cyrraedd safonau cenedlaethol 2013 ar gyfer y cyflwr.

17:49

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Briefly, Deputy Presiding Officer, can I thank Aled Roberts? Pancreatic cancer is the fifth largest cause of cancer deaths in Wales, and it has the lowest survival rates of any one of the 21 most common cancers. What can make the time that those patients have left more bearable is access to a dietician. Aled Roberts has raised the issue of doctors and nurses, but, actually, in terms of gastroenterology services, access to dietetics and dietary support can make a real difference to quality-of-life issues for patients, and I'd be grateful if the Minister could look at the number of dieticians we have working in these services.

Yn fyr, Ddirprwy Lywydd, a gaf fi ddiolch i Aled Roberts? Canser y pancreas yw'r pumed achos mwyaf o farwolaethau canser yng Nghymru, ac mae ganddo'r cyfraddau goroesi isaf o'r 21 math mwyaf cyffredin o ganser. Yr hyn a all wneud yr amser sydd gan y cleifion hynny'n weddill yn haws ei oddef yw gwasanaeth deietegydd. Soniodd Aled Roberts am feddygon a nyrsys, ond mewn gwirionedd, o ran gwasanaethau gastroenteroleg, gall gwasanaeth deieteg a chefnogaeth ddeietegol wneud gwahaniaeth gwirioneddol i ansawdd bywyd cleifion, a byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog edrych ar nifer y deietegwyr sydd gennym yn gweithio yn y gwasanaethau hyn.

17:49

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And I call the Deputy Minister for Health to reply to the debate—Vaughan Gething.

A galwaf ar y Dirprwy Weinidog Iechyd i ymateb i'r ddadl—Vaughan Gething.

17:49 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

*Y Dirprwy Weinidog Iechyd / The Deputy Minister for Health*

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I'd like to begin by thanking Aled Roberts for tabling this debate on gastroenterology. As we've heard in the debate, it is a wide-ranging topic covering a number of conditions, from coeliac disease to inflammatory bowel disease and liver disease, as well as endoscopy-related investigations and treatments. I recognise the comments made by Jeff Cuthbert, where he reiterated the personal impact, large to small, on people having the variety of conditions that this covers.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i Aled Roberts am gyflwyno'r ddadl hon ar gastroenteroleg. Fel y clywsom yn y ddadl, mae'n bwnc eang sy'n cwmpasu nifer o gyflyrau, o glefyd seliag i glefyd y coluddyn llidus a chlefyd yr afu, yn ogystal ag archwiliadau a thriniaethau sy'n gysylltiedig ag endosgopi. Rwy'n cydnabod y sylwadau a wnaed gan Jeff Cuthbert, pan soniodd am yr effaith bersonol, mawr i fach, ar bobl sydd â'r amrywiaeth o gyflyrau y mae'n ei gwmpasu.

I'd like to start by taking this opportunity to highlight and congratulate the—and I'll say this carefully—intestinal failure multidisciplinary team at Cardiff and Vale university health board on winning the BMJ's gastroenterology team of the year award in May. That includes the dieticians as part of that team. This is a fantastic achievement for that team and the health board, and it is a further example of the innovative and excellent practice that NHS Wales delivers across a range of services for the people of Wales, and a useful reminder that we are leading the UK in a number of areas in healthcare.

Hoffwn ddechrau drwy fanteisio ar y cyfle i dynnu sylw at, a llongyfarch—a dywedaf hyn yn ofalus—y tîm methiant coluddol amlddisgyblaethol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar ennill gwobr tîm gastroenteroleg y flwyddyn y BMJ ym mis Mai. Mae hynny'n cynnwys deietegwyr yn rhan o'r tîm hwnnw. Mae'n gyflawniad gwych i'r tîm a'r bwrdd iechyd, ac mae'n enghraifft arall o'r arfer arloesol a rhagorol y mae GIG Cymru yn ei ddarparu ar draws ystod o wasanaethau i bobl Cymru, ac yn fodd defnyddiol o'n hatgoffa ein bod yn arwain y DU mewn nifer o feysydd gofal iechyd.

I'd like to remind Members of one of the most pressing areas, that of liver disease. Members will recall that we debated the launch of the Welsh Government liver disease plan on 12 May. We know that deaths from liver disease are increasing, with mortality across the UK increased by 400 per cent since 1973, and liver disease is now a common cause of death and the third biggest cause of premature death. Left untreated, liver disease can progress to cirrhosis, liver cancer and liver failure, which requires intensive treatment and sometimes transplantation. As well as poor outcomes for patients, this has the potential to place enormous pressure on health services, and we recognise the need to tackle this and resolve increasing demand sooner rather than later.

Hoffwn atgoffa'r Aelodau am un o'r meysydd pwysicaf, sef clefyd yr afu. Bydd yr Aelodau'n cofio ein bod yn trafod lansio cynllun clefyd yr afu Llywodraeth Cymru ar 12 Mai. Rydym yn gwybod bod marwolaethau o glefyd yr afu yn cynyddu, gyda chynnydd o 400 y cant yn y marwolaethau ar draws y DU ers 1973, ac mae clefyd yr afu bellach yn achos marwolaeth cyffredin a'r achos marwolaeth gynamserol mwyaf ond dau. Os na chaiff ei drin, gall clefyd yr afu ddatblygu'n sirosis, yn ganser yr afu a methiant yr afu, sy'n galw am driniaeth ddwys a thrawsblaniad weithiau. Yn ogystal â chanlyniadau gwael i gleifion, gall hyn roi pwysau enfawr ar wasanaethau iechyd, ac rydym yn cydnabod yr angen i fynd i'r afael â hyn a datrys galw cynyddol yn gynt yn hytrach nag yn hwyrach.

I do, of course, recognise that there are unavoidable forms of liver disease, however much of the increase in liver disease overall can be prevented if we tackle effectively the three biggest causes of liver disease: alcohol abuse, obesity and viral hepatitis. We already have a number of legislative, policy and programme approaches to support and encourage society to make healthier and safer lifestyle choices. The five-year liver plan will help us focus even more on prevention, and make the case for the public to take an ever greater share of personal responsibility for their own health. Each of us, including politicians, could and should do more of what we could do to avoid liver disease. In the previous debate, Kirsty Williams in particular highlighted that there is an exciting time ahead, with the advent of new and more effective hepatitis C medicines. We now have the opportunity to help dramatically those approaching end-stage liver disease, and there is potential to make significant inroads into the pool of hepatitis C prevalence in future years. I know Members previously recognised the financial and equity challenges that those new treatments do pose.

Wrth gwrs, rwy'n cydnabod bod ffurfiau na ellir eu hosgoi o glefyd yr afu, ni waeth faint o'r cynnydd mewn clefyd yr afu yn gyffredinol y gellir ei atal os ydym yn mynd i'r afael yn effeithiol â thri achos mwyaf clefyd yr afu: cam-drin alcohol, gordewdra a hepatitis firaol. Mae gennym eisoes nifer o ddulliau deddfwriaethol, polisïau a rhaglenni i gynorthwyo ac annog cymdeithas i wneud dewisiadau ffordd o fyw iachach a mwy diogel. Bydd y cynllun afu pum mlynedd yn ein helpu i ganolbwyntio hyd yn oed yn fwy ar atal, a chyflwyno'r achos i'r cyhoedd ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb personol dros eu hiechyd eu hunain. Gallai, a dylai pob un ohonom, gan gynnwys gwleidyddion, wneud mwy o'r hyn y gallem ei wneud i osgoi clefyd yr afu. Yn y ddadl flaenorol, dywedodd Kirsty Williams fod amser cyffrous o'n blaenau, gyda dyfodiad meddyginiaethau hepatitis C newydd a mwy effeithiol. Erbyn hyn mae gennym gyfle i roi cymorth enfawr i rai sy'n agosáu at gamau olaf clefyd yr afu, ac mae potensial i gael effaith sylweddol ar y gronfa o achosion o hepatitis C yn y dyfodol. Gwn fod yr Aelodau wedi cydnabod o'r blaen yr heriau o ran cyllid a chydraddoldeb y mae'r triniaethau newydd hyn yn eu creu.

So, the liver plan is about fast diagnosis, access to high-quality treatment and the provision of ongoing support and it's allocated £1 million of annual funding to the NHS-led implementation group to support the core priorities. We plan to grow our service expertise in the treatment and management of liver disease, to give patients an equal voice in their care, to encourage clinical leadership amongst health professionals, to improve services and outcomes, and, ultimately, our aim must be to drive down the number of people developing and then dying from liver disease.

Felly, mae'r cynllun afu yn ymwneud â diagnosis cyflym, mynediad at driniaeth o ansawdd uchel a darparu cymorth parhaus, ac mae wedi dyrannu £1 miliwn o gyllid blynyddol i'r grŵp gweithredu a arweinir gan y GIG i gefnogi'r blaenoriaethau craidd. Rydym yn bwriadu cynyddu arbenigedd ein gwasanaethau ar gyfer trin a rheoli clefyd yr afu, er mwyn rhoi llais cyfartal i gleifion yn eu gofal, annog arweinyddiaeth glinigol ymysg gweithwyr iechyd proffesiynol, gwella gwasanaethau a chanlyniadau, ac yn y pen draw, rhaid i ni anelu at ostwng nifer y bobl sy'n datblygu ac yna'n marw o glefyd yr afu.

Now, Aled Roberts in his remarks did quite rightly concentrate much on inflammatory bowel disease, and it was World Inflammatory Bowel Disease Day on 19 May, and I know that Jocelyn Davies, who isn't with us, put down a written statement in support of the day and called for a pan-Wales approach, which Aled again outlined in his contribution, to meet the national IBD standards. I also recognise we have a particularly active and effective third sector partner group in Wales in the form of Crohn's and Colitis UK. We've also received correspondence from the Petitions Committee in this area. Now, I know that the calls follow recent findings from the England-and-Wales IBD national clinical audit, which did show improvement in IBD services in terms of patient experience, emergency access to endoscopy, and access to specialist IBD teams. I welcome the fact that Aled Roberts, in his contribution, recognised the fact that there are improvements in the service in Wales. However, we recognise there are areas for further improvement still, such as access to IBD specialist nurses, as you mentioned, and dietetic or psychological support, as you and Kirsty mentioned in your contributions. We also recognise there is a need for examining and improving to ensure that there is sufficient toilet provision on wards where people are treated.

Nawr, canolbwyntiodd Aled Roberts yn gwbl briodol yn ei sylwadau ar glefyd y coluddyn llidus, ac roedd yn Ddiwrnod Clefyd y Coluddyn Llidus y Byd ar 19 Mai. Gwn fod Jocelyn Davies, nad yw gyda ni, wedi cyflwyno datganiad ysgrifenedig i gefnogi'r diwrnod ac wedi galw am ddull o weithredu ar gyfer Cymru gyfan, a amlinellwyd gan Aled eto yn ei gyfraniad, i gyrraedd safonau cenedlaethol mewn perthynas â chlefyd y coluddyn llidus. Rwyf hefyd yn cydnabod bod gennym grŵp o bartneriaid trydydd sector arbennig o weithgar ac effeithiol yng Nghymru ar ffurf Crohn's and Colitis UK. Rydym hefyd wedi cael gohebiaeth gan y Pwyllgor Deisebau ar y pwnc. Nawr, gwn fod y galwadau'n dilyn canfyddiadau diweddar yr archwiliad clinigol cenedlaethol i glefyd y coluddyn llidus yng Nghymru a Lloegr a ddangosodd welliant yn y gwasanaethau ar gyfer clefyd y coluddyn llidus o ran profiad y claf, mynediad brys at endosgopi, a mynediad at dimau arbenigol clefyd y coluddyn llidus. Rwy'n croesawu'r ffaith fod Aled Roberts, yn ei gyfraniad, wedi cydnabod y gwelliannau yn y gwasanaeth yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod meysydd i'w gwella ymhellach o hyd, megis mynediad at nyrsys sy'n arbenigo ar glefyd y coluddyn llidus, fel y sonioch, a chymorth deietegol neu seicolegol, fel y crybwyllwyd gennych chi a Kirsty yn eich cyfraniadau. Rydym hefyd yn cydnabod yr angen i archwilio a gwella er mwyn sicrhau bod darpariaeth ddigonol o doiledau digonol ar wardiau lle y caiff pobl eu trin.

We currently use the IBD audit to monitor service performance. I do recognise and understand that the audit commissioner, the Healthcare Quality Improvement Partnership, is working with the Royal College of Physicians and the British Society of Gastroenterology, who I'll be speaking to in two weeks' time, to explore developing the current audit into an IBD registry. That should provide services with the greater intelligence that they need to continue to reflect on their own service's performance, and my officials will continue to monitor progress to ensure we have a number of processes in place to oversee and, hopefully, improve service quality.

Ar hyn o bryd rydym yn defnyddio'r archwiliad i glefyd y coluddyn llidus ar gyfer monitro perfformiad y gwasanaeth. Rwy'n cydnabod ac yn deall bod y comisiynydd archwilio, y Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd, yn gweithio gyda Choleg Brenhinol y Ffisigwyr a Chymdeithas Gastroenteroleg Prydain, y byddaf yn siarad â hwy ymhen pythefnos, i edrych ar ddatblygu'r archwiliad cyfredol yn gofrestrfa ar gyfer clefyd y coluddyn llidus. Dylai hynny ddarparu'r ddealltwriaeth sydd ei hangen ar wasanaethau i barhau i fyfyrio ar berfformiad eu gwasanaethau eu hunain, a bydd fy swyddogion yn parhau i fonitro cynnydd i sicrhau bod gennym nifer o brosesau ar waith i oruchwylio a gobeithio, i wella ansawdd y gwasanaeth.

I do recognise the need to continue to improve gastroenterology services here in Wales, and particularly the need for health boards to work towards meeting the IBD standards and the NICE guidance. I'm pleased to say that health boards are currently using the findings of the audit, which assesses their compliance against clinical standards, in order to target and improve their services.

Rwy'n cydnabod yr angen i barhau i wella gwasanaethau gastroenteroleg yma yng Nghymru, ac yn benodol, yr angen i fyrddau iechyd weithio tuag at gyrraedd y safonau ar gyfer clefyd y coluddyn llidus a chanllawiau NICE. Rwy'n falch o ddweud bod byrddau iechyd ar hyn o bryd yn defnyddio canfyddiadau'r archwiliad, sy'n asesu eu cydymffurfiaeth â safonau clinigol er mwyn targedu a gwella eu gwasanaethau.

Welsh Government officials called for, and then participated in, a recent all-Wales IBD audit workshop. That brought together all health boards and they agreed to develop their own action plans as result. So, as a result of the workshop, each health board has identified a number of key priorities to be taken forward and to report on. It is to the credit of the clinicians that this clinically-led improvement process is already in place. I'd be happy to write to Aled Roberts as the mover of this debate with further detail on that, which may be helpful for you and the work of the cross-party group.

Aeth swyddogion Llywodraeth Cymru ati'n ddiweddar i alw am, a chymryd rhan mewn gweithdy archwilio clefyd y coluddyn llidus ar gyfer Cymru gyfan. Daeth hynny â'r holl fyrddau iechyd at ei gilydd ac maent wedi cytuno i ddatblygu eu cynlluniau gweithredu eu hunain o ganlyniad i hynny. Felly, yn sgil y gweithdy, mae pob bwrdd iechyd wedi nodi nifer o flaenoriaethau allweddol i'w datblygu ac i gyflwyno adroddiadau yn eu cylch. Mae'n glod i'r clinigwyr fod y broses wella hon dan arweiniad clinigol eisoes ar waith. Byddwn yn hapus i ysgrifennu at Aled Roberts fel cynigydd y ddadl hon gyda mwy o fanylion am hynny, a allai fod yn ddefnyddiol i chi a gwaith y grŵp trawsbleidiol.

I want to further encourage and support those active and engaged clinicians. I would like them, through the gastroenterology national specialist advisory group, and the Welsh Association for Gastroenterology and Endoscopy, to continue to work as a national network of clinicians to improve against the service standards. A clinical network should help boards to work together to share intelligence and good practice, to peer review and benchmark their services, in order to ensure high-quality care is at the centre of service design. It is a real strength and positive for us in Wales that we already have an engaged group of clinicians that is exercising leadership and, again, recognised for their own service the need and the scope for further improvement.

Rwyf am annog a chefnogi'r clinigwyr gweithgar ac ymroddgar hynny ymhellach. Drwy'r grŵp cynghori arbenigol cenedlaethol ar gastroenteroleg, a Chymdeithas Gastroenteroleg ac Endosgopi Cymru, hoffwn iddynt barhau i weithio fel rhwydwaith cenedlaethol o glinigwyr i wella yn erbyn y safonau gwasanaeth. Dylai rhwydwaith clinigol helpu byrddau i weithio gyda'i gilydd i rannu gwybodaeth ac arfer da, i gynnal adolygiadau gan gymheiriaid a meincnodi eu gwasanaethau, er mwyn sicrhau bod gofal o ansawdd uchel yn ganolog wrth gynllunio gwasanaethau. Mae'n gryfder gwirioneddol a chadarnhaol i ni yng Nghymru fod gennym eisoes grŵp gweithgar o glinigwyr sy'n dangos arweiniad ac sydd, unwaith eto, wedi cydnabod ar gyfer eu gwasanaeth eu hunain yr angen a'r lle i sicrhau gwelliant pellach.

In terms of endoscopy, we recognised in 2013 that there were issues with the oversight, accreditation and provision for endoscopy and colonoscopy. We established a task and finish group to look at the problem and to make recommendations, and the resulting endoscopy implementation group has been taking forward those recommendations to improve services. Those do include working towards a universal joint advisory group on gastrointestinal and endoscopy accreditation of endoscopy units, better use of available capacity, the delivery of evidence-based practice and greater health board accountability for endoscopy services. A lot of effort has already gone into improving endoscopy services, including the establishment of sub-groups for performance, investment and capacity, and that's been supported by £1.5 million of Welsh Government capital investment. I look forward to seeing how this work contributes to further improvements in endoscopy standards and performance. I'm pleased, again, that Aled recognised there has been some improvement in waiting times, but, again, there's more still to be done.

O ran endosgopi, cydnabuwyd gennym yn 2013 fod problemau gyda goruchwylio, achredu a darparu endosgopi a cholonosgopi. Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen i edrych ar y broblem a gwneud argymhellion, ac mae'r grŵp gweithredu endosgopi a ddeilliodd ohono wedi bod yn bwrw ymlaen â'r argymhellion hynny i wella gwasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys gweithio tuag at grŵp cynghori cyffredinol ar y cyd ar achredu unedau endosgopi o ran gwasanaethau gastroberfeddol ac endosgopi, gwell defnydd o'r capasiti sydd ar gael, darparu ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth a mwy o atebolrwydd ar ran y bwrdd iechyd dros wasanaethau endosgopi. Mae llawer o ymdrech wedi mynd tuag at wella gwasanaethau endosgopi, gan gynnwys sefydlu is-grwpiau ar gyfer perfformiad, buddsoddiad a chapasiti, a chefnogwyd hynny gan £1.5 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf gan Lywodraeth Cymru. Rwy'n edrych ymlaen at weld sut y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu at wella safonau a pherfformiad endosgopi ymhellach. Rwy'n falch, unwaith eto, fod Aled wedi cydnabod y bu peth gwelliant mewn amseroedd aros, ond unwaith eto, mae mwy i'w wneud o hyd.

I want to conclude by returning to coeliac disease, which was the subject of Aled Roberts's previous short debate last year. We recognise the need to continue to raise awareness and to capture the thousands of undiagnosed people and ensure patient access to dietetic support. Before I close, I will give a shameless plug for the British Dietetic Association and their event tomorrow here in Wales for Dietitians Week. There will be local Welsh dieticians telling you all about the work they do and I hope Members take time over lunch, appropriately, to go and visit and pay some attention to that work and celebrate the work that dieticians already do. They are an under-represented and underappreciated group of clinicians within the NHS in Wales, who make a significant difference to patient experience and patient outcomes. I look forward to NICE's updated guidance later this year, and that should be the basis of the service's efforts in this area.

Rwyf am gloi drwy ddychwelyd at glefyd seliag, a oedd yn destun dadl fer flaenorol gan Aled Roberts y llynedd. Rydym yn cydnabod yr angen i barhau i godi ymwybyddiaeth ac i ganfod y miloedd o bobl sydd heb gael diagnosis a sicrhau mynediad i gleifion at gymorth deietegol. Cyn i mi orffen, rwyf am roi hysbysrwydd digywilydd i Gymdeithas Ddeieteg Prydain a'u digwyddiad yfory yma yng Nghymru ar gyfer Wythnos y Deietegwyr. Bydd deietegwyr lleol o Gymru yn dweud popeth wrthych am y gwaith y maent yn ei wneud ac rwy'n gobeithio y bydd yr Aelodau yn rhoi amser dros ginio, yn briodol iawn, i ymweld a thalu rhywfaint o sylw i'r gwaith hwnnw a dathlu'r gwaith y mae deietegwyr eisoes yn ei wneud. Maent yn grŵp o glinigwyr nad ydynt yn cael eu cynrychioli na'u gwerthfawrogi'n ddigonol yn y GIG yng Nghymru, sy'n gwneud gwahaniaeth sylweddol i brofiad y claf a chanlyniadau cleifion. Rwy'n edrych ymlaen at ddiweddariad canllawiau NICE yn ddiweddarach eleni, a ddylai fod yn sail i ymdrechion y gwasanaeth yn y maes hwn.

I would like to thank Members for taking part in a constructive debate this evening and I look forward to seeing further improvement later this year. Of course, I expect to have further correspondence and conversation with Aled Roberts once he receives my correspondence after today's debate. Many thanks.

Hoffwn ddiolch i'r Aelodau am gymryd rhan mewn dadl adeiladol heno ac edrychaf ymlaen at weld gwelliant pellach yn ddiweddarach eleni. Wrth gwrs, rwy'n disgwyl cael gohebiaeth bellach a sgwrs gydag Aled Roberts ar ôl iddo gael fy ngohebiaeth yn dilyn y ddadl heddiw. Diolch yn fawr.

17:59 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. That concludes today's proceedings.

Diolch yn fawr, Weinidog. Dyna ddiwedd y trafodion am heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 17:59.*

*The meeting ended at 17:59.*